

**Bangor University**

## **DOETHUR MEWN ATHRONIAETH**

**Golygiad ac astudiaeth destunol o'r llyfr cyfraith yn LIGC, llawysgrif Peniarth 164 (H), ynghyd a'r copiau ohoni yn llawysgrifau Peniarth 278 a Llanstephan 121**

Elias, Gwenno Angharad

*Award date:*  
2007

*Awarding institution:*  
University of Wales, Bangor

[Link to publication](#)

### **General rights**

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

[Am dan]

Y wadu lladrat llosc, llw xii wyr.<sup>622</sup>

§944. [N]aw affeith tan: sef yw hynny, gwan tan yn y peth a losger.

§945. Nyt oes affeith eithyr y led[r]at llosc, sef mal y gwedir wynt: or bydd gyrr cyfreithyawl gan berchennoc y da, llw xii wyr, a'r<sup>623</sup> neill hanner yn wyr not, a'r llall yn ddi-not; canys mwy yw breint y lledrat no'r llosc. Os cyfaddeu fydd y losc ga . . .

§946. Gwerth y ty herwydd y gafaylyeu a delir: ugeint ar bob gafel a gynhalio y nenprenn, a deugeint ar y nenpren e hun; a'r eidoet oll y'r neb a gollo y da yn y ty, a hynny a rennir yn naw rhan ar yr affeithieu, a breint llofrudd ar y neb a wano [t. 152] y ffagyl yn y ty pan losgo, os lledrat fydd y llosc.

§947. Os treis ny bydd affeith iddaw, canyt oes affeith y dreis; rhai hagen a ddyweit, os treis y bydd affeith, a dirwy dreis: sef treis, llosc ty gan orwlat, ac am hynny y gellir dwyn y tri rhyw affeithieu ar y teir dirwy. Sef yw cosp yr affeithyoedd hynny, os addefir wynt, neu onys gwedir yn cyfreithyawl, teir punt. Ny chaiff y perchennoc hagen ddim gan un affeithiwr.<sup>624</sup>

§948. Pam y gyrr perchennoc[c] y ty yr affeithyoedd hynny? Yn y ewylls y mae.

§949. Nyt oes affeith eithyr y ledrat llosc.

§950. Nyt un werth pob ty a'e gilydd.

<sup>622</sup> Y . . . wyr – llsg, - Llan 121, + Pen 164.

<sup>623</sup> a'r – llsg, - Llan 121, + Pen 164.

<sup>624</sup> affeith Pen 164





§951. O llosgir ty am benn herwr nyt oes ladrat.

Am groes<sup>625</sup>

§952. Fal hynn y bydd am groes:<sup>626</sup> difwyn, neu ddiwat, ne[u] lw gweilydd, y chymryt yn gyfreithiawl a'e rhodd[i] yngwydd tystyon, a dyfot a chreir ganthaw a'e roddi y bo heb y neill, a gwadu na ddyly y da, ae talu y da; ac ny bydd cyfreithyawl hynny heb greir yn y law.

§953. Pawb a fo dilyet iddaw mewn peth a eill roi croes yn y peth yny ddosparther.

§954. Fal hynn y mae am groes: y chymryt gan arglwydd, neu a fo drostaw, yngwydd tystyon, dan i dystu iddun[t], a'e roddi yngwydd gwybyddyeit, a rheith furedic am y thorri; sef yw hynny, llw tri dyn nessaf eu gwerth y'r dyn; un o blegyt y dat, ac un o barth y fam, ac ynteu eu hun yn drydydd.

§955. Llyma mal y dilyer am groes: gwedy cymerer yn cyfreithyawl, y rhoddi yngwydd gwybyddyeit; ac ny ellir yna y gwadu, os profir hi; onyt llyssu y tystyon, neu wneuthur [t. 153] taryan rhac y groes, a hynny yw arddelw cyfreithyawl. Onys profir drwy wybyddyeit, tynget deirgweith y rhoddi hi rhag y dyn, a gwrthdynget y dyn deirgweith yn y erbyn, ac yna y dyly rheith fot ar y[r] amddiffynnwr. Sef mal y tyng: na roddes un groes rhagddaw ac na thorres un groes.

§956. Ny ddyly neb gymryt croes heb y rhoddi rhac arall; canyt a croes y lawr os dyllynir.

§957. Ny ddyly neb roddi croes y gymell da yn y dyddyeu dyddon na gwneuthur yrddi, os rhoddir hi hagen cyrcher<sup>627</sup> cyfreith, neu gwyner rhegddi.

---

<sup>625</sup> Am groes – llsgr, - Llan 121, + Pen 164.

<sup>626</sup> Ailgopiwyd hyn mewn pensil.

<sup>627</sup> cyrch, llsgr, kyrçer Llan 121, cyrcher Pen 164.

- §958. Nyt croes a gymero gwreic<sup>628</sup> gwryoc, ac ny eill y rhoddi rhac neb.
- §959. Pob peth a wnel gwraic wryawc, talet y gwr drosti.
- §960. Nyt croes eithyr a estynner a llaw.
- §961. Ny ddyly croes mewn messyryt, canys messobyr a ddyly fot yno, nac mewn yt.
- §962. Ny ellir am un groes, namyn un dial, yr torri y arglwydd: profi negyf . . .
- §963. Ynghyfreith Hywel Dda ydd oedd y fach gymell y fechni o nerth; ac na allei neb fot yn fach eithyr a gymellei, ay [o] fodd, ay o anfodd; ac anawdd oedd hynny, rhac na allei rei hynny. Sef gwnaethbwyt gwedy, y fach ac y bawb y gymell a chroes; a chosp amdanei os torrir; sef yw hynny, naw ugein.
- §964. Teir gwialen gymell:<sup>629</sup> croes, a dyfyn, a charchar: a'r rhei hynn a elwir tri &c:
- §965. Tri chleddyf arglwyddiaeth, neu teir gwialen cymell: canys rhac ofyn y dyfyn y gwna dyn yr y groes; ony ddaw y'r dyfyn y tremygir; pan retto tremygeu arnaw y deholir y dyn; pan y caffer wedy y ddehol yn y wlat dros cyfreith, y carcherir ef mal anufudd: a pha na bai hynny, nyt oedd well bot yn arglwydd no bot yn wr iddaw.
- §966. Un groes [t. 154] ny ellir y difwyn, nyt oes eithyr ewyllys arglwydd amdaney: croes a rodder y bo neb ar deulu brenin, eithyr neb a wyppo y brenin y bot; neb a gaffer dros y groes honno, nyt oes am honno eithy[r]<sup>630</sup> ewyllys y brenin am y anrheithyaw.

<sup>628</sup> gwreic – llsg., + Llan 121.

<sup>629</sup> gymell – llsg., + Llan 121.

<sup>630</sup> eytyr Llan 121, onyt Pen 164.

- §967. Ny phery croes onyt o'r pryt y'r llall: medd rhei [o'r yneit] ny phery croes onyt blwyddyn eisluf.
- §968. Nyt croes, croes absen: am hynny y deuodit gynt am groes lle gwarcheit, neu mewn po[rfa], na rhoddi croes prenn yn y tir yn y sefyll, neu uch penn y drws y ddangos roddi croes. Cyfreith eissyoed a fyn profi croes drwy wybyddeit, o dywedir<sup>631</sup> y bot yn absen; nyt amgen no gwybot a gwelet o'r llall . . .
- §969. Teir taryan sydd rhac croes: gwneuthur yrddi, neu<sup>632</sup> cwynaw rhacddi, neu cyrchu cyfreith.
- §970. Sef paham yw hynny, rhac pob hawl y dylir ae gwat, ae addef, ae arddelw cyfreithyawl: addef yw gwneuthur yr y groes.
- §971. Sef paham y cyrchir cyfreith? Y wadu fal y barno cyfreith o dylir y wadu.
- §972. Paham y cwynir rhacddi? Hwnnw yw yr arddelw cyfreithyawl rhac y groes, ac amddiffyn.
- §973. Rhei a ddyweit rhac croes difwyn neu ddiwat, nat taryan cyrchu cyfreith, cyfreith hagen a farn mae digawn.
- §974. Ny ddyly cymryt croes na'y rhoddi, eithyr a ddylyo bot wrth [cyfreith].
- §975. Ny ddyly neb roi croes rac<sup>633</sup> arall, eithyr rhac neb a ddyly bot ynghamlwrw amdanei os bwrir; mal mab llei no phedeir ar ddeg blwydd, neu ynfyt, neu alltut, neu ryw ddynon a fo meddyant y ereill arnunt.

<sup>631</sup> Ychwanegwyd 'ed' uwchben y gair gyda marc caret.

<sup>632</sup> neu – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

<sup>633</sup> 'at' sydd yn y testun ond rhoddwyd dotiau oddi tano ac ychwanegwyd 'rac' uwchben.

- §976. Ny ddyly o cyfreith neb roddi croes rhac arall, eithyr lle bo y wastadfod, neu y dlyet, neu y dda, lle bo hynny; ynteu a ddyly fot wrthi, canys dyfyn fydd [t. 155] lle bo hynny; o bydd dyfyn, ynteu a ddyly ateb; o dyly ef ateb, ef a ddyly bot wrth y groes.
- §977. O rhoir rhyw groes honn lle ny ddlyo ateb, cwyner rhecddi.
- §978. Ni phery croes eithyr tra barhao yr arglwydd pieu hi.
- §979. Ef a ddyly pawb wneuthur yr croes, or a fo heb feddyant arall arnaw, eithy[r] arglwydd.
- §980. Un groes nyt rheit y chymryt: croes a rodo priodawr yn y ddylet rhac y mwynhau.
- §981. Tri arffedo[c] croes: arglwydd, a chynge[l][l]awr,<sup>634</sup> a rhingyll.
- §982. A chroes y cymellir: bruduw, a mechniaeth, a cheynoc baladyr, a chyfarch cyffyll, a llw gweilydd, a phob peth ny bo ffordd y'w holi o gyrchu cyfreith; mal am borfa, catwer a chroes hi, canyt oes cyfreith a[r]ney.
- §983. Ni ddichawn neb fod yn a[r]ddelw y dorri croes.
- §984. Teir ofer groes y sydd: croes ar risc pren, neu ar y fon, neu ar y flaen, rhac y weithyaw yn y sefyll neu yn y orwedd; a chroes ar ben llwybyr rhac y gerddet, nyt rheit bot wrthi, cyt ardder y tir, os llwybyr cynefodic fydd; neu groes ny hebrynger a llw, sef yw hynny, ony<sup>635</sup> yrrer croes yn cyfreithyawl, nyt croes, sef yw hynny, tyngu teirgweith a ddyly dyn roddi croes, ac yn ol y gyrr y bydd rheit y wadu nas rhoet.

<sup>634</sup> Ychwanegwyd y llythyren 'a' uwchben gyda marc *caret*.

<sup>635</sup> ony – llsg., + Llan 121.

§985. Ny ddyly croes mewn gwellt, can lleddir ef.

§986. Ny ddyly croes rhac anifeil fot.

§987. Ny ddlyir rhoddi croes difwyn, neu ddiwat, heb greir yn y neill law.

Am lw gweilydd<sup>636</sup>

§988. Fal llyma y may am lw gweilydd.<sup>637</sup> cymryt o ddyn groes a dyfot a'e rhoi yngwydd tystyon, rhac gwadu na roet un groes; o gwedir, profer hi drwy wybyddyeit rhac arall, y bo heb y neill ae gwadu na dduc y da ay y dreis, ay yn lledrat, ay mal y mynno y'r llall. Medd rei [y] c[wynwr a ddyly] y holi, neu wneuthur yawn yddaw am y da; sef yw hynny, difwyn neu ddiwat; neu o bydd negyf, profi negyfaeth a chwynaw. Rheit yw yna y'r dy[n] [t. 156] un o'r ddeu; o gwna ef yr y groes cymeret ef y da; onys gwna, cwynet yr hawlwr rhacddaw yn llym; o gwatta gwadet fal hynn: na dduc ef y da ffordd o'r byt ar y gyrrer arnaw.

§989. Sef yw llw gweilydd: lw un dyn, heb lw neb y yrru nac y wadu, eithyr un llw.

§990. A berthyn gyrr cyfreithyawl y gymell llw gweilydd? Na pherthyn. Pe gyrr cyfreithyawl fei yna, llyna dde[u] lw, ac ny byddei lw gweilydd.

§991. O gwatta dyn roddi llw gweilydd rhacddaw, profet y llall drwy wybyddyeit y roddi, a difwynet ynteu y gwybyddyeit os geill.

§992. Ny ddlyir annot llw gweilydd am ledrat, eithyr yn tri lle: ar bont un prenn, ac ar ddrws mynwent, ac ar drws eglwys. Am dda arall, ef a ellir y oedi; ac nyt godor pallu [o]honaw yny barner arnaw, a chyrchu cyfreith.

---

<sup>636</sup> Ychwanegwyd hyn mewn pensil.

<sup>637</sup> Llyma mal y may am lw gweilyd Pen 164.

§993. Hyn o ddynyon ni pherthyn iddun[t] roddi llw gw[e]ilydd: arglwydd, ac esgob,<sup>638</sup> a gwreic feic[h]yawc, a mut, a byddar, ac anghyfeith.

[F]al llyma y may am wys

§994. Nyt gwys o gyfreith eithyr hwnn: ringyll.

§995. Cyfreithya6l yw gwys a wneler ar ddyn y bore yr dadleu y dydd hwnnw, o dichawn ddyfod, eithyr ef geiff oet wrth borth a ddlyo.

§996. Gwys rhingyll o'e sefyll. Ny ddyly ef eiste yn yr orsedd, nac yn y llys, tra fo yr arglwydd ar y fwyf. O gwyssya ef ddyn am dir a daear yn gyfreithyawl, rheit yw iddaw ddyfot a thystyon gyt ac ef, a tharaw a gwialen y post, neu y lla6r lle bo dyn, a thystu iddun[t] y gwys; ot eir yn y erbyn am y gwys, a profi ohonaw drwy y tystyon deddfawl, ny ellir y diwat, ony lyssir y tystyon; onys profir hagen drwy dystyon, eithyr y yrru ar lw e hun, ef a ellir y wadu; sef fal y gwedir, ar y drydydd o wyr un freint ac ef yn lle bo y fara efferen. O myn ynteu fynet yn erbyn y tystyon [t. 157] pan ddywettoent y hewyllys, aet a dywedet na allant wynt fot yn dystyon, a rhoddet yr analleu<sup>639</sup> ar y llyssyanneu fry yn y herbyn, a profet, ac aet ynteu yn erbyn y wybyddyeit ef.

§997. Nyt oes ddyfyn o cyfreith, eithyr wrth gorff dyn e hun, a'e henw. O ddefawt hagen y may; canys defawt yna a erlit cyfreith; nyt amgen, y ddyfynnu yn y eglwys blwyf, neu ar y dir, neu wrth y dda yn y gartref.

§998. Pwy bynnac a ddyfynner yn cyfreithyawl, ony ddaw y'r orsedd y dydd cyntaf, ef a ddyly y dremygu, ony bydd essgussot cyfreithyawl drostaw y dydd hwnnw; ony ddaw y'r eil, heb essgussot cyfreithyawl drostaw, ef a'e tremygir; ony ddaw y'r trydydd, ef a'e tremygir, ony bydd essgussot trostaw. Yna y dyly yr ynat roddi brawt bwyt wahardd arnaw; [ac] ar neb a'e gwelo y ddwyn wrth cyfreith,

---

<sup>638</sup> esgob ac arglwyd Pen 164.

<sup>639</sup> anatheb llgr. Ychwanegwyd 'analleu' ar ymyl y ddalen mewn pensil.

a chosp ar y neb a'e portho, ac a'e lletyo; a chwbyl o'r a gaffer o'e dda y'r arglwydd. Pan ddel ynteu y oet o<sup>640</sup> fodd yr arglwydd, ac yr wlat, o dichawn ef brofi esgussot cyfreithyawl drostaw, ef a ddyly y dda; a'r tremygeu yn ofer oll.

§999. O dyfynnir dyn y'r dadleu, a bot esgussot drostaw, fal na allei ddyfot o'e fot y[n] glaf, neu beth tebyc, ny ddylyir y dremygu. Ony ddaw y'r eil dadleu, a bot esgussot drostaw, ny ddlyir y dremygu.<sup>641</sup> Ony ddaw y'r trydydd, a bot esgussot drostaw, ny ddlyir y dremygu medd rhei; yna y dyly yr arglwydd anfon y swyddogyon a'r dyn bieuffo yr hawl, y tremygwyt amdanei, uch benn y dyn os claf fydd; ac yna y dyly y dyn wneuthur dyn y ateb drostaw, ac y golli caffel yn y benn; ac yna<sup>642</sup> y dyly hwnnw ddyfot y'r dadleu, os gwyssir yn cyfreithyawl.<sup>643</sup> Onyt erfyn<sup>644</sup> arglwydd neb uch benn, ef a ddlyir ymaros wrth y anallu. Ac peth ony aill<sup>645</sup> ddyfot, ac anfon esgussodwr y dyngu na eill dyfot, ony bydd dydd coll caffel? Yn y dydd coll caffel ny ddylyir cymryt un esgussot o'r byt. Peth yw dydd coll cael? Lle del hawlwr ac amddiffynnw[r] yn gynnrychawl, [t. 158] y ymddywedut, a gossot oet o cyfreith iddun[t] y ddwyn y defnyddyeu y'r maes; ac yn oet y dydd nas dygo y neb a'e eddewis, pallus y hawl; can pallus y arddelw, .i. wybyddeit; am na wnaeth a eddewis o cyfreith: [O] ddefawt y may gadu esgussodwr, rhac gwneuthur<sup>646</sup> prosses.<sup>647</sup>

§1000. Ny ddylyir gwyssyaw neb heb hawl pleit neu arglwydd, neu y angen arglwydd.

§1001-2. Ny eill neb wyssyaw oddieithyr y cymwt y bo y swydd ynddaw.

<sup>640</sup> oet o – llsg., + Llan 121.

<sup>641</sup> Ony . . . dremygu – llsg., + Llan 121.

<sup>642</sup> Ychwanegwyd y llythyren 'a' uwchben y gair gyda marc *caret*.

<sup>643</sup> os . . . cyfreithyawl fe'i hychwanegwyd ar ymyl y ddalen.

<sup>644</sup> enfyn llsg.

<sup>645</sup> all llsg.

<sup>646</sup> gwneuthur – llsg., + Llan 121.

[Esgusodion cyfreithiol]

§1003. Llyma mal y dyly esgussodwr dyngu: bot y dyn cyn glafet o heint Duw, neu o friw, neu o frat[h], ac na allei ddyfot yno y dydd hwnnw y gyrchu da dros ddrwc o'e nerth e hun; neu dyngu y fot yn angen y arglwydd pressenawl, a'e lluydd, a'e ddadleu drwy wys arnaw o'r blaen, neu y fot yn carchar fal na chaffei ddyfot, neu na chigleu y gwys, neu o'r ffyrdd ereill yr un rhyw.

§1004. Os o angeu yr esgussoda<sup>648</sup> ef, o by[dd] cyhoedd y angeu, ef a ddylir peidyaw a'r hawl mwy, os yn y dadleu cyntaf y bydd esgussot; os yn yr eil, neu y trydydd, cyn barner camlwrw arnaw, nys tal o bydd.

§1005. Nyt gwys cyfreithiawl gwir yr esgussot, eithyr a wnel y cwyrer wrthaw; ony chwynir wrth arglwydd e hun, hwnnw a eill peri gwys.

§1006. Fal llyma esgussodyon cyfreithyawl y omedd gwys y gynhebrwng hawl, canys wynt a oedant pob peth yn ddiodor cystal dros yr hawlwr a'r amddiffynwr; sef yw hynny, dros hawlwr neu amddiffynwr: angeu; neu friw; neu frath; neu glefyd gorweiddiawc; neu angen arglwydd, .i. lluydd; neu wys y le arall, neu beth tebyc; neu lanw a threi rhyngthun a'r lle gwysser; neu ddwr mawr heb pont; neu ddryc tymmor yn y luddyas; neu na chigleu y wyssyaw; neu garchar cynogyn; neu lesteir o gamwynt ar for yn y lesteir y'w eddyl; neu na bo hydrum iddaw yr orsedd nac y'w gennat; [t. 159] sef yw honno, esgussodw[r] . . .

§1007. Ny ddylir tremygu amddiffynwr hyt hanner dydd, nac hawlwr; ony ddaw eissyoes hawlwr erbyn hanner dydd, barner yr amddiffynwr yn rhydd yny gwyno o newydd; ac ynteu bit yn y gosp a farno cyfreith arnaw, ony bydd esgussod drostaw. Os gelwir deirgweith ef ar ostec, heb ddyfot erbyn y trydydd galw, y erlyt y hawl. O daw amddiffynwr wrth wys, ac nat atepo, barn anufyd a ret arnaw, o geilw yr haflwr am frawt; canys addef a deu, a'r hawl yn gyfadedf;

---

<sup>647</sup> profes llsg, prosses Llan 121, prosses Pen 164.

<sup>648</sup> esgossoda llsg.



cymellet yr arglwydd yna yr hawlwr fessur y hawl, ac na adet ef yn anywys<sup>649</sup>  
o'r orsedd.

§1008. O daw amddyffynwr wrth wys y orsedd, ac nat ymddangosso pen alwer,  
camlwrw a dal. Pawb a ddyly herwydd . . . dyfot wrth wys o'r cymwt y'r llall,  
ac ny ddyly ateb onis goddiwed<sup>d</sup>ir ar weithret drwy arueic.<sup>650</sup>

§1009. Llyna fal y dyly ynat tremygu yr hawlwr neu yr amddiffynwr: del esgussot na  
ddel drostaw, ony bydd esgussot cyfreithyawl drostaw pan ddel an . . .

#### Y naw tafodyoc<sup>651</sup>

§1010. Naw nyn y credir eu tystiolaeth ar wahan; rhei wrth lw, ereill heb lw y greir,  
ereill wrth lw, arall a fo llei: Cyntaf yw arglwydd rhwng y ddeu wr, or bydd cyn  
nesset pob un iddaw o waet a'e gilydd. Abaat rhwng y ddeu fanach ar drws y  
côr, ac ymrysson rhyngthunt. Y tat rhwng y ddeu fab, o byddant un fam wynt.  
Effeiryat rhwng y ddeu ddyn blwyf; neu am wreic a ddycco mab y wr yn y  
llongwedd am beth a gymynner, ac un yn haeru mae iddaw ef y cymynwyt, a'r  
llall may iddaw ynteu. Brawdwr am y frawt a farnws, ac un yn dywedut may  
iddaw ef y barnwyt, a'r llall yn ddywedut may iddaw ynteu. Mach am y  
fechniaeth, ot eddyf . . . dwybleit yn fo yn fach. Morwyn am [t. 160] y  
morwyndawt pan y treissier, o thyng o byd . . . a chwynaw hyt<sup>652</sup> . . . Bugeil  
trefgordd am y fugeilyaeth o lladd llwdyn y llall; ony bydd iddaw e hun  
ysry[by]ll cyfryw ac [wynt] gyt a'r lleill. Lleidyr dio[beith dan] y crocpren a'r  
w[y]den am y wddyf [am] y gydleidydr, ot eddyf drwc (am y lladrat)<sup>653</sup> arnaw:  
credadwy fydd am y lledrat y crocer ef.

---

<sup>649</sup> anywys llgr.

<sup>650</sup> arueic llgr.

<sup>651</sup> Y . . . tafodyoc – llgr, - Llan 121, + Pen 164.

<sup>652</sup> o . . . hyt – llgr, - Llan 121, + Pen 164.

<sup>653</sup> am lladrat – llgr, - Llan 121, + Pen 164.

§1011. Tri onaddunt ny thyng y greir: arglwydd, ac ynat, a that: eithyr tat hagen: ‘Myn duw a’ m crewys i o dat, a thitheu ohonof fot yn wir a ddyweit;’ arglwydd, nyt oes a’e cymello; ynat a rydd y lw pan el yn ynat na rydd gamfrawt, nac yr gobyr na chas.

§1012. Effeiryat a dyng y verbum Dei<sup>654</sup> a dangos y creir gyferbyn ac ef. Abat a dyng yr un rhyw lw, canys effeiryat yw. Morwyn am y morwyndawt, os torir a gyrru [o]honey yn gyfreithyawl ar y neb y cwyno rhacddaw, ny ellir gwat yn y herbyn, os gyrr yn gyfreithyawl. Bugeil trefgordd hefyt a dyng y creir pan rodder tystiolaeth yn y ben. Lleidyr am y gyleidyr wrth y crocpren, ny thyng namyn y’w ddihenydd may yn . . .

[hiatus]<sup>655</sup>

§1013. [t. 161] Mal llyma pa sawl ffordd y gwahenir a dyn y dda, ac y perthyn iddaw y holi yn cyfreithyawl; sef yw hynny, rhei drwy gwyn, ereill heb gwyn: lladrat, a threis, ac anghyfarch, echwyn,<sup>656</sup> ac atneu, a benffyc, lloc, a chyfnewid,<sup>657</sup> rhodd, llesgedd, gwarchay, a chychwyn<sup>658</sup> angcyfreithyawl, a gwystyl . . .

#### Llyma mal y may am ledrat

§1014. Deu ledrat y sydd: lledrat cynhyrchawl, .i. gwydd; a lledrat angynyrchawl, .i. absen. Os lledrat cynyrchawl fydd, damdwng a ddylir amdanaw, eithyr tri pheth ny at cyfreith y damdwng: blawt, a gwenyn, ac aryant; ac am y tri pheth hynn y dylir gyrr cyfreithiawl. O bydd llestyr yn y cylch hagen damdwng a berthyn amdanunt; ony bydd, gyrr a berthyn; ac yr ol y gyrr rheith herwydd meint y lledrat, ae beich cefyn fo, ay pwn march.

---

<sup>654</sup> Ysgrifennwyd ‘*verbum sacerdo . . .*’ mewn pensil ar ymyl y ddalen.

<sup>655</sup> Oddeutu 14 llinell.

<sup>656</sup> Mae rhwyg ar ochr dde’r ddalen ac mae darn o’r testun ar goll. Collwyd y pedair llythyren olaf o’r gair, ysgrifennwyd y llythrennau coll ar ymyl chwith y ddalen gan Moses Williams.

<sup>657</sup> Ysgrifennwyd y ddwy lythyren olaf ar ymyl y ddalen.

§1015. Pwy bynnac a ddycer y dda yn lledrat, ceissyet y dda yn y lle y bo, ac os y da a geiff ef yn ddilesteir, cymeret y da, onys lluddir iddaw, ac aet ffordd ar ynat a damdynget ef, ony luddir iddaw ynteu . . . ar wedy y caffo yn da yn un o'r tri lle y sydd un freint a lledrat yn llaw; nyt amgen, dan un to, ac un achreu, ac un clo a'r dyn y<sup>659</sup>[gyrr] y lledrat arnaw, neu gar ei fron yn<sup>660</sup> y yrru, ac yn ca . . . y os, neu<sup>661</sup> yn cymorth y yrru, neu yn fwrw ar y ysgwydd<sup>662</sup> y'r llawr, neu ar y ysgwydd, neu y fraich<sup>663</sup> yn y ddwyn: yna y dyly y dyn manac y'r<sup>664</sup> [ynat] a fo da . . .

§1016. O derfydd y ddyn wrthwynebu y<sup>665</sup> dyn y bo y da ganthaw, gofynnet yntau: 'Pwy<sup>666</sup> a warcheidw y da hwnn?' Yawn [t. 162] yw y'r gwarcheidwat yna ddywedyt pan yw ef: 'Dyoer,' heb yr hawlwr, 'cam yw i ti warchadw y da meu'. Yna dywedet yr amddiffynwr:<sup>667</sup> 'Cwbyl wat yw genyf nat oes dim o'th dda di<sup>668</sup> genyf.' Ymafaelet swyddogyon yna ac ef, a'r<sup>669</sup> da y gyt a hebryngent ef y'r llys; ac ny ddylir<sup>670</sup> y wahanu a'r da yny fo dosparth cyfreithyawl: cany ddylir gwahanu neb a'y dda eithyr drwy [gyfreith]. O difernir ef, ny ddylir roddi hwn a[r] fach, na threulyaw dim yn y llys o'e anrheit[h] yny fo dosparth ar yr hawl. Os treulir pe rhon ei ddifarnu, ny bydd eneit faddeu y lleidyr.

§1017. Pan fo y dadleu . . . ef a'r da, yr ma[in]t yn y law wedy hynny; a'r neb a laddo y ysgrybyl attebet y'r arglwydd o'y leidyr neu o'y werth, o bernir ef yn lleidyr am ryddhau lleidyr.

<sup>658</sup> Ysgrifennwyd y tair llythyren olaf ar ymyl y ddalen.

<sup>659</sup> Ychwanegwyd 'dyn y' mewn llaw ddiweddarach ar ymyl y rhwyg.

<sup>660</sup> gar . . . yn: ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen gan Moses Williams.

<sup>661</sup> y . . . neu: ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach (Moses Williams).

<sup>662</sup> fwrw . . . ys: ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.

<sup>663</sup> Ysgrifennwyd 'fraich' ar ymyl y ddalen.

<sup>664</sup> Ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach

<sup>665</sup> wynebu y: ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.

<sup>666</sup> yntau pwy: ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.

<sup>667</sup> Ysgrifennwyd y llythrennau 'ffyn' ar ymyl y ddalen.

<sup>668</sup> Ychwanegwyd 'dda di' mewn llaw ddiweddarach ar ymyl y ddalen.

<sup>669</sup> ef a'r: ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.

<sup>670</sup> Ychwanegwyd y gair ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.

§1018. Ny bydd eneit faddeu hagen y dyn a laddo y ysgrybyl; am nat yawn d[ien]yddu  
neb am ledrat heb gael da yn y law.

§1019. Yn y dadleu cyntaf, pan ddycer y lleidyr y'r maes a'r da yn y law, cadeiryet yr  
ynat y pleidyeu yn cyfreithyawl, o bydd cymeint yr hawl a'r da ac y perthyn  
hynny; sef yw hynny, tir a dayar, neu ych, neu fuwch, neu farch, neu [we]rth  
trugeint, neu a fo mwy. Nyt rheit hagen canllaw, eithyr am werth trugeint.

§1020. Messuret yr hawlwr yna y hawl, a damdynget y da fal yr archo yr ynat; sef mal  
y<sup>671</sup> damdwng, os peth marw fydd a'i law assw<sup>672</sup> ar y da, a'y law ddeheu ar y  
crair; os anifeil<sup>673</sup> fydd a chlustieu iddaw, y law asw<sup>674</sup> ar y glust ddeheu yr  
anifeil, a'r llaw ddeheu<sup>675</sup> ar y creir. Os edyn fydd, gwalch, ne[u] hebawg,<sup>676</sup>  
neu lamysten, o holir y ddwyn o dre[is], neu anghyfarch,<sup>677</sup> a'y law ar y ben:  
tynget y Dduw yn y<sup>678</sup> blayn may ef pioedd ef, ac a'y gwnaeth yn ddof<sup>679</sup>  
[t. 163] o wyllt, ac wrth y dafyl<sup>680</sup> hual y damdwng; ac nat oedd arglwydd a  
allei, na pherchennoc, na'y werthu na'y roddi, pan y gwahanwyt ac ef, eithyr ef,  
a'e wreic, ac<sup>681</sup> arglwydd.

§1021. Ac felly y damdygir pob da, nyt amgen gossot y arglwydd yn rhannoc ar y  
damdwng, a'y wreic o bydd iddaw. Sef paham hynny? Nyt oes neb heb  
arglwydd, a llawer ffordd y dyly arglwydd da y wr, neu rann. Sef paham y dodir  
y wreic yn y damdwng, o lawer ffordd y dichawn y wreic roddi y da a'y werthu,  
wrth ryw wreic y breint y fo, ac wrth ryw dda fo, ac eissyoes y gwr a fydd  
penna ar berchennogaeth y da, cyn gallo hi y roddi heb ganyat y gwr, a'r gwr a  
ddyly cwynaw am y da.

<sup>671</sup> sef . . . y: ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach (Moses Williams).

<sup>672</sup> a'i . . . assw: ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.

<sup>673</sup> y crair . . . ani: ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.

<sup>674</sup> law asw: ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.

<sup>675</sup> Ychwanegwyd y gair ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.

<sup>676</sup> Ychwanegwyd y gair ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.

<sup>677</sup> neu anghy: ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.

<sup>678</sup> Dduw yn y: ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.

<sup>679</sup> gwnaeth . . . ddof: ychwanegwyd hyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach.

<sup>680</sup> Tanlinellwyd hyn ac ychwanegwyd 'dauyl' mewn pensil ar ymyl y ddalen (llaw Robert Vaughan).

<sup>681</sup> ac – llsg., + Llan 121.

§1022. Dywedet hefyd yr hawlwr yn y ddamdwng, nas gwahanwyd ef y dda o ffordd o'r byt, nac o rodd, nac o fenffyc, nac o atneu; namyn o'y ddwyn yn lledrat, neu y dreis, neu yn angcyfarch os felly y dygir; a henwet y dydd yn yr wythnos, a'r wythnos yn y mis, a'r mis yn y tymawr, a'r tymawr yn y flwyddyn, a'r dref, a'r cymwt; a'r cantref nyt godor y henwi; ac nyt rheit y'r hawlwr henwi y lleidyr y may y da ganthaw; ac eissyoes rheit y'r neb y may y da yn y law un o'r [tri] atdeb cyfreithyawl: ay gwat, ay addef, ay arddelw cyfreithyawl: cystal y dichawn gwreic . . .

§1023. Rhyw ledrat absen arall y sydd, ac y bydd dirwy amdanaw, megys cyhyryn canastyr.

§1024. Tri rhyw gyhyryn canastyr y sydd hagen o cyfreith: cyntaf yw lledrat ffordd y del, sef yw hynny, o dygir anifeil yn lledrat, a gwahanu y groen ac ef, a chael daly y croen gan ddyn, a threulyaw y cic, ay roddi [t. 164] yn anrhec, neu y gadw, neu o ffordd o'r byd, neu y werthu; eneit faddeu fydd y neb y cat y croen, ony cheiff arddelw neu geitweit. Os y perchennoc yr anifeil a gwyn rhac y cynifer dyn ydd aeth y cic y anifeil attaw, a'y holi yn cyfreithyawl; os addef a wna, teir punt y'r arglwydd a ddaw. A ddyly y cwynwr fessur y hawl?<sup>682</sup> Na ddyly, gan nac affeithwr, na neb a'y cymero; rhac angcyfreith. O gwedir dyfot y cic ar ddyn, llw canwr fydd y reith o wyr mal y caffer wynt, sef yw hynny, nyt rheit godor yr na boent cyn nasset ac y dyloent talu galanas na'y roddi;<sup>683</sup> affeith lledrat, a chyfran ac ef am y ledrat, o eir neu, o olwc, neu weithret. Os ynteu a rydd peth o'r cic lledrat hwn yn anrhec, neu y werth y arall, a hwnnw y arall, ac felly hyt y ganfet law ffordd y del y cic, cyhyryn canastyr fydd, a dirwy o goddiw[e]ddir, a bot cwynwr amdanaw. Eil cyhyryn, abo bleidd; sef yw hynny, o derfydd y ddyn cael cic wedy dechreu o fleidd, neu gwn y yssu, o bydd anifeil dof, neu ynghudd, a'y gymryt heb ganyat y berchennoc; o chwyn y berchennoc, ffordd bynna[c] y del hyt y ganfet law, os addefir, teir punt yr

---

<sup>682</sup> + Na ddyly y cwynwr fessur y hawl llsg.

<sup>683</sup> + thalu fyd ar y neb a wnel 6 . . . am ledrat Pen 164.

dremyc; os gwedir, llw canwyr a gwatta. Trydydd cyhyryn, hydd brenhin; ffo[r]dd y del, o cwyn y brenin camlwrw; os gwedir, llw canwyr a'y gwat.

[Treis]

§1025. Fal hynn y may holi da cynyrchawl o dreis: cwynaw yn gyfreithyawl drwy [lef a] gwaedd, ac ymrwymaw yng cyfreith, a chadeiryaw pleidyeu ger bron ynat, a damdwng y da y greir pan y gwelo, a manegi nas gwahanwyt ac ef o'r ffordd o'r byt eithyr o dreis, eithyr na henwet ef y dyn a'y treissyawdd, y dydd yn yr wythnos, a'r wythnos yn y tymor, fal y clywaist uchot [t. 165] am ladrat.

§1026. Ny[t] cyfreithyawl cwyn am dreis eithyr drwy waedd, a llef, neu gorn, hynny yw, teithi<sup>684</sup> treis. Dywedet yr amddiffynwr: 'Arwaessaf cyfreithyawl sydd y mi y'r da hwnn;' a cheissyet yr amddiffynwr yn un tri arddelw, ae geni, ae meithrin, ae cadw cynn coll, neu arwayssaf, fal y clywaist uchot. O ffyma, erlynet y hawl; o metha, methet y hawl. Ceissyet yr hawlwr, os dichawn, anaddfwynaw y ceitweit o'r ffordd y perthyn; os o eni a meithrin, neu gadw cyn coll, a gais ef. Os arwayssaf, cymeret yr arwayssaf yn y law, a damdynget yr hawlwr yn y law fal y gwnaeth, ony cheiff ynteu ae cadw cyn coll, ae arwaessaf, bit treis y da a chyfreit[h] treis.

Hynn a berthyn am dreis cynyrchol

§1027. Os yr ymddiffynwr a ddyweit: 'Y dreis a yrreist di arnaf fi, mi a'e atfereis yt drachefyn, a dygym[un] fum a thi amdanei; ac os gwedy may ym ddigawn a'e gwyr, a cham yw dy gwyn, ac ny ddlyaf atdeb yt am ddarfot gwneuthu[r]'. . . Rheit fydd yna y'r hawlwr ae gwadu hynny, ae ymarddelw o beth a fo gwell. Os gwadu a wna, mwynhaer gwybyddyeit yr amddiffynwr, canyt ar dreis y rhoes ef wybyddyeit, namyn ar etfryt y da drachefyn y'r hawlwr. Ot addef ynteu etfryt y da,<sup>685</sup> triget ar hynny. Os ynteu a ddyweit yr hawlwr: 'Dyoer', heb ef, 'ny wadaf

---

<sup>684</sup> teiteithi llsg.

<sup>685</sup> dae llsg.

etfryt ohonot ti ym peth o'm treis; a phunt oedd y dreis a yrreis arnat, ac ny chefeis i onyt ceynyawc; ac ar y cyfreith y dodaf i, cany bo onyt un geynyoc y[n] eissyeu y dylyaf i y gennyt amdanei, ae gwat, ae addef, ae arddelw cyfreithyawl. Os gwadu a fyn yr amddiffynwr, gwadet [t. 166] fal hyn uchot. Os adef a wna, atferet y dreis drachefyn, a dirwy y'r arglwydd. Os yr amddiffynwr a dystya y'r ynat a'r gwyrda na wadwyt cwbyl o'r dreis, a bot dygymot amdanei, eithyr na chaffat cwbyl o'r dygymot: 'Ac ar gyfreith y dodaf inneu nat treis hi bellach, eithyr dlyet heb gadernyt arnei, ac na ddaw arna finneu eithyr fy llw<sup>686</sup> fy hun y wadu, canyt oes yn gyrru eithyr un tafa6t.' Y gyfreith a ddyweit am ddlyet heb gadernyt, heb praw arna i, nat rheit eithyr un tafawt y wadu, lle ny bo eithyr<sup>687</sup> un tafawt<sup>688</sup> yn gyrru, cyt bo gwrthdwng yn y erbyn.

§1028. Ny bydd eneit faddeu neb yr treis; echaws yw, sarhaet yw treis y'r neb a dreissyer ac y'r arglwydd; a herwydd y freint dywycyer y dyn y sarhaet,<sup>689</sup> a dirwy y'r arglwydd.

§1029. Llyma mal y perthyn cwynaw am dreis o dda cynyrchol a weler:<sup>690</sup> gweiddi o'r dyn a dreissier pan y treissyr, a chyrcu y llys o'r pryt bwy gilydd; cany ellir treissyaw neb heb y sarhau. Cwyn o'r pryt bwygilydd a ddyly lle bo sarhaet o gyfreith Hywel, am hynny y cynghein teir punt o gosp mal dirwy ymladd<sup>691</sup> am y dreis. Yr hawlwr a ddyly dywedut y dreissyaw ef am y dda, a henwi y da, a'r lle, a'r dydd; ac nyt rheit yddaw ddywedut na'e ddwyn na'e gychwyn o dreis, na henwi<sup>692</sup> y dyn a'e treissyawdd, a galw am y dda y'w ddamdwng yn cyfreithawl.

§1030. Treis anghynyrchawl yw hwnn a ddycer y ar ddyn, ac ny chaffer yn llaw; sef perthyn am hwnnw, cwynaw yn cyfreithyawl, ac ymrwymaw yn cyfreithyawl

---

<sup>686</sup> + fy llw llgr.

<sup>687</sup> eityr Llan 121, onyt Pen 164.

<sup>688</sup> y . . . tafawt - llgr., + Llan 121.

<sup>689</sup> sarhaer llgr.

<sup>690</sup> wpeler llgr.

<sup>691</sup> + ymladd llgr.

<sup>692</sup> na henw na henwi llgr.

rhac bron, a gyrru deirgweith [t. 167] y greir y dreis y dydd a'r dydd, a'r lle a'r lle<sup>693</sup> a henwi y da; ac onys gwedir yn llym yn yr un modd ac y gyrwyt ef, tyster nas gwadwyt y'r ynat a'r gwyrda; ac yna cyfadde fydd y dreis ar y dyn; sef yw y gosp y'r arglwydd, teir punt, a'e dda y'r dyn. Os gwedir yn cyfreithyawl mal y gyrrer, llw dengnyn a deugeint, heb gaeth heb alltut, a fydd y wadu. Os gwrthdwng yr hawlwr arnaw, ac felly ym pob lle y bo<sup>694</sup> rheith furyedic, gwrthdwng a beir y rheith . . . wch yma y gyngh . . . fry am dreis.

§1031. Cyfreith Hywel a ddyweit nat oes dreis eithyr treis gwreic neu forwyn; canys difwyn dirwy dreis yw gwialen aryant, a ffiol aur a chylawr arnei; ac am dreis morwyn y telir honno. Eissyoes, herwydd arfer, teir punt yw difwyn dirwy dreis, a their punt yw difwyn dirwy ymladd y del gwaet: cosp am waetlydu tir arglwydd pan ladder dyn yw punt.

#### Am dreis morwyn<sup>695</sup>

§1032. Am dreis morwyn fal hyn y may: pan y treissyer cychwyn y'r llys, os dichawn, o'r pryt bwygilydd o'r<sup>696</sup> lle y treissyer, a'e dillat am y phen, neu yn y llaw, dan waedd a chwyn; canys y rhei hynny yw teithi treis gwreic: llef, a chorn, a chwyn, y[w] teithi treis am dda; a dangos arwydd y dreis, os morwyn fydd; sef yw hynny, gwaet am y morddwydydd a'e dillat; a henwi y neb a'e treissyawdd, a pha dref, a pha ddydd. Yna y dyly yr arglwydd bot yn ddiogel o'r dyn. Pan ddel y forwyn rhac bron, fal hynn y dyly fessuraw y chwyn: ymrwymaw yngecyfreith [t. 168] yn gyntaf, ac yna dywedet y chyingaws fessur y chwyn: 'Cwynaw a wnaeth honn', a'e henwi, 'ac y may yn sefyll yn y chwyn'. Messur cwyn honn rhac hwn,<sup>697</sup> sydd yn sefyll yn gynhyrchawl rhaccwn, ae henwi mefyl, ac amarch, a sarhaet, a gwaet, a gweli, a'e gwneuthur o forwyn yn wreic, a llygru y morwyndawt, a'e dorri y dydd a'r dydd, yn y lle a'r lle, a'r dref a'r

<sup>693</sup> lle – llsg., + Llan 121.

<sup>694</sup> bo – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

<sup>695</sup> Ysgrifennwyd hyn mewn pensil.

<sup>696</sup> o'r – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

<sup>697</sup> + rhac hwnn llsg.



dref, yn y cwmwt a'r cymwt; ac yna ymafaelet a'r galy y llaw assw, a'r llaw ddeheu rhoddet ar y creir, a thyngtet y'r creir deirgweith, y gwneuthur ohonaw ef a'r galy honno yn wreic o forwyn o'e hanfodd, a dwyn arna i dreis; ac onys gwatta, tystyeth hitheu nas gwadus yn cyfreithyawl. Os ynteu a fyynn y wadu: 'Dyoer', heb y chyangaws, 'ny elli di wadu hynn yn y erbyn y geir<sup>698</sup> hi; canys un yw o'r nawryn a gredir y tystiolaeth yw morwyn am y morwyndawt.'

§1033. Gwedy cwyno yn amserawl, a chyrchu y llys mal yr eirch cyfreith, ac arwydd treis arnei dan y<sup>699</sup> ddangos y'r arglwyddiaeth yn ir, a gwir a ddyweit ef o cyfreith. Yna y dyly hi erchi y chowyll, a'e wynebwerth, a'e dilysrwydd, a'e sarhaet, a'e hagweddi; a gwialen aryant cyhyt a hyt yngenau yr arglwydd pan eisteddo yn y gadeir yr arglwydd, a chyfref a pherfeddfys gwr; a ffiol eur a clawr a anno diawt unweith y'r brenyn pan ddel o hely yn sychedic, cyn dewet fydd y clawr ac ewin amaeth a ddalyo aradr seith mlynedd, neu a blisgyn wy gwydd. Ony eill ef ddyfot y hynny, torrer y aylodeu gwrawl: sef yw hynny, dispadder ef.

§1034. A ddichawn arglwydd y ddehol ynteu os myn? Ny ddyly ef y ddehol yny gaffo y cwynedic y iawn; gwnaet ynteu am y ran ef a fynno.

§1035. O bydd lei hi no deuddec [t. 169] blwydd nyt rheit attep iddi. O bydd llei y gwr no xiii., nyt ettyp. Sef fydd y hagwedi: os merch brenin, seith punt ar ugeint, y chowyll wyth punt: sef yw y chowyll, hyn a gaffo am y gweryndawt;<sup>700</sup> merch uchelwr y hagwedi yw iii punt, y cowyll punt; merch mab eillt y hagweddi<sup>701</sup> yw punt, y chowyll trugeint. Y sarhaet a delir iddi wrth freint y that, neu y phencenedyl, neu y brawt, dewisset, trayan a ddyly hi sarhaet y brawt. Y

---

<sup>698</sup> + llw llsg. Yn Llan 121 ceir lŷ gyda 'gair' wedi'i ysgrifennu uwchben; 'llw' sy'n ymddangos yn wreiddiol yn Pen 164 hefyd ond y mae wedi ei groesi allan a 'gair' wedi ei ysgrifennu uwchben.

<sup>699</sup> dan y – llsg., + Llan 121.

<sup>700</sup> gweryndawt llsg.

<sup>701</sup> yw . . . hagweddi – llsg., + Llan 121.

dilystawt yw meichieu ar be[ri] meithrin y beichiogi o bei iddi. Y hagwedy neu y gweryndawt<sup>702</sup> . . .

§1036.[O]s treis gwreic a gwynir, cwynet o'r pryt bwygilydd, a chyrchet y lys dan waedd, a llef, a chwyn, os geill. Gwedy y rhwymer yng cyfreith, dywedet y chyngaws drosti y threissyaw, a'e hamerchi y dydd a'r dydd, yn y lle a'r lle; a dywedet bot ohonaw genthi o'e hanfodd; ac y dreis a gyrret yn gyfreithyawl y greir y dreis deirgwaith, ac ymafaelet a'e galy, a'r sarhaet a'r mefyl, a'r amarch. Onys gwatta yr amddiffynnwr y greir deir gweith, tystyet y gyt a'r un tu y chyngaws drosti, na chwbyl wadws, a galwet am frawt, sef a wyl y gyfreith, yna dylu o'r amddiffynnwr wadu y treis a dec gwyr a deugeint gyt ac ef, heb gaeth, heb alltut. Onys dichawn i wadu, talet teir punt y'r arglwydd, a'e hamobyr drosti, a'e sarhaet; os gwreic fydd, wrth freint y gwr; ony bydd, wrth freint y brawt. Os yr amddiffynnwr a ddyweit fal hyn: 'O threissywyt tydi, nyt myfi a'th dreissyawdd di, namyn arall.' 'Dyoer', heb y cyngaws y wreic, 'rhagot ti y cwneis i, ac ydd wyf yn sefyll y'm cwyn, a thydi a ddaliwyd ar y weithret, a rheit yw y titheu, ac y bawb y cwyrer rhacddaw y neill ae addef, ae gwadu, ae arddelw cyfreithyawl; nyt wyt titheu yn dywedyt arddelw cyfreithyawl drossot, am hynny mi a rof ar y cyfreith y dily ditheu y neill ae addef, ae gwadu, a galw ydd wyf am frawt.' Y gyfreith [t. 170] a ddyweit y ddyly ef un o'r rhei hynny yn ehegyr; canys otheu<sup>703</sup> ef dros fessur cyfreithyawl may yn addef o cyfreith; sef yw messur cyfreith, cyn tystu o'r hawlwr deirgweith arnaw, nat atebws. Os yr amddiffynnwr a ddyweit: 'Pe rhon fot yn wir a yrreist di arnaf, ny ddylywn i ddywygyaw yt am y dreis; sef echos yw, y dyd ydd wyt ti yn haeru arnaf ddwyn treis arnat ydd oedd gyt a thi wreic arall . . . ac a dducpwyt treis arnat; ac ar y cyfreith y dodaf i na ddlyaf diwc y treis ydd wyt yn y gyrru arnaf, a gwir a ddyweit o cyfreith; o gwedy di nat oedd, mi a brofaf drwy wybyddyeit y bot; os addefi, bit ar a gefeist. 'Dyoer', heb y wreic, 'ydd oedd gyta minneu ddyn arall yr bychanet fo eithyr mab; ac ar y cyfreith y dodaf i, na thalaf y iawn, a mi a brofaf y fot yn lle arall.'

---

<sup>702</sup> gweryndawt llsg.

<sup>703</sup> Sic yn llsg.

§1037. Ni ddichawn putteyn cwynaw cwyn treis: o sarhaer hitheu hagen taler y sarhaet iddi wrth freint y brawt, o bydd iddi; ony bydd, wrth freint y gwr a hanffo o ddlyet y that, a'e galanas os lleddir hefyt: na gwreic fut, cany dily<sup>704</sup> ddyweit<sup>705</sup> dim, ny eill gwynaw treis.

§1038. Nyt a rheith yn ol daly<sup>706</sup> a damdwng, eithyr lle dywatto dyn bwrw lledrat arnaw.

[Anghyfarch]

§1039. Treis, a lledrat, ac angcyfarch, o byddant cynyrchawl y perthyn amdanyn<sup>707</sup> tri arddelw: ae cadw cyn coll, ae geni a meithrin, ae arwaessaf. Os angcynyrchawl fyddant y gynghawsseth honn a berthyn amdanunt, onys gellir rheith.

§1040. Am angcyfarch fal hynn y mae y holi: achwyn wrth arglwyddiaeth, ac yn ol y cwyn peri y ddyfynnu dyn a ddyly yr arglwydd; a dyfot y'r maes yna a ddyly yr hawlwr; ac ymrwymaw yng cyfreith; [t. 171] a chadeiryaw pleidieu o'r ynat, o bydd cymeint yr hawl ac y dlyer hynny; a galw am y dda y ddamdwng, o bydd cynyrchawl y greir; a dywedut nas gwahanwyt ac ef eithyr o'e ddwyn yn angcyfarch y ganthaw y dydd a'r dydd. Yna y bydd rheit y'r amddiffynnwr ceitweit y'w gadw os anifeil fydd, ae geni a meithrin, ae cadw cynn coll, ae arddelw; o phalla y geitweit iddaw, barner yr hawlwr y dda, a chamlwrw y'r arglwydd. Os y geitweit a ffynna iddaw, ffynnent; ceissyet hagen yr hawlwr yn graff eu difwynaw, os arddelw a rydd fal y gwnaethpwyt am ledrat a threis bun<sup>708</sup> yma.

---

<sup>704</sup> dily – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

<sup>705</sup> + ddlyu llsg.

<sup>706</sup> daly llsg.

<sup>707</sup> am|danyn llsg.

<sup>708</sup> bun llsg. ?byd.

§1041. Llyma am angcyfarch cyn[yrchawl]: rhei o'r yneit a ddyweit nat oes angcyfarch o cyfreith, canys o<sup>709</sup> dygir da dyn yn y absen, lledrat yw; o dygir yn y wydd, treis yw: cygheussaeth<sup>710</sup> dda yw honno. Eissyoes y may angcyfarch o cyfreith; sef yw angcyfarch, peth a ddycer yn absen ac ny watter y ddwyn, cyt gwatter yr anghyfarch, ac nyt tec am ryw dda hwnnw cwynaw cwyn lledrat amdanaw. Treis yw peth a ddycer yngwydd o anfodd, a thaeru mae o fodd y ducpwy.

§1042. Deu ryw angcyfarch y sydd: cynyrchawl ac angcynyrchawl. Angcyfarch angcynyrchawl yw hwnnw ni oddiwedder yn llaw dyn pan gwyner; gyrrer ef yr hynny teirgweith arnaw y greir, yr na bo cynyrchawl; a thystyer onys gwedir felly y greir; os gwedir yn ol y gyrr, llw tri dyn a'e gwatta yn lle y gweddo oreu.<sup>711</sup>

#### Llyma am angcyfarch angcynyrchawl gyngheusseth

§1043. O dyweit yr hawlwr dwyn y dda o'e anfodd yn anghyfarch, a bot iddaw ddigawn a'e gwyr, a dodet ar y gyfreith y cychwyn a [t. 172] gychwynwyt yn angcyfreithyol o'e warchadw ef, a henwi y da, yna y dily hwnnw ddyfot yn gyfreithyawl attaw trachefyn; ony watta yr amddiffynnwr hynny, doet y da drachefyn, a chamlwrw y'r arglwydd. Os gwatta, mwynhaer gwybyddeit yr hawlwr. Os amddyffynnwr a ddyweit: 'Dyoer', heb ef, 'ny ddylyaf i dy ateb di am yr hawl hon, echaws yw, y peth a ddywedy di arnaf i y dwyn yn angcyfarch y gennt, titheu a ddugost hwnnw y gennyf i trachefyn heb ofyn, heb gennat, ac yn angcyfreithyawl; ac os gwedy mae ym ddigawn a'e gwyr; ac ar y gyfreith y dodaf i,<sup>712</sup> y dily y da hwnnw ddyfot attaf drachefyn, cynn ateb ohonof yt amdanaw heb ddim ohonaw gennyf.' Ony watta yr hawlwr hynny, bit yn y dewis, ae etfryt y da drachefyn y'r amddiffynnwr a holi y da pan fynno; neu o bydd gwell ganthaw, catwet y da gyt ac ef, a thawet mwy. Os gwadu a wna yr hawlwr, mwynhaer gwybyddeit yr amddiffynnwr. Os yr hawlwr a ddyweit:

<sup>709</sup> o – llsg, - Llan 121, + Pen 164.

<sup>710</sup> cyg cygheussaeth llsg.

<sup>711</sup> orei llsg.

<sup>712</sup> + y dodaf i llsg.

‘Dioer, y da a ddywedy di arnaf i y ddwyn yn angcyfarch heb dy ganyat gennyt, ti a deleist y my hwnnw am dda a ddylywn yt; ac os gwedy, mae ym digaw[n] a’e gwyr; ac ar y cyfreith y dodaf i, na ddlyir talu gwrth-hawl ym am fy hawl.’ O gwatta yr amddiffynnwr hynny, mwynhaer gwybyddyeit yr hawlwr; onys gwatta, atferer yr hawlwr y da drachefyn. Os ef a ddyweit yr amddiffynnwr a thystu y’r ynat ac<sup>713</sup> y’r gwyrda na wadws yr hawlwr gychwyn y da yn angcyfreithyawl y gantaw, mal y dywedassei arnaw, a mynny mwynyant o hwnnw, ac erchi brawt. A dywedut ohonaw ynteu: ‘Dyoer’, heb ef, ‘nyt rheit gwat tros waessaf; [t. 173] arddelw cyfreithyawl y sydd gennyf i, yn orsafedic ynghyfreith; sef yw hwnnw, y da a ddywedaist ti arnaf y ddwyn y arnat yn angcyfreithyawl, pan y dywedeis ynneu may da a deleist ym am ddlyet arall oedd hwnnw; ac ar y gyfreith y dodaf, yny ballo ym fy arddelw, nat rheit y minneu wadu y peth ydd wyf yn y arddelw ac yn waessaf iddaw.’ Os ef a ddewis yr amddiffynnwr barnu brawt iddaw wrth yr arddelw<sup>714</sup> a wnaeth yr hawlwr, am na wadwyt yr hynn a ddywetpwyt arnaw ef, yawn yw barnu brawt iddaw. Sef a ddyweit y cyfreith, nat attep cyfreithyawl onyt un o dri: ae gwadu, ae addef, ae arddelw cyfreithyawl; sef yw yr arddelw cyfreithyol: gorssaf cyfreithyawl; sef yw gorssaf cyfreithyawl,<sup>715</sup> yw peth a drosso cyfreith y wrth y peth y bydder yn ymddywedut amdanaw, ac a ddyco peth arall a fo cystal ac ef, neu a fo gwell, fal y bo rheit<sup>716</sup> annot<sup>717</sup> cyfreith wrthaw, neu wrth dystyolaeth arnaw. Ac wrth hynny y gelwir arddelw yn orssaf; canys gorsefyll a wna y cyfreith yn[a] pann oeter hi, neu pan ddycer hi y wrth beth ar beth arall; ac am hynny, nyt rheit gwat tros waessaf; ac am hynny, yawn yw gorthrymu yr amddiffynnwr a gadu tystyon yr hawlwr. A llyna gyngheussaeth am dda ny aller y welet yn gynyrchawl.

§1044.O derfydd y ddyn ynteu welet y da yn gynyrchawl, gwedy y dycer yn angcyfarch, yawn yw iddaw ddyfot uch benn y da, a thyngu may ef oedd

<sup>713</sup> y’r . . . ac – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

<sup>714</sup> + a wnaeth yr arddelw llsg.

<sup>715</sup> sef . . . cyfreithyawl – llsg., + Llan 121.

<sup>716</sup> rheith llsg.

<sup>717</sup> annot llsg.

berchennoc<sup>718</sup> arnaw pan y duc y dyn y ganthaw; ac o bydd ac amheuo hynny, bot yddaw digawn a'e gwyr may ef oedd berchennoc ar y da; a dywedyt dwyn y da y gantaw yn gam ac yn angcyfreithyawl, a bot iddaw braw ar y ddwyn; ac y dyly y da hwnnw ddyfot attaw drachefyn [t. 174] yn y breint y bu gynt, a'e fot ynteu yn profi fot yn wir a ddyweit yr amddiffynnwr. 'Dyoer', heb ef 'ny ddylyaf i dy atdeb di am yr hawl honno, canys deu arddelw y [s]ydd gennyt, ceitweit, a gwybyddyeit; ac na ddlyaf atdeb<sup>719</sup> namyn y'r neill.' Dywedet yr hawlwr yna: 'Dyoer', heb ef, 'deubeth wir a ddywedeis i; bot yn feu y da a'y dwyn y gennyf ohonot; ac ar hynny mi a ddodeis deu gadernyt, ceitweit a gwybyddyeit, lle mofynnit amdanaddunt; os ti a addef bot yn wir a ddywedais i, nyt rheit ym wrth yr un ohonunt; os titheu a'e gwatta, mi a roddaf ar y gyfreith, y dlyaf finneu fyng cedernyt y brofi y ddeu hynny.' Cyfreith a ddyweit, pa le bynnac y bydd rheit dywedut achwysion yn y gyfreith a'e defnydd, bot yn rheit profi yr achwysion fal y defnydd, neu nyt cyfreithyawl yddaw ynteu bot yn eiddaw yr echaws cyfreithyawl. 'Nyt oedd cyfreithyawl dwyn y da y gennyf yn angcyfarch; wrth hynny yr addawaf i geitweit y fot y da yn feu pan y ducpwynt cennyf, a gwybyddieit y brofi y ddwyn.' O gwada yr amddiffynnwr, a gwadu yr angcyfarch, mwynhaer praw yr hawlwr. Os addef a wna, atferer y da drachefen. Os ef a ddyweit yr amddiffynnwr: 'Dioer', heb ef, 'geni a meithrin yw gennyf yr anifeil hwnn, ac arddelw o geitweit cyfreithyawl, ac yr pan anet nyt aeth y ar fymperchenogaeth hyt heddiw; ac y may digawn a'e gwyr bot yn wir a ddywedaf. 'Dyoer', heb yr hawlwr, 'cynt yr eddeweis fym praw noc y dywedaist hynny, ac am hynny y mynnaf i fwynhau yn gyntaf fyng cadernyt, a llyma wynt yn y maes; ac am hynny, mi a fynnaf y mwynhau o'r blaen'. 'Dyoer', heb yr amddiffynnwr, 'yn gwarchadw y meu ydd wyf i; ac ar y gyfreith y rhoddaf i, fot yn yawnach y mi gadw y meu drwy geitweit deddfawl, noc y ti yn waglaw profi dwyn y meu [t. 175] drwy wybyddyeit dilusc y arnaf. 'Dyoer', heb yr hawlwr, 'praw a eddeweis<sup>720</sup> i yn lle ydd oedd cyfreithyawl ym eu haddaw; ac y gyfreith [y dodaf] y yn y addeweis i praw cyfreithyawl yn gyntaf,

<sup>718</sup> Ychwanegwyd y llythyren 'c' uwchben y gair gyda marc *caret*.

<sup>719</sup> di . . . atdeb – llsgr., + Llan 121.

<sup>720</sup> Ychwanegwyd y llythrennau 'w' ac 'e' uwchben y gair gyda marc *caret*.

cynn atdeb ohonot ti, nac addef, na gwadu, dylu<sup>721</sup> ohonof inneu eu mwynhau yn gyntaf. Cyfreith a ddyweit, yn y addawo deu ddyn deu braw, un cyfreithiawl ac un anghyfreithyawl, cet addawer yr angcyfreithyawl yn y blaen, may y cyfreithyawl y sydd oreu ac yawnaf y fwynhau o'r blaen, o bydd y defnyddyeu yn y maes; ac ony bydd, mwynhaer y rhei a fo: canyt yawn annot parotrwydd wrth amarotrwydd. Cyfreithyawl oedd hagen pob un o'r ddeu braw hynny; ac eissoes, yr arddelw cyfreithyawl a wnaeth yr amddiffynnwr, a beris y'r hawlwr bot yn rheit iddaw wadu; ac yna ydd ymchwelawdd y praw gan yr hawlwr yn eiddaw yr amddiffynnwr. A honno<sup>722</sup> a elwir cyfreith atcas: sef yw cyfreith atcas, pa le bynnac y dyco yr amddiffynnwr gan yr hawlwr y praw; cystal yw hynny ac ymchwelut y gyfreith yn y gwrthwyneb, ac am hynny atcas y gelwir hi.

§1045. O derfydd y ddyn holi peth o angcyfarch y arall, a galw am y da y'w warchadw o rym y gwyn drachefyn; ac o bei a amheuei dwyn y da yn anghyfarch, ef a'e profei; yna mae yn rheit y'r amddiffynnwr wat, neu addef, neu arddelw cyfreithyawl. Os gwadu a wna ef, gatter y braw y'r hawlwr. Os ef a ddyweit yr amddiffynnwr: 'Dyoer', heb ef, 'ny ddlyaf i dy atdeb di am yr hawl honno, echaws yw, y da a ddywedy di arnaf i y dwyn yn angcyfarch, dy fodd di a'th ganyat a gefais y'w dwyn; ac y may ym ddigawn a'e gwyr y fot yn wir; ac ar gyfreith y dodaf i, y da a gychwynneis i gan [t. 176] dy fodd a'th ganyat, na ddily hwnnw ymchwelut y'th warchadw drachefyn, onyt gan fy modd inneu; ac y may digawn a'e gwyr fot yn wir a ddywedeis oll.' Os gwadu a wna yr hawlwr, gatter y braw y'r amddiffynnwr; o ffynna y braw, triget y da ganthaw; ony ffynna, atferer y da drachefyn y'r hawlwr.

§1046. Os ef a ddyweit yr hawlwr: 'Y'r yneit a'e wyrda y tystaf daly ohonot ti arwaessaf ohonof i o fot y modd am canyat y gychwyn y da hwnn; ac ar y gyfreith y dodaf i, fy mot yn wr dewis, ae mi a safwyf yt, ae ny safwyf yn arddelw; ac ar y cyfreith y dodaf i, na ddily tyst arwaessaf ar dystyolaeth a

---

<sup>721</sup> dilyn llsg.

<sup>722</sup> + a honno llsg.



ddywedi di y bot yn anolo; a chan wyf i gwr dewis, mi a ddewissaf ballu yt; a moes fy na attaf drachefyn, a llyma fi yn gofyn brawt yr ynat.' Os tewi a wna yr amddiffynwr, yna barner y da drachefyn ar y breint y bu gynt; a bot yn anolo y dystyolaeth a ddywetpwyf yn y herbyn. Os ef a ddyweit yr amddiffynnwr: 'Y dodaf i ympen yr ynat a'e wyrda, na roddeis i ynot na choll na chaffael, nac etfryt, nac addaw ohonof i dydi yn arwaessaf ym; eithyr gyrru ohonof arnat, bei drwc, bei da gennyf, bot dy fodd di a'th ganyat y gychwyn y da;<sup>723</sup> a minneu a roddaf ar y gyfreith, le na henwyf i dydi yn arwaessaf, nat wyt arwaessaf ditheu; a chanyt wyt, erchi ydd wyf mwynhau fympraw, canys cyfreithyawf fy arddelw; a galw am frawt ydd wyf ar yr ynat.' Ac yna y may yawn y'r ynat a'r gwyrda mynet ar neilltu y gymryt eu cof, y edrych a henwis ef yr hawlwr yn arwaessaf, neu nis henwis; onys henwis, barner iddaw fwynhau y wybyddeit, ar fot y fodd a'y ganyat y gychwyn y da; o ffynna iddaw, barner y warchadw heb garddychwel arnaw. Rhei o'r yneit a ddyweit am y rhyw ddadleu a [t. 177] hwnnw: pa le bynnac y dalio ddlyn arddelw o arall, ony seif y arddelw iddaw o'e fod[d], na ddlyir mwynhau na thystyolaeth na phraw yn y erbyn; namyn gadu iddaw [wadu] a dotter yn y benn, neu ynteu gadu iddaw<sup>724</sup> y addef o'e fodd. Y gyfreith hagen a ddyweit, pa arddelw bynnac y dotter colli neu gaffel yn y benn, megys<sup>725</sup> mach, neu dyst, neu amodwr, neu orfodoc, neu dyllwedd,<sup>726</sup> neu arwayssaf y'w gadw rhac drwc, neu arddelw a gymero ddrwc o'e law, neu reith a mynet yn rhydd ohonaw ynteu o'r drwc a yrer arnaw, neu geitweit lle dylyo ceitweit fot; cyt pallo y rhyw wyr hynny oll, ny ddylyir arnaddunt namyn gadu iddunt wadu a ddotter arnunt; ac wrth hynny, pob arddelw arall y gyrrer peth arall<sup>727</sup> arnaw, mal hynn yma, bot bodd a channyat y'r hawlwr y gychwyn y da y may yn y holi; ef a ellir y brofi os gwatta drwy wybyddeit deddfawl.

<sup>723</sup> y da – llsg., + Llan 121.

<sup>724</sup> a . . . iddaw – llsg., + Llan 121.

<sup>725</sup> megys – llsg., + Llan 121.

<sup>726</sup> dyllwuedd llsg.

<sup>727</sup> y . . . arall – llsg., + Llan 121.



[Llysu]

§1047. Sef mal y llyssir gwybyddyeit o deir ffordd: o alanastra, a gwreictra, a thirdra: sef rhyw alanastra fydd, galanastra o eryoet heb wneuthur yawn amdanaw, a'r arglwydd a'r orsedd a ddlyant ddwyn tystiolaeth, yna o rhoir yn y penn, rhoi y llyssyant honn ar ddyn o arall; a gwreictra pan fo y dystiolaeth, nyt amgen no ddwyn y wreic y dreis ac arfer ohonei, o byd gynt ac yna heb dim lyssyant a cherennydd nes galler<sup>728</sup> y phrofi drwy gyt garant; a tirdra, sef yw hynny, bot dadleu am dir rhwng y gwybyddyeit a'r hawlwr, nyt amgen, no'e fot yn attal tir yr amddiffynwr yn angcyfreithyawl, a chwynaw ohonaw ynteu wrth arglwydd cynn y dystiolaeth rhacddaw, a rhoi'r arddelw yn y benn: a Chymro ar alltut, nac alltut ar Gymro; a hefyt may mwy, medd rhei o'r yneit da: dyn a dorro y broffes, mal creddyfwr neu llwfy[r] cynefodic; neu a dyngo [t. 178] anudon cyhoeddoc yn dyst: a llyna y tri dyn nyt geir eu geir o gyfreith.

§1048. Nyt oes lys ar geitwat am y bo breinyawl ef, neu welet ohonaw a gatwo, neu y fot yn addfwyn; sef yw hynny, na bo alltut, a thi a geffy obry mal y profir pob un o hynny; neu o bydd un o'r tri dyn nyt geir eu geir; neu wreic ar wr, ny eill fot yn geitwat; . . . nac ef e hun a gychwynno y wrth arglwydd nac arall, ac yn rheit fydd y neill ae addef ae gwat; canyt oes ar . . . w . . . y neb y gychwyn dim yn anghyf[reithyawl] . . . , nac y dorri croes.

[Tir a daear]

§1049. O bydd dadleu am dir a daear rhwng deu ddyn, deuet un ar yr arglwydd ac archet yr Duw yr arglwydd y wrandaw, a dywedet y fot yn ddyledawc ar dir a daear yn lle a'r lle, a bot hwnn a hwnn y adwyn y dlyet y arnaw; ac erchi yawnder y'r arglwydd a pheri iddaw y dlyet. Paret yr arglwydd ddydd yna iddaw y'w wrandaw, a dyfynnet yr amddiffynwr y'r lle. Messuret yr hawlwr yna y hawl, a chyffroet hi rhac bron. Os yr amddiffynwr a ddyweit: 'Hawl ddisyfyt yw honn, ac erchi oet ydd wyf;' nys dyly, canyt arddelw cyfreithyawl

yw hwnnw. O dyweit ynteu: ‘Nyt oes borth gyt a myfi na ddefnyddyeu;’ ac erchi oet wrth borth a’e ddefnyddyeu, ef a ddyly o gyfreith. Yr ynat yna hagen ddyly gofyn iddaw: ‘Pa le mae dy borth?’ Os rhwng llys a llan, naw dieu y atdeb, a naw y roddi mach ar g[wystyl], a naw dieu y roddi gwir o hawl disyfyf. Os hawl yn un gantref, tri dieu y roddi atdeb, a thri y roddi gwir, a thri i roddi mach. Os yn y cantref nessaf, .v. i roddi atdeb, a .v. dieu y roddi mach, a phump y roddi gwir. Os yn y trydydd cantref,<sup>729</sup> naw dieu y roddi atdeb, a naw y roddi mach, a naw dieu gwir. Os wedy hanner dydd [t. 179] fydd hynny, pythefnos o drannoeth, am na dylir cyfri hanner dydd yn lle dydd cwbyl; ac yna bot ar y tir, ac ef a’e borth a’r llall, eithyr na ddyly neb eiste yn gyfreith<sup>730</sup> ar ddie<sup>731</sup> Sul na die Llun.<sup>732</sup>

§1050. [G]wedy deler yna ar y tir gwnaet yr ynat yna ddwy bleit, pleit yr hawlwr a phleit yr amddiffynnwr, ac eistedder yn gyfreith gynnyrchawl. A llyma pa ddelw hynny: pleit yr arglwydd, neu neb a fo yn y le, a’e gefyn ar yr heul neu ar yr hin, rhac y bot o’e wyneb; a’r ynat llys rhac y fron; a henafyeit y cymwt a’e goreugwyr, deu<sup>733</sup> *pan* fo lleiaf, o bob tu y’r arglwydd; ac ynat y [t. 180] cymwt o’r neilltu y’r ynat llys; a’r ynat a fo yn y maes o’r parth arall; a’r effeiryat ar y llaw ddeheu y’r ynat: fal y bo seith nyn ympleit yr arglwydd yn gyntaf; a rhingyll rhac bron yr ynat yn peri gostec yn y maes. Ac odd yna ffordd y’r yneit cyfarwyneb y fynet y’w brawdle.<sup>734</sup> Cyngaws yr hawlwr ar y llaw assw yn nessaf y’r ffordd, a’r hawlwr yn nessaf iddaw o’r parth arall, a’e ganllaw o’r tu draw y’r hawlwr[r]. Cyngaws yr amddiffynnwr ar y llaw ddeheu y nessaf y’r ffordd, a’r amddiffynnwr rhyngthaw a’e ganllaw, fal yr ymglywoent yn dywedut. A[c] wynt a ddylyant bob un yn ofyn y le y’r ynat cynn eistedd, ac nyt [oes] godor y’r neb a nessao ar ynat yn nessaf a gallo y ymwrando ac ef.

<sup>728</sup> + nes galler llsg.

<sup>729</sup> + cantref llsg.

<sup>730</sup> gyfreith – llsg, - Llan 121, + Pen 164.

<sup>731</sup> duw Pen 164.

<sup>732</sup> duw Pen 164.

<sup>733</sup> Cynigir amlinelliad o ddiagram o eisteddiad y llys fel sydd yn Llan 121 (ond nid yn H): atgynhyrchir y diagram ar ddiwedd y testun.

<sup>734</sup> frawdle llsg.

Rhodder yna dyluedd yn y maes; sef yw, teir byw neu naw ugeint, ac yn anolo y geir a ddywetter.

§1051. Ac yna y may yawn y'r ynat ofyn y'r hawlwr a seif ef yn y hawl; ac yna dywedet ynteu: 'Safaf.' Ac yna y may yawn y'r ynat ofyn y'r amddiffynwr a saif ynteu yn y amddiffyn, dywedet ynteu: 'Safaf.' Gofynnet yr ynat iddunt y bob un o'r neilltu a fynnant gyfreith: 'Myn~~n~~wn,' heb wynt. Gofynnent yr ynat yna y'r arglwydd: 'A edy ditheu gyfreith rhyngthunt?' 'Gadaf', heb ef. Ac o hynny allan y may y gyfreith y meddiant yr ynat. Yna gofynnet yr ynat: 'Pwy a ddyweit trossot ti yr hawlwr? A phwy dy gyngaws, a phwy dy ganllaw?' Dywedet yna pwy. Gofynner yna y'r cyngaws a gymer arnaw fot drostaw colli caffel yn yr hawl honn a dywedut: 'Cymeraf', heb ef, 'yn oet y dydd heddiw'. Gofynner y'r canllaw felly hefyt. Gofynnet yr ynat yna y gyngaws yr amddiffynwr a gymer arnaw sefyll y golli cael yr mae yr amddiffynwr y rodidi yn y benn. 'Cymeraf', heb [t. 181] ef, 'heddiw'. Gofynner felly y'r canllaw, a dywedet ynteu: 'Safaf, heb ef 'heddiw'.<sup>735</sup> Ac yna<sup>736</sup> y may yawn y'r arglwydd, herwydd rhei, erchi rhoddi meichieu ar y gyfreith; ereill a ddyweit may cyngaws yr hawlwr a ddyly erchi meichieu ar gyfreith. Ac yna dywedet cyngaws yr amddiffyn~~w~~r, na ddyly rodidi mach yny glywo fessur y hawl, cany wyr ar ba beth y rhoddo, nac ar ba gyfreith y tricer arnei, a hynny a ddylyir o gyfraith.<sup>737</sup> Yna heb yr ynat: 'Ymddywedwch.' Sef a ddylyant wybot pa ddelw a geir, tra geir, ae pob eilwers. Ac yna dywedet yr hawlwr y hawl ae briodolder; ae o ach ac etrif a phriodolder; ae hawl dadanudd; ae hawl ymwrthryn; ae hawl famwys; ae hawl derfyn; ae hawl rann; ae hawl atran; ae hawl orffen ran; ae hawl gyhyt. Ac yna y may yawn rhoddi meichyeu ar y gyfreith; sef meichyeu a ddylyir y cymryt, priodoryon un freint a'r ddwy bleit. A rhai hynny a ddyly brenin eu diogelu drwy garchar, neu orfodogaeth, yny derfyner yr hawl, ac yna y rhyddhau; ac os wynt a ffoant o'r wlat nyt oes nawdd iddunt nac yn llys, nac

<sup>735</sup> gofynner . . . heddiw – llsg., + Llan 121.

<sup>736</sup> yna – llsg., + Llan 121.

<sup>737</sup> y . . . gyfraith – llsg., + Llan 121.

yn llanz, rhac y brenin.<sup>738</sup> Os un o'r pleidieu a geis oet am roi i meicheu, nyt oes oet iddaw o cyfreith, yn y trydydd dadleu y terfynir y ddadyl honn. Sef meint a ddylyir eu cymryt: deu neu dri. Sef paham y cymerir y meichieu: rhac dyfot tlawt diatlam y holi tir, ac y flinaw pleit a gorsedd, a phan fynno tynnu y benn ymeith o'r wlat heb gael yawn y ganthaw; ac eilchwyl gwneuthur yr un rhyw.

§1052. Gwedy darffo uddunt y gynghawsseth drwy arch yr ynat, gofynnet yr ynat iddunt ae digawn a ddywedassant, ac ymw[r]andawet yn graff ac wynt, a dywedent wynteu yn fynych yr un peth mal y clywo yr ynat a'r gwyrda eu cyngheussaeth. Gofynnet yr ynat [t. 182] iddunt deirgwaith hyt ympenn teirgweith, ac yawn fydd a fynnant wellau eu cyngheussaeth; ac os mynnant, gatter iddun. Cymeret yr ynat y ddwy gynghheussaeth a datcanet wynt yn llwyr ger bron. Ac wedy ys datcano, aet ef a'r yneit y'w brawtle, a'r effeiryat, a rhingyll gyt ac wynt eu cadw o'e hymyl rhac dyfot neb attunt, ac nac aet neb<sup>739</sup> y'r cyngor, ac o daw neb attunt ac wynt yn y cyngor rhoddet teir buw camlwrw. Gwedi yr eisteddent yn y cyngor, galwet yr effeiryat ar Dduw y ddangos yawn, a dywedet y bader; ac nac aent y'r cyngor yn rhy bell y wrth yr orsedd. Datcanet yr ynat yna y ddwy gynghheussaeth eilwaith; ac o derfydd bot yn rheit geir cyfarch, gollynger deu y gyfarch; ac o bydd rheit y'r bleit y gofynner y geir cyfarch iddi wrth gyngor, aent yn y cyngor drwy ganyat yr ynat. Sef y dlyant fynet: y nifer y buant yn y gynghheussaeth, heb a fo mwy, a rhingyll gyt ac wynt; ac o daw neb attunt y roi cyngor<sup>740</sup> iddunt, talet camlwrw y'r arglwydd a bit anolo y gyngor. Gwedy darfot y cyngor, doet y deu a aeth y gyfarch ar yr yneit a datcanet uddunt eu cyfarch.

§1053. O derfydd na bo rheit geir cyfarch, yawn yw gadu y bawb y arddelw; sef yw y arddelw, y wybyddyeit a'e geitweit; ac yna gyrret yr ynat deu y ofyn pa le mae y wybyddyeit a'e geitweit. O dywedant eu bot yn y maes, mwynhaer wynt. Os yn

---

<sup>738</sup> brenint llsg.

<sup>739</sup> ef Llan 121, ef Pen 164.

<sup>740</sup> Ychwanegwyd y gair ar ymyl y ddalen gan Robert Vaughan.

un cymwt ac ef, oet tri dieu a geiff. Os yn yr eil, naw dieu. Os yngwlat arall, oet pythefnos o'r dydd hwnnw, os y bore cynn hanner dydd fydd. A'r dydd hwnnw yn dydd colli caffael iddaw, [t. 183] ac erchi yna y bob un ddyfot a'e defnyddyeu y'r lle ganthaw.

[Ynad]

§1054. Ny ellir cyngheussaeth ar eir cyfarch yn y dydd hwnnw colli caffael am ddadyl tir a daear, nyt enuyt<sup>741</sup> y gyfreith wrth neb ryw arddelw, neb namyn a fo ganthaw yn y maes, onyt na ddel cof y'r ynat roddi brawt; ac os amheuir ef nas gwir, nyt oes namyn y lw e hun nas gwyr; ac yna y ceiff naw dieu y ymgoffau ac ymddiddan ac ereill, ac yna datcanu y frawt a<sup>742</sup> lesteir . . . yr oet o'e farw, ae o dre . . . ae o dyngetfen drwc bit yr ymddiffynwr yn y meddyant.

§1055. O derfydd y ynat, wedy darfo y hawlwr y holi peth gar y fron, tremygu yr amddiffynwr yn gam, ac felly pan ddel y dyn y fodd y brenin, profi yr achwyssyon cyfreithyawl drostaw y omedd y gwys, a chadarnhau o'r ynat y frawt a farnwys, a gadaw yr hawlwr yn y meddyant. 'Dyoer', heb yr amddiffynwr, 'llyma gwystyl yth erbyn may cam frawt a ferneist, ac y dilyaf brofi esgussodyon cyfreithyawl os gallaf.'<sup>743</sup> Sef a farn y cyfreith yna: bot yn yawn y may yn cynnic y gwystyl, ac y dlyir y dosparth drwy wrthwystyl<sup>744</sup> os yr ynat a'e cymer; onys cymer, cam yw.

§1056. O derfydd ynat barnu camfrawt ac eiste yn y fraw[t]le, a dyfot o hawlwr neu amddiffynwr ac ymwystlaw ac ef. 'Dyoer, heb ef, 'my af y'm cyngor y edrych peth a wnelwyf, ae cymryt dy wystyl, ae nas cymerwyf. 'Dyoer', heb y llall, 'ny ddylyy di cymryt cyngor am hynny, canys y frawt a ferneist di drwy gyngor y berneist; ac ny cheffi yr eil cyngor, eithyr y neill ae gwystyl dilusc y'm erbyn ae peidiaw.' Sef a farn cyfreith, fot yn wir hynny, onyt aeth yr ynat o'e le, a bot yn

---

<sup>741</sup> enuyt llsg.

<sup>742</sup> a llsg.

<sup>743</sup> + gallaf llsg.

<sup>744</sup> ac . . . wrthwystyl – llsg., + Llan 121.

rheit iddaw ae cadarnhau y frawt [t. 184] drwy wrth wystyl, ae addef rhoddi cam frawt, a chymryt y gosp a farn cyfreith arnaw.

§1057. Messur gobyr ynat am dir, xx<sup>c</sup>; ac o hynny, rhann deuwr y'r ynat llys.

§1058. O derfydd y ynat barnu da y ddyn, dwyn atafel y da a ddichawn y dyn, a chymryt rhingyll gyt ac ef y'w dwyn, lle ny bo mach arnaw, ac y gymell y da os lluddir.

§1059. Y neb a addawo wneuthu[r] cyfreith ac arall rhac bron ynat, tyster arnaw y addaw, a galwet am fach ar gyfreith; ac ny cheiff gilyaw wedy hymny, dilyet ar bawb a addawo o cyfreith.

#### Am dystyolaeth ynad<sup>745</sup>

§1060. Gorsedd cyfreithyawl yw lle bo ynat am fechniaeth a gwarchay, os cyrchir ef; a brawt y hon a roddo yno mal yn y dadleu yngwydd gwlat; a'r neb a ddifarner rhac y fron difarnedic fydd o'e hawl. Creir a ddyly fot ganthaw yn wastat, rhac bot gwellic arnaw.

§1061. Ceissyaw gwneuthur yn dda a ddyly rhwng y ddwy bleit, ac onys dichawn barnu rhyngthunt: machniaeth, a gwarchay, a chyfaredic,<sup>746</sup> a theithi pob llwdyn a eill ef y dosparth; ony bydd cwyn un rhac y llall, deuer yn yr orsedd.

§1062. Cyngaws a ymwystlo ac ynat, os difernir, ny ddyly fyth wedy ymwystlaw ac ynat.

§1063. [Y]nat a eill bot yn frawdwr, ac yn dyst, ar yr hynn a dystyr iddaw yn y frawtle; ac ny eill fot yn dyst, nac yn wybyddiat, nac yn geitwat, ar ddim o'r a weles

---

<sup>745</sup> Ychwanegwyd hyn mewn pensil.

<sup>746</sup> cyfare dri llsgr.

cynn no hynny, pan el y'w frawtle a thra fo yno, cyn cadeiryaw pleidieu e gyt, onyt o'e fot yn frawdwr ar y dadleu hwnnw.

§1064.O derfydd y ynat bot yn angyffredin ymplith yneit ereill yn barnu brawt, a gwrthnebu o arall iddaw, a dywedut y fot yn angyffredin; yawn y'r yneit ereill cyffredin edryt pwy yawnaf onaddut, a'r ancyffredinaf, a'r camaf y yrru o'r frawt ymeith.

§1065.O derfydd y un o'r dynyon bieuffo y dadleu [t. 185] tebygu bot ynat yn ancyffredin, a'e lyssu o hynny, a doddi o'r ynat ympenn y cyt yneit a'r gwyrda y fot yn wirion ef; ny ddlyir y yrru o'r frawt, ac nyt llys arnaw onys parant wy.

§1066.Cyntaf dim y . . . y ffyrdd y gwahenir a dyn y dda gways . . .

§1067.Pwy bynnac a fynno lyssu ynat, llysset cynn cadeiryaw y pleidieu o'r ynat, ac ymgredu amdanaddunt; ac onys llyssa yna, ny eill y llyssu am a wnaeth eiryoet hyt yna, na chynn no hynny o gam.

§1068.Nyt oes lys ar ynat eithyr am a wnel o'r pan el y'r dadleu yny el ohonaw ymeith; sef yw hynny, rhoddi dysc y un o'r pleidieu wedy dyfot y'r maes; neu nteu gymryt gobyr a gwerth ohonaw gynt yn y dadleu hwnnw; neu y fot yn gyngaws gynt yn y dadleu hwnnw, ac yna yn ynat yn y dadleu, am hynny os tybir nyt oes eithyr y lw e hun y'w wadu; neu ot ymwystlwyt ac ef gynt a gorfot arnaw brynu y dafawt a'e ddifarnu ar gyhoedd, drwy wybyddyeit neu drwy yr arglwydd y gellir profi hynny; neu o fot yn llei no phum mlwydd ar ugeint, cany ddaw baryf arnaw hyt yna ac nat yawn gwneuthur ynat heb faryf, na bydd gwr neb yny ddel baryf arnaw, canyt tec gwelet gwas ieuanc yn barnu ar henafyeit gwlat; neu onyt ystyn yr arglwydd y swydd yddaw gwedy y brofi o'r ynat llys ar yneit ereill, canys ef yw y penngogyfarch,<sup>747</sup> a gwybot ohonaw gwbyl<sup>748</sup> a berthyno y ynat y wybot.

---

<sup>747</sup> penngogyfarchfa llsgr.

<sup>748</sup> gwybyl llsgr.

§1069. O derfydd y ynat oedi brawt, ae am na chaffei fach ar y obyr, ae am nas delei cof iddaw hyt y dlyei; ac yna dyfot y'r lle ac erchi iddaw o'r arglwydd roddi brawt; ac yna nas gwypei, ef a ddyly yna fot naw ugeint o gamlwrw arnaw, a dwyn y swydd y arnaw. Ny ddyly ef y hoedi eithyr drwy roddi [t. 186] lw nas daw cof iddaw, ynteu a eill roddi y fraŵt y'r neb a fo ufydd y roddi mach, cany ddyly ef, nys gwnel. Oet ix. dieu a geiff, o rydd y lw nas gwyr, y ymgoffau am y frawt. Ny ddyly ynat oet hagen y ymgoffau am y frawt yn dydd colli<sup>749</sup> caffael.

§1070. O derfydd y ddyn rhac bron ynat cynghusaeth, a dywedut o'r neill ohonu[nt] geir colledic drwc drostaw, a thystu o'r llall y wyrda yn y maes, hynny heb dystu y'r ynat, anolo yw y dystyolaeth honno; cany ddyly yr un o'r ddwy bleit yn y lle ddywedut dim nyt ymynwynt mwynyant ohonaw, a nys clywo yr ynat; ac ny ddylir tystu rhac bron neb, yny dystyer iddaw yn gyntaf; ac am hynny, y may anolo y dystyolaeth, ny thyster iddaw.

§1071. O derfydd y ddyn cynghusaeth rhac bron ynat a'r gwyrda, a phan geissyo fwynyant o'r dystyolaeth honno, gwadu o'r ynat nas gogleu ef y dystyolaeth, yna y dily y dyn dwyn creiryau attaw; ac onys cwbyl watta yr ynat y creiryau, byt safedic y dystyolaeth; ac os gwatta, nyt tystyolaeth ny chlywo ynat.

§1072. O derfydd y ddyn cynghussaeth rhac bron ynat ac arall, a dywedut o'r llall: 'Cwbyl wat yw gennyf i a yrry arnaf;' ac yna tystu o'r llall na wadws yn cyfreithyawl. Cyfreith a ddyweit fot digawn a ddywawt, ac nat anolo yw y dystyolaeth honno, canys hi a saif.

§1073. O derfydd y ddyn tystu peth rhac bron ynat a gwyrda, a bot rhei o'r yneit yn tystu clybot hynny, a'r gwyrda heb glybot; nyt tystyolaeth honno eithyr un anolo, can pallus y arddelw, o dystyaw y yneit a gwyrda, a'r gwyrda heb glybot.<sup>750</sup> O seif y gwyrda ac un o yneit iddaw hagen cwbyl yw hynny, ony rydd

---

<sup>749</sup> + colli llgr.

<sup>750</sup> glybot – llgr., + Llan 121.



arddelw o dystyolaethu y yneit a gwyrda, canyt [t. 187] yawn galw yneit o un ynat.

§1074. O derfydd ceissyaw llyssu ynat am fot yn angyffredin y farnu brawt, ny ddaw arnaw<sup>751</sup> eithyr y lw e hu[n] na bu; y ddeu ereill, bot yn gyngaws gynt yn y dadleu hwnnw; neu gymryt gobyr a gwerth: ef a ellir eu profi y ddeu hynny drwy wybyddyeit, ac o dichawn yr ynat y'w ddifwynaw, difwynet.

§1075. Pob amddiffynnwr a ddyly oet o cyfreith am ateb y hawlwr y dydd cyntaf y geilw am oet wrth borth a defnyddieu o[e] ben e hun, cyn cadeiryaw pleidieu a'e r[h]wymaw;<sup>752</sup> canys gwedy y gwnel ef pleidieu cyfreithyawl, ny ddyly un borth; os gwedy rhwymaw pleidieu y geilw am oet, nyt oes yna oet eithyr wrth y arddelw; sef yw hynny, wrth y geitweit, neu y arddelw, neu wybyddyeit, wrth lle boent.

§1076. Pob amddiffynnwr hagen a ddyly oet os gofyn wedy darffo rhwymaw yr hawlwr yn gyntaf, cyn y rwymaw ef, a galw am fenegi messur y hawl ar angcyfreith, a pha gyfreith y trice[r] arney; ac yna ny cheiff yr hawlwr trossi o hynny, ac ef a'i ceiff; ac yna aet yr amddiffynnwr y gyngor, a thricet yr hawlwr yn rhwym, ac wedy hynny deuet yr amddiffynnwr ac ymrwymet ynteu, ac yna bit cynghesuidd.

§1077. Pwy bynnac a fynno ddywedut na ddyly wneuthur cyfreith a'e gilydd, neu nas dichawn, dywedet cyn cadeiryaw pleidieu; ac onys dyweit, anolo fydd iddaw wedy.

§1078. Tri lle ydd a ynat yn dafodyawc: un yw ar frawt a farnws gynt, y ba diw y barnawdd, ot addef y barnu; os gwatta hagen, nyt tafodyawc, ac ny thyng amdanei, cyt amheuer ef. Eil yw pan ymwystlo a dyn yn gyfreithyol am y frawt, ef a fydd yna yn gyngaws; ac yna y dyly yr ynat llys beri ysgrifennu y frawt ef, a

---

<sup>751</sup> + arnaw llsg.

<sup>752</sup> + ae rhwymaw llsg.

hynn a ddywetto y llall yn y erbyn, ac ef a ddyly y llall henwi yr ynat a baro ef, a'r hyn y bo yr ymrysson [t. 188] amdanaw; ac ynteu ny ddyly ymwystlaw ac ef eithyr ar beri ohonaw ef ynat a farno brawt a fo gwell noc a farnws ef, ac ynat gwell; a henwi y frawt a baro ynteu y'w barnu, fal y barner, a'e henwi ynteu. Ac ynat llys yna a fydd brawdwr rhyngthunt, o bydd; yny bydd, rhoddet yr<sup>753</sup> arglwydd un yn y lle: ac ny eill neb ymwystlaw a'r ynat llys yn y lle honno, ac ef a'e gellir eithyr yn y lle honno. O bernir ar ynat roddi cam frawt, prynnet y dafawt y gan yr arglwydd yr cymeint a gwerth yr holl [aelodeu] ereill oll, ac na fit ynat fyth wedi, canyt brawt y frawt a roddo o gyfreith: sef yw gwerth y dafawt, xlii<sup>lib</sup>. Trydydd le ydd a ynat yn gyngaws, am y dda e hun yw holi; ac ny eill ef yna roddi neb drostaw yn ynat, cany ddyly bot yn ynat yn y cymwt onyt ef: arglwydd hagen a ddichawn roddi arall trostaw y farnu, rhac colli y dda ohonaw; ac am hynny, ny ddichawn ynat cymwt fot yn gyngaws eithyr drwy ganyat arglwydd.

§1079. Teir brawt ameu y sydd: un yw bot cyngheussaeth rhwng hawlwr ac amddiffynwr[r] am frawt a farnwyt yna; ameu yw y frawt yny dospartho yr ynat a'e barnws hi, cany eill neb dosparth y frawt a farnws namyn e hun. Eil yw pan fo ymwystlaw rhwng hawlwr a brawdwr am y frawt a farnws y brawdwr; ameu yw frawt yny dosparther. Trydydd ameu brawt pan fy ymwystlaw rhwng amddiffynwr a brawdwr am y farn. Ac am y ddeu ymwystlaw hynny y bydd dosparth ar awdurdawt llythyrawl tryw dafodeu doethyn, canys dileddyf gyffredin fydd awdurdawt<sup>754</sup> llyfreu cyfreith: ac yna y<sup>755</sup> perthyn credu y llyfyr goreu, a llyfyr yr ynat goreu.

§1080. Ny ellir ymwystlaw fyth<sup>756</sup> [t. 189] ac ynat onyt a hwnn a fo datceynyat ar y frawt, a hynny wedy darffo y datcan mal am wybyddyeit wedy etfryt.

<sup>753</sup> Ychwanegwyd y llythyren 'r' uwchben gyda marc caret.

<sup>754</sup> awdurfrawt llgr, awdurvraut Llan 121, awdurdawt Pen 164.

<sup>755</sup> Fe'i hychwanegwyd at y frawddeg gyda marc caret.

<sup>756</sup> + fyth llgr.

§1081.Os ynat a ymwystl ac ynat arall, y neb a ddifarner onaddunt, talet werth y dafawt, can barnws gam frawt.

§1082.Un dyn a enir yn frawdwr: arglwydd.

§1083.Ny ellir ameu brawt eithyr drwy ymwystlaw.

§1084.O derfydd y ddyn holi tir a daear y arall, a difarnu yr amddiffynnwr o'r hawlwr drwy frawt ynat heb gychwyn o'e le, ac [er]chi estyn yr arglwydd ar y dir o'r hawlwr. 'Dyoer', heb yr amddiffynnwr, 'nys dyly, llyma paham: nyt dilis y fra6t a roet, a llyma fy ngwystyl yn erbyn yr ynat, may camfrawt a farnawdd; ac y fo dosparth amdaney nyt dly un estyn o cyfreith, ac ar cyfreith y rhoddaf nas dyly.' Sef a farn cyfreith: yny fo dosparth am y gwystyl a'r gwrthwystyl a dyrchafwyt bot yr amddiffynnwr yn y meddyant, ac na ddyly yr hawlwr estyn: gwir yw, ony wahanwyt y pleidieu a mynet bawb y ffordd; ac o chyfodassant wynteu, nyt rheit y'r ynat gymryt y wystyl.

§1085.O de[r]fydd y ynat roddi brawt, ac danuhunaw<sup>757</sup> o'r yneit ereill ac ef, y neb ohonunt a el yn y erbyn a eill ymwystlaw ac ef, [mal] na bo na pherchennoc hawl, na chyingaws, na chanllaw.

§1086.Nyt oes foddawc yngneiddyaeth; sef yw hynny, ny bydd cynt y fab ynat fot yn ynat noc y arall, ony wybydd a berthyno, ac ony rydd arglwydd y swydd iddaw.

§1087.Llyma pa sawl ffordd y cyll ynat y eneit . . . , .i. yr ymchwel frawt; cas calon; caryat cyfeillyon; ofyn cedyrn; chwant da; or na wyppo well no hynny ac ef yn cymryt arnaw.

§1088.Un o'r tri dyn ny ddylyir gwallaw arnaw eithyr gan y fodd yw ynat; eil, effeiryat; trydydd yw arglwydd: [t. 190] rhac eu meddwi.

§1089. A ddyly pawb cymryt yn lle cyfreith pob peth a ddywetto ynat yn y frawtle? O dyweit ef beth a allo y ddwyn ar awdurdawt cyfraith, ef a ddylir y gymryt yn lle cyfreith; cany allwyt wneuthur cyfreith ar pob peth. Nyt eissieu hagen mewn cyfreith peth a aller y ddwyn ar ddyall, neu ar gyffelybrwydd.

§1090. A ddichawn pob arglwydd yn ol y gilydd wneuthur cyfreith? Nyt cyfreith hi ony gwna gwlat ac arglwydd yn y chadarnhau, a'r Pab hefyd, ac na lycro ar cyfreith Hywel, neu na bo yn y herbyn; canys felly y cadarnhawdd y Pab cyfreith Hywel.

§1091. Ynat a ddyly dysgu yn graff, sef yw hynny, un gair neu un sillaf a symut deall<sup>758</sup> ynghyfreith; gofyn yn ufydd, pahan hynny, gofyn ufudd a wna iddaw ellwng y dyrys; gwrandaw yn llwyr, sef yw hynny, gwarandaw y cyngheusseddeu o bob parth; cadw yn gofyawdyr, sef yw hynny, cadw y ddwy gyngheussaeth y edrych a fo amrafel ynddud wrth anfon geir cyfarch; datcanu yn wâr, sef yw hynny, hynn a ddywedeist di, hynn a ddyweist ditheu oll; barnu yn drugaroc, sef yw hynny, yn hwyraf ac y gallo, a cheissyaw gwneuthur dygymot rhyngthunt, ac onys gallei, barnu yn gyfyawn.

§1092. Teir cyfreith y sydd: cyfreith ny ddylyir y gwrandaw; a chyfreith ny ddylyir y hatteb; a chyfreith ddiannot, sef yw hynny, cyfreith ny ddylir y gwrandaw, lle darffo y amddiffynwr a hawlwr dygymot am hawl wedy ymrwymaw yn cyfreith, canys amot yw hwnnw, a hynny [a dyr] ar cyfreith; cyfreith ny ddylir y hatteb, cyfreith wedy cadeiryaw a dywedut o'r amddiffynwr darfot terfynu honno gynt, ac nat atwna cyfreith a wnel; cyfreith ddiannot, sef yw hynny, cyfreith yn nydd coll caffael, ny ellir annot honno yr neb ryw esgussot.

§1093. Ny ddyly ynat fot yn feddw.

---

<sup>757</sup> danuhunaw llsgr.

<sup>758</sup> duall llsgr.

§1094.[t. 191] Ny ddyly ynat roddi brawt yn rhat, eithyr am dir a daear pan y holer; eil yw pan fo hawl o'r cantref y'r llall; trydydd lle hyt y ceinyoc, o bydd llei, ny cheiff ef ddim, cany cheiff yna eithyr y ddecfet geinyoc; petwerydd lle, am edediw; pumet lle, am dremic; chwechet . . .

§1095.O derfydd bot un o ddwy bleit rhac bron ynat yn anufydd y roddi mach ar y obyr y'r ynat, rhoddet yr ynat y frawt dros yr hwn a fo ufydd; cany ddyly cyfreith nys gwnel.

[Cyngaws a chanllaw]

§1096.O derfydd bot geir cyfarch a gofyn yr hawlwr, neu yr amddiffynnwr, y bwy y may gwarant o'r ddeu barabl, ae y hwnn y gyngaws, a[e] hwnn y canllaw, a phwy a fynno y fwynhau o byddant amrafael; a cheissyaw o'r cyngaws fwynhau y barabyl ef, a cheissyaw o'r canllaw mwynhau y barabyl ynteu; cyfreith a at ynnewis yr hawlwr os drostaw y bydd, neu ynnewis yr amddiffynnwr os y gyngaws neu y ganllaw a ymrafalant.

§1097.O derfydd y gyngaws neu y ganllaw dystu mal hynn: 'Mi a dystyaf y'r ynat na wnaethost<sup>759</sup> hynn, neu na ddywededit gwbyl drossot.' Anolo yw y dystyolaeth honno; canys tystyolaeth a ellir ar eir a gweithret, ac ny ellir ar feddwl; ac nyt oes o hynny eithyr meddwl dyn.

§1098.[O] bydd marw cyngaws neu ganllaw erbyn dydd colli caffel, ef a eill yr ynat roddi ereill yn<sup>760</sup> y lle o'r<sup>761</sup> newydd.

§1099.Ef a eill yr amddiffynnwr, gwedy ymrwymaw y cyfreith, fynet yng cyngor drwy ganyat yr ynat, gwedy datcaner yr hawl iddaw o'r blaen, a gwybot pa cyfreith y tricer arnei. O thric ef yn<sup>762</sup> y lle heb ateb yn rhy hir moglet rhag tystu arnaw,

<sup>759</sup> wnaeth llsg., wnaetost Llan 121, wnaethost Pen 164.

<sup>760</sup> yn – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

<sup>761</sup> oe llsg.

<sup>762</sup> + le hagen yn llsg.

a dywedut addef a deu; ac am hynny, bit barawt, ony cheiff yn y feddwl fynet yn gyngor, nac aet ef ot a bellach noc yr ai yr ynat [t. 192] y'w gyngor.

§1100. Ef a eill y tafodeu cyfodi pan el yr yneit y'w cyngor, a dyfot drachefyn pa deloent.

§1101. Nac aet yr arglwydd o'e le tra fo yr ynat yn y gyngor, rhac y bot yn orsedd dywallt.

§1102. Nyt rheit gwneuthur cyngaws a chanllaw, eithyr am dir a daear a breint.

§1103. Ef a ellir gwneythur cyngaws am bob peth a holer o gyfreith, neu am anifeil a dalo drugeint, neu am werth trugeint, neu am drugeint aryant, neu am alanasau.

§1104. Ny ddichawn clafwr fot yn gyngaws.

§1105. Ny ddichawn crefyddwr a ymroddo y broffes ac [a] ymadawo a'r byt fot, na graddwr eglwys, mal effeiryat; onys llyssa y bleit wynt, ef a eill ynat y llyssu. O mynnir eu llyssu, llysser pan fydder yn cadeiryaw y pleidieu, pan ofynno ynat: 'Pwy dy gyngaws?'

§1106. O rhydd cyngaws arfoll, neu gret, neu fach, nat elei yn erbyn y dadyl hwnn fyth, nac yn erbyn neb a'e cynhalyei, ef a ellir y lyssu drwy brofi yr arfoll.

§1107. Ny eill byddar fot yn gyngaws.

§1108. Arglwydd a eill dros y alltut ymrwymaw yng [cyfraith], a that dros fab llei no xiiii, neu ferch lei no .xii. mlwydd, canys gallant wy o cyfreith, onyt yr arglwydd a drugarha wrthaw.

§1109. Nyt godor ar gyngaws eiste yn agos ar yr ynat.

§1110. Ny ddyly cyngaws adaw y le, ac os gedy, ef a gyll messur y hawl; ny bydd amgen gosp arnaw eithyr drwy ganyat: ef a eill gyfodi ar benn y lin o bydd rheit.

§1111. Tysty et cyngaws fal y clywo yr ynat a'r gwyrda, a galwet teirgweith am frawt, ac onys ceiff, galwet ar yr arglwydd y'w pheri.

§1112. Ny ddyly na chyingaws, na chanllaw, na hawlwr, nac amddiffynwr, nac eiste, na chyfodi, na dywedut, yny ganyatto yr ynat; a thewi a ddylyant dan gosp pan y harcho ef.

§1113. Ot eirch ynat deirgwaith y hawlwr ac amddiffynwr ymddywedut, ac nat [t. 193] ateppe yr amddiffynwr, neu na holo y llall, collasant fessur y hawl; canys addef dros fessur rydeu, a'r hawlwr a ddyly bot yn barawt, ac ny ddyly oet wrth borth wedy yr ymrwymo yng cyfreith os eirch; na'r amddiffynwr.

[Dadlau]

§1114. O derfydd y dydd cyntaf y delit y'r maes a chyffroi yr hawl am dir a daear, a dywedut o'r hawlwr fot hwnnw yn dydd colli caffel: 'Ac os yt amheuo hynn, may ym ddigawn a'e gwyr.' Os yr amddiffynwr a'e gwatta, gater y wybyddeit yr hawlwr. Os yr amddiffynwr a ddyweit: 'Mi a roddaf ympenn yr ynat a'r gwyr da o'r orsedd na bu hawl arnaf eiryoet hyt heddiw am y tir hwnn.' Iawn yw gadu y arddelw iddaw; canys uch y gwybyddeit hynny no'r rhei a ddyweit yr hawlwr.

§1115. O derfydd y'r hawlwr ceissyaw oet wrth borth yn y dydd cyntaf am nat da ganthaw y borth, nys dyly; canys parawt y dyly hawlwr fot, ac am hynny aet yn ddioet o'r maes.

§1116. O derfydd y hawlwr holi tir a daear, a dywedut o'r amddiffynnwr yn attep, bot iddaw o freint na ddylyo attep y dydd hwnnw iddaw; a bot iddaw ddigawn a'e gwyr, yawn yw gadu y arddelw iddaw, o bydd y ceitweit yn y maes; ac ony byddant, ny ddlyir annot parodrwydd wrth amparodrwydd, a chyt na bwynt wynteu yn y maes ny ddylyir oet namyn hyt trannoeth; cany messurws ef y hawl, namyn yw ddiffryt rhac y dydd hwnnw, ony bydd dydd<sup>763</sup> Sul neu ddydd<sup>764</sup> Llun drannoeth[h].

§1117. O derfydd y ddyn holi tir a daear yn dadleu, yn y dydd cyntaf, ac na bai y dadleu ar y tir, ac attep o'r amddiffynnwr y dydd hwnnw; cystal yw hynny a chyt bei ar y tir yr attebei. Os ynteu a ddyweit na ddyly attep onyt ar y tir, ac nat hwnnw y tir y may yr hawl arnaw, ac nat archo oet wrth attep ar y tir yr hynny; iawn yw rhoddi brawt iddaw [t. 194] na ddylyo attep eithyr ar y tir; a chanyt erchis ynteu oet y attep, y fynet ynteu yn ddioet. Os ynteu a eirch oet gyt a dywedut na ddylyo attep eithyr ar y tir; yawn yw iddaw y caffel: sef yw yr oet, trannoeth, ony bydd die Llun drannoeth.<sup>765</sup> Ereill a ddyweit, am yr oedeu ny bo messur cyfreithyawl arnaddunt, fal y rhei hynny, mae yn ewyllys yr ynat y bydd eu gossot, eithyr na allant fot yn hwy noc un dydd a phethefnos, canys hwnnw [yw] yr oet hwyaf<sup>766</sup> o gyfreith.

§1118. O derfydd y ddyn holi tir a daear, ac yn y dydd cyntaf, adaw y maes o'r amddiffynnwr, yawn rhoddi camlwrw arnaw; a'r arglwydd bieu rhoddi oet yn y ewyllys y ddatleu am y tir. Os yn eil oet ydd eddeu y dadleu, camlwrw hefyt arnaw. Os wedy eiste ympleidyeu, a dod coll a chaffael ympen y gyngaws, ydd eddeu y maes, difa[r]ner y[n] dragwyddawl o'e amddiffin. Os yn y trydydd, cynn pleidyaw y maes y hedeu, y ddifarnu yn oes yr arglwydd bieuffo y maes. Os gwedy pleidyaw y maes y hedeu, y ddifarnu yn dragwyddawl; ac am hynny fyth, ym pob dadleu, cadeiryer pleidieu am ddadyl tir a daear o'r pan atteber allan.

---

<sup>763</sup> duw Pen 164.

<sup>764</sup> duw Pen 164.

<sup>765</sup> ony byd duw Sul ne6 duw Llun drannoeth Pen 164.

<sup>766</sup> hynaf llsg., hynaf Llan 121, hwyaf Pen 164.



§1119. O derfydd y ddyn holi tir a daear, a chaffel yawn gan arglwydd amdanaw, a thy a thal am y tir, o gomedd y dadleu o'r amddiffynwr, a galw o'r arglwydd am frawt ar y yneit; am hynny, yawn yw barnu teir buw camlwrw arnaw; ac yn yr eil, os gomedd, camlwrw; ac yn y trydydd, os gomedd, doddi yr hawlwr yn y meddiant: ac yn ir y hawl ynteu pann fynno.

§1120. O derfydd barnu oet ar dir a daear rhwng hawlwr ac<sup>767</sup> amddiffynwr, yawn y bob un bob un ddyfot a'e ddefnyddyeu ar y tir.

§1121. Pwy bynnac a holo tir a daear o ach ac etrif, rheit y henaduryeit y wlat tyngu fot yr ach [t. 195] yn yawn cyn gwrandaŵ y hawl, canyt atfer ny dwng; arglwydd a ddyly cymell arnunt dyngu, ony thyngant o bodd.

§1122. Tri gwybyddyeit y sydd am dir: henaduryeit gwlat a ddlyir eu credu, ac arglwydd y cymell y ddwyn y dyn ar ach ac etrif a dlyet tir a daear. Eil yw aminyogeu tir, sef yw y rhei hynny, gwr o bob rhandir o'r dref yr holer y tir ynnddi y wybod cyfran rhwng cenedyl a charant,<sup>768</sup> ac y cyfarffo terfyneu eu tir a'r tir ymrysonedic. Trydydd, meiri, a chyngelloryon a rhyngyllyeit, lle bo yr ymrysson rhwng dwy dref am derfynu, canys wynt pieu terfynu, onys gwybydd ereill: ny ellir llyssu y gwybyddyeit hynny.

§1123. Goreu ceitweit am dir yw gwyr breinyawl o'r<sup>769</sup> cymwt y bo dadleu am dir ynnddaw.

§1124. Ny ellir ceitweit o alltudyon, nac o anaddfwyn, nac o'r tri dyn nyt geir eu geir; sef yw y rhei hynny, dyn a dorro y broffes crefyddawl, a dyn a dyngo anudon cyhoeddoc, a dyn a fo llwfyfyr cynefodic, a dyn ny<sup>770</sup> welo y peth a gatwo, a gwreic ar wr.

---

<sup>767</sup> a'r Pen 164

<sup>768</sup> chant llsg.

<sup>769</sup> Ychwanegwyd y llythyren 'r' uwchben gyda marc *caret*.

<sup>770</sup> ny – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

§1125. Pwy bynnac a fynno anadffwyno ceitweit o'r ffyrdd<sup>771</sup> hynn, ti a geffy obry yn y llyfyr mal yr anadffwynir wynt yn gwbyl, a pha ffyrdd y llyssir gwybyddyeit, a cheitweit, a thystyon t . . .

Hawl ach ac etrif a ffriodolder<sup>772</sup>

Am hawl<sup>773</sup> ach ac etrif a phriodoler fal hynn yr holir.<sup>774</sup>

§1126. Messuraw hawl, a dywedut y fot yn briodawr ar y tir hwnn a'r ddaear, a'e henwi erbyn y henw, a dwyn y ach hyt y cyff ydd henyw yr amddiffynnwr ohonaw, ar y tir hwnn a hwnn, yn y dref a'r dref, yn [y cwmwt a'r cwmwt]; ac ympob lle y bo dilyet iddaw gyt ar tir yddys arnaw, yn gwlyb, a sych, a gwyllt a dof, a dywedut y fot ynteu o fewn graddeu cerennydd mal y dlyo dir;<sup>775</sup> nyt amgen, no chefynderw, neu nei ap cefynderw, neu nei ap brawd neu frawt, neu gyfynderw, nyt [t. 196] oes bellach; ac osit a amheuo hynny, may iddaw ddigawn a gatwo y briodolder ganthaw, osit a amheuo yr ach a'r etrif, neu darfu y brofi drwy wybyddyeit a henaduryeit gwlat. Os gwaglaw fydd, dyweted y fot yn waglaw yn y hawl. Os yr ymddiffynnwr a addef hynny, nyt rheit praw ar addef, yaw[n] yw iddaw caffel messur y hawl. Os gwatta, gatter y brow y'r hawlwr. O seif y brow, cymeret y hawl. Llyna ryw brow a ddyly fot yna, o dodir yn y erbyn ynteu arddelw o geitweit a gwybyddyeit am yr un peth: 'Dyoer,' heb yr hawlwr, 'mi a ddlyaf geitweit lle dlyoe[n]t fot, a gwybyddyeit lle dlyoent fot.' Cyfreith a ddyweit nat oes hynny, namyn un hawl, a bot yn oreu po mwyaf o brow a chadernyt a fo y ddyn ar y hawl: 'A mineu a ddlyaf hynn a eddeweis yny amheuer . . .?' '. . . lle a chyfreithyawl yr aeth dy rieni'<sup>776</sup> di a thitheu odd yma, ac ny ddyly atychwel; osit a amheuo hynny, mae ym ddigawn a'e gwyr fot yn wir a ddywedaf.' A llyna y praw a ddyly y ddwyn: gwyr gorfot tref, .i. aminyogeu y tir yn y gylch. Os yr hawlwr a ddyweit: 'Myfi a ddywedeis fy mot

<sup>771</sup> Ychwanegwyd y llythyren 'dd' uwchben gyda marc *caret*.

<sup>772</sup> Hawl . . . ffriodolder – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

<sup>773</sup> Am hawl – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

<sup>774</sup> Ysgrifennwyd rhywbeth mewn pensil wrth ymyl hyn sydd bellach yn annarllenadwy.

<sup>775</sup> dlyo|dir llsg.

yn waglaw; ac ar y *gyfreith* y dodaf i na ellir profi cyfran ar waclaw, cany cheidw gwaclaw; ac y may ym digawn a wyr fy mot yn waclaw.<sup>777</sup> Od adef yr amdiffynnwr ei fod yn waglaw,<sup>778</sup> atebet yr hawlwr o'e ran. Os gwatta y fot yn briodawr gwaglaw, gwatter<sup>779</sup> y braw ar y fot yn waglaw. O ffynna y praw, ffynnet yr hawl. Os yr hawlwr a ddyweit, y yrru yn ancyfreithyawl y ar y dir a daear, a dly ohonaw ynteu dyfot yn gyfreithyawl y'r lle y gyrwyt yn angyfreithyawl ohonaw. 'Dyoer,' heb yr amddiffynnwr, 'o buost di yma, ti a aethost odd yma y ar y tir a'r ddaear yn gyfreithyawl; ac ar y cyfreith y dodaf i, a el unweith yn cyfreithyawl y ar dir a daear na bydd carddychwel iddaw drachefyn; ac am [t. 197] hynny, ny ddyly di ddyfot yma mwy.' Yna dywedet yr hawlwr: 'Mi a ddywedeis fy ngyry odd yma, ac a roddeis ympenn ceitweit a gwybyddyeit fy arddelw; sef rhoddaf ar y gyfreith, dlyu mwynhau fy ngwybyddyeit am ceitweit, cynn ateb y neb ohonof i bellach.' Cyfreith a ddyweit, nat cyfreithawl mynet nep rhyw priodawr y ar dref y dat, onyt can y fodd, ac nat hawdd profi bodd ar neb; a chyt a hynny, na ddylyir dwyn y arddelw y ar neb yny ballo; o seif y arddelw idda6, cymeret fessur y hawl ol[1].

§1127. Os ynteu a hawl tir o briodolder, a dywedut o'r amddiffynnwr: 'Dyoer, ny ddlyaf i dy ateb; echaws yw, dy ddifarnu gynt a wnaethbwyt o wir a chyfreith y wrthyf i; ac y mae ym ddigawn a'e gwyr; ac ar y gyfreith y rhoddaf, y neb a ddifarner unweith, na ddlyir ateb iddaw yn gyfreithyawl<sup>780</sup> yn dragwyddawl o gyfreith.' Os gwadu a wna yr hawlwr, gater y braw y'r amddiffynnwr. Os addef, triccer ar e cyfreith a fu cynt. Os yr hawlwr a ddy[weit]: 'O'm difarnwyt i gynt, o angcyfreith ym difarnwyt, minneu am ymwystleis ar neb a farnws arnaf, a hi a ddatfarnwyt ym drachrefyn; ac ot amheuy di hynny, may ym digawn a'e gwyr a wnaethpwyt a mi; a heddiw ydd wyf yn galw am frawt.' Os gwadu a wna yr amddiffynnwr, gatter y wybyddyeit yr hawlwr. Os addef ynteu, atferer yr hawlwr yr eiddaw, herwydd rhy atfarnu o'r gyfreith a fu gynt.

---

<sup>776</sup> dy|rieni llsg.

<sup>777</sup> ac . . . waclaw – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

<sup>778</sup> Od . . . waglaw – llsg., + Llan 121. Ychwanegwyd hyn gan Moses Williams ar ymyl y ddalen sy'n dangos bod Moses Williams wedi cymharu Pen 278 â Llan 121.

<sup>779</sup> gat Pen 164.

Ymwrthryn fal hynn y mae am yr hawl honno:<sup>781</sup>

§1128. Ny eill neb ymwrthryn namyn deu ddyn a fo ar yr un tir yn eiste egyt; ac os un onaddunt a geis gwrthryn y llall, y dydd y goddiwedo, yawn y gan arglwydd. Dywedet fal hynn: y fot yn [t. 198] briodawr ar y tir hwnn a'r daear yn gwbyl, a bot arnaw ynteu ormes anyledawc ar y tir hwnn: 'Ac osit a ameuo fy mot i yn wir briodawr ar y tir hwn o gwbyl, mae ym ddigawn a gatwo hynny; ac os ynteu a watta y fot yn ormes anyledoc, may ym ddigawn a'e gwyr y fot; ac am hynny, ydd wyf inneu yn mynnu bwrw gormes y arnaf ymeith; ac yn galw am fy nlyet, ac yn rhoddi ar y gyfreith y dlyaf hi oll.' Os yr amddiffynnwr a watta, yawn yw gadu y'r hawlwr ei wybyddied.<sup>782</sup> Os yr amddiffynnwr a ddyweit: 'Dyoer, myfi y sydd briodawr ar y tir hwnn a'r ddayar, ac arwydd yw yn gwarchadw fympridoler ydd wyf i; ac osit a amheuo hynny, may ym ddigawn a'e gwyr ac a gattwo fympridolder<sup>783</sup> gennyf a'm cyngwarchadw fal y dyly dyledawc oreu; ac ar cyfreith y dodaf, fy mot yn ddyledogach yn cadw fy priodolder am gwarchadw gennyf noc y ti gadw peth nyt oes y'th warchadw; ac wrth hynny, minneu a fynnaf fwynhau fy ngeitweit yn y blayn, ac a'y dlyaf o gyfreith.' Ac yna y may yawn y'r hawlwr ddywedut: 'Dyoer, myfi a eddeweis yn gyntaf fy mot yn briodawr dyledawc ar gwbyl o'r tir hwnn a'r ddaear, a'th fot titheu yn ormes arnaf; a chyt gellych di ddwyn fyn tir y dreis, ny elleist wadu fy mot yn briodawr dyledoc; ac ar fympridolder i am dlyet y dodeis i geitweit a gwybyddeit ar dy fot titheu yn ormes, a henweis yn gyntaf; ac ar y gyfreith y dodaf dlyu eu mwynhau yn gyntaf.' Y cyfreith a ddyweit, pa le bynnac y dywetto dyn y fot yn briodawr dyledoc ar dir, cyt collo dyn ffrwyth y ddlyet, na cholles ef y ddlyet; a dlyu ohonaw ynteu ddwyn ceitweit ar y ddlyet, a herwydd y hadaw yn y blaen yn cyfreithyawl dlyu y mwynhau yn y blaen; ac

---

<sup>780</sup> yn gyfreithyawl – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

<sup>781</sup> Hawl ymwrthynn. Val hynn y may am hawl ymwrthynn Pen 164.

<sup>782</sup> Ychwanegwyd y frawddeg hon at y testun ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach, sydd eto'n dangos bod Moses Williams wedi cymharu 278 â Llan 121.

<sup>783</sup> prioder llsg. gyda 'dol' mewn llaw ddiweddarach ar ymyl y ddalen.

wedy hynny, mwynhau ceitweit yr amddiffynnwr. Ac o seif pob un<sup>784</sup> onadunt, rhaner yr amrysson yn ddeu hanner rhyngthunt. O bydd [t. 199] cyhydedd yr hawl ar un ny safo y braw, colli ohonaw fessur y hawl. Os pob un a geis bwrw y gilydd drwy geitweit, a bot yn safedic y bob un y geitweit; triget bob un, yn y le mal y maynt a'e warchadw. Os un a balla y geitweit iddaw, pallet y hawl iddaw. Y cyfreith a ddyweit hynn: bot yn yawnach mynet y ffrwyth yn ol y ddlyet, no mynet dlyet yn ol y ffrwyth.

§1129. O derfydd ymwrthryn y rwng deu ddyn am dir a daear, a dywedut o'r hawlwr y fot yn briodawr a bot y llall yn ormes; ac osit a amheuo hynny, bot iddaw ddigawn a'e gwyr cyhyt ac y dyweit. Ac ateb o'r amddiffynnwr a dywedut: 'Dyoer,' heb ef, 'o buost di yma briodawr, neut nat ydwyt bellach, hawl tra blwyddyn yw y teudi? Ydd wyf i yn eistet ar y tir hwnn blwyddyn a blwyddynedd, a thy ac anlloedd, ac ar ac aredic ym, heb dwryf arnaf, heb lesteyr, yng cywlad a thi; ac neut<sup>785</sup> aeth gwyddwaled y rhot ti a'th hawl a'th [d]lyet; ac ot amheuy di hynny, y mae ym ddigawn a'e gwyr, cyhyt ac y dywedaf; ac ar y cyfreith y dodaf inneu, can dioddefeist di fyfi yma cyhyt a hynn, nat wyt dyledoc ar y tir hwnn bellach yn y dragwyddawl.' O gwatta yr hawlwr hynny, gatter y gwybyddeit y'r amddiffynnw[r]. Os addef a wna yr hawlwr, byt y hawl y'r amddiffynnwr.

#### Hawl famwys<sup>786</sup>

§1130. Mal hynn y may am hawl vamwys: O hawl dyn tir a daear o famwys, deuet ar yr arglwydd yr amser y bo egoret cyfreith am dir a daear; ac archet yr arglwydd y wrandaw, a managet rhoddi y fam o'e chenedyl y alltut yn y rhodd ac estyn, a'e alltudaw ynteu o'e fot yn fab y honno o hwnnw, a pharet yr arglwydd eu

---

<sup>784</sup> rei Pen 164

<sup>785</sup> neur llgr.

<sup>786</sup> Hawl famwys – llgr, - Llan 121, + Pen 164.

dyfynnu ar [t. 200] y tir a rhoddet eu hattep yn [amserawl]. Messuret ynteu yna y hawl o famwys, a dywedet rhoddi y fam o rodd cenedyl i'w dat, a bot hwnnw yn alltut y hwnn a hwnn, a'y fot ynteu yn fab y hwnnw ohonno o fewn graddeu cerennydd, mal y dyly ga . . . a dyget y ach o famwys hyt y cyff [ydd henyw yr amddiffynnwr ohonaw], o bydd ef oddieithyr graddeu cyfynderw ny ddlyir y atdeb am hawl famwys, nyt attebir iddaw yn amser cayat cyfreith. 'Can darfu uwch fy alltudaw onyt arglwydd a beir ym yaw[n] genwch . . . ; osit amheuo hynny, may ym ddigawn a'e gwyr bot y rhodd a'r estyn, a bot yn wir a ddywedeis; ac wrth hynny, y dodaf ar y gyfreith, canys alltudassoeh chwi fi, dylyw ohonof i ddyfot yn treftadawc attoch chwi yn y dydd heddiw; canys heddiw yw y dydd colli caffel y rhof a chwi.' Os addef a wna yr amddiffynwyr, barner iddaw bot yn treftadawc y gyt a'e ewythredd; sef y bernir iddaw, cymeint ac un o'e ewythredd o'r tir, eithyr y tyddyn breinyawl, ny cheiff ef hwnnw hyt y trydydd dyn; ac o bydd swydd, nys ceiff hyt y trydydd dyn, ony bydd yr alltut . . . e . . . eb wahalaeth gw . . . ef a'e ceiff hwnnw . . . ; ac ny ellir pencen[e]dyl ohonaw hyt y trydydd dyn. Os gwatta yr amddiffynwyr, gatter y wybyddyeit yr hawlwr, ac o safant iddaw, bit iddaw y hawl; ac ony safant, bit colledic o'e hawl tragwyddawl. O derfydd y'r amddiffynnwr atdeb yddaw a dywedyt: 'Dyoer,' heb ef, 'cyt dywedych di fot dy dat yn alltut, treftadawc oedd ef yn y lle a'r lle; ac ot amheuy di hynny, may ym ddigawn a'e gwyr; ac ar y gyfreith y dodaf i, roddi ohonof fy chwaer y[n] dreftadawc; ac nat ymchwel mab treftadaw[c] attaf i yn dreftadawc fyth.' O gwrthneppa yr hawlwr y hynny, [t. 201] barner iddaw y wybyddyeit; ac o safant, difarnner yr hawlwr. Os ef a ddyweit yr hawlwr: 'Dyoer,' heb ef, 'ar gyhyt ac y dywedeis i, mi a ddodeis ympenn gwybyddyeit ar fot yn wir a ddywedeis fy mot yn alltut; sef rei fyddant, dynyon dian<sup>787</sup> . . . at adfwyn; o'm amheuir, ar y gyfreith y rhoddaf i, na ddly gwybyddyeit cyfodi yn erbyn y rhei meui yn[y] wyper a safant ym, ay ny safwynt, canys amraint a c . . . rois arnaf e hun er . . .' Ac yawn yw barnu gwybyddyeit iddaw, ony safant. 'Ac ny mynnaf arnaf . . . ,<sup>788</sup> canys fy ameu a wnaethbwynt.'

<sup>787</sup> diouredoc?

<sup>788</sup> arnaf – llsg., + Llan 121.

§1131. Ny eill mab gwreic a gymero e hun yn llathlut holi tir o famwys.

§1132. O derfydd y ddyn holi tir a daear o famwys, a dywedut rhoddi y fam yn cyfreithyawl y'w dat ef, a bot yn alltut y dat ynteu; ac ynteu yn mynnu tref tat yn oet y dydd hwnnw; ac yna ateb o'r amddiffynwr: 'Dyoer,' heb ef, 'cyt boet alltut dy dat di, ef a holes dir o famwys yn y lle a'r lle, ac ef a'y cafas o wir a chyfreith, ac ynteu a aeth yn dreftadawc yno; ac osit a am[h]euo hynny, may ym ddigawn a'y gwyr cyhyt ac y dywedeis; ac ar y gyfreith y dodaf, can wyt yn dreftadawc cyfreithyawl yn lle arall, ny ddlyaf inneu ateb yt bellach o dref tat, cany ddyly deu freint [o] un llaw o cyfreith. Ac yna y may yawn gadel y wybyddeit yr amddiffynnwr, os gwatta yr hawlwr. Onys gwatta, difarner yn dragywydd o famwys.

§1133. O derfydd y ddyn holi tir o famwys, a dywedut dwyn ar y fam dreis o alltut, a hi yngwystyl dros un o'e chenedyl, a holi y tir o famwys o'r ffordd honno, ac addaw gwybyddeit ar y dwyn y dreis, ot ameuir ef, y cyfreith a ddyweit, [t. 202] nat oes wybyddeit ar dreis, canys rheith furyedic sydd yna. Os ynteu a ddyweit fal hynn: 'Fy mam i a dducywyt y dreis y alltudedd, ac yna ym cafas yr alltut fyfi, ac o'r ffordd honno mi a dlyaf dref tat gyt a chwitheu, a mi a brofaf y dwyn fal hynn: mi a roddaf ympenn yr arglwydd, a'r ynat, a'r orssedd, fot hawl arnaw am hynny e gospi am hynny, ac am hynny, y dlyaf inneu dref tat gyt a chwi.' 'Dyoer,' heb y amddiffynnwr, 'mi a roddaf ar ygnat oes braw ar dreis, ac am na elly ditheu y brofi, na ddlyy ditheu dref tad.' Cyfreith a ddyweit, y dichawn yr arglwydd fot yn dyst ar derfynu yr hawl honno ger y fron ef, ac nyt tystiolaeth honno ar y dreis, namyn ar y cyfreith a fu yn y llys am y dreis, a'r gosp amdaney. Os yr amddiffynnwr a ddyweit hynn, yn lle ydd holer tir o'r ffordd honno: 'Dyoer,' heb ef, 'nyt oedd na chwaer<sup>789</sup> na chyfnitherw<sup>790</sup> dy fam di y ni, a ni a'e gwadwn o gyfreith.' Nyt rheit atferwyr y dyngu hanfot dyn o famwys, canys e hun a'e praw. 'Dyoer,' heb yr hawlwr, 'cam y dywedwch,

<sup>789</sup> oedd . . . chwaer – llsg., + Llan 121.

<sup>790</sup> chwaerw llsg.



ceissyaw gwadu peth o gyfreith y[r] hyn y may y gyfreith yn dieithraw allel y wadu; cany eill neb wadu y gilydd or a ddlyo tref tat, neu famwys gyt ac ef, a mi a ddlyaf gyt a chwi; ac am hynny, mi a roddaf ar y gyfreith fot yn wir a ddywedaf i.' A'r gyfreith a ddyweit, may gwir yw hynny, pe byw y fam nas gellit y chwaethach, gwedy y marw hwyrach y gellir na'e alltudaw, na'e gwadu; cany ellir anadfwynaw neb yn absen o c[yfr]aet[h]; cany chyngein praw ar farw. A phe byw y fam ef, gwedy ymrwyme i ef yng cyfreith a'e ewythredd, rheit fyddei iddun wy ateb iddaw [t. 203] ef o'r hawl a holei rhac bron, neill ae gwadu, ae addef, ae arddelw cyfreithawl fal na ddlyei ateb.

§1134. O derfydd y ddyn holi tir o famwys, a dywedut ohonaw, ladd ohonaw gelain yn dial gwr o genedyl y fam, a mynet y dir ynteu yn waetir: 'Ac ar y gyfreith y rhoddaf i, can dieleis i gâr fy mam, y dlyaf inneu ddyfot atoch yn dreftadawc am hynny; ac ot amheuwch hynny, may ym ddigawn a'e gwyr fot yn wir a draethaf, canys mi a roddaf ympenn yr arglwydd bot hawl arnaf gynt.' 'Dyoer,' heb yr amdiffynnwr, 'rhyfedd y dywedy di; addaw ydd wyt ti wybyddyeit ar y peth nys dlyir o gyfreith, nyt amgen, noc ar alanas, ac nyt oes wybyddyeit ar alanas<sup>791</sup> o gyfreith, namyn y gadw dyn rhac hort fal honno; a'r lle ny ddlyo gwybyddyeit o gyfreith, minneu a roddaf na ddylyy ditheu addaw gwybyddyeit yn lle ny pherthyno. 'Nac ef, Dyoer,' heb ef, 'nyt wyf fi yn rhoddi gwybyddyeit ar alanas, namyn ar fot hawl a dosparth am y alanas, a hynny a allaf i o gyfreith; a gwir yw hynny ac yawn.'

§1135. Fal hynn y may am famwys: y holi yn gyfreithawl, ac erchi y arglwydd trugarhau wrthaw; a'r arglwydd a ddyly dyfynnu y ewythredd, brodyr y fam, neu gefynderw y fam, neu y gefynderw e hun, neu y gyfynderw, a pheri iddun roddi eu hattep ympeu un, a cholli a chaffel, a hwnnw a ddyly gwneuthur cyfreith.



[Dadanudd]

§1136. Datanudd, o derfydd y ddyn holi tir ohoney:

§1137. Tri rhyw ddadanudd y sydd: dadanudd bwrn a beich; [a] dadanudd carr a chyfannedd; a dadanudd âr ac eredic, a thy ac anlloedd. Ny bydd dadanudd er un heb estyn gan arglwydd. Ny ddyly dyn holi dadanudd namyn a fo aelwyd aelwydeu iddaw e hun, ac y'w dat cyn noc ef. Ny ddyly dyn holi dadanudd tir, er bot y hendat, neu y orhendat, ar y tir yn amser y bo egoret cyfreith.

§1138. Dywedet [t. 204] yr hawlwr, y fot y hun, neu y dat cynn noc ef, y[n] iste ar y tir hwnnw trwy estyn arglwydd ynghyfreithlawn orsedd; ac âr ac eredic iddaw, a heu a llyfnu, a thy ac anlloedd blwyddyn a blwyddynedd, a'y yrru yn ancyfreithyawl y arnaw; ac osit a amheuo hynny, bot iddaw ddigawn a gatwo y fot cyhyt a hynny ar y tir; ac osit a amheuo<sup>792</sup> y yrru yn angcyfreithyawl, bot iddaw digawn a'e gwyr; a doddi ohonaw ynteu ar y cyfreith dly ohonaw dyfot y ddadanuddaw yr aelwyt a anhuddhassey ef, neu y dat cynnoc ef. Attebet yr amddiffynnwr yna un o'r ddeu ateb, ay gwadu y yrru y ar y tir a ddatdanuhuddawdd,<sup>793</sup> ay ynteu dywedut fal hynn: 'Y tir hwnn ydd wyf i yn y gadw o ddatdanudd y doeth ef y mi; ac osit a amheuo hynny, y may digawn a'y gwyr bot yn wir a ddywedaf.' 'Dyoer,' heb yr hawlwr, 'gwy[by]ddyeit a eddewis i ar fy gyrru y ar y tir a ddatanuhddeis, a cheitweit a gatwo fy mot gyhyt a hynny o amser, ac ar ddechreu hawl o brioldolder ohonof ar y tir cyfreithyawl.' O ffynna gwybyddyeit yr hawlwr, barner iddaw ddatanudd a dyfot y'w le hyt ymphen y flwyddyn heb ateb y neb; ac yr hynny, ny bydd priodawr ef, eithyr dylu bot iddaw ty a thal, ac anlloedd, ac eredic megis gwarcheit[wat]. O dwc ef geitweit ar ddechreu hawl briodolder ohonaw, ny ellir cyffro byth arnaw. Onys dwc y dydd hwnnw, ef a ddichawn y ddwyn yn yr

---

<sup>791</sup> ac . . . alanas – llgr., + Llan 121.

<sup>792</sup> ameho llgr.

<sup>793</sup> ddatdanuhuddawdd llgr.

oedeu cyfreithyawl<sup>794</sup> y'w ddwyn, ac yna ny bydd rheit y'r hawlwr aminiogeu tir y holi y tir o ddadanudd; peth hagen gwyr gorfotref, y brofi y yrru yn angcyfreithyawl y ar y tir. Rheit hagen y'r gwarcheitwat cayl aminiogeu tir a gwyr gorfotref, y gadw y [t. 205] tir ganthaw. O dyt yr hawlwr yn erbyn yr amddiffynnwr neu y geitwat, na henyw o'r orfotref, dywedet ynteu yr henyw; a bot iddaw ddigawn a'y gwyr y hanfot; a digawn a wyr ac a gatwo breint gorfotref; ac nyt rheit y ceitweit hynny eithyr o wyr addfwyn breinyoc. Os amddiffynnwr a ddyweit: 'O dadanudd y doeth y tir hwnn y mi; ac ar cyfreith y dodaf, na ddylyaf i adaw y tir, tra berthyno cadw dadanudd.' 'Dyoer,' heb yr hawlwr 'ydd wyt ti yn cadw y tir hwnn hwy no breint dadanudd, ac y may digawn a wyr hynny; ac ar cyfreith y dodaf, y dlyaf inneu dadanudd ar dy dorr ditheu.' Cyfreith a ddyweit, pwy bynnac a gatwo tir o dadanudd hwy no breint dadanudd, y ceffir dadanudd. O dichawn, o cyfreith, yr amddiffynnwr brofi y fot yn briodawr, cychwynnet yr ampriodawr rhacddaw ymeith. Ac o bydd cyhydedd y ddwy ddylyet, rhanner yn ddeu haner y tir, ac eisteddent eill deu ar y tir.

§1139. Ac fal y dywedassam ni uchot yr holir dadanudd carr a chyfannedd; ac o bydd safedic y arddelw yr hawlwr, dotter ar y tir y eistedd hyt y nawfet dydd; ac yna atdeb; ac yn y nawfet dydd, cyfreith. Ac y<sup>795</sup> felly am ddadanudd bwrn a baich; ac o gallant ymgynnal, felly gyt ymgynhalyent.

§1140. O derfydd y ddyn holi datanudd âr ac eredic, deuet ar y tir, a dywedet y fot yn eiste arnaw blwyddyn a blwynyddedd, trwy rodd ac estyn arglwydd, ac ar ac eredic a heu a llyfnu; a'y yrru yn ancyfreithyawl y arnaw; a osit a amheuo hynny, bot iddaw ddigon a'y gwyr. Ac attep o'r amddiffynnwr: 'Dyoer, o buost di yma cyhyt ac y dyweist di dy fot; ac o'th yrwynt yn angcyfreithyawl odd yma; titheu a elweist ar ddadanudd, ac a'e cefeist; a [t. 206] gwedy y gaffael ohonawt ef, yth yrwynt odd yma, fal y bwrw dyledoc anyledawc ymeith o'e le o wir a chyfreith; ac ot amheuhy di hynny, may ym ddigon a'y gwyr. Ony watta yr

<sup>794</sup> Ychwanegwyd yr ail 'y' uwchben y gair gyda marc *caret*.

<sup>795</sup> y – llsgr, - Llan 121, + Pen 164.

hawlwr hynny, tystyet yr amddiffynnwr arnaw; a galwet am frawt; a dywedet nas gwadws yn cyfreithyawl caffel datanudd cynt ohonaw; a dodet ar y gyfreith na ddyly ddeu dadanudd o'r un tir; ac yna y may yawn difarnu yr hawlwr yn dragwyddawl o'r dadanudd hwnnw. Os gwadu a wna yr hawlwr[r] na rygafas dadanudd, gatter y wybyddyeit<sup>796</sup> y'r amddiffynnwr; ac o byddant safedic, difarner yr hawlwr yn dragwyddawl o'e hawl.

§1141. Ny ddyly neb ddadanudd o dir, eiythyr o dir<sup>797</sup> a fo yn llaw y dat yn y fyw hyt y farwolaeth.

§1142. Pa diw bynnac y barner dadanudd, ny ddichawn neb y wrthladd o'e ddadanudd onyt priodawr; cany ddichawn yr eil dadanudd wrthladd y cyntaf, ac ny ddichawn ampriodawr wrthladd ampriodawr arall o'e datanudd. Ac o bydd amrysson rhwng etifeddyon priodawr am ddadanudd, ny ddichawn yr un wrthladd y gilydd o gyfreith.

§1143. Pwy bynnac a ddel y ddadanudd y dref, .cxx. a dal. Os y faynawl y daw, punt a dal. Os y randir, .lx. a dal.

§1144. Ny ddyly neb holi dadanudd o ach ac edrif.

§1145. O hawl brodyr dadanudd, yr hynaf a ddyly y dadanudd; ac ynteu a rydd ddadanudd y'w frodyr.

#### Am hawl derfyn<sup>798</sup>

§1146. Terfyn, fal hynn y may am hawl terfyn: y holi yn gyfreithyawl, ac ymrwymaw y gyfreith fal am y lleill oll, canys hynny sydd reit.

---

<sup>796</sup> wybyddyeit llsg.

<sup>797</sup> eiythyr . . . dir – llsg., + Llan 121.

<sup>798</sup> Ysgrifennwyd hyn mewn pensil.

§1147. O derfydd y ddydd mynnu ymderfynu a dy[n] arall, yawn yw iddaw ddyfot ar y terfyn y bo yn y holi, ac yno y dylu ar [t. 207] y terfyn eistedd a bot y gyfreith, a dangosset y freint, ac o'e fot yn gynghellawr, neu yn faer, neu yn un o'r pedeir swydd ar ugeint arbennic yn llys y brenin, neu mewn swydd neu freint a fo uch no breint yr amddiffynnwr; neu ynteu y fot yn briodawr, neu yn warcheitwat tir, fal na bo yr amddiffynnwr a ddlyu ohanaw ynteu terfynu o'r achaws hwnnw ar y llall. Yna y dylu yr amddiffynnwr ddangos y freint ynteu, a'y brofi y fot yn y law; ac ony bydd, ofer yw, cany cheidw gwaclaw o gyfreith; ac ymgystadlu breint ac ef, neu ceissyaw bot yn well os dichawn. Os cystal fydd eu breint, aet yr hawlwr a dangosset y hawl ar y terfyn parth a'r amddiffynnwr; eithyr nat el dros tri argae terfyn a dangos; sef yw y rhei hynny, prifddwr o for hyd fynydd, a rhandir, a chyngwarchadw:<sup>799</sup> sef yw cyngwarchadw, ty, neu odyd, neu ysgebawr; ny ellir terfynu ar dorr y rhei hynny: ny ddichawn hefyd,<sup>800</sup> eithyr priodawr, neu wr breinyoc, derfynu: nyt a rhandir hefyd yn nangos, nac yn derfyn; canys pawb a ddlyu y rhandir. Gwedy hynny, dangosset yr amddiffynnwr y derfyn ynteu, a'e warchadw; eithyr nat el dros un o'r tri argae dangos: a thynget pawb a llw, pan yw hwnnw yn y derfyn ef a dangosset a<sup>801</sup> dyngo. Yna y dylu arglwydd cymell gwyrda y wlat os medrant y derfynu.

§1148. Dadyl derfyn hagen y cilyo<sup>802</sup> gwlat y wrthaw, gan ddywedut nas gwddant, a dwyn hynny y'r creir; o bydd cymreint y tref, neu neb a'e holo, a'r neb a'y meddyano, a chyt eu gwarchadw, yna y rhan cyfreith rhyngthunt yn ddeu hanner; ac yna y dylu arglwydd .cxx., a .xxiiii. y'r ynat; ac felly o bob terfynu<sup>803</sup> rhwng dwy dref un freint.

§1149. O derfydd na ddylyo yr [t. 208] un o'r ddwy bleit y tir hwnnw, hwnnw a fydd diffeith brenin.

---

<sup>799</sup> Rhoddwyd croes mewn pensil ar ymyl y ddalen gyferbyn â hyn.

<sup>800</sup> Rhoddwyd croes mewn pensil ar ymyl y ddalen gyferbyn â hyn.

<sup>801</sup> dangosset a – llgr, - Llan 121, + Pen 164.

<sup>802</sup> Rhoddwyd croes mewn pensil ar ymyl y ddalen gyferbyn â hyn.

<sup>803</sup> trefynu llgr.

§1150. O bydd datferwyr, a ddylyo dosparth dadyl derfyn, yawn yw bot wrth a ddywettoent cyn barnu o gyfreith; sef rhyw wyr y rhei hynny, breyryeit heb swydd iddunt ar neb, na swydd y neb arnunt wynteu.

§1151. Ony bydd datferwyr, cyfreith a farn y gyngwarchadw terfynu; ac nyt a rhandir yn derfyn. Ac o cheissir dwyn cymeint a rhandir,<sup>804</sup> colledic fydd a'e holo o'e hawl.

§1152. Messur rhandir, deuddec erw a thrychant.

§1153. Pwy bynnac y cyfarffo terfyn llys y brenin a'y dir ynghyfoeth y brenin e hun, o bydd ymrysson am derfyn y rhyngthunt, llys a derfyna; canys o'r llys uchaf y daw breint y bob tir, ac uchaf yw breint y llys. Os rhwng tir eglwys a thir y wlat, eglwys a derfyna: sef yw y fagyl a'r efengyl. Os rhwng cyt etifeddyon, gwyr breynyoc a derfyna. Os rhwng cyfannedd a thir diffeith, cyngwarchadw a derfyna: sef yw cyfannedd, adeilat ac aradwy. Pan terfyno llys, maer a chyngellawr bieu terfynu, a thyngu drostaw, o bydd rheit.

§1154. O derfydd y ddyw mynnu terfynu ac arall, a dywedut bot o freint iddaw derfynu arnaw; a bot iddaw ddigawn a gatwo y freint. Ot addef yr amddiffynnwr hynny, yawn yw barnu y hawl y'r haflwr. Os gwadu a wna yr amddiffynnwr, yawn yw mwynhau ceitweit yr hawlwr; ac yawn yw gadu iddaw y freint o safant. Os ef a ddyweit yr amddiffynnwr yn ateb: 'Dyoer, o buost di yma<sup>805</sup> bu freint y ti hynny gynt, nyt ydiw bellach; sef achaws yw, yma y bu gynt ymderfynu y rhof i a tydi; ac y terfyeist di hyt y lle honn a'r lle honn, ac y mae gennyt dy derfyn; ac ot ameuy<sup>806</sup> di hynny, may ym ddigawn a'y gwyr; ac ar cyfreith y dodaf, [t. 209] yny ceffych di dy freint gynt a't[h] derfyn, na ddylyy ditheu deu freint o un llaw; na breint, na therfyn, arnaf bellach yn y lle honn fyth.' Ot addef yr hawlwr hynny, bit ar a gafas. Os gwatta, mwynhaer gwybyddyeit yr

---

<sup>804</sup> Rhoddwyd croes mewn pensil ar ymyl y ddalen gyferbyn â hyn.

<sup>805</sup> buost . . . yma – llsg, - Llan 121, + Pen 164.


<sup>806</sup> atmeuy llsg.

amddiffynnwr. O ffynna y wybyddyeit, bit yr hawlwr heb ddim. Os ef a ddyweit yr hawlwr: ‘Dyoer, o bu ymderfynu y rhyngom gynt, titheu a’e torreist, ac aethost<sup>807</sup> y arnaw, a hyt yma y bu y terfyn hwnnw; ac os gwedy, mae ym ddigawn a’e gwyr; ac wrth dorri ohonot titheu . . . [diwedd]

---

<sup>807</sup> + y aethost llsgr.

Amlinelliad o'r llys (Peniarth 278 t. 179). Gw. uchod, n. 725:



## NODIADAU

Mae'r nodiadau hyn yn canolbwyntio ar y gyfatebiaeth i Beniarth 278 mewn testunau eraill a fydd, gobeithio, yn taflu goleuni ar ffynonellau'r awdur. Yn gyntaf rhoddir rhif yr adran yn y golygiad ac yna, os yn bosibl, dyfynnir y gyfatebiaeth iddi allan o'r testunau cyfraith eraill sydd wedi eu golygu. Fel rheol cyfeirir at *WML*, *LIB*, *LII*, ac *AL* II: gw. y conspectws am *AL* I. Pan fo testun yn digwydd yn *LIB* fel arfer mae cyfatebiaeth iddo yn Lladin D, J, Tim, ac S: gw. y conspectws am y cyfeiriadau hynny. Manteisiwyd ar waith gwerthfawr y Dr Sara Elin Roberts yn *WMLT* wrth leoli'r trioedd a diolchaf iddi. Serch hynny, nid yw cyfeiriad at destunau eraill yn golygu eu bod yn cyfateb yn fanwl i Beniarth 278; gall fod mân wahaniaethau yn nhrefn y defnydd, ac weithiau beth gwahaniaeth yn y sylwedd. Pan nad oes cyfatebiaeth amlwg rhwng Peniarth 278 a'r hyn a geir mewn testunau eraill ceisiwyd dangos y berthynas rhwng y testun a'r rhannau perthnasol o'r llyfrau cyfraith (cofnodwyd y cyfeiriadau hynny mewn *bold* yn y conspectws). Ceir ychydig o nodiadau ar yr eirfa a rhai termau cyfreithiol.

- §1) Cf. *Tri defnyd hawl yssyd: golwc, a geir, a gweithret* (*LIB*, 119/19-20). Mae cynffon i'r triawd yn *AL*, XI.v.19 (S): *Erbot gol6c ageir agbeithret yn tri defnydd habl nyt ydi6 kyfreith yn dybedyt vot pob gol6c aphob geir aphob g6eithret ynn defnyd habl: wrth hynny reit y6 g6ybot parai yssyd defnyd habl parai nyt ydi6. Ac yn gyntaf am yr ol6c y manegir val y mae ynn y bra6tlyfyr yn dybedyd . . .* Digwydda'r triawd yn yr union drefn â H yn llsgr. Z, f. 85v: *Tri devnydd hawl yssyd: gair, a golwc, a gweithyret* (gw. *WMLT*: Z105).
- §2) Cf. *Tri geir kylus yssyd: geir y bo gwely tauot ymdanaw; a gwallawgeir yn llys; a thauotrudyath am lad neu losc neu ledrat* (*LIB*, 119/24-26). Yn H lluniwyd y triawd ar yr un bennawd â §4 sy'n rhestru'r geiriau cyfeiliornus mewn modd haniaethol. Yma rhestrir amgylchiadau cyfreithiol mwy pendant *gwallawg air*. Digwydda'r un pennawd yn y fersiwn o'r triawd yn llsgr. Z, f. 85v: *Tri gwallawgair y sydd: gair y bo gweli tavot amdano, a gwallawgair yn y llys, a gwallawgair ar kyfraith am ladd neu losg neu ledyrad* (gw. *WMLT*: Z106).



- §3) Cf. *Tri dyn y telir gwely tauot vdunt: y'r brenhin pan dywetter geir garw vrthaw, ac y vrawdwr pan wystler yn y erbyn am iawn varnn, os ef a'e katarinna, ac y offeirad yn y eglwys yn y teir gwyl arbennic, neu rac y brenhin yn darllein llythyreu, neu yn y yscriuenu (LIB, 118/14-19). Hepgorir y darn am yr offeiriad yn cyfansoddi neu ddarllen llythyr i'r brenin o H a cheir cynffon i'r triawd yn sôn am ei sarhaed sy'n adleisio testun LIB, 9/15-6: Y neb a sarhao offeirad, neu a'e lladho, godeuet gyureith sened, eithyr am wely tauot. Am drafodaeth ar synod a sarhaed offeiriad gw. NLC, 152-62.*
- §4) Cf. *Tri ryw wallawgeir yssyd: geir gwall yn holi o rwy neu eisseu, a geir gwall yn amdiffyn o rwy neu eisseu, a geir gwall yn gwadu. O'r kyntaf y kyll hawlwr y hawl o'r a perthyno wrth y geir, or dygir tyston yn y erbyn, ac ny chyll camlwrw, kanyt oes kam gwyn kylus eithyr tri. O'r eil, neu o'r trydyd, y kyll amdiffynnwr gamlwrw, a diuwyn yr hawl o'r a perthyno wrth y geir y tystwyt o'e wall (LIB, 119/27-120/3). Cf. §2.*  
**rhwyf** Mae copïydd H, neu gopiŵyr Pen 278 a Llan 121, o bosibl wedi camddeall rwy y gwreiddiol, sef *gormodedd* (GPC d.g. rhwy), neu efallai ei fod yn anghyfarwydd â'r ffurf archaig a rhoi *rhwyf* yn ei le.
- §5) Cf. *Tri golwc a dygir yg kyfreith: golwc tyst o'e tystolyaeth, a golwc managwr o'e vanac, a golwc llygatrud kylus am lad neu losc neu ledrat (LIB, 119/21-23). Llunnir triawd esboniadol i egluro cymalau'r triawd hwn yn AL, XI.v.21-23 (S, §§2421-30). Mae cysylltiad rhwng pennawd y triawd â §1 ac adleisir y geiriau 'lladd neu losc neu ledrat' (cf. affeithiau galanas, tân, lledrat) sy'n digwydd yn §2.*  
**cylus cŵl + us.** Mae *cŵl* yn air cytras â *col*, gair Hen Lydaweg a Gwyddeleg am bechod, cam, neu fai (GPC, d.g. cŵl). Cf. *Kwl y uot a dan vrein* (Ifor Williams gol., *Canu Aneirin* (2 arg., Caerdydd, 1961), 1/18). Ystyr cylus, felly, yw beius neu euog. Gw. hefyd A. Falileyev, 'Old Welsh y *diruy hay camcul* and some problems related to Middle Welsh legal terminology', *Celtica*, 24 (2003), 121-28.
- §6) Cf. *Tri ryw vanac yssyd, ac am pob vn ohonunt y gossodir reith gwlat am ledrat. Vn yw dyuot y colledic, a'r managwr y gyt ac ef, a tygho yn erbyn arall*

*clybot a gwybot arnaw y lledrat. Eil yw tygu o'r managwr gwelet a gwybot arnaw y lledrat; a hwnnw yw lliw. Trydyd yw lludyaw rac dyn keissaw y da a gollassei yn y lle y typpyo y uot. Ny dily neb rodi reith gwlat am ledrat heb vn o'r manageu hynny yn y erbyn, onyt pallu a wna o lw gweilyt y golledic. Or palla, nyt reit manac arnaw namyn hynny y gymell reith gwlat y gantaw. Or gwedir hawl a defnydyer o amryfal achwysson, trwy vn reith a perthyno wrth yr achaws mwyhaf oheni y gwedir yr hawl oll, canys pob vn hawl vn reith a dily, yny gwatter (LIB, 124/15-30). Nid yw testun H yn cyfateb yn fanwl i'r testunau eraill. Ymhelaethir ac esbonnir ar ddeunydd y triawd. Cyfeirir at yr offeiriad yn wahanol i'r testunau eraill.*

**6yrry** Un o'r ychydig enghreifftiau lle defnyddir 6 am f yn y testun.

- §7) Nid yw'r triawd hwn yn digwydd yn y testunau eraill. Rhestrir gweithred fel un o hanfodion hawl yn §1 ac mae hynny yn cael ei ehangu a'i egluro yma. Cyfeirir at yr affeithiau cyfraith, sef naw affaith galanas, naw affaith tân, a naw affaith lledrad (gan greu 3 o 9). Gelwir yr affeithiau hyn yn dair colofn cyfraith. Mae'n driawd esboniadol; sonnir beth yw ystyr galanas, llosg, a lledrad, ac yna beth a olygir wrth affaith.

**galanas** Cf. Hen Wyddeleg *galnas*, *galannas*. Roedd tair ystyr i'r gair. Gall olygu gwerth bywyd dyn: cf. Saesneg *wergeld*. Fel mae'r triawd yn ei nodi, defnyddiwyd galanas hefyd fel term ar lofruddiaeth. Gall hefyd olygu gelyniaeth: Saesneg *feud*. Mae bôn y gair, sef *gal* 'gwres', yn ei gysylltu â geiriau fel *gelyn*, *galanastra*, *dial* a.y.y.b.: *WLW*, 202-03. Gw. hefyd *LTMW*, 346; *GWML*, 151; M. E. Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel' (traethawd Ph.D., Prifysgol Cymru, 2003), 1-2.

**affeithiau** < Llad. *affectus*. Trosedd oedd *affaith* yn hytrach na cham personol yn erbyn yr unigolyn. Am wahanol ystyron *affaith* gw. *WLW*, 61-65; Paul Russell, 'The etymology of *affaith* 'abetment'', *BBCS*, 38 (1991), 106; Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 343-68.

**lledrad yw** Sonnir hefyd yn *LII*, §115/27-8: *sef yu lledrat, pob peth a watter o'r a wnelher*.

- §8) Cf. *Tri gweithret yssyd ar prawf: llafur kyfreithawl neu aghyfreithawl ar tir, megys torri ffin, neu wneuthur ffin, neu lafur arall; a gweithret llwdyn yn llad*

*y llall yg gwyd bugeil trefgord (tystolyaeth y bugeil yn wybydyat a seif am hynny; tystolyaeth gwybydyeit a seif am tir heuyt); a gweithret kytleydyr lleidydr a groccer am ledrat; tystolyaeth hwnnw ar y gytleydyr a seif (LIB, 120/9-16).* Erys gyda'r syniad o weithred gyfreithiol sydd eto'n cysylltu â §1. Mae'r triawd wedi ei ehangu ychydig yn nhestun H ac mae'r geiriad yn amrywio. Rhoddir cymal esboniadol ar ddechrau'r triawd.

**hwylfa** Ffordd gul oedd yn mesur saith troedfedd (*AL*, IX.xxv.8).

§11) Cf. *Tri pheth ny chygein yg kyfreith: prawf ar weithret eithyr tri, a gwat dros waessaf, a chof wedy brawd (LIB, 120/6-8).* Rhoddir cymal esboniadol yn nhestun H yn egluro beth yw *gwaessaf* a cheir cyfeiriad at y testun ysgrifenedig: *ac obry y ceffi, lle mae dywedyt am fraw[dw]r beth yw cof wedi brawd, sy'n awgrymu nad casgliad o draddodiadau llafar sydd yma.* Efallai bod y triawd 'Tri chof gwedy brawd yssyd' wedi ei golli o'r testun.

§12) Cf. *Tri gwaessaf yssyd: ardelw, neu warant, neu amdiffyn heb warant (LIB, 120/17-18).* Cyfeirir at *waessaf* yn §11 ac yma rhestrir y gwahanol fathau o waesaf.

**gwaessaf** Gwarantwr, pan fo un gŵr yn hawlio perchnogaeth ar eiddo sydd ym meddiant dyn arall. Byddai diffynnydd yn galw arno i gefnogi ei hawl i'r eiddo: gw. *LAL*, 338. Gw. hefyd Eric P. Hamp, 'Gwaesaf', *BBCS*, 40 (1993), 119.

**digyfodic** Mae *gwarant am beth digyfodic* yn ychwanegiad at y triawd yn H. Caiff *digyfodic* ei gyfieithu fel 'immovable' yn *AL*, II, t. 569.

§13) Dyma ddechrau adran gymharol hir sydd yn trafod gwahanol arddelwon cyfreithiol. Mae'r testun sy'n dilyn yn egluro cymalau'r triawd a cheir trafodaeth ar y mathau o arddelw a enwir. Dengys hyn sut mae testun H wedi ei drefnu yn ofalus ar sail pynciau cyfreithiol.

**arddelw** (*ar + delw*) Gw. M. E. Owen, *Beirdd a Thywysogion*, 97. Magodd ystyr gyfreithiol a châi ei ddefnyddio fel enw ar ddadl neu honiad plaid mewn achos cyfreithiol, Saesneg *plea*. Datblygodd arddelw yn ei dro i olygu gwarant mewn achosion geni a meithrin, cadw cyn coll, ac arwaesaf, i wadu nad yr

hawlwr oedd berchen yr eiddo. Datblygodd felly o fod yn enw ar ddadl i olygu'r dyn sy'n ei phrofi: gw. *Col*, tt. 112-13; *LTMW*, 313.

**ardelu** Mae'r ffurf hon yn awgrymu bod Robert Vaughan wedi anghofio newid arddull ei gysail: cf. sillafiad y gair yn nheitl y triawd.

§14) Cf. y drafodaeth am arddelw yn *LII* §114/1-16.

§18) Rhestrir ffyrdd o honni nad yw cwyn yn gyfreithiol. Rhoddir enghreifftiau o achosion posibl lle bo *arddelw* plaid arall yn anghyfreithiol. Adlewyrchai hyn sut y rhoddid pwyslais ar ddadlau a negyddu cwyn plaid arall mewn cynghawsedd. Mae'r darn hwn am arddelw, sydd yn unigryw i H, yn awgrymu fod yr awdur yn gyfarwydd â manylion technegol cyfreithiol.

**dyddon** Y dyddiau na fyddai cyfreitha arnynt. Nid oedd rhaid ateb cwyn ar yr adegau hynny. Disgynnai'r dyddiau hyn wythnos ar ôl gwyliau'r Nadolig, y Pasg, a'r Sulgwyn (*LII*, §66/25). Yn ôl S §1624: *o'r Pask Ma6r hyd y Pask Bychan, o'r Nadolic hyd y Kalan, o'r Sulg6yn hyd Sul y Drindod*. Gw. hefyd *LAL*, 189. Ni cheir enghraifft o'r term yn *WML* na *LIB* sy'n awgrymu ei fod yn derm gogleddol (gw. *LTMW*, 339; *CBT VI*, 489). Cf. gyda'r ffurf *dydyon* yn §473.

§23) Triawd arall yn ymwneud ag *arddelw* nad oes cyfatebiaeth iddo yn y rhestrau trioedd.

**lludd** Llestair neu rwystr.

§24) Cf. *Tri pheth a dyly gwarant diball eu gwneuthur. Vn yw ateb yn diohir drostaw ehun a thros y da kynhenus a thros amdiffynnwr y da. Eil yw seuyll wrth gyfreith a barn dros yr holl dadyl trwy deturyt gwlat. Trydyd yw gwneuthur cwbyl dros yr holl dadyl val y barnher idaw* (*LIB*, 44/29-45/4). Erys gyda'r pwnc o warant sydd ag ystyr ychydig yn ehangach na gwaesaf: gw. *LIB*, 44/8-46/3. Yn nhestun H/PeniARTH 278 ymhelaethir yn esboniadol ar fynegiant y triawd gwreiddiol a cheir cyfeiriad eto at yr hyn a ysgrifennwyd yn flaenorol yn y testun drwy ddefnyddio 'uchot' sydd yn awgrymu *milieu* ysgrifenedig yn hytrach na llafar.

- §29) Dyma'r cyntaf o dri thriawd sydd yn sôn am gyllid. Mae'r triawd yn atseinio darn o destun Bleg: *Y neb a talho vgein swllt yn y vlwydyn, y gymeint a tal yn amobyr y verch, a phan gymero tir, ac yn ebediw* (LIB, 84/4-6).
- cymeinioc** *Cymain(t) + iog*, sef rhywbeth sydd yr un gwerth (GPC, d.g. cymeiniog). Nodir hwn fel yr enghraifft cynharaf o'r gair yn GPC.
- amobyr** Taliad a roddai tad priodasferch i'w arglwydd ar ddiwrnod ei phriodas fel tâl am golli ei morwyndod. Roedd maint y taliad yn amrywio yn ôl statws y tad: gw. *WLW*, 190, *LTMW*, 311.
- ebediw** Taliad i'r arglwydd ar farwolaeth dyn oedd yn amrywio rhwng 16 a 120 ceiniog: gw. *WLW*, 201; *GMWL*, 136-37.
- gobyr estyn** *Investiture fee* a dalid i'r arglwydd pan dderbynnid tir (GPC, d.g. goibr). Mae'r ffurf *gobr* hefyd yn cael ei defnyddio yn amrywiad o ran ystyr ar *amobyr*. Fe'i cysylltir â'r ferf *gobrynaf* sy'n cynnwys yr elfen *prynaf* (*WLW*, 203).
- §30) Ymhelaethir ar *abediw*. Cf llsgr. Z, f. 87r: *Tri dyn a dal abediw hep dir: bonheddic canhwynawl, a gwr kyvarwyssawc, a map pedeir blwydd ar ddec. Y mab aill[t] a ddyly bod yn arddelw o hynny allan a'i abediw yw dros yr arddelw* (WMLT: Z113). Mae cymal cyntaf y triawd yn adleisio testun Ior: *Ny deleyr talu ebedyu mab ene uo pedeyr bluyd ar dec, a'e tat en uyu. Guedy yd el enteu em breynt e tat, ef a'e tal. Em pen e petwared uluyden ar dec e dele e tat duen e uab ar er argluyd a'e orchemyn ydau, ac yna e dele enteu gurhau e'r arglwyd a bot urth ureynt e argluyd, ac ef ehun byeu attep trostau o pob haul a ouynher ydau, ac ef ehun byeu medu e da . . .* (LII, §98/8-15). Cf. §472.
- abediw** Amrywiad ar y ffurf *ebediw* drwy ledu'r llafariad cyntaf. Mae'r ffurf hefyd yn digwydd yn y Llyfr Du o'r Waun (ac yn Z): gw. GPC, d.g. abediw.
- ardrethu** Talu treth neu deyrnged: gw. *EIWK*, 237-38.
- bonheddic canhwynawl** Gŵr rhydd brodorol nad oedd wedi esgyn i statws *breyr* trwy farwolaeth ei hynafiaid gwryw. Diffinnir *bonheddig canhwynol* yn y testunau cyfraith fel *Cymro fam tad* (WML 44/9-10, LIB 44/9-10). Gw. hefyd *WLW*, 192.
- cyfarwyssawc** Gŵr sydd yn derbyn cyfarwys, sef rhodd, e.e. bardd yn derbyn 'cyfarwys neithior' (gw. *WML*, 33/16).

§31) Erys yma gyda'r syniad o ardrethu.

**lluydd** Rhyfela. Trethid bachgen pedair ar ddeg oed pan âi i ryfel.

**gwaetir** *gwaed* + *tir*, sef tir a roddid er mwyn talu galanas pe na bai gan y genedl ddigon o wartheg i dalu: gw. M. E. Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 285-87.

§32) Gellir cyfieithu *diffydd* fel *extinguish* neu gael gwared o'r rhaith. Rhestrir yma felly'r tair ffordd y mae gwybyddiaid yn gallu negyddu rhaith.

**dogyn fanac** Tystiolaeth ddigonol. Pan fyddai dyn yn rhoi tystiolaeth mewn cyfrinachedd am ledrad drwy dyngu yn yr eglwys o flaen offeiriad; neu yn ôl Ior, rhoi gwybodaeth i'r rhaglaw, neu'r arglwydd, fyddai wedyn yn galw'r offeiriad. Ceir amrywiaeth barn yn y testunau am *ddogn fanag*. Am drafodeth ar ddatblygiad y drefn hon gw. *NLC*, 47-53.

§33) Ni ddylid talu iawn am ladd pysgod, dyfrgi neu gi mewn amddiffyniad. Mae'r triawd yn awgrymu bod dyfrgwn yn bla. Sonnir yn Tim am hawl unigolyn i amddiffyn ei hun rhag anifeiliaid pobl eraill: *P6y bynac a lado neu a vratho anefeil dyn arall yny ymdiffyn ef y hyn ny dylir g6neuthur molest ida6 ef er hynny val hyn. nabnel ef yn amyn amdiffyn kymhedrol megis y bo diogel oy eneid* (Tim, 67/7-10).

**costog** Math o fwngrel fyddai'n gwarchod y tŷ. Y ci oedd â'r gwerth lleiaf arno mewn cyfraith waeth beth oedd gwerth ei berchennog: gw. *DrOC*, 192; I. Williams, 'costawg' *BBCS*, 11 (1941/4), 81-82. Un o'r pethau mwyaf sarhaus y gall menyw alw ei gŵr oedd *costog*: gw. *AL*, V.ii.148 ac *WLW*, 52.

§34) Cf. *Tri pheth a geidw cof a seif yn lle tyston y dyn ar y dylhet o tir: lle hen odyn, neu benntanvaen, neu ysgynuaen* (*LIB*, 118/11-13).

**dadannudd** Adfer neu ailfeddiannu aelwyd. Yn y gyfraith daeth yn enw symbolaidd ar achos lle bo'r hawlwr yn ceisio ailfeddiannu tir oedd yn eiddo i'w gyndeidiau drwy gynnu tân ar yr aelwyd. Rhoddid y pwyslais ar feddiant. Mae'r weithred yn debyg i'r *mort d'ancestor* mewn cyfraith Seisnig a gafodd ei gyflwyno gan Harri'r II ym 1176: gw. D. Jenkins, 'A lawyer looks at Welsh land law', *THSC*, (1967), 220-48; *LTMW*, 261; *EIWK*, 274-303. Mae

traethodau ar gyfraith dadannudd yn *LIB*, 71/24-73/7; *WML*, 48/18-50/2, *LII*, §84; *LTMW*, 101-04.

**esgynfayn** Enw ar garreg y mae rhywun yn ei defnyddio i godi ei hun ar gefn ceffyl: *mounting-block*. Mae ei werth cyfreithiol ar goll o'r testun.

- §35) Adleisia'r triawd hwn ddarn o *LIB*, 50/12-14, a *WML*, 103/11-13: *Y ty kyntaf a loscer yn y tref o walltan, talet y deu ty a enynho gyntaf gantaw, vn o pob parth idaw (LIB)*. Cf. hefyd: *O deruyd llosgi ty o wall tan, ef a dyly talu ty o bop parth idaw or lloscant gan y dan ef, ac ny dyly y tei hynny talu y tei nessaf udunt wy kyt lloscant ganthunt, kanys tan gwyllt yw, ac na ellir y arafu, ac wrth hynny ny dylyant wynteu na chadw y tan hwnnw na thalu y weithret (J, 145/8-12)*.

**gwalltan** *gwall* + *tân*; *tân* a gychwynnir yn ddamweiniol neu dân nad yw o dan reolaeth. Nid oedd rhaid talu iawn ond am y tri thŷ a enwir, ar ôl hynny roedd y *tân* allan o reolaeth ac nid oedd rhaid talu iawndal o'i achos.

- §36) Enwir yma'r tri gŵr nad oes raid iddynt roddi llw.

**cyngaws** *Advocate* neu ddadleuydd sy'n sefyll dros arall yn y llys.

**rhyfab** *rhy* + *fab*, sef mab sy'n rhy ifanc (*GPC*, d.g. *rhyfab*).

**arddelw** Hawlwr, neu amddiffyniad (*defendant, claimant*). Y triawd hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o driodd sy'n ymwneud â llwon a thyngu. Cf. §12.

- §37) Rhestrir yma'r tri math o lw sydd mewn cyfraith.

**gyrr** Cyhuddiad (*proceedings*): gw. *GMWL*, 185.

**gwers tra gwers** Bob yn ail, bob yn eil wers.

- §38) Y mae trioedd §§38-40 yn ymhelaethu ar y diffiniadau a geir yn nhri chymal triawd §37. Mae'r triawd hwn yn ymhelaethu ar gymal cyntaf §37.

- §39) Ymhelaethir ar yr hyn a geir yn ail gymal §37.

- §40) Ymhelaethir ar y trydydd cymal yn §37.

**bruduw** Briduw yw'r ffurf gywir: gw. *LAL*, 47-71.



§41) Cf. *Tri ryw twg yssyd: cadarnhau gwir gan tygu trwydaw perued; eil yw gwadu geu gan tygu trwydaw perued; trydyd yw tygu peth petrus herwyd kytwybot, yr hyn ny wyper beth uo, ae gwir ae geu* (LIB, 126/14-18). Eto ychwanegir cymal yn nhestun H yn esbonio: *sef yw hynny llw tebyc*.

§§42-3) Cf. §§ 293-94. Cf. *Ny dily kynhen vot ar leidyrr a perthyno y werthu hyny vo manac arnaw yn gyntaf trwy twg yn y tri lle, megys y mae racdywededic kyn no hyn. Ny dily vot reith ar leidyrr kysswyn hyny vo manac arnaw yn gyntaf y mywn llys* (LIB, 87/17-22). Cf. hefyd testun Ior: . . . *Ac ena e mae yaun y'r effeyryat croessy Duu racdau na tygo anudon, neu o myn tygu, tyget en gyntaf ar drus er egluys, a'r eyl llw en e gagell, a'r trydyd ar er allaur* (LII, §113/6-8) **cyswyn** Benthyciad o'r Lladin Canol *consignum* oedd yn golygu 'arwydd y groes'. Rhoes *consignum* hefyd fod i'r ferf *consignare* oedd yn weithred o nodi statws neu swyddogaeth arbennig person neu wrthrych drwy dynnu arwydd y groes drosto. Cf. y gair *cyswynfab* yn y cyfreithiau. Mab cyswyn oedd mab lle bo'r fam wedi tyngu ar yr allor a'r creiriau yn yr eglwys lle bo bedd teuluol y tad mai ef oedd y tad (gw. *WLW*, 91-2). Golygai *signum* arwydd ('sign') mewn Lladin Canol. Fe'i benthyciwyd i'r Gymraeg fel y gair *swyn*. Ystyr wreiddiol *swyn* oedd arwydd o bŵer goruwchnaturiol neu arwydd y groes. Roedd dŵr swyn, e.e. yn golygu dŵr oedd wedi ei fendithio (gw. M. E. Owen, 'Some Welsh words' yn y wasg; *LAL*, 53-55; *NLC*, 58-59). Yn y cyd-destun hwn mae'n debyg fod y term lleidr cyswyn yn golygu lleidr cydnabyddedig neu dybiedig. Gellid cyswyno lledrad ar ddyn, sef ei gyhuddo o ledrad, drwy dyngu a rhoi tystiolaeth yn ei erbyn yn un o'r llefydd cysegredig a enwir yn y triawd.

§44) Dyma ddechrau adran ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar wybyddiaid a thystion (§§44-52). Cyfansoddwyd yr adran allan o wahanol rannau o destun Bleg: gw. y rhagymadrodd, t. 62. Cf. *Tri gwahan yssyd rwg gwybydyeit a thyston. Gwybydyeit am a vu, kyn ymhyawl y dygant tystolyaeth, ac nyt ef y dwc tyston. Eil yw, gwybydyeit bieu deturyt eu gwybot yghyfreith tyston, kynny rytyster vdunt, ac nys pieu tyston. Trydyd yw, gwybydyeit bieu dwyn tystolyaeth yn erbyn gwat ac amdifffyn, sef yw hynny, gwybydyeit bieu profi*



gwir gwedy geu, ac nys pieu tyston (LIB, 121/14-22). Ychwanegwyd amrafel ddyall at y pennawd yn H.

- §45) Cf. *Teir ffordd y mae kadarnach gwybydyeit no thyston. Vn yw gallu dwyn lliaws o wybydyeit am vn peth yg kyfreith neu vn gwybydyat megys mach, ac ny ellir dwyn na mwy na llei no deu o tyston. Eil yw gallu dirwyaw dyn neu y werthu trwy wybydyeit, ac ny ellir trwy tyston o gyfreith. Trydyd yw gallu ohonunt profi yn erbyn gwat neu amdiffyn, ac nys dichawn tyston. Pan tysto tyst yn y tystolyaeth peth yn gyfreithawl y ereill yn erbyn amdiffynnwr, neu amdiffynnwr pan tysto ynteu peth yn gyfreithawl yn erbyn tyston, y rei hynny a elwir gwrthtyston yghyfreith, ac ny ellir eu llyssu (LIB, 121/23-122/3). Mae'r ddau driawd hyn (sef §44 a §45) yn digwydd mewn pâr yng ngweddill y testunau cyfraith hefyd. Yn dilyn hyn ceir darn sy'n glytwaith o wahanol rannau o destun Bleg sydd yn trafod yr un pwnc: gw. y rhagymadrodd, t. 62.*
- §46) Cf. *Ni dylir rwymaw vn dadyl trwy tystolyaeth ar wallawgeir heb ganhat y brenhin, or perthyn idaw dirwy neu a vo mwy am y dadyl ony thystir; kanys or llyssir, ny cheiff y brenhin dim; ac ony lyssir, ny cheiff mwy no chamlwrw (LIB, 45/30-46/3).*
- §47) Cf. *Gwybydyeit ympob dadyl, grym tystonn a gynhalyant, a chystal a allant ac a digaun tystonn ympob achaws (LIB, 131/8-10).*
- §48) Cf. *Y neb a vynho diuwynaw tystolyaeth varwawl, aet yn erbyn y neb a'e tysto. Y neb a vynho llyssu tystolyaeth vywawl, aet yn erbyn y tyston, yn gyntaf, ar eu geir; odynd gwedy eu llw; a thyghet nat tyst kyfreithawl arnaw, ac enwet yr achaws, a dywedet tygu o'r tyst anudon, a thystet y deu wr nat aeth y tyst yn erbyn yr achaws y llysswyt; a'r deu hynny, gwrthtyston y gelwir, a dilis vydant (LIB, 128/6-14).*
- §49) Cf. *Galw gwybydyeit a ellir yr amser y mynho y neb a'e galwo, ae kyn gwat ac amdiffyn, ae gwedy, kanys yr hyn a vu kyn dadyl a profant rwg y dadleuwyr (LIB, 128/15-8).*

§50) Cf. *Gwrthneu gwybydeit yw pan ymdangosson gyntaf yn erbyn amdiffynnwr o'r achwysson hyn: ae o anudon kyhoedawc, ae o yspeil kyhoedawc, ae yn lledrat, ae y treis ar hedwch, neu o yskymundawt geir y enw, neu o digassed honheit yn erbyn amdiffynnwr, a'r kyfryw a hynny kyn eu mynet y eu cof. Ony dichawn ef eu gwrthneu wy yn gyfreithawl, gwedy hynny llysser wynt megys tyston, ae o elynyaeth, ae o odineb, ae o tirtra, megys y dywetpwyd vry yn y llyfyr (LIB, 128/19-28).*

**Gwrthueb** Mwy na thebyg ei fod yn gamgopiad o'r gair *gwrthneu* fel sydd yn Bleg, neu ei fod yn ymgais i ddiweddarau, neu gall fod yn gamgopiad o'r gair *gwrthneb* fel sydd yn *gwrthnebus*. Mae Moses Williams yn diwygio'r gair i *gwrthneu* yn Llan 73.

**mal y dywetpwyd yn y llyfr praw** Yn nhestunau Bleg sonnir *megys y dywetpwyd vry yn y llyfyr* tra cyfeirir yn benodol at y llyfr prawf yn H.

§51) Cf. *Tri tystolyaeth dilys yssyd: tystolyaeth llys yn dwyn cof; a thystolyaeth gwybydeit a gredir pob vn yghyfreith, megys tat y rwg y deu vab, neu yn lluosawc am tir; a thystolyaeth y gwrthtyston (LIB, 120/27-31).* Yn H mae'r ail gymal wedi cael ei gywasgu i *wybyddyeyt dilyssiant* yn unig tra rhoddir enghreifftiau o'r hyn a olygir wrth hynny yn y testunau eraill.

§52) Cf. *Tri lle y tywys cof llys: am gyfyndeb dwy bleit; ac am terfynu dadyl, or daw kyghaws vn yn dywedut y theruynu, ac arall yn dywedut na theruynwyt; ac am aghyfreith a wnel argwyd a'e dyn yn llys (LIB, 121/1-5).*

§53) Cf. llsg. Z, f. 50r: *Tri ffeth ni ddily ev perchenawc i rranv: derw goed a dofyw wern a cherig (WMLT: Z71).* Newidir prif air y pennawd gan roi pwyslais ar berchnogaeth tir ac efallai'n awgrymu cyd-berchnogaeth ar dir.

§54) Cf. *Tri pheth ny dilyir eu rannv namyn herbyd y ffr6ytheu: melin, a choret, a pherllan (WMLT: Q188).* Newidir prif enw'r pennawd yn ddiystyr braidd oni bai bod perllan yn cyfeirio at y wal o gwmpas. Yn *WMLT: Q194* gelwir y tri hyn yn 'Tri thlws cenedl'. Gwerth cyfreithiol melin a chored oedd punt (Tim 88/33-35; *DwCol*, §146).

**cored** Math o argae i ddal pysgod, Saesneg: *weir*.

§55) Ceir y gyfatebiaeth agosaf i'r adran yn Ior: *Teyr ford y guneyr sarhaet y'r brenhyn: vn yv pan torrer y navd, pan rodo navd y dyn a'y lad; eyl yv pan del deu urenhyn ar eu kyttervyn o achavs ymaruoll, ac yg gvyd y deu urenhyn llad o vr y'r neyll gvr y'r llall; trydyd yv camarueru o'y wreyc . . . Sarhaet brenhyn Aberfrav ual hyn y telyr: can muw vrth pob kantref a uo ydav, a tharv gvyn eskyuarllennyc vrth pob can muv onadunt, a guyalen eur gyhyt ac ef ehun a chyn urasset a'y vys y bychan, a chlaur eur cywlet a'y vyneb a chyn tewet ac ewyn amaeth ryvo amaeth nav blyned. Ny thelyr eur namyn y urenhyn Aberfrav (LII, §3/3-14). Mae'r adran hefyd yn adleisio darn o destun cyfraith y wlad sy'n sôn am sarhaed: *O deruyd y ur o wlat arall e sarhau, teyr a thry ugeyn punt yu y sarhaet (a henny yu y uechteyrn delyet enteu e urenhyn Llundeyn pan gymero y tyr y ganthau; ac amen henne heuyt ny dele dym byth y ganthau namen kun a hebogeu a meyrch) (LII, §110/14-17). Dilynir y triawd gan ddiffiniad o sarhaed y brenin, er y newidiwyd tipyn ar eiriad y darn a hepgorir geiriau anghyffredin fel ymaruoll (cyfnewid llwon) neu eskyuarllennyc (a chanddo glustiau coch neu frith). Disodlwyd y gair *clawr* gan *cufert*. Sonnir am sarhaed y brenin yn M. E. Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 53-60 ac mae'r symboliaeth wedi ei thrin yn llawn gan Robin Chapman Stacey yn *WKC*, 35-37.**

**cufert** *Cwfert*: benthyciad o'r Saesneg Canol *covert* neu'r Ffrangeg *couvert* ac yn golygu gorchudd (*GPC*, d.g. *cwfert*). Ni chofnodir y gair yn unman arall yn y cyfreithiau ond mae'n cael ei ddefnyddio ym marddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg, e.e. yng ngwaith Dafydd ap Gwilym: *cwfert ar bob cwm ceufawr* (Thomas Parry (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd, 1979), 184) a Dafydd ab Edmwnd: *ar gael plwk or gwely plu/doed Rob[er]t gwferd y gad/ j gyd hel i goed dwywlad* (Thomas Roberts (gol.), *Gwaith Dafydd ab Edmwnd* (Caerdydd, 1914), 115).

§56) Cf. *O tri mod y serheir y vrenhines: pan torher y nawd, neu pan trawher trwy lit, neu pan tynher peth gan treis o'e llaw. Trayanwerth sarhaet brenhin a telir y'r vrenhines dros y sarhaet, heb eur a heb aryant (LIB, 4/7-11). Yn debyg i destunau Bleg lle defnyddir *tynher gan treis* defnyddir *treisio* yn hytrach na *grypdeyllav LII*. Defnyddir y term *rhiein freinyat* am y frenhines. Mae gwerth*

ei *sarhaed* yn llai nag un yr edling. Gw. M. E. Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 63-64. Ychwanegir cymal am yr edling at y triawd. Sonnir yn *LII*, §4/21; §110/21-2 mai traean (1/3) *sarhaed* y brenin yw un yr edling (sy'n gyfwerth â thaliad y frenhines), dywedir yn *LIB*, 5/1-5 fod ei werth yn 2/3 gwerth y brenin; tra sonnir yn *WML*, 4/3-6 fod ei alanas a'i *sarhaed* yr un gwerth â rhai'r brenin ac eithrio'r aur a'r arian. Dywedir ei fod yn gyfwerth â'r brenin hefyd yn Lladin A, B, C, ac E (gw. *WKC*, 47).

**rhiein** Cf. Hen Wyddeleg *riġain* = brenhines. Golygai'r gair frenhines i ddechrau wedyn datblygodd yr ystyr i olygu morwyn (fonheddig). Erys rhai enghreifftiau o'r gair yn ei ystyr wreiddiol. Mae *rhieingylch* yn derm ar gylch y frenhines yn *WML*, 57/13. A chyfeirir at ei chylch ym Mreintiau Gwŷr Powys gan Cynddelw:

Cynneddf i'r cedwyr, ced ysgain- i feirdd,  
Cedweilch heirdd, hardd yd fain,  
Eilwaith gwarth gwrthodes cynrain,  
Ail gormail, gormesgylch rhiain (*WKC*, 217).

Defnyddir y gair hefyd yn Canu Swyddogion y Llys: *Dyd da yt, riain* (*WKC*, 554) ac yn Trioed Ynys Prydein ceir triawd o'r enw *Teir Prif Riein Arthur* (*TYP*, 154). Mae'n gyffredin yn ei ystyr ddiweddarach o forwyn yng ngwaith y cywyddwyr, e.e. *cerdd a genir ymhob gwledd/I ddi-ddanu rhianedd* (Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 364).

**breinyat** Yr un sy'n dal braint, brenhines.

- §57) Sonnir yma am fab brenin Aberffraw a dywedir mai'r mab hynaf fyddai'n derbyn y tyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu cyfraith eglwysig a chyfraith Lloegr: cf. *LII*, §87/12-17. Mae'n groes i'r hyn a geir yn Bleg: *Pan ranho brodyr tref eu tat yrydynt, y ieuhaŷ a geiff tydyn a holl adeil y tat . . .* (*LIB*, 74/21-28) ac mae'r cymal *er y bod yeuaf* yn awgrymu fod crëwr y testun yn ymwybodol o'r rheol hon. Dichon fod hyn yn adlewyrchu ymgais Llywelyn Fawr i sicrhau olyniaeth Dafydd, ei fab cyfreithlon: gw. y rhagymadrodd, tt. 74-75. Mae ail gymal y triawd hwn yn adleisio darn o destun Ior: *O deruyd rody Kemraes e alltut a bot plant udunt, e plant a dele tref tat o uamues, eyther na deleant ran*

*o'r teden breynnyaul hyt e trededen . . . (LII, §53/4-6). Cf. hefyd LIB, 81/17-20; WML, 62/15-18.*

§58) Cf. *Tri anhebcor brenhin ynt: y offeirat y ganu offeren ac y vendigaw y bwyt a'r llyn, a'e vrawdwr llys y varnu brodyeu ac y rodi kyghoreu, a'e teulu wrth wneuthur negesseu y brenhin (LIB, 108/27-30). Mae testun H/PeniARTH 278 yn amrywio ychydig oddi wrth hyn. Defnyddir diffiniad o'r gair *anhebcor* yn y pennawd a chyfeirir at y bardd teulu yn hytrach na'r teulu ei hun. Roedd y brenin yn ddibynnol ar grefft y tri hyn.*

§59) Cf. *Tri phryf a dily y brenhin eu gwerth py tu bynhac y llather: llostlydan, a beleu, a charlwnc; kanys oc eudillat y gwneir amaerwyeu y dillat y brenhin (LIB, 114/13-16). Rhoddir y pwyslais ar y frenhines yma yn hytrach nac ar y brenin: gw. y rhagymadrodd, t. 68.*

**wrlllys** Ffwr. Daw o'r gair Saesneg Canol *urlis* neu o Hen Ffrangeg. Mae'r defnydd o'r gair yn dangos pwyslais ar ddefnyddioldeb yr anifail ar gyfer gwneud dillad. Mae llawer o eiriau benthyg Ffrangeg yn y testun fel sy'n digwydd yn *LII*. Am ddylanwad geiriau benthyg Ffrangeg ar y Gymraeg gw. M. Surridge, 'Romance linguistic influence on Middle Welsh, a review of some problems', *SC*, 1 (1966), 63-92.

**beleu** Anifail tebyg i'r wenci a chanddo groen gwerthfawr. Ei werth cyfreithiol oedd pedair ceiniog ar hugain (*LIB*, 52/29).

**llostlydan** Afanc. Gwerth cyfreithiol llostlydan oedd chwe ugain ceiniog (*LIB*, 52/28).

§60) Adleisia'r triawd ddarn o destun Ior: *Puybynnac a dywatto sarhaet, try pung esyd yaun ydau y wadu: na wnaeth na meuyl na sarhaet ydau nac y'u genedel nac y'u argluyd (LII, §110/47-9). Dyma'r cyntaf o ddau driawd yn sôn am sarhaed.*

**sarhaed** Gweithred oedd yn sarhau, cf. *iniuria* mewn cyfraith Rufeinig; datblygodd i olygu iawndal a delid i ddiodefwr oedd yn amrywio yn ôl ei statws: gw. Harris 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 116-77. Rhaid oedd gwadu gwarth, *sarhaed*, neu ymosodiad, i'r person a gafodd ei sarhau, i'w arglwydd, ac i'w deulu; fel na fyddai dirwy gan yr arglwydd a dial gan y

teulu. Pe na thelid galanas byddai dial yn gyfreithiol. Ystyrir *sarhaed* yn ymosodiad ar urddas rhywun a allai hefyd effeithio ar urddas y teulu oll (*WLW*, 47).

- §61) Cf. *Tri pheth ny drycheuir armunt: bynebberth, a sarhaet alltud, [a gbarthryd kelein, kanyd kymeint gbaradbyd bynebbarth a sarhaed, ac nyd kymeint sarhaed alltyd a bonhedic breiniol,] canyt kymeint y anryded na breint dyn mar6 a dyn by6; 6rth hynny nyt ardrycheuir ar vn o'r tri hynny* (*WMLT*: Q246). Mae'r triawd hefyd i'w gael yn llsgr. MK, Tim a J: gw. y conspectws. **ardderchefir** Ychwanegu at bris *sarhaed* (*augmentation*). Am ddyrchafael gw. F. W. Maitland, 'The laws of Wales: the kindred and the bloodfeud', 213-14; Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 134-41. Mae llsgr. V, f. 21v (Cyfn) yn nodi na ddylid talu *sarhaed* alltud ac mae Q yn cytuno â hynny: gw. Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 136. **sarhaed** Yma golyga'r iawndal.

- §62) Adleisir yma, ac yn y triawd nesaf, ddarn o gyfraith y gwagedd: gw. *WLW* 65-68. Cf. *Try agkeuarch gur: e uarch a'e arueu, ac a del ydau o'e tyr, ac a del en vynepwerth e gan e wreyc am e chewilyd; ny dele enteu rannu urun o henne a'e wreyc. Try agkyuarch gureyc yu e thry pryurey, a henne nys ran hythey a'e gur* (*LII*, §55/29-32). Tra yn *Col*: *Try agheuarch gur, y uarch a'e arueu, ac a del ydau am y tyr a'y dayar, a'r hyn a del ydau en y wynebuwerth y gan y gureyc; a hynny a ceuffy y gur yn ragor pan uo ysgar. . .* (*Col*, §40) Ceir cyfatebiaeth hefyd rhwng y triawd hwn a phedwarawd sydd i'w ganfod yn Bleg: *Petwar aghyfarch gwr ynt, y varch, a'e arueu, a thwnc y tir, a'e wynebuwerth* (*LIB*, 83/18-19). Mae'r ceffyl a'r arfau yma'n cynrychioli ebediw'r gŵr a delid i'r arglwydd ar ei farwolaeth: gw. erthygl Donald Howells, 'The four exclusive possession of a man', *SC*, 8-9 (1973-4), 48-67. Am ysgaru gw. Robin Chapman Stacey, 'Divorce, medieval Welsh style', *Speculum*, 77 (2002), 1107-27; *NLC*, 82-83. **ancyfarch** Ei ystyr yma yw'r pethau na ddylid eu hawlio gan eraill. **twnc** Taliad blynyddol i'r arglwydd, felly ni ddylai neb arall gael rhan ohono. Gw. *EIWK*, 377 *et passim*.

§63) Cf. *Try pryfurey gureyc: e chowyll a'e gowyn a'e sarhaet; sef achaus e gelwyr e try henne en try prifurey, urth eu bot en try pryaut gureyc ac na ellyr eu duen o nep achaus e genty* (LII, §51). Cf. hefyd: *Anhebcorev gureyc yu y prifhey a hyny a dily hytheu en ragor* (Col, §41). Fe'i hadleisir ac fe'i haralleirir yn Bleg: *Tri pheth ny ellir eu dwyn rac gwreic, kyt gatter am y cham: y chowyll, a'e hargyfreu, a'e hwynebwerth, os rygauas kyn no hynny o gymryt o'r gwr wreic arall* (LIB, 119/15-18). Ymddengys y triawd hefyd yn *DwCol* ond eto nid yw'r rhestr yn cyfateb yn union o ran geiriad. Yn Lladin B, 243; Lladin E, 494 ac yn S, §1936 fe'i ceir ar ffurf chwechawd sy'n rhestru: *cowyl, gouin, sarhaet, argyureu, aguedi, ac amoby*. Am ystyron y gwahanol gysyniadau hyn gw. *WLW*, 66-68. Eglurir yn nhestun H y dylai'r wraig gael ei *hwynebwerth* pe cysylltid ei gŵr â dynes arall, a'i *sarhaed* os caiff ei churo ar gam: gw. *WLW*, 40-69, 76-84. Dynodir yma wahaniaeth rhwng *sarhaed* a *wynebwerth*.

**wynebwerth** = *face value*. Mae elfen gyntaf y gair yn gytras â'r gair Gwyddeleg *enech*, sef tâl anrhydedd a gynyddai yn ôl statws ac a gyfatebai o ran ffwythiant i *sarhaed* y cyfreithiau Cymraeg. Ceir cytras llawn i *wynebwerth* yn y Llydaweg, sef *enepuert*, a gofnodir yn y *Cartulaire de Redon*. Yng nghyfraith y gwragedd mae *wynebwerth* yn daliad o iawndal am gamymddwyn rhywiol o fewn priodas (*WLW*, 220; *LTMW*, 392).

§64) **tylluedd** Amwys yw ystyr tyllwedd, caiff ei gyfieithu fel *indemnity* yn *AL*, II, 589. Awgryma D. Jenkins yn *Col*, 127 mai'r syniad o heddwch neu dangnefedd sydd y tu ôl i'r gair ac yn *LII*, 163, caiff ei gyfieithu fel *pledge*, *guarantee*, neu *bond of silence*. Gallai hefyd olygu cadoediad, heddwch, llw, neu fach: gw. *WKC*, 574. Nodir yma nad twng lliaws yw tyllwedd. Awgrymir grym *tyllued* yn y ffaith mai un tyst sydd ei angen ac nad yw grym y llw yn fwy wrth ei dyblu. Cyplysir *tyllued* gyda meichiau yn *DwCol*: *O deruyd y dyn rody telluet y arall a guedy hynny mennu y gadu, keureyth a deweyt o byd gurthtug gan er haulur deleu guadu telluet ual y guater bryduv* (*DwCol* §383).

§65) Amrywiad o §3.

**un o'r teir gwyl arbennic** Y Nadolig, y Pasg a'r Sulgwyn: *nit amgen, o nos Nadolic gbedy gosper hyt dy6 kalann gbedy offerenn, o nos Pasc gbedy*



*datbyrein hyt dy6 Pasc Bychan g6edy offerenn, o nos Sad6rnn Sulg6ynn g6edy gosper hyt dy6 Sul y Drinda6t g6edy offerenn, kynny dyly neb gofynn y gilyd ynn y die6ed hynny (S, §185).*

**gweli tafawt** Yn llythrennol golygai clwyfo â'r tafod (*verbal insult*) a'r iawndal a ddaw yn sgil hynny: gw. *NLC*, 153, n. 89.

§66) Triawd sydd â chyfatebiaeth iddo yn Tim a Q. Cf. *Tri dyn y degemir udunt: offeirrat, ac ygnat, a manag6r. Sef achos y6 hynny: ygnat a dyly y decuet geina6c or a varnho eithyr am tir, a lletrat, a llad kelein; ac am bop vn or rei hynny pedeir ar ugeint a dyly. Manag6r a dyly y decuet geinha6c o'r a vanacko. Offeirrat a dyly deg6m Crist (WMLT: Q159).* Mae fersiwn o'r triawd hefyd yn llsgrau. K, f. 83 a Lew, f. 72v. Ceir cryn dipyn o amrywiad yn y mynegiant yn nhestun H. Defnyddir y term *personeu Crist y degwm* yn hytrach nag offeiriad. Mae'r gair *person* yn gallu cyfeirio at reithor, ficer neu is-offeiriad a fyddai'n hawlio taliadau'r plwyf: gw. *GPC*, d.g. person<sup>2</sup>.

§67) Cf. *O deruyd y dyn mynnu gwneuthur twryf neu eniwet am dir a daear ar arall, gwnaet ar y tir a'r daear y bo yr hawl arnaw. Sef yw twryf: llosci tei, a thorri ereidyr. Eniwet yw: kwyn mynych wrth wlat ac arglwyd; kynny chaffo iawn ym blwydyn nac ym blwynyded, nyt diffodedic yr hawl yr hyt y bo hebddaw (J, 142/8-13).* Gw. y conspectws am ragor o gyfatebiaethau.

**twryf** Tarddai o *twrf* sy'n golygu twrw neu helynt.

**eniwet** *e + niwed*. Yn Ior rhoddir y dehongliad hwn: *Sef yu turyf ac eynywet, llosky tey a thorry ereyder (LII, §87/29-30) tra yn AL, V.ii.97 . . . sef yd t6ryf ac eniwet, llosgi tei neu lad kelein . . .* Ceir dehongliad gwahanol eto yn *Col: Sef yv turyf, llosgy ty neu torry aradyr. Sef yv eynywet, kvyn urth argluyd, cany deleyr kuynau am tyr namyn urth argluyd (Col, §§613-14).* Fel *Col* (a J, Tim, S) mae'r testun yn gwahaniaethu rhwng twryf ac eniwed gydag eniwed yn golygu cwyn gyfreithiol.

§68) Dyma'r cyntaf o dri triawd sy'n seiliedig ar gyfraith y gwragedd. Cf. *O tri achaws ny chyll gwreic y hagdewi kyt adawho y gwr: o glafri, ac eissieu kyt, a dryc anadyl (LIB, 64/1-3).* Unwaith eto mae'r geiriad yn amrywio.



**hagwedy** Gwerth yr eiddo priodasol. Roedd gan y wraig hawl i'w rhan ohono ar ôl saith mlynedd o briodas (*WLW*, 188).

**glawr** Llygriad o *clafwri* neu *clafwr* sy'n golygu gŵr oedd yn dioddef o'r gwahanglwyf: gw. J. Cule, 'The diagnosis, care and treatment of leprosy in Wales and the border in the Middle Ages', *Transactions of the British Society for the History of Pharmacy*, 1 (1970), 29-59.

- §69) Cf. *Teir gweith y keiff gwreic y hwynebwerth: kyntaf wheugeint; yr eil weith punt; y tryded weith y dichawn adaw y gwr a mynet a'e holl dilyet genti; ac os diodef hi dros y tryded weith, ny cheiff hi wynebwerth* (*LIB*, 64/3-7). Amrywiad arall.
- §70) Cf. *Try gorsaf gureyc: pan kescer genty ny dele kechwyn odyo hyt e nauuet dyd; a phan esgarho a'e gur ne dele kechuyn hyt e nauuet dyd, ac ena en ol e keynnyauc dywethaf; a pan uo maru e gur ne dele kechuyn hyt e nauuet dyd, ac ena en ol e keynnyauc dywethaf* (*LII*, §51/20-24 ).
- §71) Mae'r triawd hwn i'w ganfod yn Llyfr Gwyn Rhydderch mewn rhestr o drioedd gwirebol. Roedd llenyddiaeth wirebol a diarhebol yn boblogaidd yn y drydedd ganrif ar ddeg a'r bedwaredd ganrif ar ddeg a gwelwyd corffori gwirebau mewn testunau llenyddol a chyfreithiol. Caent eu cysylltu â chreffft y beirdd: gw. M. E. Owen, 'Trioed hefut y6 yrei hynn', *YB*, 14 (1988), 87-114. Argraffwyd trioedd y Llyfr Gwyn gan E. G. B. Phillimore yn 'A fragment from Hengwrt MS no. 202', *Y Cymmrodor*, 7 (1886), 137. Gw. y rhagymadrodd, t. 67.
- §72) Triawd sy'n digwydd yn Tim a *DwCol* yn unig. Cf. *Tri cho6lla6c llys. ygnad. abard: a medic* (Tim, 92/17). Cf. §104, yno enwir y trullyat yn lle'r meddyg. **cyfoethu** Yma gellir ei ddeall fel berfenw, y rhai oedd yn cyfoethogi'r llys; neu gall fod yn llygriad o *cowyllawc*.
- §73) Triawd sy'n digwydd yn Tim, *DwCol* a Q yn unig. Cf. *Teir bala6c vechni yssyd. kyntaf y6 onadunt ophryn dyn peth gan arall. Ac erchi mach o hona6 ar yda y gan y neb ay g6erth6ys. Mi ay rodaf heb y dyn. A rody y la6 o hona6 yn*

la6 y mach. Ac nadel y dyn ae kymero y vechni oe chymryd o la6 y mach. namyn ystynny y la parth ac ar mach. Ar mach parth ac attab ynteu. Athebygu bod yn digabn hyny k' adbeid na grymha y vechni honno yny dyd y bo reid 6rthi. kany medr6yd. kyd boed mach ef gan ay rodes o vyned y lla6 yny gylyd ydynt: nyd mach ef yr neb ae kymerth kanyd aeth y lla6 yny gylyd. A 6rthhyny ymae bala6c vechni. Yr ail y6 bala6c vechni O dervyd y dyn bryny y peth gan ar arall. Ac erchi mach ar y peth hyny: d6edyd o'r dyn a bryno y peth. my ae rodaf vach ac eystyny y la6 parth ar mach ac estyny o'r mach parth ac attab ynteu y la6. Ahep rodi vn y la6 yn lla6 y gylyd eissoes A g6edy hynny rodi or mach y la6 yn llaw y neb apryn66ys y da. A myned yn vach k'. yna a d6eid y vod ef yn vach yr g6r ay kymerth yn gyf'a6l. Ac nad mach yn teu gan y g6r nys rodes yn gyf'a6l. Achanidoes le yda6 ef y kymhello ef y vechni. dyg6yded ehyn yny gofyd a del o'r vechni honno. A'r trydyd bala6c vechni y6. O dervyd y dyn kymryd mach yny abssen ar beth a dyfod rodia6dyr y mach ar rodi y vechni yn lla6 y mach ay hen6i yr dyn nyd ydy6 yn y lle a rodi y la6 yn lla6 y mach val ydoed k'a6l. A defod y mach ar y procurator yr hyn yssyd yn lle y dyn y kymer6yd y vechni yda6 arodi y vechni yda6 ar lla6 yny gylyd ay hen6i or mach yr vn ny dydi6 yny lle hefyd y vod ef yn vach. k' a d6eid yn hynny na grymha y vechni honno. Sef acha6s y6 kyd el ylla6 yny gylyd y pob vn o'r tri dyn y byant am y vechni. nyd amgen hy yr procurator yr hyn a kymerth 6rth hy ny ny dyly h6nn6 nar vechni nar ha6l. Bey re en6eu y mach y h6nn6 y vechni reid vydeu yda6 ehyn daly y tal. Y g6r re en6yd yda6 y vechni ac nidoed yny lle. nys dyly kany chymerth y vechni o la6 y mach val y dylyeu. Ac 6rth hynny na grymha hytheu. Ac 6rth hynny gel6ir yr hei hynny yn deir bala6c vechni. Sef acha6s y gel6ir hwy velly. Ann6yd bala6c y6 r6ym a6 yngadarn hyny 6rth6yneper hi: a phan tyner bala6c yny g6rth6yneb ell6g yr6ym ag6na hitheu. Ac 6rth hynny nyt dyffleys yr6ym hitheu. Ac velly ymae mechniaethaey hyn. o g6rth6ynebyr vdynt ny safant ac ny grymant (Tim, 96/32-98/1).

Triawd cymhleth ac aml gymalog: cf. ffurf §1. Mae'r triawd yn atseinio testun *LIB*, 40/5-22, sydd hefyd yn s6n am ystyron *balawg fechni*, sef cytundeb mechniaeth nad oedd wedi cael ei anrhydeddu ar bob ochr ac felly nad oedd yn ddilys (gw. hefyd S §151-55). Mae *balawg fechni* yn well delwedd yn yr achos hwn na'r hyn a geir yn nhestun H. Yr hyn a olygir gan *balawg* yma yw *bwcl* sy'n rhyddhau os yw'n cael ei dynnu o un ochr yn unig: gw. *LTMW*, 73-

75. Ceir llygriad copïo yn *DwCol* a'r hyn a geir yno yw *halauc* yn hytrach na *balawg*. Nid llygriad copïo sydd yn nhestun H ond adlewyrchiad o ddyfeisgarwch y copïydd. Mae geiriad H yn agosach at Tim a *DwCol* na Q.

**palfawd** Ystyr *palfawd* yw ergyd â llaw agored, cf. *Paluawt Branwen* yn *PKM*, 48/13. Daw o'r gair *palf* sy'n golygu cledd y llaw ac mae'n cydfynd â'r cyfeiriadau at law ac ysgwyd dwylo sydd yn y triawd. Cf. y defnydd o *palf* yn §270: *Tri phalfawt ny ddiwygir*. Ai *DwCol* oedd ffnhonnell yr awdur? Dichon fod *palfawd* yn ymgais i gywiro'r llygriad *halauc*.

**procurator** Benthyciad o'r gair Lladin *procurator*. Ni ddefnyddir y term yn y fersiwn o'r triawd yn llsgr. Q. Cyfeiriai at gynrychiolydd y prynwr.

§74) Triawd sydd wedi ei seilio ar gyfres o ddamweiniau sydd i'w cael yn J a Tim, D ac F. Cf. *Llyman y lleoed y dylir tystolyaeth ar anieul: vn y6, oderuyd ydyn llad ki dyn arall, ar neb pieiffo y ki yndywedut y vot yn vugeilgi, ar llall yny amheu; reit y6 y berchenna6c y ki bot ida6 gymoda6c uch y la6, ar arall is y la6 y gad6 y vot yu uugeilgi: eil y6, oderuyd y gi wneuthur kyflauan, neu d6y neu deir; ae diheura6 deirg6eith; ar bedwarded weith bot y berchenna6c yn mynnu y diheura6; kyfreith adyweit, pany6 y dyn y g6naethp6yt yr eissiwet ida6 bieu proui y vot yn gyneuodic osdiga6n; kanys or dryded weith allan y bernir yn gyneuodic: trydyd y6, oderuyd y dyn llad ki kyndeiry6c; a dywedut o berchenna6c y ki nat oed gyndeira6c; kyfreith adyweit, y dily y neb ry lada6d y ki proui y uot yn gyndeiry6c, y welet yn ymlad ach6n neu yn ymlit dnyon, neu wedy yssu y daua6t; ac o g6elir hynny arna6, ryd vyd y lad kanys kyndeira6c vyd (AL, V.ii.140 allan o D ac F). Gw. hefyd AL, IV.iv.35.*

§75) Yn H a Q yn unig y digwydda'r triawd hwn: *Teir g6raged ny dily eu g6yr ia6n gantunt am y godineb: vn y6 g6reic a dyccer lathrut; kyt g6nel y'r g6r arall a vo da genti, ny dily 6neuthur ia6n y'r g6r a'e duc lathrut. Eil y6 g6reic a gyscer genti yg karadas ac yn gyhoed hynny; kyt g6nel honno a vo da genti, ny dily y g6r a gysc6ys genti caffel vn ia6n. Trydyd y6 g6reic l6yn a pherth; ny dily y gorderch caffel ia6n genti kyt g6nel any6eirdeb o gymryt ohonei orderch arall (WMLT: Q235).*

**llathlut** Uniad lle na roddir y fenyw gan ei theulu ond ei bod hithau wedi cytuno â'r uniad, *elopement*. *Llathlud* yw'r ffurf gyffredin yn llawysgrifau'r

gogledd tra fo'r ffurf *llathrudd* yn gyffredin yn nhestunau'r de (*WLW*, 208). Cf. *lathrut* llsgr. Q.

**caraddas** Y trydydd uniad priodasol a restrir yn y naw cynwydeddi teithiog, uniad cyhoeddus (*WLW*, 194).

**gwreic lwyn a pherth** Uniad lle cysgai'r ferch yn yr awyr agored gyda dyn (cf. *WLW*, 206).

§76) Cf. *Ef a dely medegynyaeth rat e gan e medyc teylu eythyr e waet dyllat, onyt un o'r teyr guely arperygyl; sef ev e rey henny, dyrnavt em pen hyt yr emenhyd, dyrnavt eg corff hyt yr emyscar, neu torry un o'r pedeyr colouyn* (*LII*, §6/40-44). Hefyd: *Try arperygyl den: dyrnaut em pen hyt er emenhyd, a dyrnaut eg corff hyt er emyscar, a thorry un o'r petwar post* (*LII*, §147/5-6). Gw. hefyd *LIB*, 26/17, *WML*, 25/5. Y pedwar post y cyfeirir atynt yn y triawd yw'r ddwy fraich a'r ddwy goes. Sonnir yn Ior mai tair punt a delid i ddyn a anafwyd yn y modd hyn. Am y meddyg gw. J. Cule, 'The court mediciner in the laws of Wales', *Journal of the history of medicine and allied sciences*, 21 (1966), 213-36; M. E. Owen, 'Medics and medicine', yn *WKC*, 116-141. Mae'r triawd hwn yn hynafol ac yn cyfateb i ran o destun yr *Excerpta de libris Francorum et Romanorum*: gw. L. Fleuriot, 'Un fragment en Latin de tres anciennes lois Bretonnes armoricaines du VI siècle', *Annales de Bretagne*, 78, (1971), 601-60; D. N. Dumville 'On the dating of the early Breton lawcodes' *Etudes Celtique*, 21 (1984), 207-221. Gw. hefyd M. E. Harris, 'Compensation for injury: a point of contact between early Welsh and Germanic law?', yn Thomas Glyn Watkin (gol.), *The Trial of Dic Penderyn and Other Essays* (Caerdydd, 2002), tt. 56-59.

§77) **argae** *ar + cae*. Cf. §201. Ystyr wreiddiol *cae* oedd 'gwrych neu glawdd drain' fyddai'n 'atalfa' neu 'rwystr' (*GPC*, d.g. *cae*). Ystyr *argae* yma yw rhywbeth sy'n rhwystro mynediad i'r llys. Cf. §576: *Tri argae damdwng*. Gw. hefyd §1147 am *argae terfyn*.

§78) Eto dywedir nad yw'r mab ieuaf yn cael y tyddyn breiniol: gw. §57. Cf. *Pan ranho brodyr tref eu tat yrydunt, y ieuahaf a geiff tydyn a holl adeil y tat, ac wyth erw, a'e gallawr, a'e uwel gynnut, a'e gwlltyr; kany eill tat rodi y neb y*

*tri hynny namyn y'r mab ieuhaf, a chyn gwystler, ny dygwydant byth (LIB, 74/21-26).*

**§79) anghyfarch** Yr ystyr yma yw trosedd neu gamwedd (na ddylid gwneud iawn amdanynt). Os oedd rhywun yn cydnabod ei weithred yn yr achosion a enwir nid oedd rhaid difwyn amdanynt, sef gwneud iawn amdanynt. Fel rheol rhaid oedd talu tair buwch i'r brenin yn gosb am anghyfarch (*Cyfraith Hywel*, 63). Cf. S §1548-49.

**§80)** Gan mai buwch oedd taliad anghyfarch eir ymlaen yma i sôn am y gwartheg eraill oedd yn ddyledus i'r brenin.

**gwyl For** Gall fod yn llygriad o'r gair Ueyr sy'n digwydd am Fair yn Ior: *Ny deler dale teyru o hanner haf hyt Aust nac ar yt nac ar wellt, canys en er amser hunnu y byd teruenyd e guarthec prouady, nac o Aust hyt vyl Ueyr gyntaf, canys yna y byd teruenyd y kynflythed (LII, §156/19-22)*. Gallai hefyd fod yn llygriad o ffurf ar *Ueir*, *Uer* neu hyd yn oed *Uor*. Roedd gwyl Feir y cyntaf yn disgyn ar Awst 15. Yn Walter Davies a John Jones (goln.), *Gwaith Lewis Glyn Cothi: The Poetical Works of Lewis Glyn Cothi* (Oxford, 1837), 88 ceir copi o Foliant Sion ab Rhys a Siancyn lle gelwir am nawdd Sant Mor: *Nawdd Ilar, nawdd Mor, a nawdd Elwedd*. Serch hynny, mewn fersiwn arall o'r gerdd allan o Beniarth 109 yn Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Lewys Glyn Cothi* (Caerdydd, 1995), 234 gelwir am nawdd Mair yn hytrach na Mor. Awgryma hyn fod y ffurf Mor yn llygriad neu gamgymeriad cyffredin wrth gopiö Mair. Ond efallai mai gwir gyfeiriad at Sant Mor sydd yma. Caiff Mor ei restru fel un o'r seintiau Celtaidd gan Baring-Gould a Fisher (*The Lives of British Saints*, III, 497-99). Priodolwyd yn y gorffennol eglwysi Llanfor ym Meirionnydd, Llannor yn Llŷn, a Llanynys yn sir Ddinbych i Sant Mor ond bellach diystyrwyd hyn a chredir mai *Llan + fawr* oedd y tu ôl i enwau Llanfor a Llannor. Sonnir am Sant Mor hefyd yn *AL*, IX.xxiii.1 ond ni roddir dyddiad gwyl Sant Mor. Llanfor oedd yr hen enw ar Llanynys yn Sir Ddinbych cyn i'r eglwys gael ei hailgysegru.<sup>1</sup> Mae rhan o blwyf Llanynys yng nghwmwd Isaled

<sup>1</sup> Gw:[www.cpat.demon.co.uk/projects/longer/churches/denbigh/16897.htm](http://www.cpat.demon.co.uk/projects/longer/churches/denbigh/16897.htm)

ac o bosibl gellir lleoli un o'r llawysgrifau sy'n cynnwys copi o *AL*, IX ('M') yn Isaied. Mae'n bosibl, felly, mai cyfeiriad at draddodiad lleol sydd yma.

- §81) Cf. *Ef a dele guneythur reydeu e llys oll en rat, eythyr try peth: sef yv e rey henne, kant kvllter a pen guaeu a thedyf bvyall kennut; am pob un o'r try peth henne ef a dele tal e lawur (LII, §39/2-5).*
- §82) Yn S a Q yn unig y mae cyfatebiaeth i'r triawd hwn. Cf. *Tri lle y rann kyfreith yn deu hanner: kyntaf y6 or dambeinia bot dilyet a mach arna6, ac ada6 o'r kynogyn y 6lat, neu amgen y dlodi ar dim hyt na allo talu, ac ef yn vn 6lat ac ef; y mach yna a dily talu hanner y dilyet, kyt bo g6irion, am beri ohona6 y'r ha6l6r y gredu. Eil y6 or dambeina bot amrysson am teruynu ar 6yr, a hynny yn vn ry6 priodoryon o vreint a g6archad6, ac na 6ypei henuryeit y 6lat y ya6n teruynu y rygtunt. Trydyd y6 or dambeina bot ynys r6g y d6y auon ac na bei nes yr un no'e gilyd; rannu deu hanner a dilyir am pop peth kyhyded, ac uelly y6 honn. A sef y6 kyhyded: pop dadyl a hebryger yn gyhyt ac yn gystal (WMLT: Q181).*
- §83) Dyma ddechrau adran sydd yn perthyn i destun sy'n adrodd chwedl Maelgwn Gwynedd a gedwir yn F, Ll, D a Col. Gw. y rhagymdrodd, t. 70 ymlaen.
- mechdeyrn** Uwcharglwydd neu frenin. Mae'n gytras a'r gair *myghtern* 'brenin' mewn Llydaweg a *machtiern* yn Llydaweg. Y mae'r gair yn ôl pob tebyg yn tarddu o *mach* + *teyrn*. Yn y testunau cyfraith Cymreig fe'i defnyddir fel term am frenin sy'n derbyn teyrnged gan frenhinoedd neu arglwyddi eraill: gw. *LAL*, 349 d.g. *machtiern* a *WKC*, 569 d.g. *mechdeyrn* dylyed. Gw. hefyd, Ifor Williams, 'Mechdeyrn', *BBCS*, 10 (1939-41), 39-40 sy'n dadlau dros ei ddeall fel 'brenin mawr'.
- mechdeyrn dyledoc** Llywodraethwr y dylid talu teyrnged iddo (gw. *GPC*, d.g. *mechdeyrn*).
- Mathrafal** Dywedir mewn rhai testunau llenyddol mai Mathrafal ger Meifod oedd prif lys Powys ar un adeg, ond efallai mai creadigaeth ddiweddarach yw'r honiad hwn mewn gwirionedd: gw. H. Pryce, 'Mathrafal: The evidence of written sources', *MontCol*, 83 (1995), 61-65. Serch hynny, y mae agosrwydd y safle at gaer Rufeinig yn awgrymu ei fod yn hynafol. Ni cheir

cyfeiriad at Fathrafal yn y Brutiau tan 1212 pan osododd Gwenwynwyn y castell yno a oedd yn berchen i Robert de Vieuxpont dan warchae: gw. Jones (gol.), *Brut y Tywysogyon (RBHV)*, 194-95; *HW*, 249, 638-39. Cyfeirir yn aml at lysoedd Aberffraw neu Ddinefwr yn y testunau cyfraith ond ni sonnir am Fathrafal fel y cyfryw. Serch hynny, cyfeirir at iarll Mathrafal mewn testun sydd yn adrodd chwedl Maelgwn Gwynedd a gedwir yn F, Ll, D a Col. Golygwyd y testun yn *WKC*, 251 a *DwCol* §§218-223. Ceir cyfeiriad at Fathrafal fel prif lys Powys hefyd ym marddoniaeth Llygad Gŵr lle gelwir Llwyn ap Gruffudd yn *daleithawg* Aberffraw, Dinefwr a Mathrafal: gw. *CBT* VII 24.107-15; *WKC*, 187-89. Roedd Llygad Gŵr yn byw yn arglwyddiaeth Glyndyfrdwy oedd cyn concwest Edward I yn rhan o Bowys a chanodd i dywysogion Powys: gw. *CBT*, VII, 208-09. Yn *CBT*, III 8. 17 enwa Cynddelw Fathrafal yn faes brwydr ac yng ngherdd mawl Prydydd y Moch i Ruffudd ap Cynan cyfeirir at losgi'r llys yno i'r llawr (*CBT*, V 10. 49). Gw. hefyd G. J. Williams ac E. J. Jones, *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1934), 201; C. J. Arnold a J. W. Hugget, 'Mathrafal, Powys: a reassessment', *BBCS*, 33 (1986), 436-51; J. E. Lloyd, 'Mathrafal', *MontColl*, 44 (1936), 44-45.

**Cymru oll dan y therfynau** Cf. rhaglithiau *WML*, 1/3-4 *can oed eida6 ef [Hywel Dda] Kymry yny theruyn* a *LII*, §1/1 *tywysavc Kemry oll* (gw. hefyd Huw Pryce, 'The Prologues to the Welsh lawbooks', *BBCS*, 33 (1986), 183, 185).

- §84) Atseinir dechrau'r triawd hwn yn Tim, S a Q. Cf. *Teir vchel llys yssyd Yghymry nyt amgen llys Aberffraw; allys Dinefwr; allys y Mathrafel* (*AL*, X.xvii.8). Pwysleisir eto raniad Cymru'n dair rhan fel sy'n gyffredin drwy'r llyfrau cyfraith. Yn wahanol i'r hyn a geir yn S a Tim pwysleisir mai Aberffraw sydd yn goruchafu. Gw. y rhagymadrodd, t. 71.

**Gwynfa** (Mechain). Enw ar y diriogaeth o amgylch Mathrafal a adlewyrchir bellach yn enw Llanfihangel-yng-Ngwynfa. Efallai fod hyn yn adlewyrchu gwybodaeth ddaearyddol lluniwr y testun o'r rhan honno o Bowys (roedd arglwyddiaeth Mechain yn weddol agos i'r Waun). Yn llsgr. Hendregadredd gelwid Owain Fychan ap Madawg ap Maredudd arglwydd Mechain yn *dreic*



wynua: gw. J. Lloyd Jones, *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd, 1931), 740.

- §85) Cf. testun Maelgwn Gwynedd: *Ac urth hynny e cauas ef y uot en urenhyn penhaf, ac Aberfrau en pen llysoet, a yarll Mathraual a yarll Dyneuur a yarll Caerlleon adanau enteu . . .* (WKC, 251). Pwysleisir uchafiaeth Aberffraw mewn geiriad gwahanol. Gw. y rhagymadrodd, tt. 71-72.

**yeirll** Term sydd wedi ei fenthylg o'r gair Hen Norse *jarl*: gw. WKC, 231 a M. E. Owen ' "Arbennic milwyr a blodeu marchogyon": cymdeithas Peredur', yn Sioned Davies a Peter Wyn Thomas (goln.), *Canhwyll Marchogyon: Cyddestunoli Peredur* (Caerdydd, 2000), 92-94.

**Caerllion** Enw a ddefnyddir yn nhestunau'r gogledd: Col, F a Ll. Awgryma M. E. Owen mai cyfeiriad at Gaerlleon yng Ngwent sydd yma yn hytrach nac at Gaer. Ymdrechodd Llywelyn i sicrhau gwrogaeth Morgan ap Hywel o Gwynllŵg ac arglwydd Caerleon yn y 1230au: gw. WKC, 235; AWR, 36. Yn nhestun D, sy'n destun deheuol diweddar, defnyddir Caerloyw gan adlewyrchu cyfnod pan oedd iarll Caerloyw, arglwydd Morgannwg, yn ffigwr dylanwadol yn y de yng nghanol a diwedd y drydedd ganrif ar ddeg (WKC, 237-38).

- §86) Cf. testun Maelgwn: *A sef e lle e gossodassant eu datleu ar Traeth Maelgwn en aber Deuy, ac ena e doethant guyr Guynet a Powys a Deheuparth a Ywas a Morganuc a Sseyssylluc. Ac ena e dodes Maeldaf Henaf uab Vnhwch Vnarchen pendeuyc Penarth en Arfon . . . A thruy ben Maylda Henaf e cauas Penarth e breynt a bot en hynaf kynghellaurdref* (WKC, 251). Gw. y rhagymadrodd, t. 72.

**Rhiennwc** Yn debyg i lawysgrifau Ll a D defnyddir y ffurf hynafol Rhieinwg yn hytrach nag Ewias fel a geir yn llawysgrifau Col ac F. Ceir esboniad etymolegol o'r gair fel gwlad Rhein. Efallai mai enw ar Frycheiniog a'r cyffiniau ydoedd: gw. P. C. Bartrum 'Rhieinwg and Rheinwg', *BBCS*, 24 (1970), 23-26; WKC, 233.

**Rhiellwc** Yn H yn unig y digwydda Rhiellwc yn hytrach na Seisyllwg. Yn Ll defnyddir Esyllwg a gall Rhiellwc fod yn llygriad o'r ffurf hon neu'n ffurf arall ar Seisyllwg. Uniaethir Rhiellwg gyda Seisyllwg yn *Owen's*



*Pembrokeshire*, iii. 222, 224. Gw. hefyd Bartrum, 'Rhieinwg and Rheinwg', 25 lle yr awgrymir mai Rhiellwg oedd yr enw ar Geredigion.

**Maeldaf hynaf ab Unwch** Rhoddir ach Maeldaf yn llsgr. Ll ac yno mae'r copïydd yn edliw cysylltiad Maeldaf gyda Phennardd gan honni ei fod yn hanu o Feirionydd: gw. *WKC*, 236-37. Mae H yn cytuno gyda Col ac F sydd yn honni mai Maeldaf oedd berchen ar Bennardd.

**Uaelgwn Gwynedd** Roedd Gildas yn ei gysylltu â Môn tra fod traddodiad arall yn lleoli ei lys yn Neganwy. Datblygodd nifer o chwedlau amdano: gw. Juliette Wood, 'Maelgwn Gwynedd, a forgotten Welsh hero', *Trivium*, 19 (1984), 103-17. Caiff ei enwi fel un o'r *Teir Lleithichlyth Ynys Prydein* (*TYP*, t. 1); ac mewn triawd o'r enw *Tri Budyf Hafren* (*TYP*, 182): gw. hefyd *TYP* 105, 109, 119, 437-441. Gw. hefyd *HW*, 129; Eurys Rowlands, 'Myrddin wyllt', *Llên Cymru*, 4 (1956-57), 119.

**Pennardd** Dywedir mai braint Gwynedd sydd uchaf a chyfeirir at Bennardd yn Arfon gan ddweud mai Maeldaf oedd berchen ar y gyngelloriaeth honno (gw. *WKC*, 236-37). Yn y testunau cyfraith câi'r cynghellor, un o swyddogion cymydol llys y brenin, faenol oddi mewn i'r cwmwd (D. Jenkins, 'Cynghellor and chancellor', *BBCS*, 27 (1976-8), 115-18). Cyfeirir at Bennardd yn y Mabinogi fel y lle yr arhosodd Gwydion a'i lu ar y ffordd i Caer Dathyl: *Ac yghymherued y dwy uaynawr yd arhoed, Maynawr Bennard a Maynawr Coet Alun* (*PKM*, 72/11).

§87) Gw. y rhagymadrodd, t. 73. Roedd mêl yn cael ei dalu fel rhan o'r westfa i'r brenin, e.e. *LIB*, 67/29 a *WML*, 56/3, tra y telid medd yn ôl *LI*, §96/1-5 (am westfa: gw. *EIWK*, 370-90). Dywedir y dylai Aberffraw gael pedair tunnell o fêl o Ddinefwr gyda phedair *mu* i bob tunnell. Gellid defnyddio'r mêl i greu medd. Am fêl a medd mewn barddoniaeth: gw. Marged Haycock, 'Medd a mêl farddoni', yn Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (gol.), *Beirdd a Thywysogion* (Caerdydd, 1996), 39-59. Eto cyfeirir at Wynfa (Mathrafal): cf.

§84. Dylid cael blawd o Fathrafal yn yr un modd, sydd hefyd yn rhan o'r westfa yn ôl y llyfrau cyfraith.

**mu** Llestr sy'n cynnwys chwarter tunnell (*GPC*, d.g. mu).

**grenneit** Llestr mawr nad oes mesur pendant arno (*GPC*, d.g. gren).

- §88) Gw. y rhagymadrodd, tt. 73-74. Mae'r triawd hwn yn debyg i adran yn nhestunau Lladin B, C ac E. Dywedir yn y testunau hynny mai tair punt a thrugein a dalai brenin Aberffraw i frenin Llundain ac y dylai gweddill brenhinoedd Cymru dalu *mechteyrn ddylyed* iddo yntau (*LTWL*, 207, 277, 437-8). Yn y testunau Lladin defnyddir *regi Londonie* fel y defnyddir brenin Llundain yn H/Peniarth 278 gan adleisio teitl a ddefnyddiwyd yn yr hen chwedlau megis y Mabinogi (*PKM*, 29/1-3, 49/1-3-4). Dywedir fod brenin Aberffraw yn talu *gobr estyn* iddo gan adlewyrchu'r system wrogaethol a fodolai rhyngddynt.
- §89) Mae naws rhethregol i'r triawd hwn sy'n debyg i arddull rhethregol y cwynion, cynghawseidd, a Llyfr Cynyr ap Cadwgan, testun a gedwir yn llsgr. Q: am Cynyr gw. Elias, 'Llyfr Cynyr ap Cadwgan'.
- §90) **cymell** Annog neu orfodi. Roedd gan y brenin hawl i bwysu ar droseddwr i ateb y gwyn oedd yn ei erbyn drwy fygwth y groes, gwys a charchar arno. Rhoddid y groes ar dir y bo dadlau drosto, o bosibl fel arwydd bod achos cyfreithiol wedi ei gychwyn: gw. Sara Elin Roberts, 'Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog', *SC*, 35 (2001), 307-23. Gw. hefyd *NLC*, 220. **gwys** Cymhelliad i ymddangos ger bron llys.
- §91) Yn S a K yn unig y mae cyfatebiaeth i'r triawd hwn. Cf. *Tri araf kyfreitha6l: cledyf, a g6ay6, a b6a a deudec saeth* (S, §2054). Am reolau ynghylch anafiadau â chylllyll gw. Lladin E, 450. Gw. y drafodaeth yn Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 390-97.
- §92) Triawd wedi ei lunio ar un o gymalau §91.  
**breulif** Cleddyf finiog, wedi ei llyfanu ar y maen (D. Jenkins, 'Said: gwrm said, gwynsaid; yslipanu', *BBCS*, 35 (1988), 56-57). Un geiniog ar bymtheg oedd ei werth cyfreithiol: gw. S, §2055-56.  
**gwrymseit** Efallai y daw o *gwrym + said*; ystyr *gwrym* yn ôl *GPC* yw grymus a chryf tra y golygai *said* garn. Ond mwy na thebyg y daw *gwrym* o'r gair *gwrm* sy'n golygu glas neu dywyll (*GMWL*, 164) ac mai ystyr *said* oedd llafn:

gw. Jenkins, 'Said: gwrmsaid', 55-61. Ei werth oedd deuddeg ceiniog: gw. S, §2055-56. Gw. hefyd Williams (gol.), *Canu Aneirin*, 369.

**gwynseit** Cleddyf â llafn gwyn, *white-bladed* (LTMW, 352; Jenkins, 'Said: gwrmsaid', 55-61). Pedair ceiniog ar hugain oedd ei werth cyfreithiol gw. §S, 2055-56; Dim.II.xxxv.95.

- §93) Cf. *Tri gwanas gwayw kyfreithawl yn y dadleu yssyd: gwan y arlllost ynn y dayar ac vn llaw, hyny vo abreid y tynnv a'e dwy law; a gwan y benn y mywn twyn hyny gudyho y mwn; a'e doddi ar lwyn a uo kyuuuch a gwr; ac onny byd ar vn o'r teir gwanas hynny, ot a dyn arnaw mal y bo marw, trayan yr alanas a a ar berchennawc y gwayw* (LIB, 110/15-22). Sonnir yn Q os nad oedd dyn wedi gosod arf yn uwch na phen dyn a bod rhywun yn anafu ei hun ar yr arf, rhaid oedd talu iawn am ei anaf: *Pwy bynnac ny dycco y aryf yn ywch no phen dyn yny seuyll a chael dyrnawt gantaw diwyget y perchennawc iawn drostaw* (Q, f. 134v.): gw. Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 329. Tra yn llsgr. D, f. 220 sonnir am dair gorsedd arf: *Teir gorsed aryf: y doddi yn y dadleu ual nat ymgaffo nac a dyn nac a ll6dyn, neu y wan yn y daear a'e dara6 deirg6eith yn y daear. Os g6ae6 vyd, yn dr6s y vynwent ac ar y wanas gartref a'e oll6ng deirg6eith yn y daear. Ac ony syrth, diogel vyd udunt, a doddi na6d du6 arna6 a na6d y argl6yd nac dycco neb y ganhat, ac uelly ym pob lle or y gossotto. Ony wna uelly: talet traean y weithret.*

**gorsaf** Lle i gadw gwaywffon tra bo achos cyfreithiol yn cymryd lle.

**uch** Ffurf ar y gair *uwch*. Gw. E. P. Hamp, 'The allophones of medieval Welsh /x/ and /ü/', *BBCS*, 16 (1954-56), 284-85; idem, 'Medieval Welsh *uch*', *BBCS*, 22 (1966-8), 46-45.

**arlllost** Bôn neu garn gwayw; dylid ei roi yn y ddaear fel na all neb ei thynnu oddi yno. Am etymoleg y gair *arlllost* gw. Marie E. Surridge, 'The number and status of romance words attested in *Ystorya Bown de Hamtwn*', *BBCS*, 32 (1985), 70.

- §94) Yr un cywair sydd i'r triawd hwn â'r un blaenorol ond y tro hwn sonnir am gleddyf neu fwa.

- §95) Cf. *Teir ran yw awdurdawt Hywel Da o gyfreitheu, nyt amgen, kyfreith y lys peunydyawl, a chyfreith y wlat, ac aruer kyfreithawl o pob vn ohonunt (LIB, 126/26-29)*. Gyda'r ddau destun yn tynnu ar Raglith Bleg: *Ac yd erchis eu hyscriuennu yn teir ran: yn gyntaf, kyfreith y lys peunydyawl; yr eil kyfreith y wlat; y tryded, aruer o pob vn ohonunt (LIB, 1/22-25)*.
- §96) Cf. *Tri aruer kyfreith yssyd. Kyntaf y6 kynnal dyd kyfreitha6l y dechreu dadyl, megys nabuet dyd Mei neu galan gayaf am dadyl tir tr6y ach ac etryt, neu dyd y att6yn dadyl ebryfegedic, nyt amgen noc o vy6n vn dyd a bl6ydyn or pan dechreuer. Eil aruer y6, kynnal mod kyfreitha6l y dadleu, gan ymhaol val y debisso g6yr y llys a'r bra6t6yr, ae geir tra geir, ae g6ers tra g6ers; canys g6yr y llys bieu datganu pop dadyl yn gofya6dyr kyn barn; a g6edy hynny y bra6t6yr y varnu ac y datganu y dadyl a'r varn pan vo reit. Pop cof llys a phop deturyt g6lat gan t6g tr6yda6 perued y cofa6duron, a th6g y sa6l a duuna6 ac bynt her6yd eu kyt6ybot. Cof llys a deturyt g6lat vn rym ynt, ac nyt am yr vn ry6 perthynant. Cof llys, am yr hyn a vu yg g6yd llys y perthyn. Deturyt g6lat, g6iryoned a dengys ymy6n llys am yr hynn a vu yn a6ssen llys. Trydyd aruer y6 kynhal amser kyfreitha6l y 6neuthur grym a chrynodeb ymy6n dadyl, megys amser y tystu neu y diu6yna6 tystolyaeth uar6a6l, neu y llyssu tystolyaeth v6ya6l, neu y al6 g6ybydyeit, neu eu g6rthneu, neu amser y ym6ystla6 am varn (WMLT: Q242)*.
- §97) Mae'r triawd hwn yn dechrau cyfres o drioedd yn ymwneud â'r swyddogion a llys y brenin. Cf. *A chyntaf y g(6naeth)ant o gyfreitheu llys can oedynt pe(nh)af A chan perthynynt 6rth y brenhin ar vrenhines ar petwar s6yda6c ar huceint ae canhymdaant (WML, 1/24-2/3)*.  
**Canhymddas** Daw o *can + ym + taith*, sef hebrwng neu fynd yng nghwmni (GPC, d.g. canymdeithiaf). Lluniwyd enw haniaethol allan o fôn y ferf canhymdda yn hytrach nag o'r enw taith.
- §98) **macwyf** (*pueri regis*) Mae'n gytras â'r gair Gwyddeleg Canol *maccoim* (DIL, d.g. maccoim) sy'n golygu ysgwïer neu was ieuanc yn y llys (GPC, d.g. macwyf). Gan nad ydyw'r macwyf yn cael ei restru fel un o bedwar swyddog ar hugain y brenin ni cheir llawer o sôn amdano yng nghyfreithiau'r llys.

Cyfeirir ato ddwywaith yn nhestun *LIB*, 4/15, 5/8, ddwywaith yn *WML*, 3/22, 4/15, tra y cyfeirir ato dair gwaith yn *LII*, §§4/6, 92/6, 93/9. Gw. *WKC*, 395.

**cerddoryon** Nid ydynt yn cael eu rhestru fel aelodau o bedwar swyddog ar hugain y llys a chaent eu cynrychioli yn y llys gan y pencerdd. Roedd gan y pencerdd hawl i bedair ceiniog ar hugain gan y cerddorion pan fyddent yn diweddu eu hyfforddiant (*LII*, §40/5-6); gw. hefyd *WKC*, 142-67.

§99) Cf. *Teyr gueyeth pob blvydyn y delyant y petwar svydave ar ugeynt uchot, herwyd kyureyeth, eu brethynwysc y gan y brenhyn ac eu llyeynwysc y gan y urenhyes: y Nodolyc a'r Pasch a'r Sulgvyn (LII, §2/10-13)*. Ehangir ar y triawd drwy ddweud mai dwywaith yn unig y caiff y rhingyll a'r gwylwyr ddillad gan y brenin. Roedd cyfnewid ac estyn dillad yn weithred symbolaidd oedd yn uno'r gwahanol swyddogion. Awgryma T. M. Charles-Edwards a R. Stacey fod y brethynwisg yn adlewyrchu rôl allblyg y brenin tra fo'r llieinwisg yn adlewyrchu rôl mewnblyg a phreifat y frenhines (*WKC*, 57-58, 335).

**rhingyll** (*praeco* neu *sergeant*). Fe'i hadnabyddir wrth dri enw: *Tri enw righyll yssyt: gwaed gwlad; a garw gywedyl gwas y kyghellawr; ar ringyll* (Lladin D, 373). Gweithredai fel swyddog brenhinol lleol a chanddo ddylanwad yn y llysoedd (*WKC*, 210). Roedd yn un o swyddogion ymylol y llys, fel y gwylwyr, a rhestrir ef ymysg y swyddogion arfer a defod yn nhestun *LII*, §30/6. Yn y tri dull dywedir y dilledir y rhingyll pob calan gaeaf a chalan Mawrth *LII*, §34/11-12; *LIB*, 28/14-15; *WML*, 30/7-8, e.e. *kalan gayaf e dele caffel cappan, a kalan Mavrth neu Chueuravr, mantell (LII)*. Gorweddai dyletswyddau'r rhingyll a'r gwylwyr y tu allan i gnewyllyn y llys gyda'r rhingyll yn gweithredu gorchmynion y llys yn lleol a'r gwylwyr yn gwarchod adeilad y llys (*WKC*, 430-31).

**gwylwyr** Ni chyfeirir at y gwylwyr yn *LIB* ond y mae'n bresennol yn *LII*, §36 a *WML*, 32/19-33/3. Ni cheir cyfeiriad uniongyrchol at y brenin yn estyn dillad iddo yn *LII* ond yn *WML* dywedir: *Ag6isc a geiff d6y weith yny ul6yd yn ygan ybrenhin*.

§100) Seiliwyd y trioedd nesaf ar adran yng nghyfreithiau'r llys sy'n sôn am eisteddiad swyddogion yn y llys yn y neuadd. Gw. y rhagymadrodd, t. 77. Ceir gwahaniaeth yn y testunau ynghylch eisteddiad y swyddogion. Mae *LIB*, 4/21-

5 a *WML*, 4/6-11 yn cyfateb; ond safai *LII*, §5 ar wahân. Yn *WML* dywedir am yr edling: *Lle yr etling yny neuad gyfarbyneb ar brenhin am ytan ac ef. R6g yr etling ar golofyn nessaf ida6 ydeisted yr ygnat llys. y parth arall ida6 yr effeyrat teulu. Guedy ynteu ypenkerd. Odyna nyt oes le dilis yneb yny neuad.* Tra yn *LII*: *Petwar cadeyryavc ar dec esyd yn llys, petwar onadunt ys coryf a dec uwch coryf. Kyntaf ew y brenhyn; ef a dely eysted yn nessaw y'r colouyn, ac yn nessaf ydav enteu y kynghellavr; guedy henny yr osp; guedy hynny yr edlyg; guedy hynny e penhebogyd; a'r troedavc y am y dysgyl ac ef; a'r medyd [medyc E, A] ymon y kolovyn y am y tan ac ef. En nessaf y'r keluy arall yr effeyryat teylu, vrth uendygav y byyt a chanu y pader; a'r golouen uvch y pen ef a dely y gostecgvr y maedu. En nessaf ydav enteu yr egnat lles. En nessaf ydav enteu y bard kadeyryavc. E gof llys em pen y ueyng, rac deu glyn yr effeyryat. E penteylu a dely eysted ar y tal yssaf y'r neuad a'y lav assv ar y taldrvs, a'r rey a uenho o'r teylu ygyt ac ef, a'r rey ereyll y parth arall y'r drvs. E bard teylu ar y neyllav; e penguastravt y am y keluy a'r brenhyn; e penkynyd y am y keluy a'r effeyryat teylu. Ymddengys fod ysgrifydd H yn creu trioedd trwy gyfuno'r ddau wahanol fersiwn.*

§101) Gw. y rhagymadrodd, t. 78.

**swyddwyr** Y rhai a weithiai yn y llys ond efallai nad oedd ganddynt yr hawl i eistedd, y rhai nas enwyd fel y pedwar cadeiriog ar ddeg (*WKC*, 281-96).

§102) Gw. y rhagymadrodd, t. 78

§103) Gw. y rhagymadrodd, tt. 78-79.

**distain** Daw o'r Hen Saesneg *discthegn* a olygai 'gwas y ddysgl'. Gwêl rhai hyn yn adlewyrchiad o gysylltiad Hywel Dda â llysoedd Lloegr (gw. D. A. Binchy, *Celtic and Anglo-Saxon Kingship-The O'Donnell Lectures for 1967-8* (London and Oxford, 1970)) ond nid oes sicrwydd mai yng nghyfnod Hywel y bathwyd y termau hyn yn hytrach nag mewn cyfnod diweddarach: gw. *Cyfraith Hywel*, 1-13; D. P. Kirby, 'Hywel Dda: Anglophil?', *CHC*, 8 (1967-77), 10. Yn wreiddiol y distain oedd yn gyfrifol am reoli'r ochr ddomestig gan fwydo a disychedu'r llys. Ond mewn gwirionedd gwnâi'r distain lawer mwy na rheoli'r gegin. Erbyn y drydedd ganrif ar ddeg yr oedd yn ymddwyn fel prif

stiward ac yn ymgynghorydd gwleidyddol i'r brenin (D. Stephenson, *The Governance of Gwynedd* (Cardiff, 1984), 11-20). Roedd distain Llywelyn ap Gruffudd, Goronwy ab Ednyfed aelod o deulu enwog o ddisteiniad, yn ymddwyn fel rhyw fath o brif weinidog iddo: gw. *WKC*, 15; G. Roberts, "Wyrion Eden" The Anglesey descendants of *Ednyfed Fychan* in the fourteenth century', *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the Late Glyn Roberts* (Cardiff, 1969), 79-214. Efallai mai'r dystiolaeth gryfaf i bwysigrwydd y distain yw'r ffaith fod nifer o gerddi wedi eu canu i wahanol ddisteiniad gan y Gogynfeirdd: gw. M. E. Owen, 'Noddwyr a beirdd', *Beirdd a Thywysogyon*, 85. Cyfeirir yn y triawd at un o'i swyddogaethau defodol yn ystod y tair gŵyl arbennig gan atseinio'r hyn a geir yn *LIB*, 11/25, a *WML*, 14/6-8: *Ac ef bieu gossot bwyt y'r brenhin, a seyc vch llaw a seic is llaw, ynn y teir gwyl arbennic, a heilaw ar y brenhin a'r dwyseic (LIB)*. Gw. hefyd D. Jenkins, 'Distain', *BBCS*, 22 (1966-68), 127-28.

**§104)** Gw. y rhagymadrodd, tt. 78-79. Cf **§200**. Cyfeirir at y taliad i'r ynad o dawlbwrdd a modrwy aur yn Ior: *Ef a dely tawlbwrdd o ascwrn moruyl e gan e brenhyn a modrve eur e gan e urenhynes ac arall e gan e bard teulu . . . (LII, §10/9-10)* ac yn *LIB*, 17/11-14; tra y rhoddir corn bual yn nhestun *WML*, 16/21-23. Cyfeirir yn ogystal at y taliad i'r bardd teulu yn y tri dull cyfraith: *LII*, §13/14-15; *LIB*, 22/26-28; *WML*, 22/25-23/3: *Pan el bard teulu yn y swyd y keiff telyn y gan y brenhin, a modrwy eur y gan y vrenhines (LIB)*. Saif *LII* ar wahân drwy ddweud mai tawlbwrdd a delir yn yr achos hwn hefyd. Awgryma D. Jenkins reswm ymarferol am y newid hwn. Byddai gan y bardd ei delyn ei hun a byddai'n haws iddo gario'r tawlbwrdd gydag ef fel arwydd o'i rwymedigaeth i'w frenin (*WKC*, 148). O ran y *trullyad*, sef y bwtler, cyfeirir at ei fwyd ond mae'r testun sydd yn dilyn hyn yn ddiffygiol. Rhoddir mwy o sylw i'r *trullyad* yn *LII* na *LIB* a *WML* gan roi sylw i'w ddyletswyddau gyda'r medd (*LII*, §18). Dywedir yn *LII* fod ganddo hawl i fwyta gyda'r swyddogion.

**§105)** Hwyrach mai'r tri gŵr oedd yn ymwneud â bwyd y brenin a olygir yma. Enwir y tri gŵr hyn yn *LIB*, 12/20-21 a *WML*, 13/11-13 fel swyddogion bwyd a lluniaeth: *Ef a geif trayan camlyryeu swydogynn bwyt a llynn, nyt amgen,*



*coc, trullyat, swydwyr llys (LIB)*. Caiff teitl y triawd ei gyfieithu fel ‘Three persons who are to convey the victuals of the king’ yn *AL*, II, 587.

§106) Gw. y rhagymadrodd, tt. 79-80. Mae’r triawd hwn hefyd yn adleisio testun cyfraith y llys.

**troedyawc** Roedd yn un o’r swyddogion arfer a defod yn *LII*, §30/5, a cheir ambell gyfeiriad ato yn *LIB* a *WML*. Tra ar ei liniau y byddai’r troediog yn gwasanaethu’r brenin. Ei swydd oedd dal traed y brenin ar ei liniau tra fo’r brenin yn bwyta ei fwyd hyd nes yr âi i’w wely. Mwy na thebyg nad oedd hyn yn adlewyrchu llysoedd y drydedd ganrif ar ddeg yng Nghymru. Adlewyrchai olion hynafol cyfreithiau’r llys.

**pencerdd** Bardd cadeiriog oedd wedi ennill cadair mewn ymryson. Cf. *LIB*, 26/5. Byddai’n canu mawl a dychan yn y llys er mwyn rheoli anrhydedd y brenin. Gw. D. Jenkins, ‘Bardd teulu and pencerdd’, *WKC*, 142-166. Gw. hefyd §134 am ei safle yn y llys.

**Taliessyn** Ceir cyfeiriad uniongyrchol at gerdd Taliesin (cerdd mawl yn ôl pob tebyg gan mai’r pencerdd sydd yn ei llunio) nad yw’n digwydd yng ngweddill y testunau cyfraith. Am nodyn ar Daliesin gw. *TYP*, 509-11.

§107) Dywedir yma fod cynn yr edling, y penteulu a’r pencynydd yr un gwerth â chorn y brenin. Cf. *Korn yd yuo brenhyn, punt. Korn kychvyn, punt. Korn penkynydd punt; a buelyn e dylant uot ell try (LII, §140/6-7)*.

§111) Cyfeirir eto yn y triawd hwn at Fathrafal fel canolbwynt brenhiniaeth Powys. Sylwer bod y tri brenin yn gyfartal o ran eu taliad fel y maent yn *WML*, 2/23-3/7 er na sonnir am Fathrafal fel y cyfryw yn y testun hwnnw. Yn *LIB*, 4/5-6 (a Lladin A, B, D, ac E) telir aur i frenin Dinefwr neu Aberffraw yn unig. Tra yn *LII*, §3/13-4, (a Lladin C) y dylid talu aur i frenin Aberffraw yn unig. Roedd yr aur a delid yn symbol o sofraniaeth.

§112) Dywedir yn *LII*, §3/17-18; *LIB*, 4/9-11; a *WML*, 3/16-8, mai traean sarhaed y brenin yw un y frenhines ac na ddylid talu aur nac arian iddi. Dywedir hyn hefyd am y penteulu yn y tri fersiwn (*LII*, §6/6; *LIB*, 8/27; *WML*, 6/22-23) sy’n dangos ei fod yn rhan o’r teulu brenhinol. Yn *LIB* a *WML* yn unig y ceir



cyfeiriad at dalu *sarhaet* yr offeiriad gyda deuddeng muw (*LIB*, 13/3-4; *WML*, 11/17). Yn ôl Ior a'r testunau Lladin dylai ei *sarhaed* gael ei benderfynu gan y synod, sy'n adlewyrchu dylanwad cynyddol yr eglwys o'r ddeuddegfed ganrif ymalen. Am fraint yr offeiriad gw. *NLC*, 152-54; *WKC*, 85; 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 109-12.

**§114)** Cf. *Ouer tlysseu ageiff pan bystler ysbyd ida6. tablbort ygan ybrenhin. A modrwy eur y gan y vrenhines. Ac ny dyly ynteu gadu y tlysseu hynny y ganta6 nac ar werth nac yn rat. Y gan y bard pan enillo kadeir y keiff yr ygnat llys corn bual amodr6y eur* (*WML*, 16/21-17/2). Tra yn Bleg: *Ac yna y dylyir rodi ouertlysseu idaw: tawlbort y gann y brenhin, a modrwy eur y gan y vrenhines; ac na rodet, ac na werthet y rei hynny vyth* (*LIB*, 17/11-14).

Cyfeirir eto fel yn **§104** at yr aur a roddid i'r bardd teulu ac i'r ynad ond y tro hwn sonnir hefyd am y pencerdd. Gellir gweld yr anrhegu hwn rhwng gwahanol garfanau'r llys yn ffordd o greu undod o fewn y llys. Yn achos y pencerdd nid oedd yn un o'r pedwar swyddog ar hugain a thrwy anrhegu'r ynad roedd yn adeiladu perthynas rhyngddo ef ac un o aelodau blaenllaw llys y brenin. Gellir gweld cysylltiad rhwng proffesiwn y beirdd a'r ynaid. Yng ngeiriau T. M. Charles-Edwards: 'As the court judge judges all tongues, it is not surprising that there should be this special link between him and the most eloquent and learned tongue outside the court' (*WKC*, 328).

**§115)** Ceir yma aralleiriad ac eglurhad o **§106** ond y tro hwn yng nghyd-destun braint.

**darongangerdd Talyessin** Gw. y rhagymadrodd, t. 80.

**§116) rhingyll** Ei swydd oedd sefyll rhwng y ddau bostyn yn y neuadd a gwneud yn siŵr na fyddai'r neuadd yn llosgi tra bo'r brenin yn cael ei luniaeth. Dywedir yn glir na ddylai eistedd tra bo'r brenin yn bwyta (*LII*, §34/4-5; *LIB*, 27/25-28/3; *WML*, 29/17-22). Cf. **§115** a **§541**.

**drysor** Swyddog y drws. Dywedir mai ar ei liniau yn y neuadd yw ei le ef fel y gallai wneud negesau i'r brenin: *Ny dele eysted en e neuad namen ar tal y deu glynn guneythur y neges vrth e brenhyn* (*LII*, §19/19-29). Tra yn Bleg: *O'r pan el y brenhin y'r neuad hyt pan el paub o'e lety, ny dyly dryssawr mynet y*

*vrth y drws moy no hyt y vreich a'e wialen; ac o cheffir yn bellach no hynny, a'e sarhau, ny diwygir dim idaw (LIB, 23/6-10). Cyfetyb testun WML, 23/21-5 i un LIB.*

**gostecwr** Saesneg, *usher*. Ei swydd oedd tawelu'r llys: *Ef a dele guassanaethu a gostegu a tharav y post uvch pen er effeyryat teylu. Ef a dele seuyll egwassanaeth e brenhyn em pob lle en e absent (LII, §14/6-8)*. Rhoddir llai o sylw i'r gostegwr yn nhestunau *LIB* a *WML* (gw. *LIB*, 2/20, 7/13; *WML*, 26/11-19).

§117) Mae'r triawd hwn eto yn yr un cywair â'r trioedd blaenorol.

**gwylywr** Ei swydd oedd gwylio'r llys yn y nos ac yn ôl Ior: *O cheffyr enteu en kyscu en er amser y dyly uyllyau e dele talu kamlvrv e'r brenhyn, ony meydry; a chet mayder enteu ny del kaffael e sarhaet (LII, §36/6-8)*.

**cynydd** *Venator*. Dyn a ofalai am y cŵn hela, *houndsman*. Nid oedd yn atebol i unrhyw un os na châi ei ddal cyn iddo roi ei esgidiau ymlaen yn y bore: cf. Ior: *Trannoeth guedy dyv gvyl Yeuan hanner haf e dele uenet y hele keyrv, ac ony cheffyr kyn e kyuody o'y wely a guyscav e cuaraneu ne dely attep y nep o'r havl a ouenner ydav (LII §15/18-20)*. Cf. . . . *nyt attep y penkynydd yr neb ae holho. ony odiwedir duf kalan mei kyn gwisgaw kuaran ytroet deheu (WML, 20/4-7)*. Dywedir yn *LIB*, 20/25-26, nad yw'n atebol i neb ond y pedwar swyddog ar hugain.

**hebogydd** Rhoddir pwyslais mawr ar ofal yr hebogydd neu'r penhebogydd o'i adar (*LII*, §9; *LIB*, 13/21-14/31; *WML*, 17/14-18/24). Rhaid oedd iddo gysgu yn yr ysgubor rhag i fwg anafu'r adar ac ni châi feddwi rhag esgeuluso'r adar. Efallai yr enwir ef yma gan na allai wyllo a gwarchod yr adar tra'n cysgu. Am hela ag adar a chwn, gw. D. Jenkins 'Hawk and hound: hunting in the laws of court', *WKC*, 255-281.

**gwaran** 'Esgid ysgafn o groen heb ei gyweirio' (*GPC*, d.g. cwaran). Cf. y gair Gwyddeleg *cuarán*.

§118) Cf. *Ef a dele y anrededu o teyr anrec e dyd e lladho y hebave un o try ederyn, ae bvn ae krehyr ae garan (LII, §9/19-20)*. Yn ôl Bleg: *Tri gwassannaeth a dyly y brenhin eu gwnneuthur y'r hebogyd y dyd y caffo whibonoglyc vynydd, neu grychyd, neu bwn o'e hebogyaeth, nyt amgen, dala y warthaul pan*

*disgynno, a dala y varch tra gymero yr hebawc a'r ederyn, a dala y warthawl tra y ysgynno; ac yn y nos honno y dyly y anrydedu o teir anrec (LIB, 13/24-14/2). Mae testun WML, 17/14-19 yn cyfateb i un LIB.*

y **bwn** Aderyn corsiog sy'n perthyn i'r crëyr.

**cryhyr** Ffurf arall ar crëyr (*heron*), aderyn hirgoes â phig hir. Ceir *krehyr* yn *LII* tra y ceir *crychydd*, sydd hefyd yn golygu crëyr yn *LII* a *WML*. Roedd *crehyr* yn ffurf ogleddol tra roedd *crychydd* yn ffurf y ddeheuol gan gydfynd â'r hyn a wyddom am leoliadau'r dulliau cyfraith gyda *LII* yn cael ei gysylltu â'r gogledd (*WKC*, 430).

**gylfinhir** *gylfin* + *hir*. Defnyddir *garan* yn *LII*, a *whibonoglyc* vynydd yn *LII* a *whibonogyl* yn *WML*. Mae *garan* yn enw arall ar grëyr tra fo *chwibanogl* y *mynydd* yn enw arall ar gylfinir. Ni cheir enghraifft o'r gair *gylfinir* yn *GPC* cyn y bymthegfed ganrif (*Tri gylfinir, treigl fynydd/Fry'n bwn at frenin y bydd* o M. G. Headley, 'Barddoniaeth Llawdden a Rhys Nanmor' (traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1938) sydd efallai'n ategu'r posibilrwydd mai testun o'r ganrif honno yw H: gw. y rhagymadrodd, t. 106.

§119) Dywedir yn yr unawd hwn bod yr ynad yn cael ei ddillad gwely gan swyddogion y llys; ond yn y dulliau eraill mae'r ynad yn cael ei ddillad gwely gan y brenin a'r frenhines, e.e. : *E lety yv estauell e brenhyn, er hon e bo en kescu endy, a chlustoc e gan e urenhynes a llenllyeyn, a'r gobennyd yd eystedho e brenhyn arnav e dyd adan e pen enteu e nos (LII, §10/4-7)*. Ni chât'r brenin a'r frenhines eu cyfrif fel swyddogion y llys yng ngweddill y testunau cyfraith.

§120) Gw. y rhagymadrodd, t. 81. Mae'r triawd hwn yn adleisio cwt y triawd 'Tri anhepgor brenhin' yn llsgr. S a K, lle rhestrir y teulu, yr ynad, a'r meddyg: *A deu ny dyly bod ynn [ved6] byth, a'r trydydd y6 medic o'r tri hynny, kanny dylyant vod yn ved6, ac ny dylir g6alla6 arnadynt h6y namyn gan y bod (S, §2015)*. Tynnwyd sylw eisoes at y ffaith na ddylai'r hebogydd feddwi. Llys crwydrol oedd llys y brenin ac efallai y byddai'n rhaid i'r brenin/arglwydd roi ei sylw ar weinyddiaeth y cwmwd yr oedd y llys yn ymweld ag ef ac felly ni fyddai'n gweddu iddo fod yn feddw. Yn achos yr offeiriad teulu dywedir yn Bleg: *Tri ryw wassannaeth yssyd y offeirat llys yn dadleuoed: dileu pob*

*dadawl a darffo y thervynu o'r [r]ol, eil yw cadw ynn yscriuennedic hyt varnn pob dadyl hynny teruynner; trydyd yw bot yn barawt ac yn diuedw wrth reit y brenhin y wneuthur llythyreu ac eu darllein (LIB, 13/15-20).*

**gwallaw** Gweini neu dywallt diod.

§121) Yn gyffredinol roedd y weithred o estyn diod i rywun yn ffordd o'u hanrhydeddu. Sonrir yn y tri dull y câi'r penteulu lond corn o fedd gan y frenhines (LII, §6/37-38; LIB, 10/21-23; WML, 11/5-6).

**penteulu** Gallai fod un ai'n fab neu'n nai i'r brenin. Fel yr awgrymai T. M. Charles-Edwards gallai'r berthynas rhwng y frenhines a'r penteulu fod yn un cymhleth, gallai fod yn fab i'r brenin ond nid o anghenraid yn fab iddi hithau. Gall y weithred o'i anrhegu â medd fod yn un o estyn llaw yn ogystal â'i anrhydeddu (WKC, 328).

**pengwastrawt** (*armiger regis/chief groom*). Câi . . . *corneyt llyn e gan e brenhyn ac arall e gan e urenhynes a'r tredyd e gan e dysteyn . . .* yn ôl LII, §11/23-5. Sonrir am hynny hefyd yn WML, 21/17-18 tra na chyfeirir yn benodol at ei anrhegu â diod yn LIB.

**pencynynt** Ceir cyfeiriadau at y llond corn a gâi'r pencynydd yn y tri dull hefyd (LII, §15/5-6; LIB, 21/7-8; WML, 19/20-21). Gellir gweld anrhegu'r pengwastrawd a'r pencynydd fel anrhydeddu prif swyddogion gwahanol adrannau'r llys (gw. T. M. Charles-Edwards a R. Stacey yn WKC, 319-37, 338-48).

§122) **chut** Anodd gwybod beth yw'r ystyr yma. Hwyrach mai'r hyn a olygir yw *cwd*, sef cod neu sach fechan, neu hyd yn oed *hut*. Caiff ei gyfieithu fel: 'Three things conjointly is the measure of a mess' yn AL, II, 589.

§123) Cf. LII, §11/5-7; WML, 21/10-13 a LIB, 19/5-8. Yn ôl LII: *Ef a dele pedeyr keynnyavc o pob march a rodho e brenhyn, eythyr e gan try dyn: sef yw e rey henny, er escop a'r penhebogyd a'r croessan*. Eir ymlaen i roi rhesymau am hynny yn y testunau eraill. Gw. Patterson, 'Honour and shame in medieval Welsh society: A study of the role of the burlesque in the Welsh laws', SC, 91. **croessan** Benthyciad o'r Hen Wyddeleg: *crossán*. Cellweirwr, Saesneg: *jester*.

**§124)** Cf. *Tri dyn y traenha y brenhin ac bynt: y vrenhines ar penteulu ar penkynydd: y vrenhines a dyly traean gan y brenhin ym pob lle dyeithyr yggorwlat; or anreith awnel y teulu y dyly y penteulu ran deu6r ar traean or adel yr brenhin; penkynydd a dyly ran deu6r o gr6yn yr aniuieileit hely, ar traean o ran y brenhin. Y brenhin adyly o bop anreith orwlat y traean ar eur ar aryant ar s6llt ar kyrn buelyn ar mein gwyrthua6r arg6iscoed y bo urllys 6rthunt (AL, V.i.17 o Isgrau. D, F, K, Q). Mae'r triawd hefyd yn digwydd yn Tim ac S. Mae'r triawd hefyd yn adleisio testun Ior: *Ef ev e trededyn a dely rannu a'r brenhyn (e deu ereyll ynt y urenhynes a'r penkenydd) (LII, §6/36-37)*. Dywedir hyn hefyd yn y ddau ddull arall ond yn y traethodau penodol am y frenhines (*LIB, 4/9; WML, 3/16-17*), y penteulu (*LIB, 8/27; WML, 10/19*), a'r pencynydd (*LIB, 20/23-24; WML, 19/11-12*).*

**§125)** Y tro hwn gwneir unawd o gynnwys y traethawd am y pencynydd. Gw. **§121**. Caiff ddiwedd gan y brenin, y frenhines, a'r distain. Daw dau lond corn iddo gan y teulu brenhinol a'r llall gan un o brif swyddogion y llys. Yn nestun *LIB* a *WML* dywedir y câi ei anrhegu gan y distain neu'r penteulu: *Corneit o lyn a geiff y gan y brenhin, ac arall y gan y vrenhines, a'r trydyd y gan y distain neu y penteulu (LIB, 21/6-9)*; tra yn *LII* enwir y penteulu yn unig. Roedd y penteulu yn berthynas agos i'r brenin ac yn yr achos hwnnw câi'r pencynydd ei anrhegu gan dri aelod o'r teulu brenhinol.

**§126)** Cf. *Ef a dele e gan e porthavr agory e porth mavr en dyuot e'r llys ac en mynet ohoney, ac nas ellygo e'r wycet nac en menet nac en dyuot (LII, §10/15-17)*. Cf. hefyd Lladin D: *Resus filius Griffini dicit quod postquam claudet portam post eum intrantem, licet illa die vel statim liber sit, numos reddet. (LTWL, 330/16)*.

**Wicet** Gair a godwyd o destun Ior. Daw o'r Ffrangeg *wiket* neu *wicket*, dengys hyn ddylanwad y Ffrangeg ar lysoedd Cymru yn y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg. Golygai ddrws bychan neu giât. Efallai bod hyn yn adlewyrchiad o statws yr ynad. Nid oedd i fynd i mewn nac i adael y llys ond drwy'r prif borth yn unig. Cf. M. E. Owen, 'Bwrlwm llys Dinefwr: brenin, bardd a meddyg', *Carmarthenshire Antiquary*, 32 (1996), t. 8.

§127) **cysseic** = *cyt* + *seic*. Rhannu saig. Cyfeirir, fel a nodwyd uchod, at y ddiod a gâi'r pengwastrawd gan y frenhines a'r brenin yn y gwahanol destunau. Cyfeirir yn ogystal at y bwyd neu saig a gâi. Dywedir yn Bleg: *Ancwyn a geiff, nyt amgen, seic* (LIB, 19/3); tra yn Cyfn: *B6yt seic achorneit c6r6f ageiff* (WML, 22/2). Yn yr unawd hon efallai y cyfeirir at yr *ancwyn* sef y bwyd a gâi'n feunyddiol yn ei lety ei hun ac nid at y cydyfed a ddigwyddai yn y llys. Byddai felly'n cydyfed a'r brenin ar adegau arbennig ond yn bwyta ei luniaeth dyddiol ar ei ben ei hun. Dywedir rhywbeth tebyg am y distain: *canes kery delyo kytwytta ac ef, ef a dely kytyuet* (LII, §8/27).

§128) Enwyd y gwyliwr eisoes yn §117.

§129) Cf. *Reit y6 bot ygyly6r yn vonhedic g6lat. kanys ida6 yd ymdiredir or brenhin* (WML, 32/19). Rhestrir y gwyliwr fel un o'r swyddogion arfer a defod yn LII a llsgr. X, Y, a Z sy'n adlewyrchu'r ffaith nad oedd y gwyliwr yn rhan o lys symudol y brenin. Y swyddogion hyn oedd yn gyfrifol am weinyddiaeth y wlad, neu yn achos y gwyliwr yr adeilad y byddai'r llys yn cwrdd ynddo (WKC, 431).

§130) Gw. y rhagymadrodd, tt. 95-96.

§132) Cf. *Or daw bard teulu y erchi at y brenhin, canet idaw vn canu. Os at vchelwr y daw, canet tri. Os at vilaein y daw, canet hynny diffyccyo* (LIB, 22/18-20). Tra yn Cyfn: *Pan archo bard y teyrn: kanet vn kanu. Pan archo y vreyr: kanet tri chanu. Pan archo y taya6c: kanet hyt pan vo blin* (WML, 22/19-22). Nid oes cyfatebiaeth yn LII.

§133) Cf. *Or pan dotto yrhebogyd yhebogeu yny mut hyt pan y tynho allan: ny dyry atteb yneb or ae holo* (WML, 18/9-11). Yn Ior yn unig y sonnir ei fod yn atebol i'w gyd swyddogion: *O'r pan dotto er hebave emut ene tenno allan ny dely attep e nep o havl namen e un o'y gytsvydogyon* (LII, §9/25-26). Soniwyd

eisoes nad oedd raid i'r pencynydd ateb i neb os na châi ei ddal cyn rhoi ei esgidiau ymlaen ddydd calan Mai. Yn Bleg yn unig y dywedir ei fod dal yn atebol i'r pedwar swyddog ar hugain: *O'r pan dechreuont hely, hyt y nawuettyd Mei, nyt atebant y neb a'e holho, onnyt vn o'r swydogyon vyd (LIB, 21/17-19).*

**mut** Benthyciad o'r Lladin *muta* a olygai gawell i hebog (*GPC*, d.g. mud). Gw. hefyd *DrOC*, 187.

§134) Mae'r triawd hwn yn ddiffygiol. Cyfeirir at y pencerdd a'r bardd teulu. Adlewyrchir eisteddiad y llys yn nhestun *LII*, a drafodir uchod, yn y triawd drwy ddweud mai *uwch coryf* oedd safle'r pencerdd tra fo lle'r bardd teulu *is coryf*.

**bardd teulu** Ceir elfen arwrol i'w swyddogaeth a châi bob amser ei gysylltu â'r teulu, sef byddin y brenin. Lletyai gyda'r penteulu a disgwyliid iddo ddatgan y gân Unbeiniaeth Prydain pan rannwyd yr anrhaith a phan fyddai darpar ymladd arnynt. Adlewyrchir ei gysylltiad agos â'r penteulu gan mai *is coryf* gyda'r penteulu oedd ei le yn y llys.

**pencerdd** Nid oedd y pencerdd yn aelod o'r llys fel y bardd teulu. Er hyn dangosir blaenoriaeth y pencerdd yn y llys gan ei fod yn cael eistedd *uwch coryf* gyda'r edling. Yn wreiddiol roedd y pencerdd yn wŷr rhydd nad oedd yn rhan o'r llys. Yn *LIB* fe'i gelwir yn bencerdd y wlad tra yn *WML* dywedir ei fod yn 'ddigyfraith' ac roedd yn rhydd i grwydro o un llys i'r llall (*DrOC*, 203-5). Efallai fod safle'r pencerdd yn y llys yn *LII* ac yn nhestun H yn dangos sut y câi'r pencerdd ei dynnu'n raddol i mewn i gyfundrefn y llys (am y bardd teulu a'r pencerdd, gw. *WKC*, 142-66).

§135) Triawd anghyflawn. Dywedir yn Bleg: *O'r anreith y bo y brenhin vrth y dwyynn, y righill a geiff tarw, ac onny byd tarw ef a geiff ych ieuanc tec nyt el dan wed eiroet, neu gynfflith (LIB, 28/30-32).* Ac yn Ior: *O'r anreith a dyccer o orwlat ef a dele tarw, neu anyueyl nyt el adan wed, neu kenflyth (LII, §34/19-20).*

**anrhaith** = *an* + *rhaith*. Golygai ysbail a gaed o orwlad, sef gwlad gyffiniol.

§136) Triawd anghyflawn.



**porthor** Gwyliwr y porth. Caiff ei enwi fel un o'r swyddogion arfer a defod yn *LII* sy'n awgrymu mai swyddog y wlad ydoedd yn hytrach na swyddog y llys (*WKC*, 572). Sonnir yn Bleg: *O bop anreith a del y'r porth, y porthawr a geiff y llwdyn diwethaf (LIB, 24/22-23)*. Yn ôl Cyfn: *Or moch preidin adel yr porth: h6ch ageiff y portha6r. Ac ny byd m6y noc ygallo ae vn lla6 y dyrchafel herwyd yg6rych mal na bo is ythraet no phen y lin. Or anreith warthec adel yr porth or byd eidion kota erni. yportha6r ae keiff. Ar eidion diwethaf. adel yr porth: ef heuyt ae keiff (WML, 32/8-15)*. Tra yn Ior: *Ef a dele o'r anreith o uoch a del trve e porth hvch a allo ef erbyn e gurych e dyrchauael a'e un llav ene uo kyuvvch a thraet a thal e glyn ef. Ef byeu e llvden kvtta a del e'r porth (LII, §35/9-12)*.

**§137)** Triawd diffygiol arall.

**golwyth** Y rhaniadau cyfreithiol cydnabyddiedig wrth sôn am gorff anifail yn y llyfrau cyfraith: gw. cyfreith carw yn *LIB*, 51/24-30; *LII*, §136/4-9; *GC.II.xxiv.2-3: Deudec gol6yth kyfreitha6l auyd ynda6: nyt amgen taua6t, tri gol6yth y myn6gyl, kimibeu, callon, deul6yn, iar, tumon, hydgyllen, her6th, auu. Tribuhyn caml6r6 atelir dros bob un or gol6yhton hynny (GC)*.

**§138)** Darn o destun sy'n digffygiol ond sy'n sôn am dri swyddog sef y rhingyll, y maer biswail, a'r distain. Sonnir uchod am yr hyn a gâi'r rhingyll o'r anrhaith orwlad. Yn achos y distain dywedir yn Cyfn: *Distein bieu cad6 ran y brenhin o anreith (WML, 14/17-18)*. Tra yn Ior: *Ef a dele kadv ran e brenhyn o'r anreith a del o orwlat ene uenho e brenhyn e defnydyav, a phan defnydhyo e brenhyn e traean e dysteyn a dely dewys yr eydyon a uenho o traean e brenhyn (LII, §8/37-39)*.

**biswail** Gair am dail neu dom. Roedd y maer biswail yn un o'r swyddogion arfer a defod. Cyflawnai'r un swydd â'r maer ond ymwnâi â thenantiaid caeth y faerdref. Gall yr enw fod yn ddirmygus a dangos nad oedd llawer o barch tuag ato (*LTMW*, 364). Sonnir yn Bleg am ei ran o'r anrhaith: *ar y petwryd gyt a theulu y brenhin (LIB, 49/9)*.

**§139)** Triawd anghyflawn arall. Cf. **§204**. Yn Ior sonnir am y maer a'r cynghellor yn tyngu dros ddiffaith y brenin pan fo raid . . . *ac a deleant cadu dyffeyth e*



*brenhyn a tygu trostau pan o reyt (LII, §91/13-14). Cf. am y maer biswail: Efa dele tygu tros tyr e llys (LII, §33/8). Adleisir hyn yn y triawd drwy ddweud y dylai dyngu am dir y faerdref. Pan fyddai'r llys yn mynd ar daith o amgylch maerdrefi'r brenin ar dir y maerdrefi, o dan ofalaeth y maer a'r maer biswail, fyddai'r llys yn sefyll. Efallai mai'r trydydd gŵr oedd y distain yn ôl Ior: E dysteyn a dely tygu tros e brenhyn . . . (LII, §8/39).*

**cynghellawr** Ceir trafodaeth ar y gŵr hwn yng nghanol cyfraith y wlad yn *LII* sy'n dangos mai ynghlwm â gweinyddiaeth y wlad oedd ei swydd. Roedd, fel y maer biswail, yn un o swyddogion y brenin na fyddai'n symud o le i le gyda'r llys. Am y cynghellor, gw. Jenkins, 'Cynghellor and chancellor'.

**§141)** Mae dechrau'r triawd yn ddiffygiol ond gellir llenwi'r bylchau wrth gymharu'r triawd gyda **§101**. Cf llsgr. Z, 55v: *Tri dyn a ddylly le yn y llys vddvn heb vod ev kefyn ar y pared: y pengwasdrawd, a'r penkynydd, a'r troydiawc (WMLT: Z85)*. Cyfeirir eto at batrwm *LII* ar safle'r swyddogion yn y llys.

**paret** Benthyciad o'r gair Lladin *paries*, genidol *parietis*. Fe'i defnyddir yma am y palis neu'r sgrin y tu cefn i'r troediog, y pengwastrawd a'r pencynydd oedd yn rhannu'r neuadd yn ddwy ran: am *pared* gw. *GPC*, d.g. *pared*; Bedwyr Lewis Jones, 'Parwyd: pared', *BBCS*, 27 (1976-78), 221.

**§142)** Cf. *Pwy bynhac a gymero tir y tat kyn no'r brawt hynaf, y brawt hynaf a'e gwrthlad ef o gwbyl. Ac ynteu a geiff datanhud o gwbyl. Ac or byd marw yr hynaf y mywn y datanhud diran, y vab elchwyl a geiff dataanhud cwbyl yn erbyn pawb (LII, 79/24-29)*. Yn nhestun Bleg mae'r darn hwn i'w ganfod yng nghwt y triawd *O tri mod y dospertir dadyl datanhud rwg etiuedyon . . .* Mae'r triawd hwnnw hefyd i'w ganfod yn ddiweddarach yn nhestun Pen 278 ar t. 59. Gan fod y triawd yn digwydd ar ddiwedd beth fyddai f. 101 yn y testun gwreiddiol (H) a bod y darn hwn yn digwydd ar beth fyddai cychwyn f. 130, rhesymol yw meddwl bod camrwymiad yn y testun gwreiddiol ac y dylai f. 130 fod yn dilyn f. 101.

§143) Dyma'r cyntaf o dri thriawd yn ymwneud â braint ac etifeddiaeth sydd wedi eu codi allan o Bleg. Cf. *Tri ryw vreint yssyd; breint anyanawl, a breint swyd, a breint tir* (LIB, 79/30-31).

**braint** Statws person. Byddai'r statws hwn yn effeithio ar ei *alanas* a'i *sarhaed* a gweddill y taliadau cyfraith (WKC, 562; WLW, 192; LTMW, 319). Yn ôl y triawd roedd gan berson statws naturiol, neu fe ddaw yn sgil swydd, neu dir (cf. LIB, 101/4-9): gw. hefyd Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 49-50.

§144) Cf. *Tri priodolder yssyd: ryw, a breint, ac etiuedyaeth; etiuedyaeth hagen herwyd breint; breint herwydd ryw; ryw herwyd y gwahan a vyd rwg dynyon herwyd kyfreith, megys y gwahan brenhin a breyr, gwr a gwreic, hynaf a ieuhaf, breyr a bilaen* (LIB, 80/1-6).

**priodolder** Bôn y gair yw *priod*. Daw'r gair *priod* o'r Lladin *privatus*, sef addasrwydd i beth neu berson. Rhoes hyn fod i'r enw *priodor*, sef un sydd â hawl etifeddol llawn i dir a ddaw pan fo tir ym meddiant y teulu am bedair cenhedlaeth. Ni ddiffydd ar hawl hyd y nawfed cenhedlaeth. Daeth *priodolder* yn enw ar yr hawl etifeddol honno: LTMW, 375. Cf. y defnydd o'r gair *priod/priodas* (gw. WLW, 214). Gw. hefyd D. Jenkins, 'A lawyer looks at Welsh land law', 233.

§145) Cf. *Teir etiuedyaeth kyfreithyawl yssyd, ac a trigyant yn dilis y'r etiuedyon. Vn yw etiuedyaeth a gaffer o amot kyfreithawl y gan y perchenhawc yr gwerth. Eil yw etiuedyaeth trwy dilyet o pleit ryeni. Tryded yw etiuedyaeth a gaffer trwy amot kyfreithawl o vod y perchenhawc heb werth* (LIB, 74/4-10). Mae'r triawd yn amrywio tipyn o'r hyn a geir yn y testunau eraill. Awgryma darlleniad y testunau eraill y dylid darllen *rhieni* yn lle *rhiein* ac felly diwygiwyd y testun. Gw. TYP, lxxxvii, n. 1, lle mae Rachel Bromwich yn awgrymu fod camgymeriad tebyg wedi digwydd yn PKM yn nheitl y triawd lle enwir Branwen fel *tryded prif rieni yn yr ynys hon* a allai'n wreiddiol fod wedi darllen *teir prif riein*.

- §147) Cf. *O whe fford y gŵahan dyn ae da. o goll. ac aghyfarch. alledrat. benffic. a lloc ac adneu* (WML, 118/4-6). Mae cyfres o naw triawd yn dilyn sydd wedi eu seilio ar y triawd hwn ac yn ehangu arno.
- §148) Rhestrir yma y tri modd y mae perchennog yn fodlon cael ei wahanu oddi wrth ei eiddo.  
**Cyngain** < *cyngenni*, sef bod yn gyson â, cytuno â, neu bod yn ganiataëdig (GPC, d.g. cyngannaf). Mae *GMWL* yn cynnig ‘to harmonize with, prevail, obtain’ (*GMWL*, 94, d.g. cyghanu).
- §149) Enwir *rhoddi* yn §147 ac yma sonnir am y tair ffordd o roddi: cf. *Nyt oes o rod onyt o vod* (LIB, 39/12-13).
- §150) Erys gyda’r syniad o roddi.  
**rhodd ac estyn** Cf. yng nghyfraith y gwragedd roedd *rhodd* yn cyfeirio at y bwriad o drosglwyddo’r ferch ac *estyn* oedd y weithred o’i rhoi gan ei theulu i’w gŵr (WLW, 215).
- §152) Mae cyfnewid yma’n cael ei gyfieithu fel *bargain* neu *sold* yn *AL*, II, 591; yr ystyr yw masnach neu werthiant.
- §154) **anghyfarch** = *surreption*; yn wahanol i’r ystyr yn §§62-64.
- §155) **taplys** Benthyciad o’r Hen Saesneg *tables* sy’n golygu tabler (*backgammon*). Ni cheir enghraifft arall o’r gyfraith am daplys yn y cyfreithiau. Gw. hefyd §604. Atseinir y darn hwn yn llawysgrif Peniarth 3 mewn testun o Gynghorau Catwn (cyngor Cadw Hen), sef aralleiriad o destun Lladin sy’n dyddio oddeutu 1300: *Na ware dapplys rac colli dy da. gware a thop. ac ny cholly dim ac ny thyngu anudon . . .* (Ifor Williams, ‘Testunau: Cynghorau Catwn’, *BBCS*, 2 (1923-25), 27). Gw. hefyd *RMWL*, 303; *MWM*, 58.
- §157) Dyma ddechrau cyfres o driodded yn ymwneud ag anifeiliaid.  
**goradain** Gair am aderyn oedd yn cael ei ddefnyddio’n aml mewn barddoniaeth, e.e. yn Llyfr Aneirin, ym marddoniaeth Llyfr Coch Hergest, ac

yn Llawysgrif Hendregadredd (gw. *GPC*, d.g. goradain). Pwysleisir defnyddioldeb anifeiliaid.

**§158)** Ystyr gyffredinol sydd i anifail ac fe'i defnyddir i gyfeirio at holl rywiau byd yr anifail. Defnyddir y gair *edyn* yma yn hytrach na *goradain*. Cf. *Tri annyueil vntroedawc yssyd: march, a hebauc, a milgi. Y neb a torrho troet vn ohonunt, talet y werth yn hollawl* (*LIB*, 115/25-27). *Gellgi* fel *H* sydd hefyd yn ymddangos yn llsgr Cyfn U ac X.

**hobel** Hebog. Gair benthyc o'r Hen Ffrangeg ac sydd eto'n air sy'n ymddangos mewn barddoniaeth, e.e. ym marddoniaeth Llyfr Coch Hergest neu yng ngwaith Dafydd ap Gwilym (*GPC*, d.g. hobel).

**§160)** Dyma'r cyntaf o dri thriawd sy'n ymwneud â chŵn a enwir fel un o'r tri anifail yn **§158**. Enwir yma'r tri chi sydd uwch eu statws neu sy'n foneddicach na'r cŵn eraill.

**olrheat** Ci fyddai'n hela yn ôl trywydd, *tracker-dog*.

**colwyn** Gair am sbaengi neu gi anwes (< Clt \* *koligno*). *Lap dog*, yr un *col* ag sydd yn *cól*. Digwydd *colwyn* yn Ior yn unig ac yn U o Cyfn ac mae D. Jenkins yn awgrymu fod ei bresenoldeb yn y testunau yn ein galluogi i amau ei fod yn 'an infection of Anglo-Norman luxury from the court of Gwynedd' (*WKC*, 272). Punt oedd gwerth colwyn y brenin (gw. *LII*, §133/9).

**milgi** Sonnir am statws y milgi yn y testunau. Pe bai milgi'n colli ei goler byddai'n colli ei statws (*LIB*, 53/19, *WML*, 67/20-21). Sonnir hefyd am werth coler milgi a thennyn *olrhead* yn *LIB*, 97/27-32. Ystyr wreiddiol *mil* oedd anifail fel yn y gair *bwystfil* (*DrOC*, 191). Enwir dau o'r cŵn hyn mewn triawd sydd i'w ganfod yn llawysgrif Q: *Tri anieuil a drycheif eu gberth teir gbeith yn vn dyd: milgi, a gellgi, a cholbyn, herbyd symuda6 eu perchenogaeth y gan vab eillt y uchel6r a brenhin* (*WMLT*: Q197). Adlewyrchai'r tri chi wahanol swyddogaethau cŵn, sef olrhain, anifeiliaid anwes, a hela.

**§161)** Mae Aneurin Owen yn cynnig y pennawd hwn i'r triawd: 'There are three kinds of trackers' ac mae'n enwi'r trydydd ci fel y 'blood-hound': *AL*, II, 593.

**gellgi** Gafaelgi neu gi hydd (*GPC*), sef ci oedd yn ddigon mawr i hela ceirw: gw. *WKC*, 270. Hen air am *melyn* oedd *gell* sy'n awgrymu mai cŵn melynliw fel y 'deer hound' Albanaidd oedd y gellgwn (*DrOC*, 191). Roedd gwerth y gellgi yn uwch nag un y milgi: gw. *WML*, 34/17-18; *LIB*, 53/9-11: *Sef a tal milgi brenhin o'r dechreu hyt y diwed, hanher kyfreith gellgi brenhin gogyfoet ac ef* (*LIB*).

**bytheiad** Rhyw fath o *baying hound* (*WKC*, 271-72). Canodd Dafydd ap Gwilym amdanynt: *clywwn oriau, lleisiau llid/ Canu'n aml, cŵn yn ymlid* (Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, 107).

§162) Ymdrinnir yma â'r cŵn isaf eu statws. Mae Aneurin Owen yn cynnig mai 'mastiff' yw'r ci cyntaf, *AL*, II, 593. Gwerth y costog, hyd yn oed os oedd yn gi i'r brenin, oedd pedair ceiniog (*WML*, 34/23-24; *LIB*, 54/3-4; *LII*, §133/13-14). Roedd bugeilgi yn gyfwerth â'r anifail uchaf ei werth yn y praidd yn ôl *LII* §133/24-26; tra yn Cyfn ei werth oedd *eidon talad6y* (*WML*, 34/24-25).

§163) Mae'r triawd hwn yn ddiffygiol ond o'r patrwm uchod gellir gweld ei fod yn driawd am adar sydd eto'n clymu â §158. Mae'r drafodaeth am adar yn *LIB* a *LII* hefyd yn dilyn y drafodaeth am gŵn.

§166) Gw. y rhagymadrodd, t. 68. Cf. §59.

**cymwyll** Crybwyll.

**gra** Benthyciad Saesneg Canol oedd yn golygu *a gray fur* (*GPC*, d.g. gra). Ai o ffynhonell Saesneg y daeth hwn gan fod y ffurf *befyr* yn y triawd hefyd yn fenthyciad o'r Saesneg?

§168) Roedd hawl gan y brenin i hwch *dri fysisig* (sef lled tri bys o drwch) gan ei daeogion bob blwyddyn fel rhan o'r *dawnbwyd* gaeaf: gw. *LIB*, 68/26-7.

§170) Cf. *O pob oen y telir wy iar hyt y kadw kyfreith, ac yna y telir oen. O'r geiuyr a'r mynneu, y dadyl gyffelyb* (*LIB*, 86/1-3).

§175) Sonnir yn *LIB*, 82/23-6 a *WML*, 117/25-118/3 y dylid talu pedair ceiniog am foch oedd yn rhydd mewn gweirglodd neu ŷd anaeddfed. Pe bai'r ŷd yn aeddfed dylid talu am yr holl ddifrod.

§176) Sonnir yn *LIB*, 85/25-29; Lladin D, 392 a *WML*, 83/21-4: *Or kadw kyfreith o'r deueit, dauat a geffir a phyrllig o pob pump llydyn hyt y kadw kyfreith. Meint y kadw kyfreith o'r deueit, dec llydyn ar hugeint a hwrđ (LIB)*. Ceir cyfeiriad amlwg at sut y mae arian wedi newid ers cyfnod Hywel Dda, sy'n dangos ymwybyddiaeth hanesyddol yr awdur.

**dimeu** Gwerth dwy ffyrlling neu hanner ceiniog.

**ffyrddling** Benthyciad o'r Hen Saesneg *fēordling*. Hanner dimai neu chwarter ceiniog (*GPC*). Defnyddir y ffurf *fyrthig* yn Lladin D a *pyrllig* yn *LIB* a *WML*.

§178) Cf. *Sef yu anodev, pob peth a dyccer en ryth peth arall; ny deleyr am anodev na dyrwy na chamluru na dym namen dyeyssywau e den o'e da (LII, §115/31-32)*. Ceir yma ddiffiniad o'r term *anoddeu*. Ymhelaethir ar yr hyn a geir yn *LII* drwy gynnig esboniad. Ni ddylid cosbi am *anoddeu* ond mewn achos lle bo'r da yn cael ei gadw. Dechreuir adran newydd gan ddarfod sôn am anifeiliaid. Mae ysgrifydd Peniarth 278 (Robert Vaughan) yn ymwbybodol bod adran arall yn dechrau yma a rhoddodd briflythyren fwy na'r arfer i'r teitl *Anoddeu*. **anoddeu** = *inadvertence, misapprehension (LTMW, 312)*. Trosedd anfwriadol. Croes i *goddau*, sef gweithred fwriadol.

§179) Cf. *Nydylyir dyrwy am dym yr godev heb weithret (AL, IX.xxv.12)*. Clöir y diffiniad drwy ychwanegu dihareb.

§181) Cf. §147.

§182) Cf. §151. Sonnir yn Cyfn: *Kyfreith benfic yb ydyuot mal yrother (WML, 108/16-17)*. Yr un egwyddor oedd y tu ôl i log ac adnau (*WML, 118/3-7*).

§183) Cf. §152. Mae'r darn hwn wedi ei gofnodi mewn dull cwestiwn ac ateb sy'n nodweddiadol o'r testunau cyfraith. Fel arfer cysylltir yr arddull hwn ag

hyfforddiant llafar: gw. Owen, 'Gwŷr dysg yr Oesoedd Canol a'u dulliau rhyddiaith', 49.

**§185)** Cf. llsgr. Z, f. 98r: *Tri lle y dyly dyn vesur i hawl gan amddiffynwr hep hawl hep atep o honno. Vn yw o gomedd ygwyl kyffreithiawl, kyffaddav vydd yr hawl am omedd y gwys. Ni vernir hagen yn vessvr hawl i neb ar absen, hyt yn oet y trydydd gwys, ac ni ddylyff tystiaw na ddel amddiffynwr i'r maes na galw am vyrawt y hyt y trydydd gwys. A'r tri gwys hynny a ddyleir i gwneithwr yn gyffyreithiawl hagen a'i galw velly. Ail yw yn y dydd koll kaffel: nit oes esgvsot kyvyreithiawl eithyr na wypo ynat i varn, ac o dodir angav yn esgus drosdo ni rrymia, kanit esgus kyfreithawl ac ni rrymia. A chyvadde vydd messur yr hawl arnaw ac ar i dda mal pe byw vai, os bydd iddaw. Oni ddaw yr amddiffynwr ynydd koll kaffel gossodedic o ben ynat wedi rwymo pleidiev barn er messur i hawl arnaw, kani ddyl kyvyraith nis gwnel. Trydydd yw lle y kais howlwr vesur i hawl ar y talawdur marw neu . . . (WMLT: Z118).*

**§189)** Cf. *Tri peth ny at kyfreith eu damdwg: blawt, a gwenyn, ac aryant; kanys y kyffelyb a geffir yrdunt (LIB, 114/17-19).* Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng cynnwys y triawd yn H a'r triawd mewn testunau eraill, gan fod H yn ymhelaethu drwy esbonio a diffinio.

**§190)** Cf. §155.

**§191)** **un o'r teir taryan** Adleisir y cymal mewn triawd o'r enw *Tri phetwar yssyd* sydd i'w gael yn Bleg . . . y *pedeir taryan a a rwg dyn a reith gwlat rac hawl letrat. Vn yw cadw gwesti . . . Eil yw geni a meithrin . . . Trydyd yw gwarant . . . Petwryd yw kadw kyn coll . . . (LIB, 109/5-29).* Cf hefyd *LIB*, 44/8-19.

**§193)** Cf. yr adran ar lygru ŷd yn *LIB*, 85/11-87/8; *LII*, §154; *WML*, 83/5-85/3.

**§194)** **bugeil trefgordd** Credir tystiolaeth bugail pan fo anifail o dan ei ofal yn lladd anifail arall. Caiff ei enwi fel un o'r naw tafodiog a restrir yn *WML*, 40/19-41/23; *LII*, §56; *AL*, IX.xviii.1-15; ac fel un o'r naw dyn credadwy yn *LIB*,

37/29-39/23; sef tystion y mae eu llw yn cael ei dderbyn yn unigol, fel rheol rhaid oedd cael o leiaf ddau dyst: gw. *WLW*, 217-18.

- §195)** **Iw gweilydd** Cyfieitha Dafydd Jenkins *llw gweilydd fel fore-oath (LTMW, 307)* tra cyfieithir hyn gan Aneurin Owen fel 'the oath of an absolver' (*AL*, II, t. 603). Yn *WLW*, 209 cynigir y dehongliad hwn: 'the unsupported oath of a suspect, taken at the instance of the suspector; if the oath is refused, no counter-oath is required from the suspector before further procedure can follow.' Gw. hefyd J. Lloyd Jones, 'Gweilydd', *BBCS*, 11 (1941), 37-38.
- §197)** Cf. *G6yr kaith amoda6l ac allddydon y rei hynny a dycha6n y hargl6yd y gberthu ae rodi o gyfreith ac ny dylyant gaffel ia6n am danynt or lledir aghyfreitha6l kans nidoes genedl ydynt ae gofyno (AL, XI.ii.2)*. Punt yw gwerth caeth yn ôl *LIB*, 59/2, *WML*, 45/11-15; *LII*, §110/42, a phunt a hanner os y daw o dramor (punt a chwe ugain yn Ior). Nid oes angen rhaith pan fo caeth yn cael ei lofruddio. Sonnir yn *S*, §1574 bod gwerth llaw caeth yn fwy na gwerth ei enaid. Nid oedd galanas am leidr ychwaith: *Ny byd galanas am leyder, ac ny byd llys erug thiy kenedel er e dyenydyau (LII, §115/19-20)*.
- §198)** Rhaid cyflwyno rhaith, sef nifer o dystion arbennig, os yw person yn honni i un arall ddwyn ei was; cf. *AL*, V.ii.112 ac *AL*, V.ii.41: *O deruyd llad kaeth na gbeniga6l vo nac arall, neu ynteu y d6yn yn lledrat ae wadu; ll6 pedwarg6yr arhugeint ae gwatta ar neill hanner yn wyr not: kanys am bop lledrat y dylyir yneill hanner yn wyr not (AL, V.ii.112)*.
- §199)** Sonnir yn *LII*, §10/22-3 y dylai'r ynad gael llamysten gan y penhebogydd a chyfeirir at y pencynydd yn cael llamysten yn *LIB*, 20/3-4 a *WML*, 19/21-23; gw. hefyd *WKC*, 265.
- §200)** Cf. *Tri chowyllawc llys yssyd: kerwyn ved, a brawt, a chathyl, kynn eu dangos y'r brenhin (LIB, 118/20-22)*. Cf. *WLW*, 196, d.g. cowyll. Dyma ddechrau adran arall yn ymwneud â'r llys sy'n adleisio'r hyn a geir eisoes yn y testun.
- §201)** Cf. §77.



§204) Cf. §139.

§205) Cf. §114.

§206) **dir bwrdd** Saesneg: *demesne mensal land*: gw. *AL*, II, 605. Cf. *LII*, §94/12-15: *Maer e bysweyl a dele pedeyr keynnyauc e gan e porthaur pan estenher y suyd ydau; ac ef a dele tygu tros tyr burd e llys a'r hauotyr o byd reynt.*

§207) **gwestfa** *gwest + fa*. Yn wreiddiol cysylltid *gwest* â lletygarwch am noson. Byddai llys y brenin yn derbyn *gwest* wrth fynd ar *gylch*. Daeth *gwestfa* i olygu treth bwyd *food render* a delid i'r brenin gan ei wŷr rhyddion. Golygai hefyd yr ardal a dalai *westfa* i'r brenin (gw. *WKC*, 567, *EIWK*, 369-83). Yn yr achos hwn cyfeirir at y cyllid y byddai'r brenin yn ei dderbyn yn hytrach na lletygarwch neu daliad o fwyd.

**cwynos** Swper neu'r tâl amdano (gw. *WKC*, 564, *EIWK* 378-79). Yn ôl Ior: *Val hyn e rennyr aryant e kvynnos: (sef yv aryant e kvynnos, pedeyr ar ugeynt o pob guled e bo med arney, ac o henne un ar bymthec e svydwyr e brenhyn ac vyth e svydwyr e urenhynes)* (*LII*, 8/40-42). Efallai fod dryswch yma rhwng taliad *cwynos* a thaliad *twnc* oedd yn bunt, cf. *LII*, §92/4, §96/8 (gw. *LTMW*, 270) neu fod taliad *cwynos* yn codi i bunt os na chafodd ei dalu rhwng gŵyl calan gaeaf a gŵyl Martin. Sonnir am ŵyl Martin yn Bleg: *Pob gwr ryd, rwg Gwyl Holseint a Gwyl Marthin y tal y'r arglwyd yr hyn a dylyho y talu* (*LIB*, 83/23-25), sef rhwng y cyntaf a'r deuddegfed o Dachwedd.

**dawneybwynt** Treth bwyd a dalai'r taegion i'r brenin ddwywaith y flwyddyn.  
**y fechdeyrn ddylyet mal y cefaist fry o'r blaen** Cyfeirir yn ôl at §83. Mae'r defnydd o'r ffurf ail berson unigol *cefaist* yn awgrymu fod yr awdur yn cymryd y bydd ganddo ddarllenydd a'i fod yn synio am y testun fel un ysgrifenedig, gan ddisgwyl i'r darllenydd allu troi at rannau eraill o'r llyfr.

§208) Cyfeirir at y gwahanol gylchoedd hyn yn y testunau cyfraith, e.e. *LIB*, 3/2-3 am *gylch* y frenhines, *câi*'r pencynydd fynd ar *gylch* fel un o swyddogion y llys *LIB*, 21/1-2 a *châi*'r penteulu fynd ar *gylch* ar ôl y Nadolig *LII*, §6/45 a *châi*'r maer a'r canghellor fynd ar *gylch* ddwywaith y flwyddyn *WML*, 28/4-5.

Byddai'r cylchoedd hyn derbyn *gwestfa* neu *ddofreth* gan fileiniaid y brenin (gw. *WKC*, 564). Am *rhiein*, gw. §56n.

§216) Yn sylfaenol ystyr *gobr* oedd taliad neu *fee*. Yn y cymal cyntaf o'r triawd fe'i defnyddir i gyfeirio at dâl priodas morwyn. Mewn rhai testunau defnyddir y gair *amobyr* yn y cyd-destun hwn. Yn debyg i destun Bleg: *Diffeith brenhin y dywedir uot morwyn; ac wrth hynny y dyly y brenhin y gobyr* (*LIB*, 67/10-11); honnir mai i'r brenin y dylid talu *gobr* merch ar ei phriodas. Mewn rhannau eraill o'r testunau cyfraith nodir mai i arglwydd tad y ferch y dylid talu, gallai hwnnw fod yn swyddog yn y llys neu'n ben ar grefft arbennig (e.e. *LIB*, 12/22). Yn yr ail gymal fe'i defnyddir ar gyfer *gobr estyn*, sef tâl a roddwyd i arglwydd pan etifeddai dyn ei dir, ac yn y trydydd tâl wrth arwain yn y llys. **gwaddawl** Rhan y briodasferch o eiddo'i chenedl (gw. *WLW*, 204).

§220) Cf. *Ebedyu pop suydauc auo en [y] llys [ch6eugeint y6 y ebedi6: eithyr s6ydogyon y llys nyt amgen y distein, pengwastra6t, penhebogyd, penkynyd, gwas ystauell; punt y6 ebedi6 pob un o nadunt.]* (*AL*, IV.ii.12).

§221) Dichon fod yr esboniad o ystyr *gwahalaeth*, oedd yn sylfaenol yn golygu tywysog, yn adleisio'r berthynas rhwng Llywelyn ap Iorwerth a Gruffudd ei fab anghyfreithlon. Gw. y rhagymadrodd, t. 75; *WKC*, 52; J. B. Smith, 'Dynastic succession in medieval Wales', *BBCS*, 33 (1986), 205-06.

§225) **marwdy** Eiddo symudol rhywun oedd wedi marw heb wneud ewyllys neu heb fod ganddo etifedd. Enwir marwdy fel un o 'Wyth Pynfarch Brenin' (ffynhonellau cyfoeth y brenin) yn Bleg (gw. *LIB*, 47/1-6; *Tim*, 12/13-19; cf. *LII*, §43). Gw. hefyd *LIB*, 187; *GMWL*, 217; *NLC*, 114-18.

§226) Sonnir yn *LIB*, 81/28-82/3 mai'r brenin sydd yn cael hawlio unrhyw anrhaith a ddaw yn sgil llongdrylliad ar ei dir. Cf. *Ryd vyd y ba6p hely y mor: a v6ryo y mor hagen yr tir na by6, na mar6 vont, y brenhin bieiuyd, or dyd y byryer hyt y trydyd dyd; or trydyd dyd allan, o nyskymer y brenhin bit doouot yr neb ae kaffo* (*AL*, V.ii.10).

§230) Cf. §80.

§231) Cf. *Tri mod y telir amobyr y breic: o gybelogach kyhoeda6c kynny bo na rod nac ystynn, ac o veichogi, ac o rod ac ystyn, kynny bo na chybelogach na beichogi. Ac o lathruta heuyt ef a dylir amobyr, ac eissoes ny heny6 o'r tri achos. A sef paham: 6rth y hamuot o pop un o'r deu, o rod ac o gybelogach; canys pan aeth hi gan y g6r yn llathrut, yna yd ymrodes hi e hun y'r g6r, ac bu rodyat hi e hun ida6. O hynny yd heny6 llathruta, o rod ac ystyn, o gybelogach kyhoeda6c y pan heny6, kanys kyfreith a varn kynny chysco g6r gan breic a dycco yn llathrut, ony chymer g6r y ty mach ar y hamobyr, talet e hun yr amobyr (WMLT: Q183).*

**cywelyogach cyhoeddoc** Pan fo dau ddibriod yn cydorwedd neu'n byw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig a hynny'n hysbys. Cydia'r trydydd cymal â'r triawd nesaf.

§233) Cf. *Tri chadarn enllib gwreic ynt: vn yw gwelet y gwr a'r wreic yn dyuot o'r vn llwyn, vn o pob parth y'r llwyn; eil yw eu kaffel ell deu dan vn vantell; trydyd yw gwelet y gwr rwg deu vordwyt y wreic (LIB, 111/24-28).*

**enllib** Ystyr enllib yma yw sgandal. Rhaid oedd i'r wraig roi rhaith o hanner cant o ferched i wadu'r cyhuddiad yn ei herbyn. Pe bai'r rhaith yn methu byddai hyn yn *gyflafan ddybryd (LIB, 66/18, LII, §46/9)*; gw. *WLW*, 52, 201.

§235) Roedd hi'n bosibl i fab anghyfreithlon, h.y. a anwyd y tu allan i rwymau priodas, gael ei dderbyn gan ei dad. Byddai gan fab hawl i etifeddu ar ôl ei dad, a merch hawl i fod yn rhan o'r teulu a thalu amobr i arglwydd y tad yn hytrach nag i arglwydd y fam (gw. *WLW*, 90-91).

§237) Triawd sydd yn unigryw i H a Z.. Gw. y rhagymadrodd, t. 64.

§238) Cf. llsgr. Z, f. 86r-86v: gw. y rhagymadrodd, tt. 64-65. Enwir rhai o'r troseddau hyn yn y prif destunau cyfraith, e.e. rhaid oedd talu punt i'r arglwydd am ddwyn nyth hebog (*LIB*, 54/25-26.) Pedair ceiniog ar hugain a dalwyd am nyth llamysten (*LIB*, 55/1-2). Telir camlwrw i'r arglwydd am dorri coed yn anghyfreithlon (*LIB*, 98/25). Rhaid oedd talu gwerth *bydaf*, sef

nythaid o wenyn i arglwydd y tir (*LIB*, 55/19-21). Am dderw cf. *Y neb alatho derben ar fford y brenhin talet tri buhyn camlwr6 yr brenhin; a phan el y brenhin heibia6 cudyet von y pren abreuthyn vnlli6; athalet berth y pren; ac arll6ysset y fford yr brenhin (AL, VI.i.3)*. Am derfynau cf. *brenhin bieu teruynv canys diffeith y brenhin y6 teruynu kymydeu achantrefoed, agbeledyd, ba bennaetheu bynnac bieiffont (AL, X.xiii.3)*. Cyfeirir at drioddd sydd i'w canfod yn nhestun H fel *tri pryf a ddyly brenhin eu crwyn a teir gorsaf gwayw*. Cesglir ynghyd yma felly nifer o achosion fyddai'n pechu'r arglwydd.

**lletfegin** *lled + magu*. Anifail gwyllt wedi ei ddofi. *Nydyly neb talu g6eithret lletuegin: sef y6 lletuegin, vn adofher o wydl6dyn mal beleu neu l6yna6c neu y gyfry6 h6nn6 (AL, V.i. 30)*. Punt oedd gwerth lletfegin y brenin neu'r frenhines (*LIB*, 52/7-8; *WML*, 111/14-16).

§243) Nodir y dylid talu camlwrw am gi sydd wedi ei ladd neu ei ddwyn yn *LIB*, 53/1-2. Dywedir hefyd: *Ny thelir na dirwy na chamlwrw am ederyn dof a lather neu a dyccer letrat, namyn y werth y'r perchen (LIB, 54/23-24)*. Yn *WML*, 79/21-23 nodir na ddylid talu camlwrw am *neb edeinya6c*.

§246) Dywedir yn y testunau cyfraith fod llygadruddiaeth yn gamlyrus (e.e. *LIB*, 35/2-4), sef y drosedd o fod yn llygadrudd a gweld llofruddiaeth heb geisio ei hatal.

§247) Dyma ddechrau cyfres o drioddd sydd â chyfatebiaeth iddi yn llsgr. Z: gw. y rhagymadrodd, tt. 65-66. Cf llsgr. Z, f. 86v: *Tri ryw gamlwrw y sydd: kamlwrw vn dyblic, a chamlwrw dav dyblic, a chamlwrw tridyblic (WMLT: Z108)*.

§248) Cf. llsgr. Z, f. 86v: *Tri modd y kollir kamlwrw vn dyblic: o vethlu yr howlw yn holi, nev na chyl[l] hynno; nev o vethlv yr amddiffyn i amddiffynnwr o dremygv y dadylav hep esgussot drostaw kyfreithiawl yn y llys; y trydyd drwy varn kyfreith (WMLT: Z109)*.

- §249) Mae'r triawd hwn yn cynnig gwrthgyferbyniad i'r triawd sydd yn dilyn. Ymddengys bod §249 a §250 yn bâr o drioedd sydd yn torri ar draws y dilyniant rhwng §§247-53, fel yr awgrymir gan drefn testun llsgr. Z.
- §251) Mae fersiwn o'r triawd i'w gael yn Lladin D, Q a Z. Gw. y rhagymadrodd tt. 92-93.
- §252) Cf llsgr. Z, f. 86v: *Tri modd y bydd kamlwrw tri dybylic: vn yw am y tair affaith diwaetha o affeithiau galanas o ffalla yr yvraith yr affeithwyr, sef yw, lle gomeddo amddiffynwr gwibiawdyr a mach drosdaw ar ddyvot a'i wyssiaw deir gwaith o blygit y brenin heb ysgvssod kyfreith drostaw yn y dadylev. Tryddydd ar hawlwr gwibiawdyr a mach drostaw ar galyn i ddadyl a'i alw deir gwaith ymop vn o'r tri dadylav camlwrw am bob vn y'r arglwydd a'i adel ef yn rrydd o'i hawl o bylegid na ddoeth ef i'r dadylev kyntaf (WMLT: Z111).*
- §253) Cf. llsgr. Z, f.87r: *Tri dyn ni dyly kamlwrw arnvnt: arglwydd, a'r neb a vo trosto yn holi, ac ynat, kanys gwell yngynadiaeth no dim prysenawl, a mab llai no ffedeir blwydd ar ddec o oet kanys kosb y tat y sydd arno (WMLT: Z112).*
- §255) Dyma ddechrau adran sy'n adleisio'r adran am ddirwy yn LIB 42/29-44/7. Cf. *Ny discyn camlwrw o ymlad onyt trwy tystolyaeth ny aller y llyssu a tyster trwy ymhyawl (LIB, 43/19-21).*
- §257) Cf. *Tri ryw dirwy yssyd: vn o ymlad, arall o treis, tryded o ledrat (LIB, 42/29-30).*
- §259) Mae'r cymal cyntaf yn adleisio Bleg: *O ymlad a wnelher y mywn nodua, gwaet neu gleis a seif yn tystolyaeth y'r abat a'r offeirat trwy vreint eglwyssic yr abadaeth (LIB, 43/21-23).* Hefyd adleisir darn o destun Cyfn sy'n sôn am ddirwy'r eglwys: *Ac ysef yrodir yda h6nn6 yn enwedic yr sant ac nyt ureint offrwm (WML, 114/7).* Maent yn digwydd hefyd yn Lladin B, D, ac E: gw. NLC, 180-84. Cf. *O ymlad a wnelher yn llys lle y bo eistedua brenhin, distein a dichawn bot yn hawlwr os yr amladwyr ny chwynant; kanys torri tagnef llys yw (LIB, 43/14-17) . . . Or byd ymlad yn llys beunydyawl y brenhin, dirwy pob*

*vn o'r ymladwyr, heb wadu vn ohonunt yn erbyn y gilyd nac yn erbyn y distein, whe phunt vyd. Os o vaes y'r llys y byd, teir punt vyd. Or palla reith y neb a watto ymlad, dirwyus vyd, megys na watei dim (LIB, 43/24-30).* Cyfeirir at eisteddfa arbennig yn H yn hytrach nag at eisteddfa brenin. Ymddengys fod awdur H wedi defnyddio testun Bleg wrth gyfansoddi deunydd newydd newydd.

**§260)** Cf. §1. Llunnir trioedd allan o bob un o'r cymalau yn §§261, 263, 264. Dyma ddechrau cyfres o drioedd sydd yn sôn am ymladd a thrais a'r cosbau am hynny.

**§261)** Triawd sydd wedi ei seilio ar §260. Affeithiau galanas sydd yma.

**tafawtrudd** Defnyddio'r tafod i fynegi i'r lladdwr lle bo'r un a laddwyd. Gair sydd wedi ei ffurfio ar yr un syniad a llofrudd, sef *llaw* + *rhudd* (coch), lle mai dwylo coch (gwaedlyd) sy'n lladd. Am affeithiau galanas gw. Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 347-57.

**§263)** Triawd arall sydd wedi ei seilio ar §260. Pe bai gŵr yn gweld llofruddiaeth gall fod yn euog drwy ei olwg. Mae'r gair *llygadruddiaeth* wedi ei seilio ar yr un egwyddor ag sydd yn *llofruddiaeth* a *thafodruddiaeth*.

**§264)** Eto dyma driawd sy'n gysylltiedig â §260.

**porthorddwy** *porth* + *gorddwy* = helpu gormes. Caiff ei ddiffinio yma fel atal neu gadw'r dyn hyd nes y daw'r llofrudd i'w ladd. Mae'n debyg bod y term wedi cael ei ddrysio gyda'r term *ardwyo*. *Ardwyo* yn Bleg yw'r weithred o ddal dyn i'r llofrudd, ac ni chysylltir y term *porthorddwy* a'r weithred hon yn Ior ychwaith. Y diffiniad o *porthorddwy* yn Bleg a *Col* yw cynorthwyo'r lladdwr. Gw. Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 355-56.

**§267)** Cf. *Tri h(6)rd ny diwyg(ir). vn y6 gofyn ia6n (o) dyn y (e)lyn am (ygar) yn tri dadleu ac na chaffe i ia6n. Achyf aruot y elyn ac ef gbedy hynny. A g6an h6rd ynda6 a(g6ay6 hyny vo) mar6. ny diwygir yr h(6rd h6nn6). Eil y6 g6neuthur eidiged o wreic 6rya(6c 6rth wrei)c arall am yg6r. Achyfaruot y d6(y wraged) y gyt. A g6an h6rd or wreic 6rya6c ae d6y la6 yny llall hyny vo mar6. ny*

*dywygir idi. Trydyd y6 rodi mor6yn aeduet y6r a mach arymor6ynda6t. A g6an h6rd or g6r yndi a bonllost. ae hymrein vn weith. Ae (chaffel) yn wreic. ynteu adyly gal6 y neith (a6)rwyrr atta6. Ac enynnu canh6ylleu allad (ych)rrys tu rocdi yn gyfuch ag6arr y(ch)ont. Ac or tu drae chefyn yn gyfu(ch) athalyphedrein. Ae goll6g ar h6rd h6nn6 (y)n di heb y dif6yn idi. A hynny y6 kyfreith t6yll vor6yn (WML, 132/1-19). Mae fersiwn o'r triawd i'w gael yn Bleg hefyd ond mae'r dyfyniad hwn o Cyfn yn debycach o ran geiriad i H/PeniARTH 278. Hepgorir y darn bwrlesg sy'n s6n am brofi morwyndod morwyn allan o H: am y darn hwnnw o destun gw. Nerys Patterson, 'Honour and shame in medieval Welsh society: a study of the role of the burlesque in the Welsh laws', *SC*, 16-17 (1981-82), 75.*

**gwth** Gwth yn hytrach na hwrdd a ddefnyddir yn y fersiwn o'r triawd yn Lladin A: gw. *LTWL*, 128/12.

**§270)** Cf. *Teir paluaut ny diwygir: vn arglwyd ar y wr ynn y reoli yn dyd cat a brwydyr, ac vn tat ar y vab ynn y gospi, ac vn pennkenedyl ar y gar ynn y gyghori (LIB, 111/1-4). Mae trefn y tri chymal yn wahanol yn H.*

**§271)** Mae'r darn hwn o destun yn cysylltu gyda **§269**. Efallai bod trefn y testun yn wallus yma.

**§273)** Cf. *Tri ryw sarhaet yssyd y pob gwr gwreicawc; vn yw y taraw ar y gorff; eil yw bot arall yn kamarueru o'e wreic; tryded yw torri nawd dyn a allo rodi nawd y arall tryw gyfreith (LIB, 3/13-16). Cf. hefyd gyda §55. Ymdrinnir â hanfodion sarhaed yma gan egluro pam y dylid talu i'r brenin am yr ail fath o sarhaed.*

**§274)** Ymhelaethiad ar yr hyn a geir yn **§55**.

**§275)** Sonnir mewn triawd o'r enw 'Tri phetwar yssyd' yn Bleg: . . . *petwar dyn nyt oes nawd vdunt yn llys nac yn llan rac brenhin; dyn a torro nawd brenhin yn vn o'r teir gwyl arbenhic yn y lys; eil yw dyn a wystler o'e uod y'r brenhin; trydyd yw y gwynossawc, y neb a dilyo y porthi y nos honno ac nys portho; petwryd yw y gaeth (LIB, 109/23-26). Sonnir yn Bleg na ddylid rhoi nawdd i*

ddyn a dorrodd nawdd y brenin yn unman, hyd yn oed mewn eglwys; tra sonnir yn H y gellid cael noddfa yn yr eglwys mewn achos o'r fath. Mae'r hyn a ddywedir yn H yn adleisio'r hyn a geir yn Lladin D (*LTWL*, 319/5-7) a rhai o lawysgrifau Cyfn (U, X, Y) am nawdd y distain; pe torrid nawdd y distain gellid cael noddfa yn yr eglwys tra yn Bleg ni cheir noddfa i'r gŵr a'i torro yn unman gan gynnwys yr eglwys (gw. *NLC*, 167). Rhoddir felly bwyslais ar hawliau'r eglwys i roi nawdd. Am nawdd eglwysi a'u seintiau gw. *NLC*, 165-77.

§276) Amrywiad arall o §55.

§281) Diffinir yma y tair colofn cyfraith sydd yn ffurfio cnewyllyn cyfraith trosedd: am gynnwys y tair colofn cyfraith gw. *LIB*, 30/11-36/6; *WML*, 36/21-40/18; a'r Llyfr Prawf yn *III*, §§104-38. Gw. hefyd Jenkins, *Cyfraith Hywel*, 60-75; Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 347-57.

§285) Cf. *Tri lleidyr dirwyus yssyd: lleidyr hyd brenhin, gwedy as llatho y gwn; a lleidyr y pallo y reith idaw; a lleidyr a latho llwdyn y dyn arall yn y ty, neu yn y vuarth, yn lletrat* (*LIB*, 122/11-14). Mae cymal o'r triawd hefyd yn debyg i destun Cyfn: *Ny byd golbrython breinya6l yn hyd brenhin6l namyn obyl giric hyt galan racuyr. Ac ny byd kulleic ynteu. onyt tra vo y golh6rython breinha6l ynda6* (*WML*, 35/19-22).

§290) Cf. *Tri lleidyr gwerth yssyd: lleidyr y kaffer dogyn vanac arnaw trwy eglwys; a chyleidyr lleidyr a groccer am letrat; a lleidyr a dalher gwerth pedeir keinhawc gantaw, neu lai, o da marwawl yn lletrat* (*LIB*, 122/15-19). Rhoddir esboniad sylweddol ar y triawd yn nhestun H/PeniARTH 278.

§293-4) Cf §§42-43.

§301) Cyfeirir yma at Ddyfnwal Moelmud. Enwir y brenin Brythoneg chwedlonol hwn yn llawysgrifau Ior fel awdurdod cyfreithiol. Caiff ei enwi yn Ior fel y mesurwr gorau ac ef fu'n gyfrifol am fesur Ynys Prydain; mae'r mesuriadau tir a briodolir iddo yn *III*, §90 yn cyfateb i'r testun *Enwau Ynys Prydain*. Mae



cyfeiriad byr at Ddyfnwal hefyd yn llsgrau. S a Z: gw. y rhagymadrodd, t. 91. Am Ddyfnwal gw. *WKC*, 229-32.

**hayarn twymyn** Rhaid oedd i'r diffynnydd gario darn o haearn poeth yn ei law gan gerdded tri cham cyn ei ollwng. Câl'r llaw dri diwrnod i wella, pe na bai'r llaw yn gwella, fe'i ceir yn euog. Gelwir y dull hyn o brofi yn ddiheubrawf, 'ordeal'. Defnyddiwyd y dull hyn o brofi euogrwydd pan nad oedd tystiolaeth arall yn erbyn y diffynnydd, neu pan na ellid dibynnu ar air y diffynnydd. Y syniad y tu ôl i hyn oedd bod Duw yn ffafrio'r di-euog (*Cyfraith Hywel*, 101). Prawf gyda'r un egwyddor oedd prawf y dŵr poeth. Gw. 'Awdl yr haearn twymyn' yn *CBT*, V, 15; a'r drafodaeth yn N. A. Jones, 'Prydydd y Moch: Dwy gerdd 'wahanol'', *YB*, 18 (1992), 66-72 lle awgrymir mai yn un o arglwyddiaethau'r Mers y cynhaliwyd y prawf y sonnir amdano yn y gerdd. Gw. Robert Bartlett, *Trial by Fire and Water: The Medieval Judicial Ordeal* (Oxford, 1986), 47-49 lle awgrymir mai o dan ddylanwad y Normaniaid yn y 12g y daeth y diheubrawf i Gymru. Dyma'r unig enghraifft o'r ddiheubrawf yn y testunau cyfraith. Gw. hefyd *NLC*, 37-39n, sy'n trafod y rhan hon o H.

**gornest** Byddai dwy blaid yn ceisio terfynu dadl drwy ymladd ei gilydd ag arfau. Nid oedd rhaid marw mewn gornest gallai disgyn, rhedeg i ffwrdd, neu gael eich clwyfo fod yn brawf o euogrwydd. Bu i'r ornest barhau, mewn enw, yng nghyfraith Lloegr hyd 1819. Gw. *NLC*, t. 39, n. 9 am *gornest* ac sy'n cyfeirio at y rhan hon o H. Ni cheir llawer o enghreifftiau o hyn yn y testunau Cymraeg. Cf. *AL*, VIII.xi.34 (llsgrau. F a G) lle sonnir na ddylai dyn gynnal gornest os oedd o dan un ar hugain mlwydd oed, nac oes oedd yn hŷn na 63 mlwydd oed, ac y dylai gefeilliaid ymladd fel un dyn. Sonir am ornest yn chwedl Gereint vab Erbin yn Llyfr Gwyn Rhydderch: *ac os by6 uyd gynaed ia6n ual y barnho goreugvyr y llys. Achymer ueicheu ar hynny. Os mar6 uyd ynteu gormod uyd agheu gvas kystal ac edern yn syrhaed mor6yn* (J. Gwenogvryn Evans a R. M. Jones (gol.), *Llyfr Gwyn Rhydderch: Y Chwedlau a'r Rhamantau* (Cardiff, 1973), 203, col. 405-406). Nodweddion cyfraith Seisnig yw'r rhain. Efallai y lluniwyd y triawd hwn fel adwaith yn erbyn yr arferion Seisnig hyn gan gadarnhau moesoldeb cyfraith Hywel. Maent yn cael eu cysylltu â Dyfnwal oedd yn frenin mytholegol gan ddweud i Hywel ddiddymu'r arferion cyntefig hyn. Pwysleisir bod Hywel wedi diwygio'r

gyfraith fel ei bod bellach yn gyfraith gyfiawn lle bo achosion yn cael eu profi gan ynadon drwy arddelw yn hytrach nag ewylllys Duw. Ymddengys fod yr awdur yn ceisio creu cyfochredd i'r hyn oedd wedi digwydd yn Lloegr, lle gwelwyd troi cefn ar yr hen ffyrdd a sefydlu cyfraith newydd. Mae'r triawd hefyd yn dangos ymwybyddiaeth hanesyddol yr awdur, cf. §176.

- §302) Cf. *Tri lleidyr crogadwy yssyd: lleidyr da bywawl a dalher vn llwdyn ar y liw gantaw; a lleidyr da marwawl a dalher gwerth pedeir keinhawc gantaw, neu a uo mwy; a lleidyr da bywawl a dalher croen ar y liw gantaw, ac ny diheurer am y llwdyn o gwbyl* (LIB, 122/20-25). Un waith eto mae trefn y triawd yn wahanol yn H.
- §303) Cf. IIsgr. Z, f. 79v: *Tri ffeth y sydd vn vrait a lladrad yn llaw: i gayl ar i gefyn nev yn i vwrw i wrthaw, i gayl dan vn to ac vn klo ac ef, ac i gayl gar y vron yn i vwrw* (WMLT: Z101). Mae darn cyfatebol hefyd yn J a DwCol: gw. y conspectws.
- §306) Cf. *Tri dyn ny dily brenhin eu gwerthu: lleidyr, gwedy barnner y'r groc; a chynllwynwr; a bradwr arglwyd* (LIB, 115/6-8).
- §308) Yn S a DwCol yn unig y ceir cyfatebiaeth i'r triawd hwn. Cf. *Tri dyn ny dilyr y klady yghysegyr: lleidir a dienydyer am ledrad, a brad6r argl6yd, a ffyrnig6r a dienydier am y ffyrnicr6yd. Sef y6 ffyrnicr6yd: myrna6 dyn, a llad dyn a gben6yn, a dif6yna6 da ida6 ef yhyn ac y'rr perchenab6c* (S §1962-63).
- §311) Cf. §304.
- §315) Cf. IIsgr. Z, f. 43r: *O dair fford y dily dyn vod yn enaidvadde: o ladrad barnedic i groc, ac o vrad arglwydd, ac o lađ dyn yn lladrad* (WMLT: Z65).
- §318) Triawd sydd yn digwydd yn H, Z, a Lladin D (ond nid yn Bleg). Gw. y rhagymadrodd, t. 93.

**fflemawr** Benthyciad o'r Saesneg Canol *flem* 'to take to flight' + *awr*; sef ffoadur: gw. *GPC*, d.g. fflemawr. Term sy'n ymddangos yn Bleg cf. *Pa le bynhac y gordiweder kaeth yn fflemawr, pedeir ar hugeint yg gobyr diffryt a telir drostaw* (*LIB*, 59/31-32). Cf. gwaith Dafydd Nanmor: *Modd fflamol, medd y fflymon/Mwyaf a hwyaf yw hon* (Thomas Roberts a Ifor Williams, *The Poetical Works of Dafydd Nanmor* (Cardiff, 1923), XXXVII.19-20).

§319) **cribddeil** Cymryd drwy drais (*despoiling by force: LII*, 125). Gellir cymryd eiddo'r llofrydd drwy drais. Yn ôl Ior: *Nyt oes eg keureyth un lle e delyher anreyth grybdeyl onyt un lle: sef un yu hunnu, am lad keleyn* (*LII*, §112/17-18).

**ffyrnicrwydd** Term sy'n cael ei gysylltu hefyd â lledrad cf. §681. Mae M. E. Harris yn ei restru fel un o'r gweithredodd ffiaidd yn 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 383. Caiff ei alw'n 'ferocious act' gan T. Jones Pierce ('The laws of Wales-The kindred and the bloodfeud', 304-05).

§322) **anreith gribddeil** 'total confiscation of a homicide's property' (*GPC*, d.g. anrhaith) 'extortionate confiscation' (*LTMW*, 312).

**anrhaith oddef** 'confiscation of movable property' (*GPC*, d.g. anrhaith) 'liable to be despoiled' (*LTMW*, 313).

**anrhaith gorwlat** 'spoil from border country' (*GPC*, d.g. anrhaith).

§324) Dechrau adran ar gyfreitha sydd â pheth cyfatebiaeth iddi yn Bleg. Cf. *Tri gwrtheb yssyd: adef, neu wat, neu amdiffyn. Nyt cwbyl vn gwat hyny talher cwbyl reith a perthynho wrth y dadyl, na llw vn dyn, na llw lliaws* (*LIB*, 106/18-21).

§325) **gorssedd** Llys neu dribiwnal. Am nodyn llawn ar y gair, gw. *PKM*, 120.

- §328) Cf. *Nyt cwbyl vn amdiffyn hyny el deturyt gwlat ymdanaw rwg yr hawlwr a'r amdiffynnwr, gan tygu yn dyledus y vot yn wir, neu nat gwir. Ac yno heuyt y brenhin a dily kymell y wyr y'r creir y tygu eu dewis. Lle y perthyno deturyt gwlat, gwyr y llys oll bieu tygu, eithyr y rei a allo y kynhenusson eu llyssu o gyfreith (LIB, 107/1-8).*
- §329) Cf. *Ny seif neb amdiffyn ac ny thyckya, ony byd amserawl yn y dadyl herwyd cof llys, a gwir herwyd deturyt gwlat, a'e pherthynu yn priodawl herwyd kyfreith yn erbyn yr hawlwr ar y dadyl y dywetter (LIB, 129/26-30).*
- §331) Cf. *Tri ryw wadu yssyd: gwadu oll y dadyl a dotter ar dyn; a hwnnw a wedir trwy reith ossodedic heb na mwy na llei. Eil yw adef ran o dadyl drycweithret, a gwadu y cwbyl weithret; ac yna y gwedir gan achwanecau reith ossodedic, megys y mae yg colofneu kyfreith am lofrudyaeth; yn y lle y tygei degwyr a deugeint, gan wadu llofrudyaeth oll, yno y twg cant, neu deucant, neu trychant, gan wadu llofrudyaeth ac adef affeith. Trydyd yw gwadu ran ac adef ran o arall o dadyl heb weithret yndi; ac yna gan leihau reith ossodedic y gwedir megys mywn mechni; y lle y tyghei y mach ar y seithuet, gan wadu y vechniaeth oll, yno y twg ehunan, gan wadu ran ac adef ran arall o'e vechni (LIB, 125/21-126/4). Ychwanegwyd at yr ail gymal yn H/PeniARTH 278 gan egluro beth a olygir gan affaith.*
- §332) Cf. *Tri mach yssyd ny cheiff vn ohonunt dwyn y vechni ar y lw ehunan kyn gwatto ran ac adef ran arall o'e vechni, nyt amgen no dyn a el yn vach yg gwyd llys, a mach diebredic, a mach kynnogyn. Beth bynhac a tygho y kyntaf, y llys a dily tygu gyt ac ef, neu yn y erbyn. Yr eil, neu y trydyd, beth bynhac a tygho, ar y seithuet o'e gyfnesseiueit y twg, canys talawdyr o gyfreith vyd pob vn ohonunt (LIB, 126/5-13).*
- §335) **Sonnir mai'r arglwydd sy'n cynnal cyfraith: cf. §89.**  
**wyr cymrodedd** Saesneg, *arbitrators*. Roedd dod i gytundeb rhwng pleidiau neu gyfamodi drwy gymrodeddwyr yn chwarae rhan bwysig yn y gyfraith

Gymreig. Cf. *Tri theruyn kyfreithawl yssyd. Vn yw teruyn o gyfundeb pleideu. Eil yw teruyn gossodedic rwg pleideu trwy gymrodeddwy. Trydyd yw teruyn trwy varn* (LIB, 124/5-8). Am gymrodeddwy gw. Ll. B. Smith, 'Disputes and settlements in medieval Wales: the role of arbitration', *English Historical Review*, 106 (1991), 835-60; *LAL*, 259-61.

- §336) Mae naws rhethregol i'r rhan hon. Damcaniaethir am y gyfraith. Dywedir bod defod a chyfraith yn mynd law yn llaw ac na ddylai'r ddwy wrthwneud ei gilydd.
- §338) **Cymbru** Gair sy'n awgrymu ffug etymologeiddo h.y. pobl o'r un bôn (croth) oedd y Cymry. Gw. *GPC*, d.g. Cymru: *Kambry* yw'r ffurf a ddyfynnir yno o waith William Salesbury. Defnyddir *Kymbry* yn y teitl i *Ban wedy i dynny* (1550), sef pamffled gan Salesbury a seilwyd ar gynsail llsgr. Z: gw. C. James, 'Ban wedy i dynnu: medieval Welsh law and early protestant propaganda', *CMCS*, 27 (1994), 76-81. Daeth y ffurf orgraffyddol hon yn boblogaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg.
- §342) Dyma ddechrau adran hir sydd yn dyfynnu Bleg. Cf. *Teir gossodedigaeth yssyd herwyd Hywel Da y gwpplau y gyfreith a'e aruer yn perffeith, hyt na aller eu cablu o eisseu, nac o ormodder, nac o peth anheilwg. Kyntaf yw: o'r kyffelybyon, kyffelyp varn a rodir. Eil yw: o'r dwy gyfreith ysgriuenedic erbyn yn erbyn y dosparth vn peth, y teilyghaf a gynhelir. Tryded yw; pop ryw gyfreith yscriuenedic, ar ny bo gwrthwyneb idi yn yscriuenedic, a dylwir y chadw hyt, pan gyfunhont y pendefic a'e wlat y dileu honno, gan ossot arall a vo teilyghach. Odyna, pan ymwystlont yr amdiffynnwr a'r brawdwr o pob parth erbyn yn erbyn, os y brawdwr a dichawn dangos y vrawt ef yg kyfreith yscriuenedic, neu y chyffelyb, megys na allo yr amdiffynnwr dangos arall wrthwyneb idi, neu a vo teilyghach, yghyfreith yscriuenedic, y brawdwr a oruyd* (LIB, 129/8-25).
- §343) Cf. *Teir kynefawt yssyd: kynefawt a erlit kyfreith – kynhalyadwy yw; kynefawt a racvlaenho kyfreith – or byd idi awdurdawt brenhinaeth, kynhalyadwy yw; kynefawt a lwgyr kyfreith, ac ny dylwir y chynhal* (LIB, 107/9-13). Mae'r

gyfres hon o drioeedd am ddefod yn dilyn yr un trefn yn y testunau cyfraith eraill: gw. y conspectws.

- §344) Cf. *Tri pheth a gadarnha kynefawt: aduwynder, a gallu, ac awdrdawt* (LIB, 107/14-15). Ychwanegwyd awdurdod brenin at y triawd yn H.
- §345) Cf. *Tri pheth a wanha kynefawt: gwrthrymder, ac agheugant voned, a dryc agreith. A hi a wrthledir rac dryc agreith* (LIB, 107/15-17). Mae'r trioedd gwrthgyferbyniol hyn yn cynnig cyfochredd i bâr o drioeedd yn Williams a Jones, *Gramadegau'r Penceirddiaid*, 17: *Tri pheth a gadarnhaa kerd, Tri peth a wahnaa kerd.*
- §346) Cf. *Beth bynhac nyt yscriuennwyd y mywn kyfreith o'r a aller trwy dilyet iawn y gyffelybu y'r hyn a yscriuennwyd yn ossodedic, kynhalyadwy vyd yn lle kyfreith yn y dadleuoed, cany ellir yscriuennu pob peth o'r a vo reit y dywedut neu y varnu. Kyfreith heuyt a dyweit, "o'r kyffelybyon, kyffelyb varn a dylyir"* (LIB, 126/19-25). Nid yw'r testun hwn yn dilyn y trioedd uchod yn llsgrau. O, Tr, ac L.
- §348) Cf. LIB, 101/15-102/27 lle nodir bod rhaid dangos tystiolaeth ysgrifenedig mewn llyfr cyfraith cyn y gellid ymwystlo â brawdwr.
- §349) Dyma ddechrau cyfres o drioeedd yn ymwneud â brawdwr a barn sydd eto'n dilyn yr un drefn â thestunau Bleg. Cf. *Tri dyn ny allant ymwystlaw yn erbyn brawt trwy gyfreith: Vn yw brenhin, lle ny allo, herwyd kyfreith, seuyll y mywn dadyl ger bron brawdwr y holi neu y ateb trwy vreint anyanawl, neu trwy vreint y tir, mal breyr neu arall. Eil yw dyn eglwyssic rwymedic yn vrdeu kyssegredic. Trydyd yw dyn eglwyssic rwymedic yg creuyd, kany dichawn neb, herwyd kyfreith, rodi gwystyl yn erbyn brawt onyt dan perigyl gwerth y tauawt, ac nyt oes werth gossodedic yg kyfreith Hywel ar aelawt a gwaet dyn eglwyssic, a'e sarhaet; ac wrth hynny ny eill neb ohonunt wy rodi gwystyl yn erbyn brawt na chyt a brawt. Holl argywed segyrlyt a wnelher y'r eglwyswyr a dylyir y iawnhau vdunt yn e ssened herwyd kyfreith eglwyssic* (LIB, 102/28-103/14). Ceir amrywiad yn llsgr. S: *Tri dyn ny dily vn ohonynt sefyll mebn*

*barn: vn o nodynt y6 dyn gorffbylla6c o envydr6yd ac a orffo yr r6ymo neu gado 6eutheu; eil y6 dyn a ambryno o ledrad kyfaded vn 6eith, neu a ordibeder ynn lleidir ar gyhoed hed6ch; trydyd y6 dyn a dyg6ydo yg6erth y dafa6d vn 6eith obl[e]gid kam vra6d a rodassay kyn no hynny (WMLT: S183).*

**argywedd segyrlyt** Ystyr *argywedd* yw niwed mawr (gw. *GPC*, d.g. *argywedd*). Mae ystyr *segyrlyt* yn fwy amwys. Cynigir mai ystyr *segyrlyt* yw pechod damniol yn *LIB*, 221 ar sail y defnydd o'r gair yn Williams, *Chwedlau Odo*, 8/19.

§350) Cf. *Tri pheth a dyly pob brawdwr y wrandaw y gan kynhenwyr kyn barnu neb ohonunt yn ennill nac yg collet; nyt amgen, cwyn, a deissyf, ac ateb (LIB, 103/15-18).*

§351) Cf. *Pwy bynhac a gollo peth trwy varn tremyc, ef a dichawn rodi gwystyl yn y erbyn pan y mynho o vwyn vn dyd a blwydyn; yn y vlwydyn gyntaf y kaffo ef iawn y gan y brenhin, a'r brawdwr a rodes y varn yn seuyll wrth gyfreith trwy veint o amser hwnnw. Os o vwyn yr amser hwnnw yd ymwystla ef yn erbyn y varn, ef a dylyir eturyt idaw y holl gollet yn diohir; ac ef a dyly kynhal hwnnw yn rwymedic wrth gyfreith hyt pan rother dosparth trwy lyfreu kyfreith yrdaw a'r brawdwr am y varn tremyc, megys y gwypper pwy a orffo neu a orffer. A'r brawdwr a dyly eturyt dros y brenhin yr hyn a varnassei y'r brenhin o da hwnnw. Yr hyn a varnassei y ereill, wynt a dylyant y eturyt heb amgen poen, ony oruyd arnaw gwynaw racdunt ual rac y brawdwr. Os y brawdwr a oruyd, atueret y cwynwr y da oll drachefyn. Ny henyw o wassanaeth brawdwr rodi barn tremyc; ac wrth hynny ny dyly y brenhin ateb dros a wnel y maes o'e wassanaeth dilyedus (LIB, 103/19-104/7).* Mae'r geiriad yn hynod o debyg. Ceir ambell esboniad ychwanegol yn H. Sonnir yn hefyd yn Lladin D, 393/29-31 y dylid ymwystlo ag ynad o fewn y flwyddyn, ar ôl hynny nid oes modd dwyn cyfraith ar yr ynad.

§352) Cf. *Tri ryw varn tremyc yssyd. Vn yw barn a rother yn erbyn dyn nys clywho pan datganher gyntaf y mywn llys, nac ympell nac yn agos y bei. Os yn agos y bei, y righyll a dyliei y alw, megys y clywhei y varn a rodit arnaw. Os ympell y bei, y arhos a dilyit hyt pan ymdangossei yn y llys, or gellit y gaffel wrth*

*gyfreith yn amserawl. Eil yw brawt a rother ar dyn kydrychawl trwy wrthrymder o pleit y brenhin neu y brawdwr neu wyr y llys. Trydyd yw barn brawdwr anheilwg (LIB, 104/8-18). Cf. hefyd gyda'r triawd Tri ry6 dremic kydrycha6l yssyd yn Tim, 53; S, §§1323-25.*

**tremic** Ystyr sylfaenol tremyg yw dirmyg neu watwar, gw. *WLW*, 219. Eglurir yn y triawd beth oedd barn dremyg, sef cam farn neu barn a ddiystyrid.

**am hynny y gelwir rhingyll, gwaedd gwlat** Cf. *Tri eno righill yssydd: gwaet gwlat; a garw gychwedyl gwas y kygkellawr; a righill (LIB, 115/9-10).*

**hanner dydd** Yn llsgr. S dywedir y dylid dechrau cyfreitha pan fo'r dydd ar ei anterth: *sef y6 antarth, hanner yr hanner kyntaf y'r dyd; a chynnal hyd pan vo llithiredic amser y dyd; kans ni dylir kynnal gorssed hyd nos, na dechreu kyfreith g6edy haner dyd . . . (S §1257).* Mae'r ychwanegiadau hyn at y triawd yn adlewyrchu gwybodaeth fanwl yr awdur o'r testunau cyfraith.

§353) Cf. *Tri dyn yssyd ny digawn vn ohonunt bot yn vrawdwr teilwg o gyfreith. Vn yw dyn anafus, megys dall, neu vydar, neu glafwr, neu dyn gorffwyllawc – dyn a orffo y rwymaw vn weith am y ynuytrwyd – neu dyn ny allo dywedut, megys cryc anyanawl. Eil yw dyn eglwyssic rwymedic wrth vrdeu kyssegredic, neu wrth greuyd. Trydyd yw lleyc heb allu o gyfreith idaw varnu o vreint tir, neu o vreint swyd (LIB, 104/19-27).*

**tra bloesc** Tra aneglur, â thafod tew; sef siaradwr aneglur. Ni chrybwyllir y gŵr hwn yn y triawd mewn testunau eraill.

§354) Cf. *Teir fford y gellir gwrthot brawdwr teilwg. Vn yw o'e vot yn aghyffredin yn y dadyl rwg y kynhenusson yn y llys kyn y varn. Eil yw y vot yn gyfrannawc ar yr hyn y bo y dadyl ohonaw, pei gellit y ennill trwy varn. Trydyd yw kymryt gobyr am y dadyl ar ny bo gossodedic y vrawdwr y mywn kyfreith (LIB, 104/28-105/3).*

§355) Cf. *Ny ellir kymell dyn eglwyssic y wrtheb y neb o vaes y sened o'r kameu a dywetter arnaw (LIB, 105/4-5).* Cf. *NLC*, 135-36 lle yr awgrymir fod y rheol hon wedi ei chyfansoddi gan glerigwr.



- §356) Cf. *Os gwr eglwyssic a gynheil tir trwy dilyet dan y brenhin, y perthyno gwenuthur gwassanaeth y'r brenhin ohonaw, ef a dyly gwrtheb yn llys y brenhin o'r tir a'e perthyneu, kanys brenhin bieu tir y teyrnas oll; ac ony wrtheb o'r tir yn vfyd, y brenhin bieuyd (LIB, 105/6-11).*
- §357) Cf. *Kyt gallo gwr eglwyssic vot y mywn barn o vreint tir gyt a lleygyon, hyny vo amser y datganu, ny digawn datganu barn trwy gyfreith rwg kynhenusson, kanyt oes werth kyfreith ar y tauawt, trwy yr hwn y poenir pob brawdwr a rotho kam vrawt, os kadarnha trwy ymwystlaw (LIB, 105/12-17).*
- §358) Cf. *Amser y ymwystlaw a brawt yw pan rother y vrawt yn gyntaf yn y dadyl, nyt amgen, kyn dechreu dadyl arall a'e hadaw hitheu yn hedwch (LIB, 128/29-31).*
- §359) Cf. *Pwy bynhac a ebreuycco yr amser hwnnw y ymwystlaw, na'r dadleuwr yn erbyn y vrawt, na'r brawdwr gyt a'e vrawt, ny dichawn byth gwedy hynny ymwystlaw herwyd kyfreith (LIB, 129/1-5).*  
**ebryfyco** Berf wedi ei lunio o'r gair ebrfygu, sy'n golygu anghofio, esgeuluso, di ystyru, neu ddirmygu (GPC, d.g. ebrfygaf).
- §360) Cf. §95. Cf. hefyd Rhaglith Bleg: *Gwedy hynny yd erchis gwneuhur tri llyfyr kyfreith: vn wrth y lys peunydyawl presswyl y gyt ac ef; arall y lys Dinefwr; y trydyd y lys Aberffraw; megys y kaffei teir ran Kymry, Gwyned, Powys, Deheubarth, awdurdawt kyfreith yn eu plith wrth eu reit yn wastat ac yn parawt (LIB, 1/25-2/5).* Mae fersiwn o'r triawd i'w gael hefyd yn llsgr. S, §1858 lle y cyfeirir at Hywel Dda yn diwygio cyfraith Dyfnwal.
- §361) Cf. *Tri pheth a berthynn wrth vrawdwr. Vn yw dillwg kyuarcheu wrth reit y brenhin. Eil yw datcanu a dosparth kynnhenneu y mywn llys. Trydyd yw, yr hynn a dospartho trwy varnn, y gatarnnhav trwy wystyl a brawtlyuyr, ot ymwystlir ac ef, neu, os gouynn y brenhin idaw, heb ymwystlaw (LIB, 17/19-25).* Defnyddir y gair gogleddol 'ynad' yn H yn hytrach na'r 'brawdwr' deheuol.

- §362) Cf. *Ny dylyir credu barnn na'e chymryt rwg deu wystyl am vraut, onnyt vn a dangoser yg kyureith yscriuennedic (LIB, 15/22-4)*. Ceir ychwanegiad difyr yn H/Peniarth 164 sy'n sôn fod yn rhaid i'r brawdwr wastad gael ei lyfr cyfraith wrth law er mwyn gallu cyfeirio nôl ato pe bai rhywun yn cwestiynu ei farn. Mae llun o'r brawdwr a'i lyfr yn ei law ym Mheniarth 28: gw. D. Huws, *Darluniau o Lyfr Cyfraith Hywel Dda/ Illustrations from a Welsh Lawbook* (Aberystwyth, 1988), 2. Am y pwyslais a roddwyd ar y gyfraith ysgrifenedig gw. D. Jenkins, 'The medieval Welsh idea of law', *Tijdschrift voor Rechtsgeschiedenis*, 49 (1981), 330-32.
- §364) Cf. *Brawdwr herwyd breint y tir, tra gynnhalyo y tir, breint brawdwr a gynneil ef trwy y tir. Sarhaet brawdwr swydawc, herwyd breint y swyd y telir idaw. Sarhaet hagen brawdwr heb swed, namyn trwy vreint y tir, herwyd breint y tir y telir idaw (LIB,15/25-30)*. Ymddengys fod adran a godwyd o Bleg ar goll o'r testun. Mae'n debyg y byddai'r testun wedi darllen yn debyg i Bleg: *Pann orffo o ymwystlaw y gyt a'e varnn, ny dicaun brenhin dwyn breint brawdwr swydawc hynny dycco y swyd gantaw. Os y llall a oruydir velly, talet y sarhaet y'r brawdwr, ac y'r brenhin werth y tauot (LIB, 16/1-5)*.
- §365) Cf. *O teir fford y dosperthir brawt gyghaws. Kyntaf yw trwy odef, kanys godef a tyrr pob kyghaws. Os brawdwr a odef gwystyl yn erbyn y varn yn tagnefedus, heb rodi gwrthwystyl yna, dygwydedic vyd y varn. Eil yw brawtlyfyr rwg deu wystyl; sef yw hynny, gwystyl a rother yn erbyn barn, a gwystyl arall a rother gyt a'r varn honno. Tryded fford yw: brawdwr bieu dosparth rwg deu dyn yg kyghaws am y varn a rodassei vdunt heb ymwystlaw ac ef (LIB, 105/18-27)*.
- §366) Cf. *Pwy bynhac o'r kynhenusson yn llys a el yn erbyn datgan y brawdwr kyn barn, ef a dyly caffel cof llys yrydaw ac ef kyn barnho dim (LIB, 125/1-3)*.
- §368) Cf. *Kyntaf y gossodes y brenhin pumb swydauc ympob llys o'r wlat yg Gwynedd a Phwys, nyt amgen, maer, kyghellaur, righill, offeiriad y yscrivenu dadleueu, ac vn brawdwr trwy swyd; a phetwar megys y rei kynntaf ympob llys*

*yn Deheubarth, a lliaws o vrawdwr, nyt amgen, pob perchenn tir, megys yd oedynt kynn Hywel Da, o vreint tir heb swyd (LIB, 29/18-25).*

§369) Cf. *Tri ryw vrawdwr yssyd yg Kymry herwyd kyfreith Hywel Da: brawdwr llys peunydyawl herwyd swyd, gyt a brenhin Dinefwr neu Aberffraw yn wastat; ac vn brawdwr kymhwt neu gantref herwyd swyd, ympob llys o dadleueu Gwyned a Phowys; a brawdwr o ureint tir ympob llys kymhwt neu gantref o Deheubarth, nyt amgen pob perchenhawc tir (LIB, 98/28-99/6).* Cf. hefyd llsgr. Z, f. 85r: *Tri ryw vyrowdyr y sydd ynghymry herwydd kyfyrraith Howel dda: vn yw brawdwr o vyraint swydd llys y penadur brenin Aberffraw nev Dinewr; a brawdwr kymwt nev gantreff herwydd swydd ymop da[dle]vlav y Mhowys a Gwynedd; a brawdwr o vrait tir ymop llys kymwt nev gantreff y Neheubarth, nid amgen no ffob perchen tir a dayar o wr rydd dianaff a ellir i gymell ir vyrawt ar i lw i grair ar yng kwestv yn gywir (WMLT: Z102).* Ceir fersiwn yn llsgr. Peniarth 36c ('M') sydd hefyd yn defnyddio'r term *penadur* ac yn rhoi Aberffraw o flaen Dinefwr (Peniarth 36c, t. 86). Efallai fod y triawd yn Z, 'M' a H yn cynrychioli fersiwn gogleddol o'r triawd?

§370) Gw. y rhagymadrodd, tt. 90-91.

§371) Gw. y rhagymadrodd, tt. 90-91.

§372) Cf. *Os brawdwr o ureint tir a archant oet am vrawt, ae o petruster, ae o eissieu rei o wyr y llys, y rei kydrychawl a gahant oet heb twg; a'r brenhin a dyly kymell y rei awssen o wys trwy uechniaeth, neu auael pawb ohonunt, y'r eil llys; a phwy bynhac a tremycco y kyfryw wys yn yr oet kymeredic hwnnw heb achaws aduwyn, kamlyryus vyd; y rei kydrychawl hagen, barnet y dadyl, neu tygent nas gwdant, rac colli camlyryeu; ac yn yr eil oet, yn y tryded lys, barnent heb neb ryw escus, neu y brenhin a gymero elchwyl ac a gynhalyo gauael pawb ohonunt hyt pan varnhont y dadyl honno a'e theruynu yn gwbyl (LIB, 99/19-32).*

§373) Cf. *Nyt oes amgen poen na dial onyt kymell trwy gyfreith, am wassanaeth diffyc, neu dilyet, neu rent y brenhin, ony wedir yn y erbyn, eithyr*

*gwassanaeth a diffyccio ac ny aller y enmill. Ny dylyir rydhau gauael a gymerer dros vn o'r tri dyffyc hyn hyt pan wnelher cwbyl drosti (LIB, 100/1-6).*

§374) Cf. *Kyn bo lliaws vn vreint o vrawtwyr o vreint tir yn yr vn vrawt, vn eissoes a varn, nyt amgen y neb a'e datgano yn y llys rwg y kynhenwyr, trwy gyfundeb gwyr llys; a rei ereill a vydant gyghorwyr idaw yn y vrawt. Ac o dygwyd ef yg gwerth y tauawt, achaws y vrawt gyffredin a datganwys ef drostaw ef a throstunt wynteu yn y llys, y brawdwr ac wynteu oll y gyt a talant werth y tauawt ef yn gyffredin, kymeint pob vn a'e gilyd; kanys o gyffredin gyghor a chytuundeb y rodassant y vrawt, ac velly kyffredin talu a dylyant wynteu dros eu brawt. Ac velly, os brawdwr o vreint tir a gyll camlwrw o achaws brawt a rother velly, pob vn o'e gyffelyb yn yr vn ryw vrawt a gyll y gymeint (LIB, 100/7-21). Mae'r frawddeg gyntaf yn llygredig yn H/PeniARTH 278. Rhoddir enghreifftiau yn H o beth a olygir gan gynghorwyr.*

§375) Cf. *Ny dygwyd neb yg gwerth y tauawt onyt brawdwr ehunan, neu y neb a ymwystlo ac ef, pan rodont eu deu wystyl, erbyn yn erbyn, yn llaw y brenhin am vrawt - gwystyl a gwrthwystyl. Pan dygwydho brawdwr swydawc llys, neu kymhwt, neu gantref, yg gwerth y tauawt, tri pheth a gyll ef yna. Kyntaf y kyll y swyd. Eil, breint brawdwr, o eisseu swyd. Trydyd, gwerth y tauawt (LIB, 100/22-30).*

§376) Cf. llsgr. Z, f. 85v: *Tri ffeth ni ddyly lliaws o vyrwdwyr i wneuthur hep genat yr arglwydd a'r pyleidiev: bwyta, nev yffet, nev ymwahanv (WMLT: Z104). Triawd sy'n unigryw i H a Z.*

§377) Cf. *Y neb a uo brawdwr o vreint tir, kyn dygwytho ef yg gwerth y tauawt trwy y gam vrawt, ny chyll ef vreint brawdwr tra vedho ar y tir o'r hwn y mae idaw vreint y varnu. Kanys ym peth bynhac y bo breint, yn yr vn ryw hwnnw vyd priodolder diwahan. Megys y mae breint anyanawl yn priodolder corff, velly breint tir yssyd priodolder tir; ac velly breint swyd yssyd priodolder swyd; ac wrth hynny, pan wahaner brawdwr swydawc a'e swyd trwy gyfreith, velly y gwehenir a breint swyd (LIB, 100/31-101/9).*

§378) Cf. *Tri chof gwedy brawt yssyd: godef o vrawdwr rodi gwystyl yn erbyn y vrawt heb rodi gwystyl yna, a gwedy hynny kynnic gwystyl y gadarnhau, ny dylyir y erbynyaw o gyfreith, ony byd brawt tremyc; neu gynnic gwystyl yn erbyn brawt gwedy y godef yn gyntaf; neu adaw ymatrawd yn wallus ar gyfreith a barn, a gwedy barn keissaw gwaret y gwall, nys dyly* (LIB, 120/19-26). Triawd perthnasol i bwnc y rhan hon o H/Peniarth 278 (sef brawdwr) sydd wedi ei godi o fan arall yn nhestun Bleg.

§379) Cf. *Yspeit y dosbarth brawt amrysson rwg deu wystyl a rother erbyn yn erbyn yn llaw y brenhin, pymthec diwarnawt. Ac val hyn y dosperthir: - Yn gyntaf y dyly y brenhin yn hedychawl gwrandaw yn y llys amrysson y neb a wrthwyneppo y'r brawdwr; ac odyna ateb y brawdwr. Odyna y neb a dywetto yn erbyn y brawdwr a dyly dangos o lyfyr kyfreith brawt teilygach no'r hon a dangosses y brawdwr, os dichawn; ac velly y goruyd ef y brawdwr; onys dichawn, y brawdwr a oruyd, kany dichawn neb anheilygu brawt yn erbyn gwystyl y brawdwr, ony eill ynteu dangos a uo teilygach yghyfreith yscriuennedic. Os y deu amrysson erbyn yn erbyn a uyd yghyfreith yscriuennedic, y dosparth a dodir ar ganonwyr a arueront o wiryoned; a'r hyn a welher yn nessaf y'r wiryoned, teilygaf yw y gynhal yn y gyfreith* (LIB, 101/10-27).

**canys hynny yw oet dadleu o cyfreith Hywel Dda** Cymal sydd wedi ei ychwanegu at H. Dichon fod yr angen hwn i ategu mai cyfraith Hywel yw'r ffynhonnell yn adlewyrchu cyfnod, neu leoliad, lle bo gwrthdaro rhwng dwy gyfraith; neu ddim ond yn pwysleisio awdurdod hynafol cyfraith Hywel. Yn ddiweddarach yn y paragraff ehengir *yghyfreith yscriuennedic* Bleg yn: *yn ysgrifenedic mew[n] llyfyr cyfreith Hywel*, gan bwysleisio unwaith eto mai cyfraith Hywel oedd yr awdurdod y dylid ei ddilyn.

**dosparth** Penderfyniad, terfyniad, Lladin *discretio*: gw. Pryce, 'Lawbooks and Literacy', 58-59.

**canhonwyr** Arbenigwyr yn y gyfraith eglwysig. Mae hyn yn adlewyrchu dylanwad cyfraith eglwysig ar Lladin D/Bleg. Gw. hefyd J. B. Smith, 'Judgement under the law of Wales', *SC*, 39 (2005), 76-77.

§380) Cf. *Or dyry neb wystyl yn erbyn brawt a rotho brawdwr ac a datganho heb lyfyr kyfreith kydrychawl, y brawdwr bieu dewis ae rodi gwystyl yn y erbyn, ae godef trwy y gwrthwyneb hwnnw dangos yna, neu ar oet, brawt teilygach o gyfreith yscriuennedic. Or dyry y gwystyl, y neb y gorffer arnaw, collet werth y tauawt. Os godef ef, kyn gorffo y llall, ny chyll y brawdwr onyt camlwrw; ac ony oruyd y llall, kamlwrw a gyll (LIB, 101/28-102/4).*

§381) Cf. *Ny byd kylus neb brawdwr yr rodi a datganu brawt o awdurdawt yscriuennedic, kynny bo iawn, onys kadarnha trwy wystyl; namyn yr awdurdawt a geblir (LIB, 102/5-8).*

**lyfyr prawf** Yr adran olaf yn Ior lle y crynhowyd at ei gilydd yr wybodaeth oedd yn angenrheidiol i ynad ei gwybod, sef 'Tair Colofn Cyfraith a Gwerth Gwyllt a Dof'.

§382) Cf. *Or dyry brawdwr brawt ffalst rwg y dadleuwyr, a godef y vrawt ohonunt yn y llys, a gwedy hynny rodi brawt iawn ohonaw mywn dadyl gyffelyb, talet y'r brenhin gamlwrw dros y vrawt ffalst a rodes gynt, kanys ehunan megys tyst credadwy a dangosses trwy vrawt iawn ryrodi ohonaw vrawt gam kyn no hynny (LIB, 102/14-20).*

§383) Cf. *Or dyry brawdwr gam vrawt yn erbyn dyn ny allo trwy gyfreith ymwystlaw ac ef am y gam vrawt, namyn or dichawn ef dangos yna, neu ar oet pymthec niwarnawt, trwy lyuyr kyfreith yn erbyn y brawdwr, brawt teilygach yn yscriuennedic, y teilygaf a seif idaw, a'r brawdwr a gyll camlwrw (LIB, 102/21-27).*

§384) **meddyant; ac iawn goresgyn** Gw. D. B. Walters, 'Meddiant a goresgyn', *BBCS*, 31 (1984), 112-18.

§385) Diffinir *cyngwarchadw* fel tŷ, odyn ac ysgubor yn *AL*, IX.xxxiv.1.

§389) Cf. §67.

§390) Cf. trioedd §§152-56.

§393) Dechrau cyfres arall o drïoedd sydd yn dilyn yr un drefn â thestun Bleg (a Mk): gw. y conpectws am y gyfatebiaeth lawn. Cf. *Tri pheth nyt reit ateb y neb ohonunt. Vn yw peth ny bo diebredic yn erbyn kyfreith. Eil yw gweithret y galler dangos y argywed, or gwneir, ac ny dangosser. Trydyd yw collet ny wyppo gwlat o neb ryw hyspysrwyd y'r hawlwr y golli* (LIB, 123/21-26).

§394) Cf. *Tri ryw diebryt yssyd. Vn, dwyn peth ac nyt atuerer trachefyn. Eil yw adaw argywed ar dyn neu ar yr eidaw heb wneuthur iawn na hedwch ymdanaw. Trydyd yw diebryt dyn o'e dilyet dros amser y dalu* (LIB, 123/27-31).

§395) Cf. *O tri mod y cae kyfreith rwg hawlwr ac amdiffynnwr. Vn yw o golli y amser, a hwnnw a damweinha o lawer mod. Eil yw o hawl hep perchen. Trydyd yw o teruynu y dadyl kyn no hynny* (LIB, 124/1-4).

§396) Cf. *Tri theruyn kyfreithawl yssyd. Vn yw teruyn o gyfundeb pleideu. Eil yw teruyn gossodedic rwg pleideu trwy gymrodedwyr. Trydyd yw teruyn trwy varn* (LIB, 124/5-8).

§397) Cf. *Teir dadyl a dilyant eu iachau ac eu barnu trwy deturyt gwlat yn erbyn haerlluged. Vn yw dadyl am venffyc neu wystyl neu auael yssyd vn kyfreith. Eil yw dadyl y bo amdiffyn yndi, neu yn amgen, gwat am tir. Tryded yw dadyl o wrthrymder brenhin yn erbyn kyfreith* (LIB, 124/9-14).

**dedfryt gwlat** Byddai henaduriaid gwlat yn ymateb i'r mater dan sylw yna byddai'r brawdwyd yn rhoi eu barn ar ôl ystyried safbwynt yr henaduriaid: *a gbedy darffo hynny yr henaduryeit racreitha6 eu synh6yr. Achadarnhau eu dull tr6y t6g. yna ydyly y bra6twyr mynet ar lleilltu. Abarnu herwyd dull yr henaduryeit. a dangos yr brenhin yr hyn a varnont. Ah6nn6 y6 deturyt g6lat g6edy amdiffyn* (WML 47/18-23; gw. hefyd LIB, 129/26-30). Ymddengys bod y dull hwn o farnu, oedd yn rhannu'r cyfrifoldeb rhwng y brawdwyd a'r henaduriaid, yn cynrychioli cyfundrefn gyfreithiol gynnar yn Neheubarth oedd yn rhagflaennu'r safle blaenllaw a roddwyd i'r ynadon o fraint tir yn Lladin D a Bleg. Mae cymal olaf y triawd yn awgrymu bod dedfryd gwlat yn ffordd y gellid mynd yn erbyn barn ormesol y brenin pe bai'n ceisio mynd yn groes i'r



gyfraith: gw. J. Beverley Smith, 'Judgement under the law of Wales', *SC*, 39 (2005), 80-81, 88.

- §398) Cf. *O tri mod yd holir tir: o gamwerescyn, ac o datanhud trwy vedyant tat neu vam hyt agheu, ac o ach ac etryt. Kyny thyccyo gofyn tir o'r mod kyntaf nac o'r eil, ny byd hwyrach no chynt y keffir o'r trydyd (LIB, 78/24-28)*. Mae ail gymal y triawd yn pwysleisio pwysigrwydd etifeddiaeth a'r gallu i brofi hynny: gw. D. Jenkins, 'A lawyer looks at Welsh land law', 224-26.
- §399) Cf. *Tri chamwerescyn yssyd: gwerescyn yn erbyn y perchenhawc, o'e anuod a heb vrawt; neu werescyn trwy y perchenhawc ac yn erbyn y etiued, o'e anuod a heb vrawt; neu werescyn trwy wercheitwat ac yn erbyn y iawn dilyedawc, o'e anuod a heb vrawt. Perchenhawc yw y neb a uo yn medu y dilyet dilis. Gwercheitwat yw y neb a gynhalyo neu a warchattwo dilyet dyn arall (LIB, 78/29-79/7)*. Gw. D. Jenkins, 'A lawyer looks at Welsh land law', 226-28.
- §400) Cf. *O tri mod y dospertir dadyl datanhud rwg etiuedyon, nyt amgen trwy tri breint anyanawl. Kyntaf yw breint oet rwg yr hynaf a'r ieuhaaf. Eil yw breint priodas rwg etiued kyfreithawl ac vn aghyfreithawl, kanys y kyfreithawl a'e keiff oll. Trydyd yw breint dilyet yrwg dilyedawc ac andilyedawc. Os tadeu y rei hynny hagen a gynhalyassant yr vn tir wers tra gwers hyt eu hagheu, a dyuot eu meibon y erchi datanhud, mab y dilyedawc a geiff datanhud o gwbyl, py bryt bynhac y del. Odyna or doant etiuedyon vn rad y gyt ac yn yr vn amser y ofyn datanhud, megys brodyr o tir eu tat, neu gefynderw neu gyferderw o tir eu tadeu, yr hwn a gynhelis eu tadeu yn diran wers tra gwers hyt varw, ny dichawn vn ohonunt gwrthlad y gilyd na'e oedi, namyn pob vn ohonunt gwrthlad y gilyd na'e oedi, namyn pob vn ohonunt a geiff ran datanhud. Pwy bynhac a gymero tir y tat kyn no'r brawt hynaf, y brawt hynaf a'e gwrthlad ef o gwbyl. Ac ynteu a geiff datanhud o gwbyl. Ac or byd marw yr hynaf y mywn y datanhud diran, y vab elchwyl a geiff datanhud cwbyl yn erbyn pawb (LIB, 79/8-29)*.
- §401) Cf. *Pedeir taryan yssyd a gerdant yn llys rwg kynhenusson a reith gwlat neu deturyt gwlat, megys kadw gwesti am ledrat kysswyn, a chadw kyn koll, a geni*



*a meithryn, am letrat gwaessaf neu treis, neu aghyfrach heb treis heb letrat. Ac nyt cwbyl wrtheb, ac nyt cwbyl diheuraw, ac nyt cwbyl amdiffyn, vn o'r teir kyntaf y'r neb a'e kaffo, namyn kanhorthwy mal y bo haws y gredu trwy y taryan a gaho no hebdi. Ac velly galw gwarant, nyt cwbyl wrtheb, nyt cwbyl diogelrwyd, namyn keissaw neb vn a wrtheppo drostaw ac a wnel cwbyl y drostaw. Ac wrth hynny pwy bynhac a gaffo gwarant, safent ell deu y gyt wrth gyfreith yn y llys hyny teruynho y dadyl oll trwy varn yrydunt a'r hawlwr; kany ellir gwybot o vn fford kyn barn teruynedic ae vn ohonunt a uo kylus, ae ell deu, ae na bo kylus vn, ac na wys heuyt a vynho y gwarant wneuthur cwbyl drostaw ehun a thros y da kynhenus a thros yr amdiffynnwr, ae nys mynho; ac ny wys heuyt ae gallo ae nys gallo (LIB, 44/8-28).*

**§402)** *Cf. Ny ellir gwarantu vn da kyffro na digyffro a dycker yn erbyn kyfreith, nac vn gweithret a wnelher yn erbyn kyfreith, os deturyt gwlat a'e hamlycca. Brawdwr hagen a dyly gwybot a deall, trwy deturyt gwlat, ae trwy gyfreith ae yn erbyn kyfreith y ducpwyd y da neu y gwnaethpwyd y gweithret, kyn rotho barn teruynedic rwg yr hawlwr a'r gwarant, a hynny gwedy ateb yr amdiffynnwr (LIB, 45/5-13).*

**§403)** *Cf. Y neb a gaffo gwarant y mywn dadyl, ny cheiff tauodyawc amgen no'e warant yn y dadyl honno; kany y gwarant a dyly gwrtheb drostunt ell deu, a chanyt oes dim o waranrwyd amgen noc amdiffyn a rydhau (LIB, 45/14-18).*

**§404)** *Cf. Pwy bynhac a uo gwell gantaw arall y dadleu drostaw yn llys noc ehunan, kanhat yw idaw ef tewi heb dadleu dim tra vynho kynhal tauodyawc. Y neb a vynho tystu gwall y mywn dadyl yn erbyn perchen tauodyawc, tystet ar y tauodyawc, kany ellir profi vn gwall ar y perchen, kany kanhat yw idaw tewi o gyfreith tra parhao y dadyl oll (LIB, 45/19-26).*

**(eithyr lleidyr cyhoeddawc)** *Glos neu ychwanegiad gan yr awdur sy'n adlewyrchu ei wybodaeth gyfreithiol.*

**§405)** *Cf. Llyssu tyston a vyd val y dewisso y tauodyawc, ae trwy alanas o'e pleit ehunan, ae trwy alanas o pleit y perchen; kany yn eu herbyn ell deu y tystir (LIB, 45/27-30).*

- §406 Dyfynnir triawd o ran arall yn nhestun Bleg sydd yn trafod yr un pwnc, sef gwarant a gwys. Cf. *Tri dyn ny dylyir eu gwyssyaw: tyst, a gwarant, a gweithredawl kysswyn neu gyfadef* (LIB, 125/19-20).
- §407) Cf. *O tri mod y kedernheir gwys: o tyston, a mechniaeth, a gauael* (LIB, 125/4-5).
- §408) Cf. *Teir gwys a ellir eu gwadu kyn amser tyston. Gwys gan tyston ny wneir onyt am tir a ofynher o ach ac etryt, trwy nawuetdydyeu Mei neu galan gayaf. Or gofynnir tir yn amgen no hynny, neu peth arall, a gwadu vn wys trwy twg ymdanaw, trwy vechni y dylyer cadarnhau gwys ar y neb a'e gwatto. Y lle y pallo mechni vn weith, gauael a dylyir yno; ac os tir a ofynnir, tir a euelir. Pallu mechniaeth yw na rother mach yn y dylyer, neu y rodi a'e tremygu. Tremyc gwys neu vechniaeth yw na del dyn yn dyd galw y lys ossodedic y atdeb, neu y amdiffyn rac atdeb* (LIB, 125/6-18).
- §409) Cf. *Tri lle yd ymdieicha mach kyfadef am dylyet aghyfadef. Vn yw o diwat o'r talawdyr y mach. Eil yw o gaffel tystolyaeth o vn o'r kynnygyn ar y gilyd trwy ymhyawl yn llys. Trydyd yw o lyssu o vn ohonunt tyston y llall y mywn llys* (LIB, 42/22-26).
- §410) Cf. *Tri pheth ny henynt o vechni: agheu, a chlefyd, a charchar* (LIB, 42/27-28).
- §412) **ffonodyeu cyssefin** Cf. §622.
- §413) Cf. *Teir ael6yt adyly guneuthur ia6n ae gymryt dros dyn ny bo argl6yd adef ida6. tat. A bra6t hynaf. awhegr6n* (WML, 135/14-17).
- §414) Cf. *Teir g6anas g6ystl yssyd: lla6, a braich, ac ysg6yd* (S §2029). Mae'r triawd hefyd i'w gael yn llsgrau. Q, Tim, K, a Z; sef llsgrau. sy'n deillio o'r 15g.
- gwanas gwystyl** 'The means of conveyance or depository': gw. *WMLT*, 417-18n. Cf. *P6ybynhac a 6ystlo g6ystyl y arall: ny dyly y neb y g6ystler ida6*

*namyn y gymryt yny lab ae doddi ar y ysgôyd, ac odynd y doddi yn lle y catwer: arei hynny y6 teir g6anas g6ystyl (AL, VIII.xi.5).*

- §415) Cf. *Tri gwystyl nyt anghyffraith ev mwynhav kyn digwydaw nyt amgen blith athelyn a thowlbwrdd (AL, IX.xxxviii.13). Gw. hefyd §495.*
- §416) Cf. *Tri dyn ny dylyir eu g6yssya6: tyst, a g6arant, a g6eithreda6l kyss6yn neu gyfadef; eu mechnia6 a dylyir (WMLT: Mk5).*
- §418) *Dyma ddechrau adran ar dystion sy'n perthyn yn agos i destun Bleg. Cf. Tyston a ellir eu gwrthneu pan dechreuwynt eu tystolyaeth, oc eu sefyll, megys na bo reit eu llyssu; ac velly gwybydyeit . . . (LIB, 37/17-19).*
- §419) Cf. *Tri pheth a geidw cof a seif yn lle tyston y dyn ar y dylyet o tir: lle hen odynd, neu benntanvaen, neu ysgynuaen (LIB, 118/11-13). cf. §34.*
- §420) Cf. *Teir tystolyaeth dilys yssyd: tystolyaeth llys yn dwyn cof; a thystolyaeth gwybydyeit a gredir pob vn yghyfreith, megys tat y rwg y deu vab, neu yn lluosawc am tir; a thystolyaeth y gwrthtyston (LIB, 120/27-31).*
- §421) Cf. *Teir tystolyaeth marwawl yssyd: tystu ar dyn kyn y holi o'r hyn y tyster; neu tystu ar dyn na wadwys ac nat amdiffynnwys yr hyn a daroed idaw y wadu neu y amdiffyn; neu tystu ar dyn dywedwyt yr hyn ny dywawt. Llys a brawtwyr a'e clywho a dyly eu dwyn yn varwawl trwy arch yr amdiffynnwr, os koffa. A llyna y tri lle y mae kadarnach gwybydyeit no thyston (LIB, 121/6-13).*
- §422) Cf. *Pan tysto tyst yn y tystolyaeth peth yn gyfreithawl y ereill yn erbyn amdiffynnwr, neu amdiffynnwr pan tysto ynteu peth yn gyfreithawl yn erbyn tyston, y rei hynny a elwir gwrthtyston yghyfreith, ac ny ellir eu llyssu (LIB, 121/30-122/3). Mae'r testun hwn yn dilyn y triawd Teir fford y mae kadarnach gwybydyeit no thyston yn Bleg: gw. §452.*
- §423) Cf. *Teir tystolyaeth yssyd ar eir, ac ny dygir y greir: tystolyaeth lleidyr ar y gyleidyr wrth y groc, a thystolyaeth nyt elher yn y herbyn pan dyccer ar eir, a*

*thystolyaeth y gwrthyston (LIB, 122/4-7).*

- §424) Cf. *Ny cheiff neb penkenedlaeth na swyd nac eissydyn arbenhic o vreint tir o pleit mam, kyn kanhatter ran o tir idaw, or byd neb o pleit tat a'e dylyho; teilygach eissoes yw kaffel o dyn o pleit mam y rei hynny noc eu kaffel o estrawn (LIB, 81/8-13).*
- §426) Cf. §225. Cf. Ior lle y dywedir mai'r tad sy'n gyfrifol am ei fab hyd nes ei fod yn bedair mlwydd ar ddeg ac y dylai ateb drosto am bob peth . . . *ac ny dele maruty arnau ket boet maru en henne o amser (LII, §98/1-7).* Sonnir yn Lladin D: *Un dyn ny dyly y ty uod yn uarwdy kyd boed marw hep gymun: egnad llys (LTWL, 377/17-18).*
- §427) **bonheddic canhwynawl** Gw. nodyn §30. Cf. LII, §§100-01. Meddai Ior am fab a wrthodwyd yn gyfreithiol gan ei dad, a mab sydd â thad alltud: *E deu uab rydywedassam ny uhot un ureynt ac un werth ac un sarhaet ynt a bonhedyc kanhuynawl (LII, §101/ 17-18).*
- §428) Mae §§427-29 yn adleisio adran Ior (§§100-03) ar dderbyn a gwadu meibion.  
**mab cymeridic** Mab sydd wedi ei dderbyn gan y teulu. Rhestrir y ffyrdd o dderbyn meibion yn y triawd nesaf.  
**mab deolef** Yn ôl diffiniad Ior: *Sef yu mab deolef, mab a dywetto gureyc ar e thauaut leueryd y uot en uab y ur ac nas dycco e'r dygyn. Hunnu a ellyr y wadu pan uynher (LII, §102/1-3).*  
**mab di[o]ddef** *Mab dyodef yu mab a dycco gureyc en kyeureythyaul a'e dyodef o'r gur hep e wadu un dyd a bluydyn. Ny ellyr e wadu o henne allan byth (LII, §102/3-6).*
- §429) **rhoi da yr y feithrin** Cf.: *O deruyd y tat rody da er meythryn mab ny dele e wadu o henne allan, canys tredyd kymeryat yu ar uab rody da er e ueythryn (LII, §102/14-16).*  
**a'e gymryt erbyn y law yngcenedyl; a'e gussanu** Cf. *Sef mal e kemeryr, kymryt o'r penkenedel due lau e mab erug e due lau enteu a rody kussan ydau, canys aruyd kerennyd yu kussan, a guedy henne rody llau deheu e mab en llau*

*er hynaf o'r guyr ereyll, a rody o hunnu kussan ydau, ac euelly o lau y lau hyt ar e gur dywethaf (LII, §103/4-8).*

- §430) lluryc** Benthyciad o'r Lladin *lorica*, sef crys mael: math o arfwisg (gw. *GPC*, d.g. llurig). Yn wreiddiol rhywbeth fel *breast plate* wedyn cadwynwisg.
- §431)** Cf. *Pob g6ystyl a dygbyd ymhen y nabvet dyd, euthur kalla6r a ch6lld6r a b6ell gynyd (S §1611). Cf. hefyd Tri g6ystyl ny dygbydant vyth: telyn, a phayol y6, a ffl6 (WMLT: Q164).*
- §432)** Cf. *Teir gauael nyt atuerir: vn a dyccer dros letrat, ac vn ar vach ny chymello, a thros alanas (LIB, 116/6-7).*
- §434)** Cf. *Tri da nyt reit mach armunt: da a rodho arglwyd y dyn, a chymyn a gymero offeiraf y gan y marw, a da a gymero medyc y gan y neb ar a vedyccinnaetho (LIB, 117/7-10). Cf. Tri (da dilis) diuach y(ssyd.) da (arotho argl6yd y6r) ac ade(l) ida6 ynteu gan gyfrei(th). Ada a gaffo g6reic gan yg6r p(an gy)ttyo ynteu ag6(re)ic penkynyd. punt atal pop vn o honunt (WML, 132/22-133/4). Cf. Tri da dilys diuach yssyd. da arotho y brenhin y 6r. Ac a del ida6 ynteu gan gyfreith. A da agaffo gureic gan yg6r yny h6ynebwerth. pan gtyo y g6r agureic arall. A da adycker yn ryuel deu argl6yd (WML, 134/15-20). Cf. Tri pheth nyt reit mach ar dilysr6yd drostunt: kynysgaeth gan vreic, ac enill medic gan glaf, a chyfar6s g6r gan y argl6yd (WMLT: Q203).*
- §437) y tri dyn nyt geir eu geir** Sef creddyfwr; neu lwfyr; neu ddyn a dyngo 'anudon cyhoeddog', sef *public perjury*: gw. **§1047**.
- §438)** Cf. *O teir fford y llyssir tyston. otirdra. A galanastra. ag6reictra (WML, 127/20-21). Cf. hefyd Tri achaws yssyd y lyssu tyston. Vn yw galanas heb ymduwyn. Eil yw o vot dadyl am tir yrydunt heb teruynu. Tryded yw kamarueru o vn ohonunt o wreic y llall. Os eu llyssu a ellir, palledic vydant. Ony ellir eu llyssu, tyston diball vydant (LIB, 37/11-16). (Mae H yn defnyddio'r sillafiad tyston fel LIB.)*

§§439-41) Deuawdau sydd yn ymhelaethu ar wahanol gymalau triawd §§438.

§441) **Ile ny bo arglwyddiaeth yr arglwydd** Mae'r deuawdau hyn yn unigryw i destun H. Efallai fod y cymal hwn yn awgrymu mai yn un o arglwyddiaethau'r Mers y cyfansoddwyd H.

§443) Cf. §993.

§444) **ni cheidw waclaw** Cf. *AL*, IX.xxviii.8, §1126.

§445) Cf. §1. Croesgyfeirir at driawd arall yn y testun sydd unwaith eto'n awgrymu *milieu* ysgrifenedig yn hytrach na llafar.

§§446-47) Trioedd sydd yn ehangu ar gymalau triawd §445.

§448) Cf. §452.

§450) Cf. §635, §1010. Cf. hefyd y triawd *Teir tystolyaeth yssyd ar eir, ac ny dygir y greir* (Bleg) a ddyfynnir isod, §1012n.

§452) Cf. §45, triawd sydd yn dwyn yr un pennawd ond mae'r cynnwys yn amrywio'n sylweddol.

§§453-54) Amrywiad ar yr un pennawd allweddol.

§456) Cf. *O tri mod y kyll braðdôr gamlôr6 o varnu, ac ny chyll gberth y taua6t: vn pan diuarno kyfry6 ac a varnassei gynt tr6y gyffelybyon ach6ysson. Eil y6 pan el ar gyfeilorn yn datganu dadyl, or cadarnha m6y neu lei yn y dadyl noc a uu o eireu grym. Trydyd y6 na rotho gbystyl gyt a'e varn pan rother gbystyl arall yn y herbyn. O'r mod kyntaf y varn gamhaf a dileir. O'r eil y datganu a ia6nheir. O'r trydyd y varn heuyt a dileir yna, kyt boet ia6n, canys kadarnhabys y braðdôr hi yn amsera6l tr6y 6ystyl (WMLT: Q18).*

§457) Cf. *Tri gwahan yssyd rwg gwybydyeit a thyston. Gwybydyeit am a vu, kyn ymhyawl y dygant tystolyaeth ac nyt ef y dwe tyston. Eil yw, gwybydyeit bieu deturyt eu gwybot yghyfreith tyston, kyny rytyster vdunt, ac nys pieu tyston. Trydyd yw, gwybydyeit bieu dwyn tystolyaeth yn erbyn gwat ac amdiffyn, sef yw hynny, gwybydyeit bieu profi gwir gwedy geu, ac nys pieu tyston (LIB, 121/14-22).*

§461) Cf. §457.

§462) Amrywiad ar bennawd §461.

§463) *Sonnir yn y testunau cyfraith am y tri dyn diofredog y dylid eu cynnwys mewn rhaith, sef corff o bobl a oedd yn barod i roi llwon. Dywedir yn Cyfn: Or ymda gureic ehunan adyuot g6r idi adbyn treis arnei. os diwat awna yg6r rodet l6 deg wyr a deugeint Athri o honunt yndiouredabc na mynho gureic. ac nat ysso kic. ac na marchocco uyth (WML, 97/12-7). Nodir yn Bleg: Or holir y llosc y treis neu o letrat, ac or lloscir dyn yn y tan hwnnw, tri dyn diofredawc a dylyant uot yn y reith (LIB, 31/6-8).*

**diofryt** Ymwadiad neu ymwrthod ar lw. Yma golygai rywun sydd wedi tyngu eu bod yn ymwrthod â phethau'r byd, sef marchogaeth, benywod, a chig. Awgrymai hyn rywun oedd efallai yn perthyn i urdd gaeth. Gw. *NLC*, 44-53 lle cynnigir meudwyaid fel posibiladau.

§464) **teispan tyle** Ystyr teisban yw gorchudd gwely yn *WML*, 94/16 a *LI*, §144/5 a datblygodd *teispan tyle* yn enw ar rywun oedd yn gwarchod y brenin: gw. *WML*, 125/10 ac *WML*, 140/7 (gw. hefyd *LIB*, t. 224n). Enwir lladd y *teispan tyle* fel un o'r tair cyflafan y dyly mab y llofrudd golli ei dreftadaeth o'i achos yn Lladin D, 335/35-37. Gw. hefyd *WMLT*, t. 145n.

§468) **charllywedroc** Gŵr sy'n rhydd o rwymau carennydd i symud pan fynno. Cf. *a h6nn6 aelwir karr llawedra6c; sef y6 hynny, dan auo carr gychwyn pan vynno. Llabedra6c yn hen Gymraec y6 toma6c; sef y6 hynny carr toma6c (AL, V.ii.151). Am yr elfen cyntaf o'r gair (carr): gw. *LTMW*, 324.*

§471) **ddiaspat ac anuwyn** Ffurf ar y term cyfreithiol *diaspat uwch anwfynd* (> anwfynd). Gw. §789n.

§472) Gw. §30n.

§473) Gw. §18n. Yn *AL* dyfynwyd §§473-76 ar ddiwedd y deunydd arall ar groesau sy'n cywchwyn yn §952: gw. y conspectws. Casglodd Aneurin Owen y cyfan ar groesau mewn un adran yn *AL* nad yw'n dilyn trefn naturiol y testun.

§474) Cf. §90.

§475) Cf. *Teir ouer groes ysyd: croes a bahardo ll6ybyr a lyccro y yt, a chroes ar risgyl prenn yn y orbed neu yn y seuyll, a chroes ny hebryger a ll6. Am pop vn o'r teir hynny ny dylyr na dif6yn na dial* (WMLT: Q182).

*(T)eir ouer groes yssyd. croes adoter ar ford y my6n yt. Achroes adoter arisc pren gorweida6c yg koet. Achroes adoto dyn ar alla6r ny dylyho egl6ys ymyrru ganta6* (WML, 143/6-9).

§481) Roedd cymell galanas hefyd yn un o ddyletswyddau'r brenin neu arglwydd (WML, 44/14-16). Yn sgil hyn roedd ganddo hawl i draean o bob taliad galanas. Sonnir hefyd yn niarhebion Llyfr Gwyn Rhydderch: *Argl6yd a gymell* (gw. Phillimore, 'A fragment from Hengwrt MS no. 202', 138).

§482) Yn llsgr. Z yn unig y mae cyfatebiaeth i'r triawd hwn. Cf. llsgr. Z, f. 87r: *Tri ffeth nit rait praw arnvnt: nid rait praw ar addef, namyn i dystv; nit rrait praw ar ddiddim i vot yn ddiddim, namyn provet y llall nat ddiddim ef; try[dy]dd ar vyrawt eithyr tystiolaeth ynat i bwy y barnawdd hi* (WMLT: Z114).

§483) Cf. *Tri pheth ny ellir eu dwyn rac gwreic, kyt gatter am y cham: y chowyll, a'e hargyfreu, a'e hwynebwerth, os rygauas kyn no hynny o gymryt o'r gwr wreic arall* (LIB, 119/15-18).



- §484) Gellir cymharu'r cymal cyntaf â darn o destun Ior: *Keureyth a deweyt na dele gureyc cowyll guedy blodeuho onys dyheura e kefnesseyuyeyt e am e mam a'r that a'e brodyr a'e chuyoryd, ac o henne ene uont seyth nyn* (LII, §55/5-8). Tra nodir yn Bleg: *Oni wna morwyn a vynho o'e chowyll kyn y chyfot y bore y wrth y gwr, ygkyt y byd yrydunt o hynny allan* (LIB, 64/8-10).
- 487) Cf. §31.
- §490) Triawd sy'n groes i: *Tri aniuetil a drycheif eu gberth teir gbeith yn vn dyd: milgi, a gelligi, a cholbyn, herbyd symuda6 eu perchenogaeth y gan vab eillt y uchel6r a brenhin* (WMLT: Q197). Hefyd, cf. *Tri aniuetil a a gberth kyfreith kyn eu bl6yd: kosta6c tom, a dauat, a gafar* (WMLT: Q199).
- §491) Cf. §158.
- §492) Cf: *O tri mod y telir teithi buch: o dec ar hugeint aryant, neu vuch hesp dec, neu o vlawt. Os o vlawt, val hyn y telir: messur llestyr llaeth buch yw naw motued yghylch y eneu, a their yn llet y waelawt, a seith ar wyr o'r cleis draw y'r emyl yma vyd y vchet; lloneit y llestyr hwnnw a telir o vlawt keirch ygkyfeir pob gotro o'r vuch hyt Wyl Gyric; odynd hyt Awst, o vlawt heid; odynd hyt galan gayaf, o vlawt gwenith y telir y messur velly* (LIB, 88/22-31).
- §493) Cf. §189.
- §494) Cf. *Ny dylyir am un anefeil g6yllt na dir6y, nachaml6r6, na dihenyd . . .* (AL, V.i.10 sydd o Isgrau. F, K, a Q).
- §495) Cf. §415.
- §498) Mae triawd â'r un pennawd ond gyda chymalau gwahanol yn Tim, S, a Q. Cf. *Tri g6ystyl ny dyg6ydant vyth: telyn, a phayol y6, a ffl6. Os rodei dyn o'e uod vn o'r tri hynny, ef a dyg6ydei mal g6ystyl arall, kanys e hun a lygra6d y vreint pan y g6ystla6d. Os dyckeï y mach y arna6 o'e anuod, ny dyg6yd hyt ympenn vn dyd a bl6ydynd; bynt a dyg6ydant yna y'r ha6l6r hagen ympenn y*

*naβuettyd, kanys ef a dily y'r mach bystyl kyfreith; y mach a dygbyd y'r kynnogyn y k6byl (WMLT: Q192).*

**§500)** Cf. *Credadwy vyd amodwr yn y amot rwg deu dyn a'e hadeffo. Ac velly rodawdyr da am yr hyn a rotho. Ac wrth hynny y dywedir "Nyt oes o rod onyt o vod." A rodawdyr gwreic a tygho yn y mod y rother (LIB, 39/10-14).*

**§503)** Pwysleisir fod angen mach pan fo anifail yn cael ei gyfnewid i'r mach gael tystio i ddilysrwydd yr anifail. Daw *dilysrwydd* o'r gair *dilys* sef di-lys neu heb waharddiad (gw. *LTMW*, 335), h.y. rhywbeth nad oes gwrthwynebiad iddo yn y gyfraith. Sonnir am ddilysrwydd moch (e.e. *LIB*, 94/2), meirch (e.e. *LIB*, 92/5-6); a lloi (e.e. *LIB*, 90/9-10) yn y testunau cyfraith. Cf. *AL*, IX.xi.1.

**mwnei** Benthyciad o Ffrangeg Lloegr: *muneie* (gw. *GPC*, d.g. mwnei ac isod **§882n**).

**§504)** Cf. *Pwy bynac awarchaeo na warchaet yscrybl yn lle kvddiedic megys y mewn ty nev le ny weler ac nachelet ybot gantho o myn warche yn kyfreithiawl. O byd mor grevlon y dyn am yr yscrubl a warchaer ay holy yn lladrat nev yn agyffarch kadwet y llall yr yscrubl yn eyddo ehvn. O chwyn dyn gwarche [yr] yscrubl yn aghyffreithol y deiliat a dily tygv goddiwes bonyat e yscrubl ay blanyait ar y ryd yn gyffreithiol a threch yw y llw ef no chwyn r howlwr onys gwarche yn lle kvddiedic. Ac nydyly dyn dwyn yscrubl yw gwarche or dref bygylyt (AL, IX.xiii.1-4).*

**§506)** Cf. *O deruyd e den erchy guystyl am yt ar oet guystyl a dyguydho, ny dely nep e rody namyn ar oet gvystyl yt, a guystyl yt ny dyguyd hyt kalan gayaf. Puybynnac a deleho yt, ay ar uach, ay am lvgyr yscrybyl y kynhayaf, ay o'y prynu, ac nas gouynno hyt kalan gayaf, nys dele o henne allan. Sef achaus na dele, urth y uynet en tymhaur nyt yaun y ouyn, canyt yaun gofyn yt y uluydyn en y gylyd (LII, 158/7-13).*

**§511)** Mae arddull holi ac ateb i'r rhan hon o'r testun.

§513) Yn ôl *WML*, S, a *LII*: *Arglwyd a uyd mach ar bop da adefedic heb vach arnað* (S §190).

§517) Mae'r adran hon, fel y trioedd (a rhexreg glasurol) yn trafod tair elfen, sef lladrad, trais, ac anghyfarch. Gellid holi am y tri hyn a rhaid oedd *difwyn*, sef diwygio'r cam (e.e. deuddeng muw oedd difwyn lleidr cyfaddef *LIB*, 44/2-7; difwyn dirwy trais oedd gwialen arian, ffiol a chlawr *WML*, 123/17-18); neu wadu'r drosedd.

§523) **un o'r tri argae damdwng** Cf. §576.

§526) Cf. *Teithi march neu gasec yw yuet dwfyr, a phori gwellt, a rodi escyn, ac na bo llwgyus* (*LIB*, 92/9-10). Mae'n debyg fod y rhan hwn wedi ei gamleoli a'i fod yn perthyn i'r adran ar deithi sy'n cychwyn yn §528.

**teithi** Cf. Gwyddeleg *techtal*. Nodweddion; '. . . if anything was to be a true specimen of its kind for legal purposes, it must show the *teithi* of that kind' (*LTMW*, 385). Y nodweddion a roddai ddilysrwydd yng ngolwg y gyfraith. Cf. *WML*, 80/21-24 lle sonnir am deithi gŵr a gwraig (gw. *WLW*, 15, 50).

§527) Yn ôl lor: *Puebynnac a kemerho arall ar oruodogaeth, dyguydet ef em pob keryd o'r a oed ar e den a gemyrth attau* (*LII*, §70/1-2).

**gorfodawc** *gorfod* + *og*. Gwarantwr neu *bailsman*. Am y gorfodog gw. R. Ch. Stacey, *The Road to Judgment: From Custom to Court in Medieval Ireland and Wales* (Philadelphia, 1994), 187-88.

§528) Dyma ddechrau adran ar deithi anifeiliaid. Cf. gyda'r traethawd am feirch yn *LIB*, 91/13-16; *WML*, 66/11-7; 67/21-68/2: *Pedeir ar hugeint atal raðn amðs or trychir ymaes or goloren. Or trychir dim or goloren hagen. gberth yr amðs oll atelir yna. Adilis uyd yr amðs yr neb ae hanafðys llygat amðs ae glust: pedeir ar hugeint atal pop vn ohonunt* (*WML*, 67/21-68/2).

**amws** Ceffyl gwedd, *dextrarius* yn y testunau Lladin. Ceffyl rhyfel. Gw. *LTMW*, 312; S. Davies a N. A. Jones (goln.), *The Horse in Celtic Culture: Medieval Welsh Perspectives* (Cardiff, 1997), 71-72.

**rawn** Mae'n debyg fod rhawn yn golygu cynffon, sef y bôn a'r blew: gw. *LIB*, 213n, *PKM*, 171n.

**o ddieithyr y coloren** Cyfetyb cloren i'r Saesneg *rump* a phwysleisir yma mae'r rhan o'r gynffon y tu allan i'r gloren a feddylir, sef y blew: gw. *LIB*, 213n.

§531) Gwerth dant march tom oedd pedair ceiniog, cyfwerth â dant eidion (*LIB*, 89/2-3; *WML*, 74/20-1). Gwerth ei lygaid a'i glust oedd pedair ceiniog (*LIB*, 92/1-2).

§532) Cf. *LIB*, 92/5-8; *WML*, 69/7-10; *LII*, §123/1-6: *Y neb a wertho march, bit dros y dilysrwyd hyt y varw; rac y dera, tri gwllith; rac yr yscefeint, teir lloer; rac llyn meirch, blwydyn; ac yn achwanec bit dan gleuyt o'e mywn (LIB).*

**llwyc** Nacâd, yn gwrthod symud. Dywedir yn Ior: . . . *ac adan y luyc hyt ene uarchoccer . . . (LII, §123/3).*

§533) Cf. *Teithi march tom neu gassec tom. y6 d6yn p6n allusca6 karr yn allt ac yg g6aet. A hynny yn dirr6ysc (WML, 68/12-14).*

§534) Cf. *LIB*, 90/4-5; *WML*, 72/11-12; 73/18-20: *Teithi ych yw eredic yn rych, ac yg gwellt, ac yn allt, ac ygwaeret, a hynny yn ditonrwyce (LIB).*

**ddidonnrwyc** *di + ton + rhwyg*, sef heb rwygo wyneb y tir (gw. *GPC*, d.g. *didonrwyg*).

§535) Cf. *Teth buch, pedeir keinhawc kyfreith a tal. Corn buch, a'e llygat, a'e lloswrn, pedeir keinhawc kyfreith a tal pob vn (LIB, 89/19-21).* Cf hefyd *Vn peth ar dec yssyd a gwerth pob vn ohonunt yw pedeir keinhawc cotta: llo kynfflith, a'e theth . . . (LIB, 87/10).*

**cynfflith** = *cyn + blith*. Heffer sydd wedi cael llo am y tro cyntaf.

**ceinioc cotta** Ceiniog oedd llai ei gwerth na'r geiniog gyfreithiol *curt penny*. Ei gwerth oedd 2/3 o'r geiniog gyfreithiol (gw. *LTMW*, 325).

- §537) Dywedir yn Bleg: *Teithi gauyr, kymeint yw a'e werth (LIB, 93/8-9) ac Teithi dauat: kymeint a'e gwerth (LIB, 93/3-4). Tra yn Cyfn: Teithi kath. kymeint y6 ae gberth kyfreith (WML, 82/7-8).*
- §538) Sonnir yn Cyfn: *Y neb awertho deueit bit dan tri heint. clauyri. Alleder6. adouyr rud. hyny gaffont eu teir guala or guellt newyd y guanh6yn os guedy kalan gayaf yguerth (WML, 75/7-11) Ac yn lor: . . . am y llygat a'e chlust a'e lloscurn a'e chorn a'y theth: am pob un o henne, i. k' (LII, §130/7-8).*
- §539) Sonnir yn Cyfn am werth porchell: *Odyna hyt byl ieuan ymoch elch6yl 6yth geinha6c gyfreith atal. eithyr ytri llydyn ar benhic. ny dyrcheif ac ny ost6g vyth. Arbenhic ymoch. A baed kenuein. Ah6ch yg kyueir yr argl6yd. Ac yna deu partha6c uyd yr eneit ar y kic hyt byl ieuan ymoch. O byl ieuan ymoch hyt galan iona6r dec ar hugeint atal. Ac yna deu partha6c uyd ykic ar yr eneit (WML, 76/8-16).*
- §541) Deuddeg ceiniog oedd gwerth *sarhaed* caeth (LIB, 59/5, LII, §110/42). Roedd gwerth *sarhaed* merch caeth yn llai na gwerth *sarhaed* ei thad hyd nes iddi briodi (Dim.III.iii.16). Am y rhingyll, cf. §116; cf. hefyd: *A oes vn lle y dlyo vn odeu vroder vn vam vn dat briodolyon yn ar6ein yr vn ry6 ar vn s6yd, ar neill yn dlyet sarhaet ar y llall? Oes: or bydant yllteu yn deu righyll yn vn orsed, ar neill yn eisted ar llall yn seuyll ae sarhau yllteu yr h6n avei nny seuyll adyly ragor ar y llall* (Dim.III.iii.40 allan o Isgr. Q).
- §542) Cf. *Tri llydyn nyt oes werth kyureith arnunt: knyw hwch, a betheiat, a charlwg (LIB, 113/29-30).*
- §543) Sonnir am y *teulwr breyr* yn Bleg: *Teir bu a telir yn sarhaet teuluwr breyr, nyt amgen tri buhyn tal beinc (LIB, 60/19-20).*  
**dyrcheif** Ychwanegiad, *augmentation*. Mewn rhai llsgrau. esbonnir sut y cyfrifid dyrchafael. Fel rheol traean y swm gwreiddiol fyddai'r dyrchafael cyntaf; traean y ddau gyda'i gilydd oedd yr ail ddyrchafael; a thraean y cyfanswm hwnnw fyddai'r trydydd: gw. LIB, t. 166n.

**tal benic** Camgopiad o'r ymadrodd *tal beinc* sy'n golygu 'pen y fainc', h.y. yr eidion blaenaf neu'r gorau o'u math gw. *LIB*, t.196n. Mae camgopiad yn J hefyd lle nodir y ffurf *tal beunic*: gw. J, 61/1.

§544) Cf. *Pob ryw dyn eithyr alltut a uyd drychafel ar y werth ac ar y sarhaet* (*LIB*, 60/13-14).

§546) Cf. *Tri pheth ny dyrcheif arnadunt: wynebwerth, a sarhaet, a sarhaet alltut, a bonhedic breinhawl, ac nat kymeint anryded na breint dyn marw a dyn byw; ac wrth hynny na dyrcheif ar yr un o'r petheu hynny* (J, 137/31-34). *Tri pheth ny drycheif y neb: bynebberth, a sarhaet alltut, a gbarthrud kelein* (*WMLT*: MK98).

**wynepwarth** *wyneb* + *warth*, cf. gyda'r ffurf *wynebwerth*. Ymddengys y ffurf hwn hefyd yn *LII*, §19/10.

§549) Cf. *Pedeir bu a phetwar vgeint aryant a telir dros sarhaet teuluwr brenhin, os o hynny yd ardelw* (*LIB*, 60/17-18).

§550) *Sonnir yn LIB*, 60/19-20 ac yn S, §255: *Teir bu a telir yn sarhaet teuly6r breyr, nyt amgen try buhyn tal beinc* (S).

**am feichiogi gwreic** Cf. *Rey a dyweyt nat yaunach talu galanas gur amdanau ef nogyt un gureyc, cane wys beth yu ef, ae gur ae gureyc; e keureyth a deweyt bot en yaunhaf barnu en ol e peth pennaf, a bot galanas gur arnau a henne ene uedydhyer* (*LII*, §97/7-11).

§551) Cf. *Brawdwr a dyly gwrandaw yn llwyr, kadw yn gofawdyr, dyscu yn graff, datganu yn war, barnu yn trugarawc* (*LIB*, 47/9-11). Mae'r frawddeg gyntaf yn newydd ac o bosibl yn cyfeirio at ddysgu ar y cof yn hytrach na troi at lyfrau cyfraith. Mae geiriad H yn agosach at lsgr. D: *P6y bynnac a vynno bot yn ygnat: dysget yn graff, gofynnet yn vuydd, gbaranda6et yn ll6yr, katwet yn gofya6dyr, datkanet yn war, barnet yn drugara6c* (D f. 224r). Gw. hefyd Elias, *Llyfr Cynyr ap Cadwgan*, tt. 6-7.

**dilyt** dilid, dilyd, sef ffurf ar dilyn: gw. *GPC*, d.g. dilynaf; *GMW*, 158.

- §552) **buhyn tal benic** Eidion gorau gw. §543. Camgopiad arall sy'n awgrymu efallai mai dyma'r ffurf oedd yn y gynsail. Er y cyfeirir at werth yr eidion yn ôl gwŷr y Deheubarth yma ni cheir sôn am werth yr eidion hyn yn nhestun Bleg nac yn y testunau cyfraith eraill. Dichon fod y cyfeiriad gwrthrychol hwn at wŷr y Deheubarth yn awgrymu nad oedd awdur H yn tarddu o'r ardal honno.
- §553) Cyfeirir at Aristoteles a Selyf, sef Solomon. Adlewyrchai hyn ddysg Ladinaidd a gwybodaeth o'r beibl. Ailddarganfyddwyd y *corpus aristotelicum* rhwng y ddeuddegfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Gw. Walter Ullman, *Law and Politics in the Middle Ages* (Bristol, 1975), 269 ar ddylanwad gweithiau Aristoteles ar feddylfryd y drydedd ganrif ar ddeg. Gellir o bosibl weld dylanwad rhethreg Aristoteles ar Lyfr Cynyr ap Cadwgan yn llsgr. Q. Câi Selyf ei gyfri'n farnwr: 'Judgment of Solomon' oedd y model i lysoedd eglwysig (*Encyclopedia of the Middle Ages*, d.g. Solomon). Roedd Selyf yn frenin yn yr Hen Destament a daeth ei chwedl yn boblogaidd yn Ewrop yn yr Oesoedd Canol. Caiff ei enwi fel un o'r *Tri dyn a gauas doethuneb Adaf* yn llsgr. Peniarth 77 (gw. *TYP*, 128, 506-7). Gw. hefyd Thomas Jones gol., *Ystoryaeu Seint Greal Rhan I: Y Keis* (Caerdydd, 1992), 124-28. Cyfeirir hefyd at ddoethineb Selyf ym Marwnad yr Arglwydd Rhys yn nhestun y Brut ym Mheniarth 20: gw. *DrOC*, 58.
- §554) Seilwyd y triawd hwn, a §555 ar ddarn o gyfraith y gwagedd cf. *LIB*, 62/9-12; *WML*, 90/17-21: *Gwreic gwr ryd a dichawn rodi y mantell a'e chrys a'e heskidyeu a'e phenlliein a'e blawt a'e chaws a'e hemenynd a'e llaeth heb gyghor y gwr; a benffygyaw oll dotrefyn y ty a eill (LIB).*
- §555) Eto lluniwyd triawd ar gynnwys cyfraith y gwagedd cf. *LIB*, 62/12-16; *WML*, 90/21-25: *Ny dyry gwreic tayawc dim heb ganhat y gwr onyt y phenguch, ac ny eill benffygyaw dim onyt y gogyr, a hynny hyt y clywher y galw a'e throet ar y trothyw (LIB).*
- §556) Gw. §789n.

§558) Sonnir yn S, §1,684 y gellir rhoi tystiolaeth ar air a gweithred ond na ellir rhoi tystiolaeth ar feddwl na chalon: dyna pam y bodolai dwy gyfraith, sef cyfraith Hywel a chyfraith eglwysig.

§560-61) Pâr gwrthygyferbyniol o drïoedd.

§562) Cf. *Tri ryw tal yssyd y gwynwr: geutwg, neu atwerth, neu eturyt* (LIB, 116/8-9).

§563) Cf. *Tri ymdillwg o rwym hawl yssyd: gwirtwg, neu waessaf, neu ynytrwyd* (LIB, 116/10-11).

§566) Cf. *Teir kyfrinach yssyd well eu hadef noc eu kelu: brat arglwyd, a'e golledeu; a chynllwyn; a llad o dyn y tat, ot aefuir yg kyurinach* (LIB, 115/22-24).

§567) **defnydd** Pethau angenrheidiol i gefnogi neu i gynnal achos cyfreithiol. Cf. *A gwedy yd eysteder ena e mae yaun y'r haulur kennyc e testyon a'e keytweyt a'e defnydyeu a dyweduyt e uot ef en paraut* (LII, §77/4-6).

§569) **wiryonnyni** Diniweidrwydd (gw. GPC d.g. gwirionnyni).

§570) Cynigia wrthygyferbyniad i §569.

§571) Triawd sy'n cynnig gwrthygyferbyniad i §569 a §570.

**ddieithredic** Wedi ei eithrio. Dyma'r enghraifft cynharaf o'r gair yn GPC.

§574) Triawd sydd yn cynnwys cynghawsedd. Dengys y triawd hwn, a rhai eraill tebyg, sut y datblygwyd ffurf y triawd er mwyn esbonio cyfraith ddatblygedig a chymhleth, sydd wedi symud ymhell o swyddogaeth mnemonig wreiddiol y trioedd.

§576) Rhestrir y pethau sydd yn rhwystro damdwng. Am argae gw. §77n. Cf. *Palebynac y barner ydyn damdwg ych nev vuwch gwedy yd ymydavo ay dyledywrwyd nydyleir y damdwg yn gymynt athrvgain kanys ywerth*



*yndyledywrwyd oed drvgain ac yntev a amydeuwys ar gwerth hwnw a hwnw yw argay damdwyg. Val hyn y dyly roy y lw yn [y] lle y barner dwg y dyn am da y lw nas roday heb hyn a hyn ay kae hyn yrdaw (AL, IX.xxiv.6).*

**driblin** Gair benthg o'r Saesneg *dribble* neu *driblet*, sef difyn neu swm bychan. Daw'r enghraifft gynharaf o'r gair yn *GPC* allan o eiriadur Syr Thomas Wiliems, *Thesaurus Linguae Latinae et Cambrobritannicae* ym Mheniarth 228 '*driblin* o gadach d.g. *panniculus*' (1604-07): gw. *GPC*, d.g. *driblyn*. Defnyddir y gair hefyd yn llsgr. Z: gw. isod §1024n.

§§579-82) Mae'r trioedd hyn yn gysylltiedig â gwahanol gymalau triawd §578.

§582) **processos ysgrifenedic** Ffurf ar y gair Lladin *processus*: gw. R. E. Latham, *Revised Medieval Latin Word-List From British Sources* (London, 1965) d.g. *process/io*, - *us*. Gallai *processus* olygu cofnod o achos yn ogystal â'r achos ei hun. Cyfeiriad difyr at gofnodi'r gyfraith yn ysgrifenedig.

§585-6) Cf. §885, §1047.

§589) Âi'r triawd hwn yn groes i'r hyn a ddywed triawd §864 lle gelwir 'cynghawsedd wedi brawd' yn un o'r tri ofer ymadrodd.

§592) Cf. *O tri achaws y gossodet kyfreith. Kyntaf yw y geissaw dysc rac gwneuthur aghyfreith. Eil yw yr gwaret aghyfreith or darffei y gwneuthur. Trydyd yw yr cospi y neb a wnelhei agkyureith, trwy dirwy a chamlwrw a'r kyfuryw a dyliei (LIB, 116/18-23).*

§593) Triawd moesol.

**coddyant** Digofaint neu boen: gw. *GPC*, d.g. *coddiant*.

§594) Gw. y rhagymadrodd, t. 88: gw. hefyd Pryce, 'Lawbooks and literacy', 41.

§596) Cf. *Tri ryw wassannaeth yssyd y offeiriad llys yn dadleuoedd: dileu pob dadyl a darffo y thervynu o'r [r]ol; eil yw cadw ynn yscriuennedic hyt varnn pob*

*dadyl hynny teruynner; trydyd yw bot yn barawt ac yn diuedw wrth reit y brenhin y wneuthur llythyreu ac eu darllein (LIB, 13/15-20).*

**llythyr egoret** Saesneg: *letter patent*. Cf. Ior: *Ef a dely pedeyr keynnyawc o pob ynseyl agoret a rodho e brenhyn am tyr a daear neu am negesseu mavr ereyll (LII, §7/10-11)*. Gw. *AWR*, 135 a n. 1045 sy'n trafod y rheol yn H. Mae testun H felly yn cyfuno deunydd o Bleg a Ior.

**tir cynnif** *Register land* yw cyfieithiad Aneurin Owen yn *AL*, II, 659; ond mae'n debyg y dylid ei ddarllen fel tir a enillwyd neu a feddiannwyd sef 'acquired land:' gw. Ifor Williams, 'cynnydd, cynnif, cyni, nidro', *BBCS*, 2 (1923-5), 299-303; *Col*, 134n; a *LTMW*, 257 am ddadl mai'r un peth oedd tir cynnif a thir cynnydd (gw. hefyd Henry Lewis, *Hen Gerddi Crefyddol* (Caerdydd, 1931), 113 d.g. kyniw).

§597) Mae'r cymal olaf yn adleisio darn o destun Cyfn: *Or brath ki neb dyn hyny del yg6aet. talet y perchenna6c y ki waet ydyn. Ac or llad ydyn r6ygedic y ki hagen heb symut o dyna: ny cheiff onyt vn ar pymthec aryant (WML, 82/19-22).*

**gorddineuir** *gor + dineuir (?) < dineuaf, dinau, sef tywallt: gw. GPC, d.g. dineuaf.*

§598) *Sonnir mewn triawd o'r enw 'Tri gwerth beichiogi gwreic ynt' am waet kyn delwat (miscarriage) sydd werth wyth a deugain: gw. WMLT: Q26/Mk45. Gwerth gwaed Crist oedd deg ar hugain (LIB, 56/15).*

§600) Yn *LIB*, 114/1-3 rhestrir gwaet o grachen, dant, a thrwyn, fel y tri gwaed digyfraith.

§§601-07) Mae'r rhannau hyn o'r testun yn wallus ac mae'n debyg mai dyma pam na chawsant eu cynnwys yn *AL*, II.

§604) **daplys** Gw. §155n.

§605) Cf. §500, §814.

§609) **Ti a glywaist fry yn y dechreu** Croesgyfeiriad at ran arall yn y llyfr, sy'n awgrym fod yr awdur yn annerch y darllenydd.

§610) Mae'r triawd yn ehanu ar gymal olaf §609.

§615) **rhwym futnawc** Caiff ei gyfieithu fel *an incomplete bond* yn *AL*, II, 659. Nid oes enghraifft o'r arall o'r term yn *GPC* na *GMWL*.

§616) Mae'r triawd hwn, a'r ddau driawd nesaf, yn ehangu ac yn esbonio cymalau triawd §615. Cf. *Pedwar rwym hawl mach a brvdrw athystyon a gwybyddyait* (*AL*, IX.xxxviii.10).

§617) Cf. §73.

§618) Cf. *Teir ouer vechni ysyd: vn y6 pan brynho dyn [beth] y gan arall yr aryant, a bot yn ediuar gan berchenna6c yr aryant y gyfne6it. Kany mynn m6ynhau y mach yssyd ida6 ar y peth a brynna6d, ac nat oes vach y'r llall a gymhello ida6 y gyfne6it, 6rth hynny y mae ouer o'r neilltu kany mynn y perchenna6c ef. Yr eil y6 o deruyd y dyn rodi mach y arall ar peth anylys yn rith peth dilys a dyuot perchenna6c y da o'y anylyssu. Ia6n y6 caffael o perchenna6c y da yr eida6, kyt roder mach arna6, cany dilyit y rodi, ac ny dyleir y kych6yn o'r lla6 y mae y ny del ar6ystyl kystal ac ef y'r ar6aessaf. O deruyd y'r ar6aessaf dy6edut ny dily talu namyn kymeint ac a gauas yr y peth, pa ry6 peth bynnac vo, y kyfreith a dy6eit dily ohona6 ef [tal]u] g6erth kyfreith y peth, pa ry6 peth bynnac vo. Ac 6rth na eill kynnal y vechni y mach yd aeth yn vach arnei y gel6ir yn ouer vach. Y da anilys a dy6edyssam ni vhot, p6y bynnac a dyg6ydo am y vechniaeth bit yr argl6yd yn y ol. Trydyd y6 nyt mach mach g6reic. Sef y6 hynny, ny dily g6reic vot yn vach, cany dily g6raged g6adu mach, ac ny dily hitheu reith o 6yr o'e 6adu hi. Y kyfreith a dy6eit bot yn vach y mach a rodo g6reic, canys p6y bynnac a allo anylyssu da, kyfreith a dy6eit bot yn ia6n yda6 y dilyssu. A chanys g6reic a eill anylyssu da, y kyfreith a dy6eit vot yn reit [mach] ar dilysr6yd y genthi hitheu, canys g6r a 6atta hy, g6yr a dily y gyt a hi y 6adu mach (WMLT: Q53).*

**llyna amot a dyr a cyfreith canys trech yw yna no gwir yr amot** Sonnir hefyd yn *LII*, §69/29 fod amod yn torri deddf. Cf. gyda un o ddiharebion Llyfr Gwyn Rhydderch: *Trech ammot na g6ir* (gw. Phillimore, 'A fragment from Hengwrt MS no. 202', 145).

**§622) y teir ffonawt** Cf. *O deruyd lludyas rody guestel, e mach byeu hebrug e guestel ygyt ac ef hyt en dyogel, ac a dele kemryt e fonnaut gentaf o byd emlad. Ac ony wna henne, talet ehun e delyet* (*LII*, §62/4-6).

**§624)** Cf. **§562**.

**§626)** Cf. *Tri ryw twg yssyd: cadarnhau gwir gan tygu trwydaw perued; eil yw gwadu geu gan tygu trwydau perued; trydyd yw tygu peth petrus herwyd kytwybot, yr hyn ny wyper beth uo, ae gwir ae geu* (*LII*, 126/14-18).

**§627)** Er fod pennawd y triawd yn amrywio mae cynnwys y triawd yn hynod o debyg i gynnwys y triawd *Tri ryw twg yssyd* yn nhestunau Bleg a ddyfynnir uchod: **§41n**.

**§628)** Triawd sydd yn esbonio pwy a ddylid tyngu y math o lwon a restrir yn nhriawd **§627** (triawd sydd hefyd yn gysylltiedig â chymal cyntaf **§626**).

**§630) plas y creirieu** plas < Saesneg *place*. Term sy'n digwydd yn Llyfr y Damweiniau am fynwent neu eglwys: gw. *DwCol* §132; *AL*, IV.iv.31; gw. hefyd *NLC*, 42 a n 25.

**§631)** Triawd sydd yn esbonio ac yn ehangu ar drydydd cymal triawd **§627**. Cf. **§§809-11**.

**§635)** Triawd sydd yn ehangu ar un o gymalau triawd **§626**. Cyfeirir at y tad, a'r lleidr, a'r offeiriad plwyf yn rhoi tystiolaeth yn y rhestr o'r naw tafodiog yn **§1010**. Sonnir am y fam yn tystio i ba blentyn oedd hynaf yn **§817**.

**tyngu y esgor y neidyr** Adleisir geiriad triawd o'r enw *Teir ffordd y dygir mab i dad* sydd i'w gael yn Tim: . . . *dyged y pherigla6r etti athyged 6rtha6:*

*Esgor neidyr um y ar y beichiogi h6n os crebys tat gan vam onyd y g6r y dygaf ida6 ae en6i: Ac velly k'aul y d6c (Tim, 112/2-5). Gw. hefyd WMLT: Tim163. Cf. §234.*

**§636)** Triawd sydd yn cynnig esiamplau o'r hyn a olygir yng nghymal olaf triawd §626.

**llw cynydd** Sonnir yn *WML*, 20/8-10 a *LLI*, §15/15-6: *rey a deweyt na deletygu namen y'v corn a'e kynllyuan (LLI)*. Cf. **§133** lle sonnir nad oedd y cynydd yn atebol i neb ond ei gyd-swyddogion cyn iddo godi o'i wely.

**rhoddet iddi genyoc cyflet a'y thin** Cf. *Gureic aymrotho ehunan yn ll6yn ac ymperth y 6r. aehada6 or g6r hi. agorderchu arall o hona6 ae dyuot hitheu yg c6ynat y chenedyl. ac yr dadleu. Os diwat awna yg6r rodet y l6 ygloch heb taua6t yndi. Os diu6yn awna ynteu talet geinha6c idi kyflet ae thin (WML, 97/5-11).*

**§638)** **ny seithugya arglwyd y orsedd yn ofer** Cf. **§588**.

**§634)** Dyma ddechrau rhan o'r testun sydd yn debyg i arddull yr holiadon ar ffurf cwestiwn ac ateb.

**§645)** **un o'r tri ateb** Cf. *Tri ry6 ateb yssyd yn dadleu: adef, neu wat, neu amdiffyn (WMLT: Mk135). Tri gwrtheb yssyd: adef, neu wat, neu amdiffyn (LIB, 106/18-19).*

**ay ringyll y da o ffoadur . . .** Cf. *LIB*, 28/17-26 a *WML*, 30/9-15: *Ef bieu rannu r6g y brenhin ar maer ar kyghella6r. Ef bieu yr yscub auo dros pen pan ranher yt ytayogeu ffoa6dyr ac eu mar6 tei. Pan ada6 kyllidus ffoa6dyr yyt heb vedi. Aphan gaffer ykyffelyp o var6 ty: yrighyll ageiff ytalareu (WML)*. Yn *LLI*, §34 sonnir fod y rhingyll yn rhannu â'r arglwydd a'r cynghellor ond ni chrybwyllir y ffoadur.

**talareu** Lluosog y gair talar, sef *tâl + âr*. Mae talar yn air cytras â'r gair Hen Lydaweg *talar* sy'n golygu darn o dir ar ochr cae a adewid heb ei aredig er mwyn gadael lle i'r aradr droi (*GPC*). Mae'r enw ar gadw mewn enw ffermydd, e.e. Y Dalar Wen, yn sir Gaerfyrddin ac yn yr ymadrodd 'dod i ben y dalar'.

**eithyr gwr e hun a uno y wreic fefyl ar y faryf** Honni bod gwall neu nam ar ei farf; ‘to cast aspersions on his virility’ (*WLW*, 52). Roedd y barf yn symbol o wrywdod gŵr. Dywedir yn *Bleg: Or dyweit gwreic eir kewilydyus wrth y gwr, talet y’r gwr teir bu calwrw, kanys y harglwyd yw . . .* (*LIB*, 61/14-16). Mewn triawd dywedir beth fyddai’r geiriau cywilyddus hynny: *O deruyd y wreic dywedut geir g6ythla6n 6rth y g6r val una6 mefyl ar y varyf, nev [vnav] ua6 yny danned, neu y al6 yn gosta6c . . .* (*AL*, V.ii.148).

- §646)** Byddai ‘mefl’ yn sarhau a chysylltir hyn â *sarhaed* y wraig: gw. *WLW*, 40-68. Cf. *Sef yu e sarhaet, pob maedu a wnel e gur arney eyther am try peth: sef yu e try e dele e maedu, am rody peth ny delyho e rody, ac am e chaffael gan ur adan tuell, ac am unau meuel ar e uaryf; ac os am e chaffael can ur e maed, ny cheyff namen henne o dyuuen, cany deleyr e dyuuen a’r dyal am er un kyulauan. Sef yu e gowyn, o cheyff e gur gan wreyc arall, talet ydy chue ugeynt e treygel kentaf; am er eyl, punt; os keyff e tredeweyth, escar a eyll hep colly dym o’r eydy. A’r da a gaffo am e try peth henne a dele bot en wahanedyc e urth e gur* (*LI*, §51/4-13). Cf. hefyd: *Ny dylir maedy g6reic onyd o dri acha6s: am rodi peth ni dylyo, ac am gaffel g6r arall genthi, ac am dyuno mefel ar varaf y g6r* (*S*, §1961): nodir hyn hefyd yn *DwCol* §182. Adleisir *LIB* pan sonnir am y wraig yn cael ei chosbi: dylai hi dalu camlwrw i’w gŵr am ei chamwedd neu gael ei churo . . . *neu trawet hi a gwyalen kyhyt a’e gupyt tri dyrnawt lle y mynho, eithyr y pen* (*LIB*, 61/16-7). Yn nhestun H ehengir ar y syniad pam na ddylid ei niweidio ar ei phen. Mae’r darn ychwanegol hwn yn llawn cyflythrennu. Roedd trawo’r pen yn cael ei gyfri’n weithred ddifrifol: gw. *LIB*, 56/29-57/4.
- gwarthrudd** *gwarth* + *rhud* sef cywilydd neu waradwydd. Yn nhestun H mae’r gair hwn hefyd yn golygu’r hyn sy’n cael ei gyfleu gan *gowyn* yn nhestun Ior (gw. *WLW*, 66-67).

- §647)** Darn diffygiol o gynghawsedd, ac oherwydd hynny mae’n anodd dod o hyd i gyfatebiaethau iddo mewn testunau eraill. Mae’n debyg i’r testun hwn a’r gynghawsedd sy’n dilyn gael eu gadael allan o *AL*, II gan fod y testun mor fylchog.

**un o'r tri dyn a'e dily o cyfreith . . .** Adleisir triawd sydd i'w ganfod yn Bleg: cf. *Tri dyn a dily tauodyawc yn llys: gwreic, ac alltut agkyfuyeithus, a chryc annyanawl* (L1B, 113/18-19).

**§651) ysgolheic** Ni ddylid cosbi ysgolhaig yn yr un modd ag y cosbwyd lleyg: gw. §689.

**§654)** Dyma ddechrau adran sy'n perthyn yn agos i destun Ior.

**Ony bydd yn y maes a'y cymero** Cf. *Ocheyf yny maes [nep] ay cymero y ganthau ac ardelu o hanau o arwayssaw yn lle arall roder oet [a deleho] ydau y geyssyau y arwayssaw nyt amgen trydyeu yn un gymhut [ac ef o byd ynyr ail kym6t na6 dieu] pytheunos ygwlat arall ac y uelly y cerda hyt y tryded lau . . .* (VC.III.ii.40). Mae'r cyfeiriad at yr ail gwmwd yn ychwanegiad yn llsgrau. D, C a K yn unig. Gw. hefyd LII, §114/31-32.

**§655)** Cf. *Ac euelly e kerda hyt e trydellau, ac en e trydellau keureyith dyannot. Ac os trydellau a geyff en e maes a'e kymero e genthy, y adael ydy, eythyr nat annotter o'r dyd hunnu allan keureyith amdanau* (LII, §114/33-36).

**§656)** Cf. *Puybynnac a dotto arwassogaeth em pen arall a pallu e arwaessaf ydau, byt lleyder kyuadef herwyd meynt e lledrat a dalhyer ganthau* (LII, §115/1-3). Ceir ychydig o amrywiad o ran y geiriad.

**§657)** Cf. *Eg keureyith Hewel e mae hyt eguerth pedeyr keynnyauc e uot en lleyder guerth; o henne allan e uot en eneyt uadeu. Ereyll a dyweyt o pob anyueyl petwartroedyauc a dyccer en lledrat, nac oen na myn na porchell, e uot en eneyt uadeu; eyssyoes dyogelhaf yu hyt pedeyr keynnyauc. E lleyder a werther, seyth punt yu e werth; er un a uo eneyt uadeu, ny deleyr dym o'y da, cany deleyr e dyuuyin a'r dyal, eythyr talu e'r colledyc y da. Ac ysef achaus e dele ef talu y'r colledyc, urth na dele adau arnau un delyet tra'y keuen* (LII, §115/3-11).

**§658)** Cyfeirir at Fleddyn ap Cynfyn yn Ior yn wahanol i H: *Eg keureyith Hewel e bu tal ac eyl tal am ledrat, ac odyne e symudus Bledyn uab Kenuyin am uot en*

*dygaun talu e dyn y gollet urth y damdug (LII, §115/12-14). Yn H defnyddiwyd yr wybodaeth hon am Bleddyn i greu triawd: gw. §698.*

- §659)** Cf. *E da enteu e ford y mynno aet, ony byd plant ydau; o byd plant ydau enteu, ny dele enteu kemynnu eythyr dayret e'r egluys a'e delyedyon (LII, §115/14-16). Yn wahanol i hyn sonnir yn H fod gan y brenin yr hawl i eiddo lleidr a ddiennyddid os nad oedd y lleidr wedi gadael yr eiddo i rywun yn ei ewyllys. Âi hyn yn groes i reol yn DwCol sy'n nodi nad oedd gan frenin yr hawl i eiddo neb a ddiennyddid: O deruyd y gur guneuthur lladtrat a barnu y dyenydu am e lladtrat hunnu, a tebygu o'r argluyd deleu e da ef a heuyd y dyenedu, nys dyly; ac ny dely da y gureyc na'y ueybyon hyt en oet pedeyr bluyd [ar dec], na dym o'r a oet argluyd ef arnau. Ny deleyr y duyn am y lladtrat hunnu namyn e eneyt, a'y uot en argluyd ar y gureyc a'y ueybyon ac ar eu da hyt tra delewynt wy uot urth e noe ef (DwCol, §§443-44).*
- §660)** Cf. *Ny dele er argluyd ebedyu e den a dyenydo ehun; pa dyhenyd bynnac a darfo ydau enteu egwlat arall ac nas dyenydhyo ef euo, er argluyd a dele y ebedyu. Ny byd galanas am leyder, ac ny byd llys erug duy kenedel er e dyenydyau (LII, §115/16-20).*
- §661)** Gw. y rhagymadrodd, t. 42. Cf. *Os ogadw geni ameithrig ydd arddelw yna y dyly y rynat govyn pwy dygeidwait ti afle ymaen. Ac yna ydyly ynte henwi y geidwaid afle ymaent [wynt] ac ef addyly oed wrth y lle y bo y keidwaid a henwed rivedi agwedded digon o hynny a digon [i] am ben hynny. Ac gwedi dyweto ef hynny kyn metho [iddaw] y to kynta ef aill dwyn to arall eithyr nachaif ef oed wrth yr ail to ac ef oed wrth yr ail to ac [os] yn ymaes y byddant yna y dyly y dangos ay henwi ay dwyn attaw. Ac yn gyntaf dodet ehvn y lw gwelet y veithrig a gwybot y eni yneiddaw ehvn ac nas gwahanodd dim eirioed ac ef ac onidry ef ylw anolo yw iddo dim. Oddyna tyget yn gyntaf ykyntaf a henwis athyget hwnnw gwelet y veithrig a gwybot y eni ymperchenocrwydd y gwr aihenwi ac na wanodd eirioed y wrtho. Arkeidwaid hynny yn vn vrait ac ef ydylyant vot. Ac velly tyget yr ail. Ac onis tygant velly divarnedic vydd. Adigon yw dav os gyr yn addwyn ac onit os lys ar y geidwat o byd addwyn vnvrait ac ef. Nidos amanathwyndra namyn alltud ar tri dyn*



*nid gair ev gair beth bynac addwetwyn credywr atoro y brofes a tyst a dygo cam dystiolaeth a llwfyfyr kynevodedic a dyn heb oed atep arno agwraic kani ellir keidwad orai hynny a dall hefyd gani wyl yryn a gatvo (AL, IX.i.18-19). Cf. hefyd LII, §114/3-9.*

**a chyt boet ef alltut** Mae'r testun sydd yn dilyn wedi cael ei gamleoli yn *AL*, II lle mae'n digwydd ar ôl §832: gw. y conspectws.

**nyt geir y geir** Mae'r cymal yn dwyn i gof Raglith Cyfn yn sôn am Hywel dda a'i gwmni yn dod a'r cyfreithiau ynghyd yn yr Hendy Gwyn: *A geir y6 y geir 6y ar pa6b (WML, 1/9)*. Sonnir yn aml yn y testun am y tri gŵr na ddylid credu eu gair: *Tri dyn nid gair ev gair ar ddim: krevyddwr a doro i proffes, a thyst a ddyko kam dystioleth, a lleidr kynodedic (WMLT: Z86)*. Cf. §1047.

§662) Cf. *Os oalldvdieth ymyn yr howlwr anawddwyno y keidwaid llyma val ydyly iddywedvt gwedy y darfo yr keidwat tygv y ryn a dyngo yna ydyly yrhowlor nev iddavot nev y ganllaw drosto dywedvt alldvt wyt ti [ac] o gwedi di hyny [y] mae y my ddigon ay gwr arnat ti ac ar y kyfreith y dodaf nat gayr gayr alldvt ar Gymro. Yna ymae iawn yr keidwat nev yr tavot drosto dywedvt vn o tri attep ay arddelw o vrait ay gwat alldvdiaith o doddi ar y kyfraith ydyly henwi [i] pwy y dywait ef y vod yn alldvt a gwadv alldvdiath hefyd (AL, IX.i.20).*

**ti a gaffy obry lle may yn dywedut am deithi tyst** Cyfeirir at ran arall o'r testun: gw. §833.

§664) Cf. *Os o cadu kyn coll e dewys e ardelu, gadget e'r gur damdug ar e gueyth rydywedassam ny uchot, a guedy as damdygho dywedet enteu y uot ganthau ae uythnos ae mys ae tymhaur en huy nogyt gan e llall, a bot ydau enteu a gatwey o ryv keytweyt gynneu rydywedassam ny uchot, ae uythnos ae petheunos ae o uo muy yn gynt noc e colles ef er eydau; ac o cheyff enteu henne dogyn yu ydau (LII, §114/10-16).*

§665-6) Cf. *Tayr fforth ydyleir dienyddv dyn amladrat yaddef oy ben ehvn ac oballv yarddelw [iddaw] ac oe ddaly cryfoaedraeth o gwat ef y fo val hyn yprovir llw ydeiliat y vot dair nos yn ygeisio [yni] gartref agwedi hynny ygael yw ddaly [yn ffo ac] oeanvod (AL, IX.iii.3).*

§667) Cf. *Nid oes lys ae ydeiliat vn deiliat nyd dim kanit gayr gair vn dyn yn vn lle onit y naw tyvodioc* (AL, IX.iii.4).

§669) Cf. §494.

§672) *Sonnir hefyd yn Ior na ddylai perchennog adnau, a gedwid yn yr un tŷ ag eiddo wedi ei ddwyn, golli ei eiddo yntau: Ac urth henne y barn keureyth en halawcty ac ef ac a uo ygyt ac ef, eythyr atneu, o byd: cany dele perchennauc cadu adneu e ty rac lledrat, ny byd colledyc enteu o'r eydau* (LII, §112/13-16).

§673) Am amot gw. LII, §69.

§676) **cany bydd halawcty** Cf. *Ny byd holowcty ty [y] lleidr ochair y lleidr na chynychaer ny byd namyn am ydda ehvn* (AL, IX.iii.10).

**halawcty** *halog + ty*. Tŷ oedd wedi ei halogi, sef ei amhuro neu ei lygru drwy ran y perchennog mewn lladrad, yn arbennig darganfod eiddo wedi ei ddwyn yn y tŷ (*foul house* yn *LTWL*, 353). Roedd gan y brenin hawl i feddiannu eiddo perchennog y tŷ: gw. LII, §112/9-16 a *Col*, §364; nid yw'r rheol hon yn ymddangos yn Cyfn, Bleg na'r testunau Lladin. Byddai'r eglwys hefyd yn meddiannu eiddo o *halogdai* oedd ar eu tiroedd: gw. *NLC*, 229-30.

§677) Cf. *Ny ddyleir krogri lleidr o llethir vn oe yscrybl yn [y] llys kynyddatle namyn y ollwg yn ryd ar neb ay lladdo attebet yr arglwyd o leidr* (AL, IX.iii.9).

§681) Dywedir yn Cyfn: *Ny dily neb wneuthur ia6n nac ateb dros weithret y gaeth onyt am ledrat* (WML, 117/15-7). Cf. hefyd: *Dirwy gaeth am [y] ladrat kyntaf chwevgain am yr ayl pvnt am y drydet trychv aylot iddo: a hwnnw [a] vyt lleidr kyhoeddoc* (AL, IX.iii.11). Mae'r dehongliad o ffyrnigrwydd yn adleisio Ior: . . . *sef yu fyrnygruyd, dyuynau y da, ac ydau ehun ac e'r nep byeyffo* (LII, §115/25-26).

§683) Cf. *Os o uaru ed escarant, hy a dele caffel kubel eythyr er yt; ny dele gureyc en e byt caffael ran o'r yt onyt gureyc pves. Os o uyv a maru ed escarant rannet y claf, a'r peryglavr ygyt ac ef, a dewys er yach* (LII, §45/8-12).

§684) Cf. *Am lay nocheinyc teir pvnt. Ony ayll ytalv yddeol addyleir. Ochair yn [y] wlat gwedy hyny dros yr oet y gallo gyntaf adof tyr yr arglwyd [sseith] bvnt addyleir iddo oni chaif vach ar hyny yddeol eilwaith kany ayn ybro nyroddo gwir. Ochair yn [y] wlat y dryddet waith iddienyddv addyleir. O geinyoc hyd yn chwech saith bvnt. O ny chaif vach ar hyny yddeol addyleir. Ochair yn [y] wlat gwedi hyny iddienyddv addyleir* (AL, IX.iii.1-2).

§686) Cf. y drafodaeth am fwyd wahardd a dehol yn §240.

**eneit faddeu** *enaid + maddau*, sef 'gollwng neu ymadael â'. Wedi ei farnu i farwolaeth (GPC, d.g. eneidfaddau).

§689) Cf. Tri lleidyr a dieinc o letrat kyfadef: reodus a grwytro teir tref, a naw tei ym pob tref, heb gaffel alwissen a'e gwaretto na gwestua, kyt dalher a lletrat ymborth gantaw, ryd vyd o gyfreith; a gwreic o gytletat a'e gwr priawt; a lleidyr edyn, eithyr talu gwerth kyfreith yr edyn o'e perchenhawc (LIB, 122/26-32). Cf. hefyd: *Tri dyn a dieinc rac dihenyd kyfadef: yscolheic coruna6c; a mab hyt tra uo ar vreint y tat na dylyir arna6 na dir6y na dihenyd hyt ympenn y pedeir blyned ar dec, kanyt ydy6 yn oet y dyly kyfreith argl6yd vot arna6; y tat hagen adyly g6neuthur ia6n drosta6 yr argl6yd ac yr colledic; a dyn [agkyfieithus] a vyrryer o log y tir hyt ympenn teir nos athri dieu, yny [6ypynt] kyfreith y6lat, ny dylyir arnunt amgen noc etryt yr colledic yr eida6: yscolheic coruna6c ny dylyir arna6 na dir6y na dihenyd am y lletrat kyntaf, namyn y diurda6 ae ada6 ar vreint lleyc* (AL, X.vii.338).

**barddawt** *bardd + awd*, sef barddoniaeth neu adloniant. Digwydda'r ffurf yn Llyfr Coch Hergest: gw. J. Gwenogvryn Evans (gol.), *The Poetry in the Red Book of Hergest* (1911), 1051, 32-33. Cyfeiriad difyr at bobl yn crwydro o un lle i'r llall er mwyn adloniant ac adrodd barddoniaeth.

§691) Cf. §677.

§693) Cf. [*Ny dylyir am un anefeil gbyllt na dir6y, nachaml6r6, na dihenyd; nac am pren heb labur arna6, sef y6 h6nn6 prenn hep lad y von nae vric nac ir vo nachrin.*] (*AL*, V.i.10). Yn rhan olaf yr adran hon adleisir triawd sydd i'w gael yn Bleg: *Tri pheth a hawl dyn yn lletrat, ac ny chygein lletrat yndunt: adeilat, a diot coet, ac eredic* (*LIB*, 112/1-2). Nid yw cosb lledrad yn perthyn i'r gweithredoedd hyn gan na ellir lladrata gweithred. Er hyn byddai'n rhaid talu camlwrw pe gwneid un o'r rhain heb ganiatâd (gw. *LIB*, 226-27n).

§694) **ac aryant o ddieithyr y llestyr, a blawt heb y llestyr, a gwenyn** Mae'r cymal hwn yn dwyn i gof triawd sydd i'w ganfod yn Bleg: *Tri pheth ny at kyfreith eu damdwg: blawt, a gwenyn, ac aryant; kanys y kyffelyb a geffir yrdunt* (*LIB*, 114/17-19). Efallai mai fersiwn o'r triawd hwn oedd yn dilyn yn §695.

§696) **mal cnyw hwch** Cf. *Nyt oes werth kyfreith ar gnyw hwch hyt ympen y ulwydyn; ac yna kyfreith hwch mawr a gymer* (*LIB*, 93/20-22). Cf. §576.

§698) Cyfeirir yma at rôl y ddau frenin mewn cyfraith damdwng. Cyfeirir at Fledwyn yn y cyd-destun hwn yn Ior: *Eg keueryth Hewel e bu tal ac eyl tal am ledrat, ac odynd e symudus Bledyn uab Kenwyn am uot en dygaun talu e dyn y gollet urth y damdug* (*LII*, §115/12-14), tra y cyfeirir at Rhys yn Bleg: [*Yr argl6yd*] *Rys ab Gruffut [uab Rys uab Te6d6r] arbennic Deheubarth tr6y duundeb ae wlat aossodes g6berth damt6g ar bop ll6dyn nyt amgen no thygu or perchenn y talhei y ll6dyn yg6berth a wnelei arna6 ac ycaffei yna yrda6* (*Dim.II.xxxi.9*, nid yw ym mhrif destun *LIB* ond yn yr amrywiadau testunol ar t. 154 allan o lsgr. L). Sonir am Rhys yn y cyd-destun hwn hefyd yn Lladin D, 361. Dengys hyn fod testun H yn cyfuno dau draddodiad gan greu testun newydd allan o Ior a Bleg/Ladin D.

**damdwng** *dam + twng*. Y weithred o dyngu ynghylch eiddo. Gall olygu fod hawlwr yn tyngu mai ef sydd berchen eiddo sydd ym meddiant dyn arall, neu gall hefyd olygu tyngu i werth eiddo nad oedd arno werth cyfreithiol (*WLW*, 198-99).

§699) Cf. *Palebynac y barner ydyn damdwg ych nev vuch gwedy yd ymydavo ay dyledywrwyd nydyleir y damdwg yn gymynt athrvgain kanys ywerth ynydyledywrwyd oed drvgain ac yntev a amydeuwys ar gwerth hwnw a hwnw yw argay damdwg. Val hyn y dyly roy y lw yn [y] lle y barner dwg y dyn am da y lw nas roday heb hyn a hyn ay kae hyn yrdaw (AL, IX.xxiv.6).*

§701) Yn ôl Ior: *Amus en try thymhair ny chyll na'y werth na'y ureynt er pory allan: ac ysefynt e rey henne, o hanner Ebryll hyt hanner Mey, a mys Hydref ar y hyt; ac ot a em pennyll, keny bo namen teyr nos a thry dyeu, punt yu e werth (LII, §121/9-12). Nodir yn LIB, 53/19-20 a WML, 64/21-65/1; 67/20-21 fod amws sy'n pori allan fel milgi heb ei dorch a bod y ddau yn colli eu braint, gan gymryd fod yr amws yn pori y tu allan i'r cyfnod sy'n cael ei grybwyll yn Ior. Sonnir yn AL, IX: *Amws yn pori allan kolly y vraynt awna achyt [y] kollo ef vraynt amws ny cholles ef vraynt palffray (AL, IX.xxiv.7).**

**phalffrei** Benthyciad o'r Hen Ffrangeg *palefrei* sy'n golygu ceffyl ysgafn cyffredin yn hytrach na cheffyl rhyfel (*GPC*, d.g. palffrai, palffre). Gw. hefyd Davies a Jones (goln.), *The Horse in Celtic Culture*, 51, 54, 71, 124, 125, 127.

§702) Sonnir nad oedd *bytheuat* yng nghyfnod Hywel Dda ac felly nad oedd gwerth cyfreithiol arno. Efallai ei fod yn gi a ddaeth i Gymru gyda'r Normaniaid. Caiff y *bytheuat* ei restru yn LII, §140 fel un nad oedd gwerth cyfraith arno ac felly fe gâi ei ddamdwng (gw. hefyd LIB, 54/7-11; WML, 35/8-10). Gw. *DrOC*, 191-93; *WKC*, 271-72.

**ystalwyn** Benthyciad o'r Saesneg Canol *stalloun* sy'n golygu ceffyl heb ei ysbaddu. Enw arall arno mewn hen destunau oedd *march keillawc*: gw. Davies a Jones (goln.), *The Horse in Celtic Culture*, 53. Yn ôl Ior: *Ny deleyr dale er ystaluyneyt o hanner Ebryll hyt hanner Meheuyn (LII, §156/25-6).*

**amws** Yn AL cyfieithir *amws* fel *ystalwyn* ond yn amlwg gwahaniaethir rhwng y ddau yma. Am amws gw. §528n.

§704) Dyma ddechrau adran ar ddamdwng sydd â'r rhan helaeth ohono yn unigryw i H.

- §707) Sonnir yn *LII*, §113/35-7 na ellir damdwng adnau, neu eiddo a roddir fel benthyg, llog, neu gymwynas, tra gellir damdwng lledrad, colled o lesgedd neu anghyfarch (*LII*, §113/38-41). Sonnir am hyn hefyd yn *WML*, 118/4-8. Adleisir yma'n ogystal gyfraith am arfau sydd i'w gael yn *AL*, V: *Kyfreith ar yf y6 y damd6g yny lla6 y g6elher; ac ony ludyir ny dylyir ymdana6 na dir6y na chaml6r6 nac ar y warcheitwat nac ar y damdygwr namyn y gymryt yn ryd: [ac] or lludyir ynteu bit ar y breint yd holer (AL, V.i.15).*
- §710) **arappawl** ymgais i ailagor achos sydd eisoes wedi bod yn y llys: gw. *AL*, X.vi.4.
- §716) Cf. . . . *os anyueyl a damdug, damdyghet a'r llau assue ydau ar e glust deheu e'r anyueyl a'r llau deheu ar y kreyr, a'r llau deheu e'r amdyffynnur ar e glust assu e'r anyueyl (LII, §113/44-47).* Eir ymlaen yn H i egluro sut i ddamdwng adar gan nad oes ganddynt glustiau i afael ynddynt. Darn sy'n dangos gwreiddioldeb yr awdur.
- §718) Sonnir yn *AL*, V.ii.47 y gellir damdwng anifail yn ôl ei groen. **diwahan** Rhoddir y diffiniad hwn yn llasgrau. O a K: *sef y6 da di6ahan, pei collei dyn eidon a chaffel dryll or eidon 6rth y damt6g, dylyu o hona6 [ef] yno caffel c6byl (AL, VI.i.18).*
- §719) **gwahanedic** Eiddo fel arian neu anifeiliaid (*AL*, VI.i.19). Yn ôl *GPC* *possessions that can be divided and share*: gw. *GPC*, d.g. da gwahanedig.
- §720) Cf. *[Rei adyweit na dylyir damdvg creireu eglvys ae hoffer: nini adywedyn y dylyir, sef ae damdvg, y claswyr ar personeit; kanys vynt yssyd berchenogyon ar yr eglvys vynteu adylyant damdvg ychreireu kyn bvynt ygkadv lleygyon pan goller.] (AL, V.ii.60).* Mae'n digwydd yn llasgrau. F, Q, a K. Defnyddir y teitl *offeiriaid* yn hytrach na *claswyr* yn H.
- §723) **cynghawsaeth amdanaw sydd o cyfreith** Cyfeiriad at gynghawsedd sydd bellach wedi ei golli?

§727) Sonnir hefyd yn Ior na ddylid dienyddu dyn am ledrad *angynrchawl*, sef lleidr honedig na chafwyd yr eiddo coll yn ei feddiant: *Ket pallo reyth y llourud er meynt e lledrat a dywetter arnau, ny dely bot en eneyt uadeu o geyll talu seyth punt; cheny allo, ny dele bot en eneyt uadeu namen en dyholuur, cany deleyr dyenyddu nep ny dalyer dym en y lau (LII, §111/43-48)*. Ceir cyfeiriad at Fleddyn ap Cynfyn yn H nad yw'n bresennol yn Ior a sonnir y ddylid dienyddu'r lleidr os y caiff ei ddal yn y wlad am y drydedd waith.

§728) Cf. *Llw vn dyn yssyd gwbyl y wadu ki (LIB, 53/3-4)*.

§730) Gellir cymharu'r adran hon ar wadu â'r adran yn Ior. Cf. *E wadu huch neu dauat nev ueych kechuyn, e lv pymhet: deu onadunt en wyr not a deu en wyr aduynn hagen, ac enteu ehun; ac yna y byd deu hanner y reyth yrug e duy kenedel, cany ellyr rannu petwar guyr en trayaneu (LII, §111/29-32)*.

**beich cefyn** *Back burden*, beth all dyn ei gario: gw. *GPC*, d.g. baich.

§732) Cf. y dyfyniad o Ior yn §730.

§735) Cf. *E wadu pun march ac eydyon (canys march a eyll duyn eydyon en e pun) chue guyr a dau arnau ac ef ehun en seythuet, ac eu hanner en wyr not (LII, §111/26-28)*.

**pwn march** Yr hyn a ellir ei gario ar gefn ceffyl. Daw *pwn* o'r Lladin *pundus*, sef llwyth: *GPC*, d.g. pwn.

§742) **cany ddylir annot llw gweilydd am ledrat** Cf. *Nyddleir anot llw gweilydd amladrat pa le bynac ygovyner (AL, IX.ii.9)*.

§743) Cf. *Tri lle ny dily dyn rodi ll6 gbeilyd. Vn y6 ar pont vn pren heb ganlla6. Eil y6 ar porth y vynwent. kanys canu ypter adyly yna rac eneiteu cristonogyon ybyt. Trydyd y6 ardr6s yregl6ys. kanys canu ypater adyly yna rac bron ygroc. Hyn odyonyon adieinc rac ll6 gbeilyd. argl6yd. ac escob. a mut a bydar ac aghyieithus agbreic veicha6c (WML, 130/3-10)*. Digwydda cymal olaf y triawd yn *AL*, IV.i.11. Cf. §993.

§748) Triawd yn seiliedig ar affeithiau galanas.

§752) **sef yw lleidyr cohoeddawc** Cf. §681. Cf. hefyd: *Dirwy gaeth am [y] ladrat kyntaf chwevgain am yr ayl pvnt am y drydet trychv aylot iddo: a hwnnw [a] vyt lleidr kyhoeddoc* (*AL*, IX.iii.11). Eglurir bod y dyweddiad *cyhoedd a gryc* yn tarddu o'r gyfraith hon. Cf. hefyd *AL*, V.ii.40 lle rhoddir yr un cosbau i alltud am droseddu.

§§753-4) Arddull holi ac ateb.

§756) Nodir yn *AL*, IX.iii.1 mai un o gosbau lladrad yw alltudiaeth ac os caiff yr alltud ei ddarganfod yn y wlad am y drydedd waith y dylid ei ddiennyddu. Dywedir hyn eisoes yn nhestun H ac fe gysylltir y rheol â Bleddyn ap Cynfyn: gw. §727.

§758) Cf. §718.

§759) **'Dyoer,' heb yr ynteu 'y nos a'r nos . . .'** Mae cyfatebiaeth i'r rhan hon mewn cymal o'r triawd *Tri phetwar yssyd* yn Bleg: *Vy yw cadw gwesti yn gyfreithawl; nyt amgen no'e gadw o pryt gorchyfaerwy hyt y boreu, a doddi y law drostaw o'e gywely teir gweith y nos honno, a hynny tygu ohonaw a dynnyon y ty ganthaw yn y reith* (*LIB*, 109/9-13). Y syniad yma yw bod y gwestai yn tystio i'r amddiffynnwr roi ei law dros yr anifail dair gwaith yn y nos i wneud yn siwr fod yr anifail yn ddiogel, a'i gael yn iach (*LIB*, 225n). Darn newydd ar ffurf cynghawsedd.

**gorchay ayrwy** Ceir esboniad y testun beth yw ystyr y term sef y cyfnod o amser rhwymo anifail tan y bore. Ffurf arall yw 'gwarchae aerwy' sy'n cynnwys yr elfen 'cae' sef 'enclosure'.

§761) O'r gyfatebiaeth a geir yn *AL*, VII.i.42 gellir gweld bod y darn hwn o destun ar un adeg yn dilyn §1154. Yn y llawysgrif wreiddiol (Peniarth 164) mae'r darn hwn i'w gael ar gychwyn f. 63 tra fo gweddill y gyngawsedd ar f. 91. Mae hyn yn awgrymu bod f. 63 wedi ei leoli ar ol f. 91 ar un adeg.



- §762) Gan fod y testun yn wallus mae'n anodd ei leoli. Efallai ei fod yn atseinio'r triawd sydd i'w gael yn Bleg: *Teir gweith y renhir yr vn tref tat rwg teir grad kenedyl: yn gyntaf rwg brodyr; eilweith rwg kefynderw; tryded weith rwg kyferderw; odyndy nyt oes briawt ran ar tir* (LIB, 75/1-4).
- §763) Cf. §786. Mae'r testun yma'n hynod wallus ond o'r hyn y gellir ei dirnad gwelir ei fod yn adleisio adran sy'n sôn am rannu tir yn AL, IX.xxxi.1. Cf. hefyd LII, §82/12-18.
- pedeir erw yn y dyddyn** Sonnir yn Ior i Fleddyn ap Cynfyn ddiwygio hyn i ddeuddeng erw i fab uchelwr, wyth erw i aillt ac wyth erw i fab taeog ond ei bod yn gadarnach aros gyda'r rhaniad o bedair erw (LII, §82/1-4).
- §764) Mae rhan o'r testun sy'n dilyn yn adleisio LIB, 74/21-8 a LII, §82/12-18. Ond eto'n wahanol i'r testunau eraill rhoddir y pwyslais ar y mab hynaf yn H/PeniARTH 278 sydd efallai'n adlewyrchu ymgais Llywelyn i sicrhau olyniaeth ei deyrnas i Ddafydd ei fab hynaf cyfreithlon: gw. §57.
- §767) Cf. *Ny dylyir rannu tir o gyuerder6 allan: a channydylyir rannu, ny dyly neb cad6 rann y gilyd o hynny allan nac o l6 nac oda* (AL, V.ii.34 (sef DwCol)).
- §768) Sonnir hefyd yn AL, V.ii.34 na ddylid rhannu tir o gyfynderw allan. Sonnir yn Tim: *ny dyly na nai nac ebyrth na rany nac at rany na chyhydedy* (Tim, 81/26-27).
- §770) Cf. *Ny cheiff neb y tir y gyt etiued, megys y vrawt neu y gefynderw neu y gyferderw, gan y ofyn trwy yr vn gyt etiued hwnnw a vei varw heb etiued idaw o'e gorff, namyn gan y ofyn trwy vn o'e ryeni a uu perchen y tir hwnnw hyt y varw, ae tat ae hentat ae gorhentat. Y tri hwnnw a geiff, os ef a uyd nessaf kar y'r marw* (LIB, 75/8-14).
- §771) Cf. *Gwedy ranho brodyr tref eu tat yrydunt, or byd marw vn ohonunt heb etiued idaw o'e gorff, neu gyt etiued hyt geifyn, y brenhin a vyd etiued o'r tir hwnnw* (LIB, 75/15-18). Ychwanega H y dyweddiad hwn at destun Bleg: *tir y llettafy geinioc*, sy'n adlewyrchu gwybodaeth bersonol awdur y testun.

§775) Cf. *A guedy bo maru e brodyr, e keuenderu a dele kystadlu o mennant. Sef ual e deleant, etyued e braut yeuhaf a dele kystadlu ac etyued er hynaf dewyssau, ac euelly o hynaf y henaf hyt ar yr yeuhaf: a'r kyuran honno a dele bot eryghunt huenteu en eu hoes. Ac ony byd da gan e keuerderu e kyuran a uu gan eu tadeu, uynteu a deleant kemeynhiau ual e keuenderu; a guedy e ran honno ny dele nep na chemeynhiau na chyunewydyau. Am tyr guelyauc e deleyr mal e dywedassam ny. Tyr kyllydus hangen ny deleyr e rannu herwyd brodyr namen maer a chyghellaur a deleant e rannu, a rody e paub kystal a'e gilyd en e tref; ac urth henne e gelwyr en tyr kyuryf (LII, §§82/18-83/4).*

**etifedd y brawt hynaf a ddyly cystadlu** Âi hyn yn groes i Ior.

**dir gwelyawc** Dyma'r unig ddefnydd a wneir yn H/Peniarth 278 o'r term hwn a chynigir dehongliad ohono. Dyma'r dull mwyaf cyffredin o ddaliadaeth tir. Câi ei gymryd yn ganiataol yn y llyfrau cyfraith sydd prin yn cyfeirio ato. Fel mae geiriad H yn awgrymu tir oedd yn cael ei drosglwyddo gan dad i'w fab oedd tir gwelyog ac a fyddai'n cael ei rannu'n gyfartal rhwng brodyr neu berthnasau agosaf y teulu. O'r ddeuddegfed ganrif ymlaen dechreuwyd peidio â rhannu a chadw'r tir yn fath o gyd-eiddo i'r teulu. Yn gyffredinol câi'r tir teuluol hwn ei enwi ar ôl y perchennog cyntaf. Roedd nifer o welyau yn Ninlle, Arfon yn nechrau'r 14g, e.e. Gwely Cynwrig ap Trygyr a Gwely Wisgiaid: gw. Jenkins, *Cyfraith Hywel*, 57-59; hefyd Jenkins, 'A lawyer looks at Welsh land law', 236-38; 241-47.

§776) Cf. *O deruyd e den holy tyr a daear o kyuran brodyr neu keuynderw neu kyuyrderu yaun yu dyuot ar e tyr a dyweduyt o hanau ef y haul herwyd e dylyho ae oe uot ef en priodaur ae oy uot enteu en dyledauc arall ac na re gauas ran or tyr hun eryoet; ac o syt a amheuo ydau e uot en pryodaur bot ydau dygaun a gatwo y priodolder; ac o syt a dyweto re gaffael ran o hanau bot ydau dygaun a guypgo nas re gauas. Ony wedyr e uot en dyledauc ar kyuran or tyr hun, yaun yv kyuran ac ef. O guedyr eny erbyn yaun yu muynhau y keytweyt enteu ae vybydyeyt. Os ef a dyweyt enteu er amdyffynnur: Dyoer [ep ef] ny wadaf uy dy ryuot ty en priodaur ema; eyssyoes hep ef tu a thal a keueyst ty am e lle hon a tytheu ae kemereyst a hunnv e syd gennyt; ac ot amheuy ty henne [e] mae eme dygaun ae guyr [ebot en wyr;] ac ar e kyfreyth*

*e dodaf uynheu urth re gaffael o hanaut ty de kubil na deley tytheu emy dym. Ot adef er haulur henne byt ar a gauas. Os guata enteu muynhaer guybydyeit er amdyffynnur. Os ef a dyweyt enteu: Dyoer hep ef dechreu holy a wneythum y a dyweduyt uy mot en dyledauc ac na re keueys ran ac o bey a amheuey uy mot en dyledauc bot emy dygaun a uypey na re gauas ran or tyr hun; ac nyt ue ryuot en priodaur a dodeys y em pen ue keytweyt namen ue mot er aurhon; ac e sef achaus yd uyf [y en holy] urth na re keueys ran o honau; ac ny wedeyst tytheu ue mot y en priodaur; ac ar e kyfreyth e dodaf uy nat llesteyr arnaf uy er ardelu re dyweddeyst ty e uuynhau uen tystyon am keytweyt. E kyfreyth a dyweyt en e delyho den peth truy tystyon a cheytweyt o chubyl wedyr ene erbyn deleu muynhau e tystyon o byd haul e dylyer dody tystyon neu keytweyt arney (AL, VII.i.48). Mae darn ychwanegol ar y cychwyn yn H yn sôn y dylai'r mab fynd at yr arglwydd i 'gwyno' am ei frodyr. Mae'r gynghawsedd hefyd yn S, §§1938-45.*

§777) Cf. *Ot adeuyr er emadraud a cheyssyau dyua er haulur truy ardelu kyureythyaul arall ouer yu e tystyon ena canys edyu e den ehun en adef er hyn ry dodet arnau; ac urth henne nyt [reyt] prauf arnau. Ema nu ny re wadus er amdyffynnur er hyn ry dodes er haulur arnau; [e] sef oed henne y uot ef en wyr priodaur [ac nas adebys enteu namen ebot en priodaur] gynt ac urth henne e dyweyt e kyfreyth [nat cubil adef henne] deleu er haulur muynhau e tystyon ac o bydant sauedyc deleu rannu ac ef er amryson. A pheyt tystey er haulur na waduyt er hun ry dywaut ac erchy braut urth henne nyt oed reyt ydau urth tystyon ereyll namyn cany waduyt a dywaut ef rac bron [er] egneyt rannu ac ef a dele enteu (AL, VII.i.49). Mae'r gynghawsedd hefyd yn S, §§1946-47.*

§778) Cf. *Gwedy barner tyr a dayar e den ny ellyr lludyas kyuran ydau o henne allan pan uenho, na chaedyc uo er amser nac ef ny bo. Kyureythyaul yu ydau ef kyuran pob amser, ac ny dele kemryt tyr kennyf en lle pryodolder; ac os kymer a'e kolly ohonau en keureythyaul ny deleyr y ennyll ydau, can kemyrth anylys en lle dyls (LII, §78/22-27).*

§779) Cf. *Pwybynnac a gao dechrev ran ef adyly kael rann o gwbl kany ddryllia kyffraith [i] ddylyet a neb onyt amot ay gwna. O byd [vn] avynno holi gorffen ran val hyn y dyly gwedy darffo kywerio pleidiev yn gyffreithiol ac erchi or ynat vddunt ymdywedvt yna y dyly yr howlor messuaraw hawl amynegi y vot yn vrawt nev yn geffynderw nev yn gyvyrderw iddaw kany ddyleir holi rann namyn y ray hyny [yn vrawd iddo] ac yn briodawr a diagawn a gatwo y briodolder ganthaw. O gwata nachauas dechrev rann bot iddaw dygon ay gwyr ygael o hono ac yn doddi ar y gyffraith kan kauas ef dechrev ran y dyly kael kwbyl o rannv tir ac ef. Yna y dyly yr amdiffynwr attep o vn o dairfford ae addef ae gwadv ae ardelw kyffreithiol val nadylyo atep. Ac velly y dyly pob amdiffynor attep am bob peth o vn or tri hyny. Os adef awna yr amdiffynwr hyny ranner ac ef. Os ywadv awna mwynhaer gwybyddieit yr howlwr o ffynna y wybyddieit ranner ac ef. Os yr amdiffynwr adywait my arenais athi [y] gwbyl o gwedi di hyny y mae y my digon ae gwyr ac ar ygyffraith y dodaf naddylyaf [i] yr ail rannv athydi. Od addef yr howlor hynny bit ar agavas. Os gwata yntev mwynhaer gwybyddieit yr amdiffynwr. A sef yr ryw wybyddieit vyd y ray hynny gwr o bop randir o oruotref. Os yr howlor a dywait a renais di a myvi nys gwadaf sef yw hynny hyn a hyn a hyn a syd heb rannv o gwedi di hynny y mae y my digon ae gwyr ac ar y gyffraith y dodaf y dylyaf ev mwynhahav yn gyntaf vygybyddiait. Yna y dyly yr amdiffynwr dywedut myvi a ddywedais gynev darvot y my rannw kwbyl athydi ac a ddodais hynny ymhen gwybyddiait kyffreithiol yn gyntaf ac ar y gyffraith y dodaf y dylyaf ev mwynhav yn gyntaf. Y gyffraith a dywait yn panyw gwybyddieit yr amdiffynwr a dyleir ev mwynhav yn gyntaf kany trydyd gwybyddieit kyffreithiol am tir ynt a llyssset y llall wynt os myn. Os yr amdiffynwr addywait my arenais bob lle athi a my a dodaf hynny ymhen [y] ranwyr. Od addef [ef] yr ranwyr byt yn ev penn. Os gwadant gwadwynt val y gwedir mach a ran a dyly gwedy hynny. Os yr amdiffynwr a dywait arapawl yw dyhawl di traether honno val y llall vchot (AL, IX.xxxiii.1-9).*

**atran** Y tir oedd dros ben ar ôl rhannu etifeddiaeth (GPC, d.g. adran). Yn ôl Bleg: *Ny dyly neb gyfyn atran onyt y neb ny chafas ran dewis; odyna y diaereb yssyd, "nyt oes warthal gan dewis."* (LIB, 75/5-7). Nodir hyn hefyd yn WML, 50/14-15; 53/6-8. Mae'r ddihareb hon yn awgrymu nad oedd gan neb hawl i'r

adran (neu'r tir dros ben) os y cawsant ddewis pan oedd y tir yn cael ei rannu gyntaf (gw. *LIB*, xxxiii-xxxv). Gw. hefyd *GMWL*, 168 d.g. guarthal.

9

§780) Mae'r cymal hwn yn adleisio *LIB*, 75/5-7 a *WML*, 50/14-5; 53/6-8 a ddyfynnir uchod (§779n) ond hepgorwyd y ddihareb.

§781) Dyma ddechrau rhan o'r testun sy'n perthyn yn agos i *AL*, IX. Cf. . . . *Nydyly nay adran* (*AL*, IX.xxv.9).

§782) Cf. *Ny ayll neb oradev tyr kadw tyr rac ygylyd. Sef yw gradev tir brodyr achenderw achyvyrderw kanys yr adran adwc drachevyn . . .* (*AL*, IX.xxv.9).

§783) Cf. *Nydyleyr achvp ar tyr kyt kanys pop lle adyleyr y ranv eithyr y tri lle mygyn a derw acheraic a ray hyny nydyleyr achvp arnvnt vyth nac yn vn lle ony byd negef y mayb yevaf o ranv y tyr achytboyt negef nydyleyr achvp ar ydydyn breynyawl ef* (*AL*, IX.xxv.10).

§784) Cf. §53. Yma mae *migyn* yn cymryd lle *dofyn wern* ond yr un yw'r ystyr, sef cors. Cf. *AL*, IX.xxv.10 a ddyfynnir uchod (§783n) allan o llsgrau *Ā*, 'M' a Z. **A'r tri adeilat a ddyly** Cf. §54. Mae pennawd y triawd yn adleisio fersiwn ohono sydd i'w gael yn llsgr. Z, f. 50r: *Tri adeilad a ddylant vod yn gyffredin y rrwng brodyr eglwys a chored a melin* (*WMLT*: Z70). Mae'r ddau driawd hyn yn digwydd fel pâr yn llsgr. Z hefyd.

§785) Mae'r darn hwn eto'n seiliedig ar y gyfraith a geir yn *AL*, IX.xxv.10.

§786) Cf. *Kyffran adyly yn gyntaf y rwg brodyr y mab yevaf adyly dewis y dyddyn ac avo o tai ar yr wyth erw os vchelwr vyd ac ohynaf y hynaf dewyssent y tyddynnev ac y bawb a vo odai ar y dyddyn. Ac wedy hyny rannet y mab yevaf ymhob lle ac o hynaf [i hynaf] dewissent. Ac wedy hyny keffynderw adyly atran eithyr na symvt neb oe dyddyn rac y gilyd kanys kymynt yw ytyddynev ac nadyly neb vot yn adeilwr yw gilyd. Ac velly y dyly kyuyrderw atran. Ac wedy*

*y trydyd ranv kadwet pawb y ran ganthaw yn gyffreithiol drwy geitwait [o] ymynyogav tir. Os mabaillt vyd pedeirerw adyly vot ymhob tyddyn a rannv a dewiso ac adran val y llayll vch (AL, IX.xxxi.1-2). Cf. hefyd llsgr. S, §2533-40.*

§788) Cf. *O deruyd e den holy tyr o kyuran adyweduyt y dylyu ac obydw ae amheuo bot udau ae guypgo. A dyweduyt or amdyffynnur Dyoer hep ef ny dylyaf uy dy ateb ty am er haul honno sef achaus yu henne rannu a wneythum y a thy dy kyn no hyn; ac ot amheuy ty henne em pen ue ranwyr y dodaf ny re rannu athy dy a bot gennyty ty de ran ac urth henne ny deleaf uynheu eyl ran a thydy. Ot adef er haulur henne byt ar a gauas. O guata enteu e ranwyr ranner [ac ef] cany dodes er amdyffynnur em pen guybot ac nat guybydyeyt e ranwyr cany eyll neb bot en vybydyat ar e peth a wnel ehun: a bot er amdyffynnur en dyweduyt re wneythur ran onadunt huy e rygthau ef ar haulur. [Pe ynteu a ddywedei wnaethur rhann rhyngthunt gynt, ac addaw gwybnyddyeit o ereill ar hynn, ar for y rhann o rei ae gwelsei ac ae gwyddyat, da y dywedasei a chyfreithawl.] (AL, VII.i.51).*

**Pe ynteu a ddywedei wneuthur rhann . . .** Ychwanegwyd y cymal hwn at destun llsgr. B yn *AL II* (gw. y darn mewn bachau petryal yn y dyfyniad uchod) ac mae'n cael ei gambriodoli i llsgr. G. Mewn gwirionedd ymddengys fod y darn hwn wedi ei ychwanegu allan o destun Peniarth 278 (gw. Aled Rhys Wiliam, 'Llyfr Cynghawsedd', *BBCS*, 35 (1988), 74 sydd hefyd yn sylwi ar y camgymeriad ond nid yw'n sôn mai Peniarth 278 yw ffynhonnell Aneurin Owen). Gw. hefyd §1051 lle y priodolodd Aneurin Owen ddarn arall o destun Peniarth 278 i llsgr. G.

§789) Sonnir am *ddiaspad yn Ior*, diasbad *uwch annwfn (LII, §85)*. Term sydd o bosibl yn awgrymu 'that the claimant is crying out against being expelled from the human world of landed propriestors' (*LTWL*, 263n). Roedd y nawfed dyn a ddaw i hawlio tir yn amhriodol ac felly y gall godi twrw a chwyno. Rhaid i'r gyfraith wrando ar ei gwyn a rhoi lloches neu gynhaliaeth iddo. Ni ellir gwrando ar hawl *ddiaspad* fwy nag unwaith. Ceir fersiwn o'r testun hwn

hefyd yn llsgrau. U, Lladin, A, B ac E: gw. *EIWK* 403-05.

**diasbat** Dolef, llef, neu gwyn. Perthynai i'r gair *diasbedain*: *GPC* d.g. diasbad. λ

§790) Dechrau adran ar y dref gyfrif sydd â rhannau ohoni yn perthyn i *DwCol*: gw. isod.

§792) Cf. *Nydyleir kyt o vn lle onyt yn tref gyfrif ac yn ydref honno y dyly pawb gymynt ae gilyd ac nyt kystal . . . (AL, IX.xxxii.1).*

**y dref gyfrif/tir cyfrif** 'Reckon land', 'a non-hereditary unfree tenure' (*GPC*, d.g. tir c.). Daliadaeth tir y taegion, tir caeth. Ystyr sylfaenol *tref* oedd uned o dir ac mewn *tref gyfrif* byddai gan bawb yr hawl i'r un faint o dir, gyda bob mab yn cael ei dir ei hun ar ôl llawn aeddfedu, nid oedd rhaid aros am farwolaeth y tad er mwyn etifeddu tir (*Cyfraith Hywel*, 19). Nid oedd y tir cyfrif yn dir oedd yn cael ei etifeddu o un genhedlaeth i'r llall a châi ei ddosbarthu gan y maer a'r canghellor: gw. *LII* §83/2 a §775; Jenkins, 'A lawyer looks at Welsh land law', 235-36; *EIWK*, 400-07.

§793) Cf. *Ny byt erv dyffodedyc en tyr kyfryf, cany dely neb prenhu erv e uab y gylyd Kyureyth tyr kyfryf ev na bo muy ran un gur no'e gylyt o'r tyr ac urth hynny na dyffyt enteu, canys deledauc ev paub arney (DwCol, §§215-16.)*. Mae'r adran hon ar dir cyfrif *DwCol* yn rhagflaenu yr adran yno ar Faelgwn Gwynedd. Mae cyfatebiaeth i'r darn hefyd yn Tim.

**erw diffoddedic** Tir fyddai'n cael ei drosglwyddo i'r brenin oherwydd diffyg etifedd; diwedd y tir etifeddol. Am y gair *diffoddedig* gw. T. M. Charles-Edwards, 'Welsh *diffoddi*, *difa* and Irish *do-badi* and *do-ba*', *BBCS*, 23 (1968-70), 210-13.

§794) Cf. *Ny deleyr talu tug o tyr kyfryf; sef achaus na deleyr, urth na deleyr cuynos ohonau (DwCol, §213)*. Cf. hefyd llsgr. S: *Ni dylir taly t6nck o dir kyfrif; sef achas y6, am nad oes er6 diffoddedic ynda6 (§2,236)* sydd mwy na thebyg yn lygriad copio (S, t. 269).



- §795) Cf. *Kylch cun a meyrch a dofreth [a deleyr] ar tyr tref gyfryf, ac urth hynny na deleyr porthy arghuyd ohonau* (*DwCol*, §214).
- §796) Cf. *Un mab nyt reit ida6 arhos agheu y dat yr estynnu tref y dat ida6: mab g6r o dir kyfrif; kannyt m6y y rann ef o er6 y dat not g6r eithaf yny dref. Y mab ieu haf eissyoes a dyly y arhos; kanys yn lle y dat y dyly ef eisted* (*AL*, V.ii.52).
- §797) Cf. *Nydyleir kyt o vn lle onyt yn tref gyffrif ac yn ydref hono y dyly pawb gymynt ae gilyd ac nyt kystal. Ac yny dref hono y dyly meibion tir y mywyt ev tat eithyr y mab ievaf adyly aros marw y dat kanys yn lle y dat y dyly eiste* (*AL*, IX.xxxii.1).
- §800) Cf. *Yneb a alwo am tir yn [y] tref gyffry ef adyly dewis y tyddyn yn y lle gwac ymyno heb ty ynddaw ac wedy hyny kyhyt affawb ac wedy y gwrthoto y tir [a] galw am tir gwedy hynny nyt nes iddaw gael y tir a vu yn ylaw gynt nothir arall ony byd gwac heb y gymrvt o neb* (*AL*, IX.xxxii.2).
- §802) Sonnir yn *LIB*, 73/23-25 a *LII*, §72/7-10 na ddylid cyfreitha yn y gwanwyn nac adeg y cynhaeaf rhag llesteirio hau a chynaeafu. Gw. uchod, §18n am ddyddiau dyddon.
- §803) Sonnir yn Bleg nad oes raid i achos o derfyn tir (*LIB*, 73/26-28), na holi tir eglwys (*LIB*, 74/14-16), aros naw diwrnod tra bo'r gyfraith ar gau (cf. *LII*, §81/32-36). Adleisir §67. Yn ôl *LIB*, 77/9-10 nid yw cyfraith am dir yn cau mewn cyfnod sy'n llai na chan mlynedd.
- §804) Roedd hawl gan ddyn oedd wedi colli ei dreftadaeth, ac na chafodd iawn amdano, gymryd y gyfraith i'w ddwylo ei hun drwy wneud un o'r tri twryf cyfreithiol: cf. §67.
- §806) Roedd rhoi croes yn y ddaear yn arwydd bod achos cyfreithiol ar gychwyn: gw. Sara Elin Roberts, 'Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog', *SC*, 35 (2001), 307-23; *NLC*, 220. Ceir adran hwyaf ar groesau yn ddiweddarach yn y testun. Yma mae'r groes yn atal y defnydd o'r tir dan sylw.



- §809) Cf. *Oet mach y wybot ae mach ae nyt mach, tri dieu . . .* (LIB, 40/5-6) a *Oet mach y parottoi tal, vn dyd ac wythnos or byd reit idaw talu* (LIB, 40/24-25). Mae'r oed a gaiff mach i baratoi taliad yn hwy yn H.
- §810) Sonnir yn LII, §81/12-16 fod dydd 'coll a chaffael' yn gallu cael ei ohirio os oedd ynad yn anghofio ei farn amdano. Os amheuir ef dylir ei roi ar y creiriau ac yna rhoddir oed iddo o naw diwrnod i gofio ei farn.
- §811) Cf. *Oet yssyd y offeiriad am y lw, hyt yr amser y gallo ganu offeren yn gyntaf* (LIB, 38/7-9).
- §812) **trefgordd** *tre + cordd*. Pentrefan. Dyma'r unig le y nodir mesuriadau trefgordd yn y testunau cyfraith sydd ar gadw.
- §813) Mae'r adran hon yn adleisio'r naw dyn credadwy neu'r naw tafodiog a restrir yn WML, 40/19-41/23; LIB, 37/29-39/23; a LII, §56: *Na6 dyn adygant eu tystolyaeth gan gredu pop vn o honunt ar wahan 6rth yl6* (WML). Enwir y rhoddyat yn y rhestrau hyn (*rhoddawdyr* yn Bleg a Cyfn), yn ogystal â'r *forwyn*, a'r *amodwr*, ond nid yw'r cymeriadau eraill yn ymddangos ynddynt.
- §814) Mae'r testun am y *rhoddiad* yn gyfuniad o'r hyn sydd i'w gael yn LII ar un llaw a LIB a WML ar y llaw arall. Yn ôl Ior: *Chuechet yu rodyat ar e rod: sef mal e mae, o deruyd e den rody peth a deu den en dyweduet, 'E my', 'E mynheu e rodet ef', geyr yu y eyr ef padyu e rodes* (LII, §56/12-4). Tra yn Bleg a Cyfn y dywedir y dylir ei gredu am y da a roddo ac oherwydd hynny dywedir: *Nyt oes o rod onyt o vod* (LIB, 39/11-4; WML, 41/21-3).
- Rhoddyat** Rhoddwr. Gair sydd hefyd yn ymddangos yng nghyfraith y gwragedd pan fo merch yn cael ei rhoi gan ei theulu i'w gŵr. Y rhoddiad fyddai'n talu ei hambor. Cf. WLW, 215 am y syniad o *rodd ac estyn*.
- §815) Mae'n adleisio darn o destun Bleg sy'n sôn am lwgr yd: cf. *Or deily dyn yscrybyl ar y yt, a bot ymdaeru rwg y deilat a pherchenhawc yr yscrybyl, y deilat bieu tygu caffel y blaeneit a'r olyeit ar yr yt* (LIB, 86/30-32). Cf. hefyd:

*O deruyd y den caffel yscrybyl ar yt a bot amrysson hyt na chaffat, gatter en llw e deylllyat (LII, §156/1-2).*

**Deylyat** Daliwr. Bôn y ferf daliaf: *dal + iad* (GPC, d.g. deiliad). Yr ystyr yma yw rhywun oedd wedi dal, ac yn cadw anifail strae mewn ffald, *impounder* yn Saesneg.

**§816)** Cf. *O deruyt y uorwyn fywedut ar 6r duyn treys y arney ar gur yn gwadu a dyweduyt o honey hytheu yn atep ony dugost ty treys y arnaw uy moruyn byw y etwa. Sew y barn y gyureyth [yna] y hedrech [ac] sew ay hedrych yr edlyg . . . (AL, IV.iv.21-23).* Os yw hi'n cael ei chanfod yn ddynes, ni all y cyhuddiedig wadu trais a rhaid talu iddi ei chowyll, ei wynebwerth, ac amobr i'r arglwydd. Os mai morwyn oedd hi, ni chollai hithau ei braint oherwydd ei phrofi. Ceir yr un syniad yn *LII*, §54/8-15.

**§817)** Ceir cyfeiriad at y tad yn y rhestrau o'r naw dyn y dylid eu credu ond ni cheir sôn am y fam. Sonnir am y fam yn y cyd-destun hwn yn **§635**. Mae'r triawd a'r adran hon o'r testun yn adleisio *DwCol*: *O deruyd geni deu uab yn vn torllwyth, ar torllwyth h6nn6 yn ieuaf o blant y dat; g6ybydet y vam p6y diwethaf a aner o nadunt 6rth gaffel y tydyn kyfreitha6l: ac ny eir geir eu mam arnadunt (AL, V.ii.56: gw. hefyd DwCol, §310).* Âi hyn yn groes i'r rheol na allai dynes fod yn dyst ar ddydd: gw. DC.II.i.56.

**§818)** Cyfetyb y darn am y forwyn i'r hyn a ddywedir yn y nawawd yn lor, mae'r hyn a geir yn Bleg a Cyfn yn wahanol: *Seythuet yv moruen ar e guerendaut: o derfuyd y vr duen moruen en llathlut a guedy ed el e'r dyffiyeth a hy, kyn bot achaus ydau a hy, gouen ohoney hy, 'Beth a rody ty emmy?' a meynhyoly ohonau ef pa ueynt a rodo ydy a guedy henne bot en edyuar ganthau ef henne, ket as guatto ef, a chadarnhau ohoney hy henne, geyr yu e geyr hy ena (LII, §56/15-20).*

**§819)** Esgusodwr oedd rhywun a wnâi esgus dros arall, e.e. os na allai dyn ddod i'r llys oherwydd salwch. Ceir cyfeiriad ato yn nes ymlaen yn y testun. Ni ddefnyddir y gair esgusodwr yn y testunau cyfraith eraill ac ni cheir

enghraifft o'r gair cyn y bedwaredd ganrif ar ddeg yn *GPC* (allan o'r copi o *Ystoria Bilatus* ym Mheniarth 7).

**§820)** Cf. *A'r raglau byeu tygu rekaffel dogyn vanac ohonaw pan holo efe den en e dadleu, ac en erbyn henne ny ellyr dym* (*LII*, §113/10-11). Ond gwelir o'r amrywiadau testunol yn VC.III.ii.28 mai llsgrau C, B a D yn unig sy'n enwi'r rhaglaw, arglwydd sy'n digwydd yn y testunau eraill. Sonir yn y nawwd yn Cyfn: *credadby heuyt uyd ma nac g6r a wnel dogyn vanac*, tra fo'r pwyslais yma ar dystiolaeth y rhaglaw mewn dogn fanag. Efallai fod hyn yn adlewyrchu cyfnod lle bo cynrychiolwyr y brenin yn cael mwy o ddylanwad mewn achosion cyfreithiol (gw. *NLC*, 48-53).

**Rhaclaw** Dirprwy neu gynrychiolydd brenhinol y cwmwd. Os oedd dyn wedi cael ei ddal yn gwneud cam mewn cwmwd arall telid ei ddirwy a'i gamlwrw i raglaw'r cwmwd yr hanai'r troseddwr ohono (*AL*, V.ii.4, *DwCol* §228).

**§821)** Sonir am yr amodwr yn y rhestr yn Bleg a Cyfn ond nid yn Ior: cf. *Credadwy yd amodwr yn y amot rwg deu dyn a'e hadeffo* (*Bleg*, 39/10-11). Eir ymlaen i roi diffiniad o amodwr.

**Amodwr** Rhaid oedd ysgwyd llaw ym mhresenoldeb amodwyr er mwyn ffurfio amod deddfol; ffurf symlach o fechni lle bo dwy blaid yn datgan amodau cytundeb o flaen amodwyr. Gelwid ar yr amodwyr pan fo anghytuno am faint dyled (*Cyfraith Hywel*, 85-86; *LAL*, 176-77).

**§824)** Dyma ddechrau adran ar ffurf holi ac ateb. Cf. *Sarhaet breyr disswyd a telir o whe bu a wheugeint aryant. Y alanas telir o naw mu a naw vgein mu, gan tri drychafel* (*LIB*, 58/9-11). Tra yn Cyfn: *Galanas breyr diss6yd owhe vgeint mu gan tri drychafael ytelir* (*WML*, 44/3-6). Yn y testun cyfeirir at *sarhaed* celain fel rhan o'r taliad galanas. Ni ddylid dyrchafael *sarhaed* celain gan ddyrchafael y galanas yn unig. Cf. *Rei ady6eit pan taler 6hebu ach6eugeinmu galanas neu a vo m6y ne a vo llei, am y sarhaet y telir ch6e by6, ar ch6e ugeinmy6 atelir y galanas: ar sarhaet honno nyt ar dyrchefir arnei. Ac wrth nat ardyrchefir ar [y] sarhaet honno, ny thelir ch6e vgeint aryant gyt ar ch6eby6 canys pa le bynnac ybarno kyfreith buch ac vgeint aryant am sarhaet dyn by6, yr vgeint h6nn6 a yd ar vreint ar drychafel ar y by6ch. Y ch6e vgein*

*my6 hagen atelir yn alanas gan tri ardrychafael* (*AL*, X.iii.8). Gw. hefyd *AL*, IX.xxiv.1

**breyr** Tarddu o *brogo-rix*, brenin bro. Uchelwr, oedd wedi ei eni i'r statws hwnnw, ac fel arfer byddai'n berchen tir rhydd (*LTMW*, 320; *WLW*, 193). Defnyddir y teitl uchelwr yn lle breyr yn Ior ac *optimus* yn y testunau Lladin.  
**diswydd** Heb swydd yn y llys (gw. Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 77-78).

§825) Cf. *Gwerth bilaen brenhin, teir bu a thri vgein mu, gan tri drychafel. Y sarhaet yw teir bu a thri vgeint aryant* (*LIB*, 58/19-20). Yr un yw'r swm yn *WML* 44/18-20.

**taeog** Gair cynhenid, yn hytrach na'r gair benthyg diraddiol *bilain* neu *milain* sy'n tarddu o *villein*, am ei fod mewn safle darostyngedig mewn cymdeithas yr oedd o dan awdurdod brenin neu freyr. Roedd y taeog yn rhwym i'r tir, tir y faerdref neu'r tir cyfrif (Jenkins, *Cyfraith Hywel*, 17-18); Cf. y gair Cernyweg *tyack* a ddaeth i olygu ffermwr (*WLW*, 217). Defnyddir *bilain* yn Bleg, *mab aillt* a *taeog* yn Ior, a *taeog* yn Cyfn (*WKC*, 429).

§828) Cf. *Pan lather g6r g6reigyabc: ysarhaet atelir yngyntaf. Ac odynd yalanas. Trayan sarhaety g6r ageiff y wreic* (*WML*, 90/14-17). Nodir hyn hefyd yn *LIB*, 62/1-3. Tra yn Ior: *O byd guregyauc y gur, roder e'r wreyc traean sarhaet y gur, a'r duy ran dotter em plyth er alanas* (*LI*, §108/2-4).

§830) **breyr heb swydd** Cf. y gair *diswydd* yn §824.

§831) Dichon fod hyn yn adlewyrchu cyfnod diweddarach lle bo mwy o bwyslais yn cael ei roi ar arian fel taliad yn hytach nag ychen.

§832) Sonnir yn *LI*, §80/9-13 y dylai'r ceidwaid gadw'r gwir ac na ddylai yrru drwg ar neb. Yn syml felly swyddogaeth y ceidwad oedd cadw hawl dyn i eiddo, fel rheol gelwid ar gymdogion yr amddiffynwr i gyflawni'r rôl hon.

§833-34) Mae'r gynghawsedd hwn yn ddechrau i ran o'r testun sydd yn cyfateb i ddarn helaeth o *AL*, IX (*AL*, IX.i.20-32). Mae'r cymal agoriadol yn wahanol

gyda'r pwyslais yn cael ei roi yn H/Peniarth 278 ar y ceidwad yn hytrach nac ar yr hawlwr. Cf. *AL*, IX.i.20 a ddyfynnir uchod §662n.

**o fewn Cymru na'y therfynau** Cymal sydd wedi ei ychwanegu at destun H/Peniarth 278 ac sy'n adleisio rhaglith Cyfn: *can oed eida6 ef kymry yny theruyn (WML, 1/3-4)*. Un o ystyron terfyn yn *GPC* yw goror neu ffin (gw. *GPC*, d.g. terfyn). Dichon fod y cyfeiriad yma at derfynau Cymru yn golygu arglwyddiaethau'r gororau.

§835) Cf. *Os o vrait ydd ymarthelw ef dywedet yvod ynvreinoc a digon o geidwait agatvo y vrait gantho ar keidwait hynny [ni] ddleir oed wrthvnt onibydtant yn ymaes (AL, IX.i.21)*.

§836) Darn ychwanegol nad oes cyfatebiaeth iddo yn *AL*, IX. Cyffredinoli a wneir yma sy'n awgrymu fod y darn hwn wedi ei lunio gan awdur H allan o'i wybodaeth ei hun. Ymddengys bod y darn hwn wedi ei seilio ar frawddeg gyntaf *AL*, IX.i.22: *Yna ydyly yr howlwr doddi ar y kyfraith y dyly henwy y vrait agatvo*.

§837) Cf. *Yna ydyly yr howlor doddi ar y kyfraith y dyly henwy y vrait agatvo ac oni bydd yn yllaw y braint ahenvo dodet yr howlor ymhen yrarglwyd nad ydiw ybraint hwnnw yn ylaw a dodet ar y kyfraith nacheidw gwaclaw (AL, IX.i.22)*.

§838) Cf. *Ofalla yr arglwyd iddo palledic yw iddo yamdifin kanidoes vrait heb ystyn arglwydd (AL, IX.i.23)*.

§839) Cf. *Ofalla y keidwaid palledic yw hevvt ac nyellir keidwat o honaw ac vnfvnd ydd anadwynir y keidwait hynny o rai kyntaf a henwyd (AL, IX.i.24)*.

§840) Cf. *Os owadv alldvdiath ydd ymarddelw y keidwat heb ddim amgen yawn yw gwrandaw praw yr howlor obyddant yn ymaes onibydtant niddyleir oed wrthvnt. [Ac] o myn ykeitwat llyssv ygwybyddieit hynny val hyn ydyly y llyssv gwedy darvo yr gwybyddieit kyntaf tygv gwybot agwelet yr alldvdiaith val y dyly keidwad tygv yna y dyly yr alldvt dywedvd llyssyant kyfreithiol y syd genyf vi arnat ti val nad gayr dyair di arnaf vi o gwedi hyny y may y my*

*ddigon ay gwyr. O gwataf tyst yrowlwr hynny nev i davawd drostaw mwynhaer gwybyddieit y keidwat. Os tyst yr howlwr nev y davot drosto a dyd arygyfraith y dyly henwi yllyssiant ef addyly y henwi y llyssiant ac nid rait gwadv llyssiant ynihenwer. Sef yw yllyssiant kyfreithiol galanas heb ymddwyn adirdra heb dosbarth amdanay a henwi yralanas ar dirdra addyleir ac ossaif yr arglwydd ar vod dosparth an bob vn nid llyssiant a gwraic [tra] yw y tryddydd a hwnnw hefyd ysyd raid y henwi ac nid llyssyant onid dwyn y wraic ydrais a bod yn arver or wraic pan o ykyfraith (AL, IX.i.25).*

**§841)** Cf. *Ac velly ydyleir kymrvt gwybyddieit pob vn ar ygilydd yniballo y vn. A hwn a ballo yddo ywybyddieit [a] divarner or ymrysson amykeitwait. Ac gwedy darffo am ykeidwat hwnnw kymryd vn arall addleir a thraethv hwnnw val y llall ac velly o vn i vn yt ydiwaethaf a hwn ypallo yddo ygeidwaid adddivernir (AL, IX.i.26).*

**§843)** Cf. *Ac ynylle y chaer dav gwybyddieit dilyssyant nev ddav dyst neb ddav geidwad digon yw [dav] onid hynn addervyd addaw o ddyn rivedi heb ddywedvt digawn o hynny ofalla vn palledic vydd [y] kwbyl or gyfraith aail parav y rygthvnt or pryd bygylydd ac ny aill pyrav yn hwy no hynny y neb iddwyn gwybyddiaid. Ac offery ygyfraith yn gyyd a hynny heb ddivarnv yrvn yr howlwr adddivernir (AL, IX.i.27).*

**§844)** Cf. *Aphwybynnac alyssso tyst nev wybyddiad kyn gwybod beth addweto athygy addweto ny ellir arno y dydd hwnnw (AL, IX.i.28).*

**§845)** Cf. *Os y keidwat a ddyd ar y kyfraith ydyly yr howlwr henwi y bwy y gyr ef y vod yn allddvd agwadv allddvdiaeth yawn yw hynny ac obydd y gwr hwnnw yn ymaes ac ym wadv nad alldvt iddo ef anolo yw gwybyddiaid yr howlwr yna kan y ddyly neb dwyn da y ddyn ynylle yddymwrthoto ehvn ac ef ac onibyd ynymaes nydyleir oed wrthaw achyndweto ef niddygyr y wad y gan [y] keidwat nev braw ygan yrhowlwr oni bydd dav arddelw ymhenn y gwr nad alldvt iddaw affallo iddo (AL, IX.i.29).*

§847) Cf. *Os yrhowlwr avyn annaddwyno keidwat adwedvt [i] vod yn vn or tri dyn nid gair ev gayr val hyn ydyly gwedy ydd henwer ac ev dangos kyn gwybot beth adweto y dyly yrhowlwr dwedvt nad gayr dy ayr di arnaf vi nac ar neb beth bynac adwethych nadrwc na da ac [yna] y dyly henwi vn o tri ac osgwedy y may ymy ddigon ay gwyr. Yna ydyly y keidwat dwedvt kwbyl wad ytherbyn ac yn erbyn dywybot. Yan y dyly yrynat govyn yr howlwr pwy dywybyddiat afa le ymaen. Ac nyddleir oet wrthyn onibyddan ynymaes obyddan ynymaes ef addleir ev henwi ac ev dangos. Ac os llwfyfyr ygyr ef ivot [ar] ykeidwat y gwybyddiat addyly tygv arno gwybot agwelet nacav y arglwydd ai plait ovynet ygwassaneth y arglwydd [y gyd ai arglwydd] aygymydeithion [dair] gwaith. Ac ynte a aill llvssv yr ray hyny val ydwedasson ni vchot. Os tori ybrofes ayr arno rait yw yr gwybyddieit tygv gwybot a gwelet arno raddi y brofes ay thori. Ac ynte a aill y llyssv wynt val yr rai gynt. Os ogam dystioleth tyget [y gwybyddiaid] gwybot agwelet arno dwyn kamdystioleth achymrvt ybenyt amdano. Omynt ynte [ev] llyssv llyssset val y ray gynt (AL, IX.i.30-32).*

§848) Mae'r gynghawsedd yn cael ei hestyn yma yn wahanol i'r tri thestun arall. Gw. y rhagymadrodd, t. 43.

§§850-60) Rhestr o ddeg modd y gall rhywun feddiannu tir yn gyfreithiol. Ni cheir cyfatebiaeth i'r rhestr hon yn unman arall yn y llyfrau cyfraith.

**chwarthawr tir** Y rhan o garw oedd yn ddyledus i berchennog y tir lle lladdwyd y carw: gw. *LLI*, §136. Chwarthawr < *quartarius* = *quarter*.

**buddlam** *budd* + *llam*: lwcus. Dwy enghraifft o'r gair yn unig a geir yn *GPC*, sef yr enghraifft hon ac enghraifft allan o gywydd o'r 14g yn H. Lewis, T. Roberts a I. Williams (gol.) *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill* (Caerdydd, 1937).

§§861-63) Sonnir hefyd am llysu gwybyddiaid yn *AL*, IX.vii.5-6 ac yn *LLI*, §77 lle nodir na ddylid gwrthwynebu gwybyddiaid hyd nes iddynt fod wedi gorffen rhoi eu tystiolaeth. Cf. *Nyt oes llys ar guyydyeyt namyn pymb llys . . .* (*AL*, VII.i.11).

**lyssyant** Tarddu o'r gair *llys*. Nid *llys* yn yr ystyr gyffredin a olygir yma ond gwrthwynebiad, gwrthodiad yn erbyn tyst, cf. Hen Wyddeleg *les* (gw. *GPC*).

- §864) Cf. *Tri ouer ymadrawd a dywedir yn llys ac ny ffynnyant: gwat kynn deturyt, a llys kynn amser, cof a chyghaws gwedy brawt* (LIB, 110/23-25). Dyfynnwyd y triawd hwn gan yr awdur mewn man cwbl berthnasol sy'n ategu'r hyn a ddywedir yn §863.
- §866) Defnyddir Ieuan a Dafydd fel enwau enghreifftiol yn rhai o'r cwynion hefyd: gw. AL, XII. Mae'r darn hwn yn dangos pa mor drylwyr oedd rhaid bod yn y llys. Mae'r darn hwn a'r darnau dilynol mewn arddull sy'n perthyn i'r damweiniau.
- §867) **godor** *go + torraf*, torri. Rhwystyr neu ddiffyg.
- §869) Rhoddid pwyslais ar statws tystion. Pobl o statws a gâi roi tystiolaeth oedd meiri, cyngellorion, mynaich, athrawon, offeiriaid, ysgolheigion neu leygwyr uchelwrol (LII, §77/34-37).
- §870) Os yw gwybyddiaid y ddwy blaid yn sefyll, maent yn gyfartal, rhennir rhwng y ddwy blaid gan fod hawliau'r ddwy cystal a'i gilydd: cf. *O seyf e keytweyt e'r due pleyt, kyhyded yu: a'r lle y bo kyhyded deu hanner uyd* (LII, §77/59-61). Cf. hefyd: *Pey en kystal y hadausey, kyhyded uydey, a rannu deu hanner* (LII, §79/25-26).
- §871) Sonnir hefyd yn Ior y rhoddir oed o dri diwrnod i geisio tystion oedd yn yr un cwmwd, naw diwrnod i'w ceisio o'r cwmwd nesaf, a phythefnos os oeddent mewn gwlad arall lle bo llanw a thrai yn eu gwahanu. Nodir yn Ior mai pythefnos o'r diwrnod hwnnw a geir os oedd hi cyn hanner dydd, os oedd hi ar ôl hanner dydd rhoddid pythefnos o drannoeth (LII, §76/25-31). Cf §1049.
- §872) **aminyogeu** *am + (r)hiniog*. Mae'r gair yn un ffigurol sy'n cael ei ddefnyddio yn y gyfraith am byst y drws (cf. AL, VII.i.11). Ceir diffiniad arall o *aminyogeu* tir yn §1122. A dyfynnu T. Lewis: 'The two side posts of any dore and by metaphor . . . the people which do dwell on both sydes of a man's ground' (GMWL, 14). Gw. I. Williams, 'Hin, amhiniog, cynnor, cyfrdy' BBCS, 2 (1923-25), 303-09; gw. hefyd y nodiadau yn WMLT, 174n.



- §873) Sonnir yn *AL*, IX.xxxvi.7 fod yn rhaid i bob ceidwad fod yn addfwyn; ac i gadw braint rhaid oedd cael gwyr breiniol fel ceidwaid (*AL*, IX.xxxvi.4).  
**addfwyn** Ystyr cyfreithiol y gair yw digonol neu ddilys.  
**breinyawl** Person breintiedig, neu o safle uchel: gw. *GMWL*, 44.
- §875) **ny yr ceitwat ddrwc ar neb** Mae'r cymal hwn yn adleisio Ior: *Ny deleyr llyssu keytwat o byd breynnyaul, cane gyrr ef un druc ar nep namen cadu gan perchennauc er eydau* (*LII*, §80/12-13).
- §879) Fel rheol rhaid oedd cael dau wybyddiad, dau dyst neu ddau geidwaid er y byddai mwy yn well. Cf. *Nyt tystiolaeth tystiolaeth un den* (*LII*, §81/3).
- §880) Cf. §457. Sonnir yn aml am deithi anifeiliad yn y llyfrau cyfraith, yn ogystal â theithi dyn, dynes a mach: gw. *GWML*, d.g. teythy.
- §882) Mae'r rhestr yn cyfateb i *AL*, Dim.III.ii.1-17 (allan o Tim ac S). Serch hynny, mae ychydig o amrywiad yn y geiriad, a cheir esboniad pam nad yw rhai o'r cymeriadau'n gymwys i roi tystiolaeth yn H/Peniarth 278. Ychwanegwyd lleidr cyhoeddog, y rhai nid gair eu gair, ac alltud ar Gymro at y rhestr yn H/Peniarth 278. Cf. IIsgr. S, §1622 lle nodir na ddylid credu tystiolaeth mynach, meudwy, offeiriad, nac unrhyw ŵr mewn urddau crefyddol.  
**haelbyrrllofyawc bwr + llofiog, llawiog.** Yn llythrennol golygai 'â llaw fawr anferth' > gwastraffus: gw. *GPC*, d.g. byrrllofiog; *GMWL*, 174. Defnyddiodd William Salesbury'r ansoddair hwn i ddisgrifio'r mab afradlon yn ei gyfieithiad o'r Testament Newydd ym 1567: gw. Dafydd Ifans, *William Salesbury and the Welsh Laws* (Aberystwyth, 1980), 9.  
**fwnei** Defnyddir y gair hwn am arian y brenin, yn hytrach na *bath* neu *fath* fel yn y rhestr yn *AL*. Gair benthyg o'r Ffrangeg *muneie* neu o bosibl drwy Saesneg Canol. Digwydda y gair hefyd yn *AL*, XII.xii. *deg swllt aur neu arian o vwnai da iawn o vath goronawg Edward vrenin Lloegyrr*. Am darddiad Normanaidd y gair: gw. Surrige, 'The number and status of romance words attested in *Ystoria Bown de Hamtwn*', 77.

**Symonia** Simoniaeth. Roedd y gair *simoniaeth* yn air benthyg o'r Saesneg Canol neu Hen Ffrangeg *simon(i)*. Câi ei ddefnyddio fel enw ar gysegrfasnach o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen (*GPC*, d.g. *simoniaeth*). Mae'n bosibl hefyd mai ffurf ar y gair Lladin *simonia* ydyw (gw. Latham, *Revised Medieval Latin Word-List*, d.g. *simon/ia*) fyddai'n dangos ymwybyddiaeth yr awdur o dermau Lladin, cf. y defnydd o *processos* < *processus* yn §582.

§884) Cf. §1047.

§886) Cf. *Reythur not a dele tygu tebygu bot en glan llw e den e tygo egyt ac ef; ac o palla un gur o'r guyr not palledyc uyd e reyth oll. Reythur arall a dele tygu bot en tebycaf ganthau bot en wyr er hyn a tug; a chet pallo trayan e reyth kyfredyn, en ol e deuparth e deleyr barnu* (*LII*, §80/17-21).

**Rheithiwr not** Term arall arno oedd 'gŵr addfwyn', sef a *sound man*. Roedd mwy o hygredd yn cael ei roi i reithwyr nod na'r rheithwyr cyffredin. Byddid wedi nodi o flaen llaw fod y gwŷr hyn i fod yn rheithwyr. Roedd eu llw yn gryfach na'r rheithwyr dinod (gw. Jenkins, *Cyfraith Hywel*, 106).

§892) Dyma ddechrau adran sydd ar ffurf holi ac ateb sy'n perthyn i *AL*, IX. Am Naw Affaith Galanas gw. *LIB*, 30/11-34/18; *LII*, §§104-10; *WML*, 37/4-39/21. Ni restrir y gwahanol affeithiau yma gan fynd yn syth at y nifer o ddynion a fyddai ei angen ar lw i wadu'r cyhuddiad a'r arian a delid pe bai'r cyhuddiedig yn cyfaddef i'r drosedd, neu fod ei raith yn methu. Mae'r un peth yn wir am ddechrau'r adran ar alanas yn *AL*, IX.xx.1. Yn ôl y testun rhaid oedd talu dirwy o dair punt i'r arglwydd am y tri math cyntaf o affaith. Yn wahanol i hyn sonnir yn Ior y dylid talu camlwrw i'r arglwydd ond na ddylid talu dirwy am affeithiau galanas, ond gellid codi dirwy o dair punt am ymladd (*LII*, §104/25-9). Cyflwynir y rhan hon o'r testun ar ffruf holiadon.

**os gwedir yr un o'r teir cyntaf** Rhaid oedd wrth lw can gŵr i wadu'r tri affaith cyntaf; sef dweud wrth y llofrudd lle i ganfod y dyn a laddwyd, rhoi cyngor i ladd dyn, a chydysnio â'i ladd. Gw. y nodyn ar *tafodruddiaeth* uchod, §261n. Pe baent yn methu rhaid oedd talu naw ugain camlwrw i'r arglwydd.  
**gwaet, a gweli, a choet, a maes** Cf. *LIB*, 31/1 a *WML*, 37/17.

**perfedd** cf. Hen Lydaweg *permed* a olygai canol. Yr ail ddsbarth yw'r tri affaith sydd yng nghanol y rhestr, sef edrych ar y drosedd yn digwydd/dangos i'r llofrudd lle bo'r dyn a laddwyd, bod yng nghwmni'r llofrudd pan el i ladd y dyn, a mynd yng nghwmini'r llofrudd i'r dref y bo'r dyn a laddwyd ynddi. Gelwir hyn yn llygadruddiaeth: gw. uchod, §246n.

**Am y teir olaf** Y tri affaith olaf oedd cynorthwyo'r llofrudd, dal y dyn a laddwyd hyd nes y daw'r llofrudd, ac edrych ar y llofruddiaeth heb wneud dim i'w hatal.

§895) Cf. *Pwy adyly gyrv affaith galanas. Kar a dyly y yrv a vo kynnesset y grenyd yr gwr alas ac y dylyo talv galanas drostaw ay gymrvt* (AL, IX.xx.4).

§896) Cf. *Padelw y dyly ef y yrrv. Tygv y grayr arnaw teirgwayth a gwadet y llall yr krair* (AL, IX.xx.5).

§899) Cf. *Pa gosp adyly arglwyd o ffalla y raith am affaith. Tayr pvnt* (AL, IX.xx.8).

§901) Cf. *Aellyr holy affaith kyn nollowrvedieth. Nahellir kanys penaf yw yr alanas a chyntaf ydylyeir y holy* (AL, IX.xx.11).

§903) Cf. *Aoes alanas heb affaith. Oes olledyr dyn agwenwyn. Paham yw hyny. Am nat oes ordynv gweyt [yn hyny]* (AL, IX.xx.13-14). Cf. llsgr. S lle rhoddir ateb gwahanol i'r un cwestiwn: *Oes; or llad enefeil dyn, h6nn6 y6'r lloffryd; ny dyly bod affeith idi* (S, §1566-67).

**gwenwynaw** Lladd heb glwyfo na thynnu gwaed. Nid oedd rhaid talu *sarhaed* am wenwyno, efallai fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad adewid clwyf a fyddai'n achos cywilydd. Efallai fod y diffyg *affaith* yma yn adlewyrchu natur ddirgel gwenwyno.

§905) **murn** Mwrdrwn. Y testunau Lladin sydd gan amlaf yn defnyddio *murn*. Lladd dyn yn y tywyllwch heb adael anaf ar y corff. Roedd cysylltiad agos rhyngddo a chynllwyn. Gw. Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 78-81.

**chynllwyn** Llofruddiaeth lechwraidd lle bo'r corff yn cael ei guddio. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn llofruddiaeth waeth na lladd yn agored. *Ny byd*

*kynllwyn or byd ar fford neu yn lle arall heb gyd neu heb gel arnaw* (Tim, 67/16-20); ond pe lladdwyd person a llusgo'r corff oddi ar y ffordd i'w guddio yna bydd yn gynllwyn. Defnyddir y gair *dyniorn* hefyd am lofruddiaeth cudd: gw. M. E. Owen, 'Cynllwyn a Dyniorn', *BBCS*, 22 (1966-68), 349; Harris, 'Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel', 370-78.

§908) Cf. *Paham y ma mwy kosp y tayr affaith diwaythaf nor tair pervet ar tayr pervet nor tair kyntaf. Llyma [paham] bonesaf vo yr affaith yr lloffrvedieth mwyafrwyd y dial amdanay* (*AL*, IX.xx.3).

§911) Roedd y term *cyhyryn canstr* yn cael ei gysylltu fel rheol ag affeithiau lladrad. Gw. y triawd *Tri rhyw gyhyryn canastyr y sydd yn ddiweddarach yn y testun*, §1024. Dywedir yn Ior os oedd dyn yn rhoi i arall ddarn o gig nad oedd yn eiddo iddo yna gall yntau gael ei ddirwyo am y cig hwnnw a phob person arall hyd y ganfed llaw (*LII*, §113/17-21). Cf. *AL*, IX.xxi.6-8. Mae nodyn ar y term *cyhyryn canastr* gan T. Lewis yn Tim, ix-xi.

§915) Fel rheol rhaid oedd talu punt i'r arglwydd fel cosb am *waetlydu* ei dir: gw. §1031.

§916) Cf. *Y neb awatto coet amaes: rodet l6 deg wyr adeu vgeint heb gaeth aheb alltut. Athri o honunt yndiofreda6c o varchogaeth alliein ag6reic* (*WML*, 37/17-20).

§921) Cf. *Paham ymae mwy raith ywadv affaith noc y wadv gylanas. Amvot gwyr dyweredoc a gwyr not y wadv galanas ac nat oes ywadv affaith namyn y gwyr agaffo* (*AL*, IX.xx.12).

§922) Am Naw Affaith Lladrad cf. *LIB*, 34/19-36/8; *WML*, 40/6-18; *LII*, §§111-15. Yn y testunau eraill ac eithrio Col a Ior daw affeithiau tân o flaen affeithiau lladrad. Ni restrir yma'r gwahanol affeithiau, fel affeithiau galanas uchod, sydd efallai'n awgrymu fod lluniwr y testun yn cymryd yn ganiataol y byddai rhywun yn gwybod naw affaith lladrad; sef mynegi'r hyn y gellid ei ddwyn/awgrymu i gydymaith yr hyn y dylid ei ddwyn; cydsynio â'r

lladrad/dymuno am y lladrad; rhoi cynhaliaeth at y daith ladrata (bwyllwr); mynd yng nghwmni'r lleidr/a chario ei bwylwr; mynd gyda'r lleidr a thorri mewn i dŷ neu fuarth; derbyn yr hyn oedd wedi ei ddwyn; cerdded nos a dydd gyda'r lleidr; cymryd rhan o'r lladrad; cymryd gwerth gan y lleidr am guddio'r lladrad/neu ei brynu. Sonnir hefyd yn *LII*, §111/9-11 y dylid talu dirwy am bob un o'r rhain os byddai lleidr yn cyfaddef, sef deuddeng muw neu dair punt i'r arglwydd. Roedd dwyn yn drosedd. Yn ôl Ior yr un oedd maint rhaith affaith â rhaith gweithred lawn (sef hanner cant, ac eithrio llsg. C sy'n dweud mai ond pum gŵr sydd ei angen); yr un yw'r swm yn Cyfn: *rodet l6 deg wyr a deu vgeint heb gaeth aheb alltut (WML, 40/17-18)*. Yn dilyn trefn Ior eir ymlaen i adrodd sut oedd mynd ati i wadu lladrad.

- §923)** Adran ar ladrad sy'n perthyn i Ior ac *AL*, IX. Pe bai lleidr yn dwyn eiddo oedd â'i werth yn bedair ceiniog neu lai, fel ci, byddai'n *lleidr gwerth*; a gwerth rhyddhau lleidr o'r fath oedd saith bunt: gw. **§290** a **§657**. Cf hefyd llsg. Z: *I wadv dwyn ki yn lladrad, llw vn dyn. I wadv dwyn gwyd nev iar nev edyn, llw vn dyn. Am ellwng lleidyr, llw vn dyn, ac nad oes raith vvriedic am ellwng lleidyr ac nad oes wybyddiaid am ladrad (Z f. 53r)*.
- §924)** Cf. *E wadu huch neu dauat nev ueych kechuyn, e lv ar e pymhet: deu onadunt en wyr not a deu en wyr aduuyh hagen, ac enteu ehun; ac yna y byd deu hanner y reyth yrug e duy kenedel, cany ellyr rannu petwar guyr en trayaneu (LII §111/29-32)*. Cf. *Col* §353. Cyfetyb hefyd i *AL*, IX: *O gwata yntev raith addly arno herwydd maint y lladrad. Am hwch adavat abaich kefyn llw pvm nyn nessaf ev gwerth iddo sef yw yrai hyny [y] dav dyn nessaf y kerenyd iddo ogednl y dat a nessaf vddvnt kael y werth ef pe lleddit a nessaf iddo yntev kael y gwerth hwy ar dav nessaf ogendl i vam ac ef yhvn vymet (AL, IX.ii.2)*. Cf. uchod **§§730, 732**.
- §925)** Cf. *A hellyr holy vn affaith ymlaen lloffrvdiaeth. Na hellir kanys penaf yw yweithret nor affayth (AL, IX.xxi.4)*.
- §926)** Ceir y gyfatebiaeth orau gyda chymal o Cyfn: *Kyn dyccer ki yn lledrat: ny wneir kyfreith lledrat (WML, 83/3-4)* tra sonnir yn *LII*, §115/41-43 nad oes

dirwy, na dienyddu, am ddwyn ci nac aderyn; ond yn hytrach dylid talu camlwrw a gwneud iawn i'r perchnogion. Nodir hefyd y dylid talu camlwrw yn unig am gi yn *LIB*, 53/1-2; *WML*, 82/13-14. Hefyd yn Cyfn ceir: *Ny byd na dir6y na chaml6r6 am neb edeinya6c kyn dyccer ledrat. namyn talu ywerth kyfreith yperchenna6c ony cheffir ehunan (WML, 79/21-24)*; nodir hyn hefyd yn *LIB*, 54/23-25. Yn *Col* ceir: *Ac ny deleyr am vn ederyn dof nac am ky, nac en lladrat e deccer nac en fort arall, namyn talu y guerth o pedeyr keynnyauc ony ceffyr e hun (Col, §407)*.

- §928) Cf. *E wadu pun march ac eydyon (canys march a eyll duyn eydyon en e pun) chue guyr a dau arnau ac ef ehun yn seythuet, ac eu hanner en wyr not (LII, §111/26-28)*; hefyd cf. *Col*, §352. Cyfetyb hefyd i *AL*, IX: *Am bwn march ac eidion a trvgain [o] arian llw [y ssaith] nyn nessaf ev gwerth val yllaill eithyr [y] devparth o hono ogenedl y tat ac obob raith velly onid naellir traianv y pvm nyn (AL, IX.ii.3)*.
- §930) Cf. *Ac velly am bob da o trvgain hyd yn chwevgain am chevgain ac o chevgain hyt y pvnt llw dav ddengnyn nessaf ev gwerth am bvnt ac obvnt allan llw pedwar gwyr ar vgain nessaf ev gwerth [ydaw] (AL, IX.ii.4)*.
- §931) Ceir cyfeiriad yn *LIB*, 91/19-20 a *WML*, 68/22-24 fod rhaid rhoi llw pedwar gŵr ar hugain i wadu lladd march, neu amws, mewn lladrad. Cf. hefyd llsgr. *Z: Pwy bynac a wato dwyn amws yn lladrad, llw xxiiij a'i gwatta (Z, f. 53r)*.
- §932) Cf. *Nit a raith bellach [no] hynny yr gyr onibyt lliw kyfreithawl ygyt ar gyr sef yw y lliw [kyfreithiawl] bot dyn adygo gwelet y lleidr ar lladrat gantho yn kerddet drwy [y] wlat lliw dyd gole atygv hyny ger bron y kyfreith. Yna ybernir ar yramddifynwr [llw] trywyr ardddec arvgain or gwyr nessaf ev gwerth [iddo.] (AL, IX.ii.5)*.
- §933) Cf. *Ni ellir lliwat owraic a gwraic a aill gyrv dwyn [i] da val dyn arall (AL, IX.ii.7)*.

§935) Cf. *Paham y may mwy gwat affaith lladrat no llowrvthieth. Am nat oes y wadv affaith gwyr not namyn y gwyr a gaffo* (AL, IX.xxi.3).

§937) Cf. §901.

§938) Cf. *Pwy adyly gyrv affaith lladrat. Kolledic y da a dyly* (AL, IX.xxi.2).

§944) Eto ni restrir yr affeithiau, sef rhoi cyngor i losgi tŷ; cydsynio/dymuno'r llosgi; mynd yng nghwmni'r llosgwr hyd at y peth a losger/mynd i losgi; cario'r rhwyll, sef llestr oedd yn dal y tân; 'lladd y tân'; ceisio tanwydd; chwythu'r tân hyd nes ei fod yn cynnau; rhoi'r tân i'r llosgwr; edrych ar y tân heb geisio ei ddiffodd (gw. LII, §116; LIB, 34/1-18; WML, 39/22-40/5).  
gwan Gwân, gwanu; sef gwthio (*thrust*).

§945) Mae hyn yn mynd yn groes i'r naw affaith gan ddweud mai ond un affaith sydd. Roedd dwyn tân yn drosedd yn hytrach na cham personol yn unig, gan adlewyrchu'r ffaith fod lladrat yn cael ei gyfri'n drosedd ddifrifol yng Nghymru'r Oesoedd Canol. Gyda'r affeithiau eraill rhaid oedd talu gwerth y difrod yn unig fel cosb am gam personol, ond pe bai rhywun yn dwyn tân rhaid oedd talu camlwrw neu anghyfarch hefyd: gw. LII, §§117/10-11, 120/6-7. Rhaid oedd wrth lw hanner cant o wŷr i wadu'r affeithiau hyn yn ôl Bleg a Cyfn tra ceir gwahaniaeth barn yn rhai o lsgrau. Ior. Gw. y rhagymadrodd, t. 96.

§946) Cf. *Neuad mab ucheluur, xx. ar pob gauael o'r a kynhalyo y nen (sef yu henne, vi. kolouen), a lx. ar y nen . . .* (LII §139/9-11). Tra dywedir yn Bleg: *Gwerth gayafy: o bop fforch a gynnhalyo y nenbrenn, vgeint yw; dros y nenbrenn, deugeint . . .* (LIB, 95/5-6). Am werth tai gw. hefyd WML, 101/16-102/10.

§947) Cf. §257.

§952) Rhoddid croes ar dir yr oedd dadlau drosto. Dyma'r adran hwyaf ar groesau yn y llyfrau cyfraith. Am drafodaeth ar y defnydd o groesau: gw. Roberts, 'Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog'.

§953) Mae hyn yn awgrymu y defnyddid croesau ym mhob math o achosion nad oedd o anghenraid yn ymwneud â thir: gw. Roberts, 'Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog', 312.

§954) Er mwyn i'r achos fod yn gyfreithlon rhaid oedd i'r arglwydd, neu ei gynrychiolydd, roi'r groes i'r hawlwr yng ngŵydd tystion; yna dylai ef gyflwyno'r groes yng ngŵydd tystion i'r amddiffynwr. Rhaid oedd i'r amddiffynydd fod yn ymwybodol fod croes wedi ei rhoi yn ei erbyn, cf. *nyt croes croes absen* (§968). Pwysleisir yma rôl yr arglwydd mewn achosion o'r fath. Yn wahanol i hyn sonnir yn *AL*, IX.xvii.1 nad oes croes ond un a ddaw o law yr arglwydd ac eithrio un, sef croes a roddo priodor i geisio rhwystro dyn arall rhag dwyn ei dreftadaeth. Am wadu torri croes, dywedir yn *AL*, IX.xvii.5 y dylai amddiffynwr roi llw wythnos i'r Sul canlynol yn ei eglwys leol, gyda'r dau ddyn nesaf eu gwerth ato yn tyngu gydag ef. Dywedir hefyd yn llsgrau. Q, P, ac S: *Pwy bynnac abatto croes rodet l6 trybyr ygyt ac ef ehun* (*AL*, X.i.10). Gw. Roberts, Roberts, 'Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog', yn arb. 311-14.

**rheith furedig mur + edig.** Rhaith gosodedig, penodol.

§958) Cf. *Nyt kroes kroes gwraic o byd gwr yddy na [i] chwyn onyt am yssyrhaet* (*AL*, IX.xvii.4).

§961) Cf. *Ac nydyleyr croes y messyryt namyn messobr. Sef yw hwnw ochaif arglwyd moch yn y goet or pymet dyd kyn gwyl Vyagel hyt [y] bymthegwetyd gwedy y kalan ef a dyly llad y deconvet llwdyn ac velly o vn y vn hyt y dywaetha. Ac nydly priodor kadw y goet namyn o dridiev kyn gwyl Vyagel hyt y deconvet dyd gwedy kalan ar moch a gaffo yn y goet yn hyny o amser llathet y deconvet hwch ac nydly ef llath y moch o vnyvn val y dyly yr arglwyd. Ac nydly kroes rac anyvayl vot. Ac nydly perchenoc dyhevro y voch amvessyryt onydelyr yn y*



*koet wynt kany dyleir ariantal am ev gweithret namyn av llath val y dywethbwyd vhot (AL, IX.xxv.3).*

**messyryt** Cyflawnder o fes. Dyweddiad hefyd am yr arfer o droi moch i bori mes mewn coedwig (gw. *GPC* d.g. mesyryd).

**Messobyr** *mes* + *gobyr*. Tâl am fesfaint: *pannage* (gw. *GPC* d.g. mesobr).

§964) Cf. §90 lle defnyddir y gair *gwys* yn lle *dyfyn*.

**dyfyn** *dy* + *bôn* y ferf mynnaf: *mynnu* (*GPC*), sef gair arall am *wys*.

§965) Cf. §90.

§967) Cf. *Ny ffery kroes namyn blwyddyn (AL, IX.xvii.3).*

**eisluf** *eisen* + *llwyf*? Caiff ei gyfieithu fel ‘elm laths’ yn *AL*, II, 715.

§968) Cf. *Nyt kroes kroes absen (AL, IX.xvii.2).* Ehengir ar hyn yn y testun gan gyfeirio at hen arferiad, *y deuodit gynt*, lle nad oedd raid wrth wybyddiaid i brofi croes. Gw. Roberts, ‘Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog’, 312n.

§981) Soniwyd eisoes am ran yr arglwydd yn rhoi croes. Dywedir yn Cyfn am y canghellor: *Ef bieu dodi croes agbahard ym pob dadyl (WML, 29/6-7).* Yn Stephenson, *The Governance of Gwynedd*, 44 cyfeirir at achos lle bo’r rhingyll wedi estyn croes gwahardd. Gw. hefyd Roberts, ‘Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog’, 313. Ni cheir cyfeiriad uniongyrchol at y rhingyll yn rhoi croes yn y testunau cyfraith sydd efallai’n awgrymu fod lluniwr y testun wedi ychwanegu hyn o’i wybodaeth ei hun.

**arffedo[c]** *Arffed* + *og*. Ceidwaid, amddiffynwyr, neu noddwyr (*GPC*).

§982) **bru duw** *Bri*, sef anrhydedd, + *Duw*. Llŵ cysegredig lle bo Duw yn cael ei gymryd yn fach. Yn Bleg a Cyfn cyfeirir at friduw unwaith yn unig mewn rheol yn ymwneud â gwadu mechni, lle eglurir bod yn rhaid tyngu ar saith allor cysegredig, neu saith gwaith ar yr un allor, i wadu briduw (*WML*, 85/4-11; *LIB*, 41/10-12). Ceir rheolau mwy datblygedig ar friduw yn *LII*, §68 a *Col*, §§126-31 lle nodir bod angen rhaith i wadu briduw. Yn Lladin B (217/33-

218/4) a *LII* defnyddir briduw yn derm ar rwymedigaeth drwy ffydd, lle bo dwy blaid yn ffurfio contract drwy uno dwylo. Gw. H. Pryce, 'Duw yn lle mach: briduw yng nghyfraith Hywel', *LAL*, 47-72; *NLC*, 53-65; *LIB*, 184n; *LTWL*, 252.

§984) Cf. §475 sy'n amrywiad o'r triawd hwn.

§985) Cf. *Nydyleir dody [kroes] yn yd nac y gwellt namyn gwarchae* (*AL*, IX.xxv.2).

§986) Cf. . . . *Ac nydyly kroes rac anyvayl vot . . .* (*AL*, IX.xxv.3).

§992) Cf. *WML*, 130/3-8 a ddyfynnir uchod, gw. §743n.

§993) Cf. *Hyn odenyon adyeyc rac lu gueylyd escob ac argluyd a mud abedar adyn ageuyeyt a greyc ueycyauc* (*AL*, IV.i.11). Geiriad tebyg i lsgrau. D, G, K, a Q. Cf. §743.

§996) Cyfeirir at y rhingyll yn rhoi gwys yn yr adran arno yn *LIB*, 29/7-12 a *WML*, 31/1-5: cf. *G6ys righyll gan tyston. neu tara6 ypost teir gbeith ny ellir e g6adu onyt tr6y lys. Pan watter hagen: ll6 ydyn awysser ary trydyd o wyr vn vreint ac ef ae g6atta* (*WML*). Yr oedd gwysio yn rhan bwysig o swyddogaeth y rhingyll. Fe'i cyfieithwyd yn *summoner* gan M. Richards yn *The Laws of Hywel Dda* (Liverpool, 1954), 43. Mae'r syniad hwn fod y rhingyll yn rhoddi gwys yn cydfynd â'i enwi yn y triawd *Tri arffedoc croes*. Yn achos y *ddadl groes* ym Mrycheiniog ar ôl rhoi croes i amddiffynwr byddai swyddog y brenin, swyddog tebyg i'r rhingyll, yn rhoi gwys iddo: gw. Roberts, 'Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog', 313, 321. Am fwy ar swyddogaethau penodol y rhingyll gw. R. A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: The Structure and Personnel of Government*, i. *South Wales, 1277-1536* (Cardiff, 1972), 60-69. Roedd rhoi croes yn arwain at wysio rhywun i achos cyfreithiol yn y llys. Sonnir yn llsgr. S: *G6ys rigill, kredad6y y6 o bleid y neb a 6ssier. G6ys rigill gan dyston adv6yn, neu daro y post deir gbeith, ni eill neb vnyed yn y erbyn onyd tr6y lys. G6ys rigill hep dyston, o l6 tri dyn y g6edir* (S, §§1494-96).

**fara offeren** Bara wedi'i fendithio a ddosberthid yn ystod gwasanaeth eglwysig. Mae'n ffordd o gyfeirio at ei eglwys leol. Gw. *NLC*, 58-59, 61. Cf. y drafodaeth ar friduw yn §982n.

§997) Cf. *nyt croes, croes absen* lle unwaith eto sonnir am arferiad yn hytrach na chyfraith, sydd efallai'n adlewyrchu gwybodaeth bersonol lluniwr y testun. Mae'r syniad fod modd gwysio yn eglwys y plwyf eto'n dangos perthynas agos yr eglwys â'r gyfraith. Cf. *NLC*, 58 a n. 95; *LAL*, 267.

§998) Nodir yn Bleg hefyd mai ond tair gwaith yn unig y gellid peidio ag ateb gwys: *Or gomed dyn teir gwys o pleit y brenhin am tir, ac na del y ateb y'r neb a'e gofynho, yr hawlwr a dodir ymedyant ohonaw. Os o achaws kyfreithawl y trigywys ynteu heb dyuot, ef a geiff werescyn o'e tir. Os tremeugu y gyntaf, a dyuot y'r eil neu y'r tryded, y gnifer gwys a tremeucco, y gnifer camlwrw a tal y'r brenhin; ac eissoes ny dygwyd o'e dadyl, namyn os kyfreith a'e barn idaw, gwrthebet* (*LLB*, 76/7-15). Dywedir hyn hefyd yn *WML*, 50/16-21 a *DwCol*, §§83-5; ac yn ychwanegol at hyn yn *AL*, GC.II.xxx.21 rhoddir y rhesymau cyfreithol am beidio ag ymateb i wys: *Aghenyon kyfreitha6l y omed gwys: llifd6r o uor hyt uynyd heb ryt heb pont arna6; acharchar; achleuyt gorweidyab6c*. Cf. *Tri pheth adiffer dyn rac guys dadleu. llefein. ac vtgyrn rac llu gorwlat. a llifyn auon hep pont aheb keubal. achleuyt* (*WML*, 138/18-21) **tremeugeu** Dirmygion: *contempts of court*. Ystyr hanfodol *tremyg* yw dirmygu. Yn llythrennol mae'n golygu 'edrych drwy rywun:' *WLW*, 219. Cf. Roberts, 'Legal Practice in fifteenth-century Brycheiniog', 315.

§999) Enwir yr esgusodwr fel un o'r bobl y gellid derbyn ei lw yn unigol. Eto cyfeirir at *ddefawt*. Gan nad oes sôn am yr esgusodwr yn y testunau cyfraith eraill efallai ei bod yn deg awgrymu mai term cymharol newydd oedd hwn, ac ni cheir enghraifft o'r term yn *GPC* sy'n dyddio o gyfnod cynharach na'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Dichon ei fod yn derm arall am dafodiog: cf. *Tri dyn a saif tafodyab6c absen drosdynt vn y6 dyn a vo me6n pererinda6d ty a Ryfein neu a bed Krist a dyn avo klaf gorbeida6c o vri6 neu vrath neu glefyd aniana6l arall hyd na alleu dyfod nac ar varch nac ar draed a dyn a vo me6n kaethi6ed karchar a hefyd dyn avo me6n llyd argl6yd kans penaf g6assanaeth*

*tir y6 me6n llyd o reid neu yfyllda6d a h6nn6 yssyd ped6ryd achab6s. De6i Brefi !' (AL, XI.iv.8 (S)).*

**prosses** Benthyciad Hen Ffrangeg o bosibl drwy'r Saesneg Canol. Gweithrediadau achos cyfreithiol, *legal process*. Ni cheir enghraifft o'r gair cyn y bymthegfed ganrif yn *GPC* a daw'r enghraifft hwnnw o *AL*, XI.iii.13 (S). Mae hyn yn codi cwestiwn am faint o Saesneg oedd yn cael ei ddefnyddio yn y llysoedd, neu am fenthyg termau i'r Gymraeg gan ddangos sut yr oedd geirfa'r gyfraith yn datblygu yn yr Oesoedd Canol diweddar.

**§1003) heint Duw** Hwyrach mai cyfeiriad at y pla du sydd yma. Mynegir ym marddoniaeth Beirdd yr Uchelwyr y syniad mai cosb gan Dduw am bechodau'r ddynoliaeth oedd y pla: gw. Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), 12.

**§1006)** Cf. *Hyn o agheneu a o[e]da keureyth en dyodor: agheu a heynt neu cleuyt gorweydyauc neu uryu neu urath ne allo nac ar uarch nac ar droet, neu na bo hedrum nac ydau nac o'e cennat, neu uorduy o achau6s gueylgy neu camwynt e regthau a'y edyl, neu carchar cennogyn neu aghen argluyd, neu na re cleuo y guessyau* (*DwCol*, §§441-42).

**§1010)** Cf. §§813-23. Addasiad arall ar restr y 'naw tafodiog': gw. *WML*, 40/19-41/23; *LIB*, 37/29-39/23; a *LII*, §56. i) Rhestrir yr arglwydd gyntaf fel yn y testunau eraill. Ni cheir esboniad am ei restru yn *LII*, a cheir esboniad gwahanol i'r hyn a geir yma yn *WML* a *LIB*, gyda *LIB* yn manylu ar y dull o weithredu. ii) Yn *LII* ceir y gair *offeiriad* tra enwir *abad* yn *WML* a *LIB*. *WML* yn unig sy'n cyfeirio at *ar dr6s ykor*. Cyfraith eglwysig oedd maes yr abad neu'r esgob ac ond o dan amodau arbennig y câi lais mewn cyfraith seciwlar: cf. *NLC* 52, n. 71. iii) Rhestrir 'tad rhwng dau fab' yn y tri dull, ond ni sonnir yn benodol fod yn rhaid iddynt rannu'r un fam. Yn *WML* a *LIB* nodir sut y dylai'r tad dyngu. iv) Yn y rhestrau eraill enwir ynad neu frawdwr, sef yr un syniad ac a gyflwynir yn rhif v. Rhestrir tystiolaeth yr offeiriad rhwng dau ddyn o'i blwyf fel y chweched tafodiog yn *LIB* a *WML*. Ni sonnir am y wraig yn y testunau eraill. v) Dyma'r pedwerydd person yn y rhestrau eraill. Defnyddir yr enw *brawdwr* fel y testunau deheuol: cf. *Bra6d6r am y varn6ys*

*gynt or byd ydeu dyn y barn6yt udunt yn amrysson am y varn (WML llsgr.V).*  
 vi) Y pumed yn y rhestrau eraill. Ymdebygai'r hyn a geir yma o ran syniad  
 ond nid o ran geiriad i'r hyn a geir yn *LII*, sef y credir ei air os yw'r ddwy  
 blaid yn cytuno ei fod yn fach: cf. *Pemhet yu mach ar e uechnyaeth: o byd  
 mach adeuedyc a dywedeut o'r neyll bot e uechnyaeth ar peth maur a'r llall  
 paneu ar beth bychan, canes adeuedyc e mach, credadue yu ef pahar e rodet,  
 a chanes adeuedyc ef ny ellyr e wadu.* vii) Morwyn yw seithfed person y  
 rhestrau eraill hefyd. Defnyddir y gair *morwyndawt* fel *WML* yn hytrach na  
*gwyrdawt (LIB)* a *guerendaut (LII)*. Ceir trafodaeth ehangach ar hyn yn y  
 testunau eraill. Sonnir am dreisio'r ferch fel *WML* a *LIB: Neu or treissir ar g6r  
 ae treisso yndywedut nat oed uor6yn hi. credad6y y6 tystolyaeth yuor6yn yny  
 erbyn (WML)*. Adroddir yr achos a geir yn *LII* yn y rhestr yn §§813-23. viii)  
 Eto ymddengys bod y testun yn agosach o ran geiriad at yr hyn a geir yn  
*WML*: cf. *Bugeil treford am y uugeilyaeth or llad ll6dyn y llall.* ix) *WML* yn  
 unig sy'n ei alw'n *diobeith*. Yn *LIB* eir ymlaen i enwi'r amodwr, rhoddawdyr  
 eiddo, a rhoddawdyr gwraig; tra yn *WML* enwir yr amodwr, dyn a roddo  
*ddogn fanag*, a'r rhoddawdyr. Enwir y rhoddawdyr ar ffurf *rhoddyat* yn y  
 rhestr yn §§813-23 yn ogystal â'r amodwr, a chyfeirir hefyd at y broses o roi  
*dogn fanag*. Dichon fod lluniwr y testun wedi symud yr enwau atodol hyn a  
 geir yn Bleg a Cyfn i restr arall er mwyn cadw'r naw tafodiog yn rhestr o naw.  
 Cf. hefyd: i. *Arglwyd y rwg dav wr o bydant kyn nesses ido.* ii. *Tad y rwg y dav  
 vap o byddant vn vam vntat.* iii. *Ynat ar y vrawt [a varno] od addef y barnv  
 nev o gellir y brovi arno y barnv y bwy y barnot y bwy nys barnod. Ar tri hyny  
 nyddyly tygv.* iv. *Effeiriat rwg dav dyn blwyf o byd ym rysson [y] rygthvnt  
 amgymynv da vdvnt y my gymynwyt. Y mynev y kymynwyt. Yna yreffeiriat a  
 ddyly dosbarth y rygthvnt os wrtho y kymynwyt.* v. *Mach ar y vechny od  
 adever y vot yn vach o gwedyr yntev nyt tyvodioc.* vi. *Morwyn ar y morwyndot  
 o dygyr trais arny hebrwg ychwyn yn gyfreithiol y llys ay dillat oll am y fen a  
 hyny dan weidi ac a rwyd y drais arnay val y gwelo pawb. Pwy bynac y dweto  
 hi arno gwnevthur y drays [o] hono gan [i] dygv o honay arno nychaif  
 [hwnw] wadv dym o hyny.* vii. *Lleidr pan y krocer wrth y groc yn addev y  
 gydleidr am y lladrat y krocer amdanaw.* viii. *Bvgayl trefgord y edvyryt ar y  
 ryscrybl o lledyr vn on nadvunt pwy ay lladod or yscrybl ony byd eido ef ran  
 or yscrybl o byd nyt tavodioc.* ix. *Rodiat ar y rod od addef y roy a bod ymrysson*

*y rwg dav dyn am y da ac yn dywedvt y my y roes ef y da. Y mynev y roes ef y da. Yna [y] byt ym ben y rodiait y bwy y roes y da (AL, IX.xviii.1-11).*

**w[y]den** Rhaff neu gorden o gwmpas y gwddf. Ceir nifer o gyfeiriadau at grogi a'r grocbren yn y testun ac yn y llyfrau cyfraith yn gyffredinol: crogi oedd y gosb am ladrata. Er mwyn crogi rhaid oedd dal y lleidr gyda'r lladrad yn ei law. Ni wyddom yr union drefn a ddilynid wrth grogi troseddwr. Awgryma Huw Pryce fod yr eglwys hefyd yn ymarfer yr hawl i grogi rhywun a fyddai'n lladrata ar dir yr eglwys: gw. 'Enghraifft o croc 'crocbren' yn y Canu i Gadfan?', *BBCS*, 32 (1985), 166-68, am ganu Cadfan gw. *CBT*, II.1. Am gosbi a chrogi yn Ewrop gw. Mitchell B. Merback, *The Thief, the Cross and the Wheel: Pain and the Spectacle of Punishment in Medieval and Renaissance Europe* (London, 1999), 140-41, 187-88, 199-200.

**§1011)** Cf. *AL*, IX. xviii.1-3 a ddyfynnir uchod, **§1010n**. Yn *AL*, IX eir ymlaen i ddweud: *Arglwyd ac ynat athat nydlant tygv (AL, IX.xviii.11)*. Mae hyn yn awgrymu'n gryf bod cysylltiad rhwng yr adran hon yn H/Peniarth 278 â thestun *AL*, IX ac mae'n dangos gallu'r awdur i droi ei ffynhonnell yn destun newydd. Nid oedd yn rhaid i'r gwŷr hyn dyngu llw ar grair, sy'n mynd yn groes i **§630** lle sonnir nad yw llw yn gyfan os na chafodd ei dyngu ar grair neu yn yr eglwys. Cyfeirir yn aml at dyngu ar grair yn y testun ac ni cheir sôn o gwbl am dyngu ar y Beibl. Nid oes raid i dad dyngu gan ei fod yn galw Duw yn dyst i'r hyn a ddywedai: *myn duw . . .* Swyddogaeth yr arglwydd neu'r brenin oedd cymell pobl at y crair: cf. *Ac yno heuyt y brenhin a dyly kymell y wyr y'r creir y tygu eu dewis (LIB, 107/3-5)*, ac felly nid oes neb a all gymell yr arglwydd ei hun. Mae **§301** hefyd yn dweud na ddylai arglwydd dyngu.

**§1012) verbum Dei** Ceir cyfeiriad at yr offeiriad yn adrodd gweddi: 'gair Duw'. Am dyngu gw. *NLC*, 39-53.

**Morwyn am y morwyndawt . . .** Cf. *O deruyd ydy hytheu gerru en kyureythyaul, kymeret aelaut e gur en e llau assu ydy a'r llau deheu ar e kreyr, a thyget hy e'r kreyr rygedyau o'r aelaut hunnu a hyhy truy treys, a'r rewneythur meuel a sarhaet ydy ac o'e kenedel ac o'e hargluyd. Rey o'r egypt ny at guat en erbyn henne; e keureyth eyssoes a dyweyt e deleyr gadu e*

*guat mal e dewedassam ny uchot* (LII, §50/3-8). Nodir hyn hefyd yn *LIB*, 63/23-9 a *WML*, 92/13-18.

**Lleidydr am y gytleidydr** Dywedir yn yr adran ar y naw tafodiog yn *LIB* a *WML* nad oes raid i leidr sydd ar fin cael ei grogi dyngu ar grair. Cf. y triawd yn Bleg: *Teir tystolyaeth yssyd ar eir, ac ny dygir y greir: tystolyaeth lleidydr ar y gytleidydr wrth y groc, a thystolyaeth nyt elher yn y herbyn pan dyccer ar eir, a thystolyaeth y gwrthyston* (*LIB*, 122/4-7).

**§1013)** Cf. S, §2525 lle rhestrir yr un gweithredoedd ac eithrio rhodd a gwystl. Mae'r darn hefyd yn cyfateb i ddechrau'r gynghawsedd yn *AL*, IX. Mae Aneurin Owen yn defnyddio'r darn hwn fel pennawd ar ddechrau Llyfr IX ac felly nid yw'n ei rifo yn ei olygiad.

**sef yw hynny, rhei drwy gwyn, ereill heb gwyn** Cymal sydd wedi ei ychwanegu at destun H sydd eto'n rhoi pwyslais ar y 'gwyn'.

**§1014)** Cf. *Deuryw ladrat ysyd lladrat kynyrchawl [a] lladrat agynyrchol. Os lladrat kynyrchol vyd dand6ng a ddyleir amdanaw eithyr y triffeth ny ad kyfreith y damd6g blawt [a] gwenyn ac arian ac am y tri hynny ydyleir gyr obyd llestyr yn y kylch damdwg a ddyleir amdanynt* (*AL*, IX.i.1-2). Nid oedd modd gwahaniaethu rhwng blawd, gwenyn, nac arian un dyn oddi wrth rai dyn arall. Ond pe bai llestr amdanynt byddai modd gwybod pwy oedd y gwir berchennog a gellid damdwng yn ôl gwerth y llestr.

**.i. gwydd** Mae awdur H wedi glosio'r testun gan ddefnyddio *.i.* am *id est*, sef 'hynny yw'. Mae hyn eto yn awgrymu fod gan yr awdur gefndir Lladin a gwybodaeth bersonol o'r gyfraith.

**§1015)** Ceir triawd yng nghanol y testun yma sydd â chyfatebiaeth iddo yn llsgr. Z, f. 79v: cf. *Tri ffeth y sydd vn vrain a lladrad yn llaw: i gayl ar i gefyn neu yn i vwrw i wrthaw, i gayl dan vn to ac vn klo ac ef, ac i gayl gar y vron yn i vwrw* (*WMLT*: Z101). Cf. hefyd *DwCol: Hyn o petheu esyt un ureynt a lladrat en llau: o byd den en kerdet, a caffel escrybyl neu da marwaul en un cerdet ac ef neu rac y uron, kystal ev hunnu a lladrat en llau. Er eyl ev, o keffyr lladrat a dan un do ac un ach[u]re ac ef, kystal eu hunnu heuyd a lladrat en llau. Trydyt ev caffel lladrat en llau den neu ar y geuyn neu guedy y uuru y urthau*



*e'r llaur. Am pob un o'r try hynny, reyt eu y den ceysseyau ardelu keureythyaul e uuru e lladrat y urthau neu enteu a uo lleydyr ceuadef (DwCol, §§445-48).*

**achreu** Yr ochr fewnol i'r to: *under-thatch*. Cf. *Ar to e ty a'e achure, tryan guerth y ty, a'r tryderan o henne ar er achure (LII, §139/24).*

**§1016)** Cf. *Ac o deruyd ydau, en dale er eydau, dyuot guercheytwat a urthuynepo ydau, gouynnet enteu, 'Puy a warcheydu hun?' Yaun yu e'r guercheytwat dyweduyt panyu ef a'e guercheydu. Ac yna e mae yaun e'r haulur dywedyt, 'Kam yu ytty guarchadu e meu y'. Ac yna e mae yaun e'r amdyffynnur dyweduyt, 'Kubylwat nat oes dym o'r teu dy ema, ac ygyt ac nat oes, pa beth a'th wahanus ty a'th gollet, a pha amser e guehenyst ty a'th gollet?' (LII, §113/26-33).*

**§1017)** Cf. *Nyddyleir krogri lleidr o llethir vn oe yscrybl yn [y] llys kynyddatle namyn y ollwg yn ryd ar neb ay lladdo atebet yr arglwyd o leidr (AL, IX.iii.9).*

**§1018)** Dywedir hefyd yn *LII, §111/48* na ddylid dienyddu neb nad oedd wedi ei ddal â'r lladrad yn ei law.

**§1019)** Cf. *Ny dele kygaus a chanllau seuyll ygyt ac ef am haul a uo lley no kewerthyd try ugeynt, nau am tyr a daear a march ac eydyon (LII, §81/30-31).*

**canllaw** *can + llaw*. Yn llythrennol rhywun sy'n estyn llaw. Cynorthwy-ydd cyfreithiol, byddai'n cyflwyno cynghawsedd ar ran plaid yn y llys gyda'r cyngaws. Yn ôl *DwCol*: . . . *keureyth a deweyt deleu o'r amdyffynnur dewys e ardelu a uenho o'r try, ay er hun a deuot e hun ay er hen a deuot e keghaus ay er hen a deuot e ganllau (DwCol, §483)*. Mae D. Jenkins yn awgrymu mai mantais cael dau wr yn cyflwyno'r un ddadl, dichon o safbwyntiau gwahanol, oedd y gellid dewis y gynghawsedd orau o'r ddau: gw. *Col*, 127n. Yn y testunau gelwir y cyngaws a'r canllaw gyda'i gilydd yn *porth*, sef *legal aid*. Gellir cymharu swyddogaeth y ddau gyda'r *countor* neu'r *narrator* Eingl-Normanaidd (*LTMW*, 322-23). Am rôl y ddau mewn cynghawsedd gw. T. M. Charles-Edwards, 'Cynghawsedd: counting and pleading in medieval Welsh law', *BBCS*, 33 (1986), 188-98.



§1020) Cf. *LII*, §113/44-47 a ddyfynnir uchod §716n.

§1021) Cf. §520.

§1022) Cf. §324.

§1024) Cf. *Tri chehyryn canhastyr yssyd: Vn y6 lledrat yfford ykertho kyfran o hona6. kanys na6 affeith yssyd ida6. Eil y6 hyd brenhin p6y bynhac ae kyllello. Trydyd y6 abo bleid. y neb awnel kam ym dana6 (WML, 127/2-7)*. Ceir nodyn helaeth ar y triawd yn *WMLT*, 163-66 ond mae testun H yn amrywio dipyn oddi wrth gweddill y testunau cyfraith, gydag esboniad yn cael ei gynnig am bob cymal. Ceir yma dystiolaeth ddifyr am fleiddiaid. Am y bleiddiaid yng Nghymru gw. C. Fychan, *Galwad y Blaidd: Perthynas y Blaidd â Chymru Dros y Canrifoedd* (Aberystwyth, 2006). Roedd bleiddiaid, fel llwynogod, yn bla yng ngolwg y gyfraith ac roedd pawb yn rhydd i'w lladd (*WML*, 80/16-19). Ceir cymal esboniadol mewn fersiwn o'r triawd yn llsgr. *Z sy'n cynnig esboniad gwahanol i ystyr 'a bo bleidd': sef yw a bo blaidd a driblin gweddill dant ac awch ni varn kyfreith tal eithyr o delediw nac o a driblin ni varn kanis nid a driblin yn dal* (*Z*, f. 36v). (Am driblin gw. §576n). Mae hyn yn awgrymu fod y rhannau hynafol o'r testunau oedd efallai wedi colli eu hystyr yn cael eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd.

§1026) Diffinir teithi trais yn *WML*, 78/18-19 a J, 93/15 fel: *llef achorn ach6yn. Diffinir trais ei hun yn Ior fel . . . pob peth a dyccer eg guyd o anuod; sef yu er anuod, pob peth a dyccer er druc ac er guaratwyd e'r llall (LII, §115/29-31)*.

§1027) Cf. *O deruyd e den holy da o treys ac ateb or amdyffynnur o wat [idau] yaun yu barnu guat ydau cany ellyr guybydyeyt ar treys: sef achaus na ellyr urth uot reyth ossodedyc eg kyfreyth amdanau ac na deleyr dody guybydyeyt ene lle e deleo reyth uot. Sef yu meynt e reyth honno llw degwyr a deugeynt. Os adef a wna enteu atuerher e treys tracheuyn heb haul heb arhaul arney. Os ef a dyweyt er amdyffynnur: Dyoer heb ef ny deleaf uy dy ateb ty am er haul honno; [e] sef achaus yu [hene] my a atureys yt ty tracheuyn e treys a holy ty ymy ac a degymvun a thy amdaney ac ot amheuy ty henny emy mae ymy*

*dygaun ae guyr bot en wyr a dywedaf uy. Reyt yu er haulur ena ae guadu henne, ae enteu ardelu o peth arall a uo guell. Os guadu a wna er haulur muynhaer guybydyeyt er amdyffynnur cany [t ar e treys y] dodes ef y vybydyeyt namen at eturyt ac ar dygymot. Ot adef enteu er eturyt ar dygymot tryccer arnau. Os ef a dyweyt er haulur: Dyoer hep ef ny wadaf uy ry eturyt ema a atueruyt om treys, sef yu henne keynnyauc, a phunt oed ue treys ynheu; ac ar e kyfreyth e dodaf uynheu keny deleuyf uy namen un keynhyauc yt ty om treys deleu ohanaf uynheu o wat am honno kymeynt ac am [y] punt; neu enteu eturyt e mynheu ue treys tracheuyn. O gutta er amdyffynnur [hynny] guadet ual e dywedassam ny uchot. Os adef [aguna] enteu atuerher etreys tracheuen a dyruy er argluyd. Os ef a dyweyt er amdyffynnur tystu er argluyd ac er egneyt ac er guyrda na rewadyt eny erbyn ryuot eturyt a dygymot [am e treys hono] eythyr na chapath kubyl or da [h6nn6] a dody ar e kyfreyth hyt nat treys hytheu bellach namen delyet; ac y wadu dilyet hep kedernyt arney hep prauf na dau arnaf uynheu hamen ue llv [yne6] uuhun oy wadu. E kyfreyth a dyweyt am dilyet hep kedernyt arney hep prauf nat oes namen un tauaut en gyrru ac arall en guadu (AL, VII.i.43). Mae'r gynhawsedd hefyd yn digwydd yn J, Tim ac S: gw. y conspectws.*

**§1028)** Cf. *Ny byd eneyt uadeu nep er treys; sef achaus yu, canys sarhaet e nep a treyssyer a dywygyr ydau herwyd y ureynt, a'e da a atueyr tracheuen, ac e'r arglyud e dyruy (LII, §115/44-46).*

**§1031)** Cf. *Nyt trais onyt trais gwraic gans diuwyn dirwy drays yw gwialen arian ac naddyleir gwyalen [arriant] amdrais onyt amdrais gwraic (AL, IX.v.5). Dywedir yn Bleg: Diuwyn dirwy treis morwyn yw gwialen aryant a ffiol eur a chlawr eur, mal y dywetpwynt am eu messureu yn diuwyn sarhaet brenhin (LIB, 43/31-44/1). Am drais gw. WLW, 86-88.*

**§1032)** Cwyn ag elfennau ynddo sy'n unigryw i H ond sydd hefyd â rhai elfennau hynafol ynddo; fel bod gofyn i'r ferch sydd yn cyhuddo dyn o'i threisio afael yn ei galy gyda'i llaw chwith, a rhoi ei llaw dde ar y crair, tra'n tyngu iddo'i threisio: cf. **§1012**; LIB, 63/23-29; WML, 92/13-18; LII, §50/3-8. Gw. y rhagymadrodd, t. 56 ymlaen. Am drais yng nghyfraith Lloegr gw. D. E.

Woodbine a S. E. Thorne (goln.), *Bracton on the Laws and Customs of England* (Cambridge, Mass, 1968-77), II. 414-18. Mae cynnwys Bracton mewn manau yn debyg i'r hyn a geir yma: cf. *Cum igitur virgo sic corrupta fuerit et oppressa contra pacem domini regis, statim et dum factum recens fuerit, cum clamore et huthesio accedere debet ad villas vicinas et ibi iniuriam sibi illatam probis hominibus ostendere, sanguinem et vestes suas sanguine tinctas, et vestium scissiones . . .* (Bracton, II, 415). Cf. hefyd: *A. FEMINA talis scilicet appellat B. quod sicut esset tali loco, tali die, tali anno etcetera ut supra, vel cum iret a tali loco usque ad talem locum, vel cum esset tali loco faciendo tale opus . . .* (Bracton, II, 416). Gw. hefyd Richard Ireland, 'Lucrece, Philomela (and Cecily): Chaucer and the law of rape', yn T. S. Haskett (gol.), *Crime and Punishment in the Middle Ages* (Victoria, B.C., 1998), 40-52.

**§1033)** Sonnir am gosbau treisio morwyn sydd yn adleisio'r hyn a geir mewn testunau eraill, e.e. sonnir yn Ior: *O deruyd e ur adef treys e ar wreyc, talet deudec muv en dyrue e'r brenhyn, a'e hamober y'u hargluyd; ac os moruen uyd, y chowyll a'e haguedy en e ueynt uuyhaf e deleho a'e huenepwerth a'e dylesruyd . . .* (LII, §50/9-12). Roedd trais yn cael ei gyfrif fel uniad yng ngolwg y gyfraith ac yn sgîl hynny rhaid oedd wrth y taliadau arferol (*WLW*, 35). Sonnir yn *LIB*, 63/23-25 y dylid talu amobr a dirwy i'r arglwydd a *sarhaet*, agweddi, a dilysrwydd i wraig sydd wedi cael ei threisio, heb gyfeirio at drais morwyn a'r taliad o gowyll. Yn *WML*, 92/10-13 nodir y dylid talu gobr a dirwy i'r arglwydd; a dilysdod, agweddi, a sarhaed i wraig a dreiswyd; yn ogystal â'r taliad o gowyll i forwyn a dreiswyd. Yn y testunau eraill enwir un ai *sarhaet* neu wynebwerth ond yma enwir y ddau. Ni chyfeirir at y taliad o amobr i'r arglwydd yn H ond mae'r taliad o wialen a ffiol sy'n cyfateb i daliadau *sarhaet* y brenin yn gyfartal â dirwy trais morwyn yn *LIB*, 43/31-44/1; *WML*, 123/17-9; a Lladin D, 338. Mae'r rheol hon yn awgrymu mai swyddogaeth y brenin oedd gwarchod morynion, a gâi eu cyfrif fel *diffaith* y brenin (gw. *WLW*, 49, 87-88). Gan na allodd y brenin warchod y forwyn a gafodd ei threisio, efallai mai dyma pam nad enwir amobyr fel un o'r taliadau yn H. Nodir yn *AL*, IV.iv.24 pe bai morwyn yn cael ei threisio ac yn beichiogi o ganlyniad i hynny, ac ni wyddai pwy oedd y gŵr a'i treisiodd, ni ddylai'r ferch

orfod talu amobr i'r brenin, gan na allodd yntau ei: *chadu rac trais ac angkyfreith*. Benthycir hefyd o'r rheolau ar sarhaed y brenin a geir yng nghyfreithiau'r llys. Nodir yma, fel §300, y gellid ysbaddu dyn am dreisio morwyn. Dywedir yn *WML*, 97/20-21: *acony eill y g6r talu dycker y geilleu*. Cf. *Nyt oes yg kyfreith Hywel Da yspadu gwr yr treissaw gwreic* (*LIB*, 63/31-32). Efallai fod hyn yn enghraifft o duedd hynafiaethol yr awdur neu ei fod yn tynnu ar Cyfn.

**ddilysrwydd** Yr ystyr yma yw taliad am ddiweirdeb. Dichon mai'r syniad y tu ôl i hyn oedd fod merch ddi-briod ond yn 'ddilys' os oedd hi'n forwyn (*WLW*, 210).

**galy** Gair am y pidyn sy'n debyg i'r Cernyweg *kal* a'r Llydaweg *calc'h* (*GPC*).

§1035) Cf. *Teyr aguedy kyureythyaul esyd: aguedy merch brenhyn, pedeyr ar ugeynt, a'e chowyll, vyth punt; aguedy merch gurda, teyr punt, a'e chowyll, punt; aguedy merch taeauc, punt, a'e chowyll, chue ugeynt* (*LII*, §48/22-25). Mae'r geiriad yn agosach i llsgr. *Z*, f. 55r: *Tair agweddi kyfreithiawl: agweddi merch brenin, xxiiij o bvnoedd, a'i chowill viiiij bvnt; agweddi merch vchelwr tair pvnt, a'i chowill pvnt; agweddi merch mab aillt, cxx d a ffvnt, a'i chowill cxx d* (*WMLT: Z77*).

**merch brenin** Nid yw'r swm o saith punt ar hugain yn cyfateb i'r hyn a geir yn y testunau eraill. Yn ôl *LIB*, 67/14 gwerth agweddi merch brenin yw pedair punt ar ddeg, tra yn *WML*, 89/20-21 ei werth yw pedair punt ar hugain, fel Ior. Ior yn unig sy'n nodi mai wyth bunt yw ei chowyll. Yn *WML*, 89/19-20 a *LIB*, 67/13 sonnir mai tir a delir fel cowyll i ferch brenin ond ni nodir ei werth. Mae'r diffiniad a gynigir yma o ystyr cowyll yn adleisio Ior: *Sef ev e chowyll, e peth a gaffo am e guerendaüt* (*LII*, §51/4). Un agwedd o gowyll yn unig yw hyn, i forwyn yn unig y telid cowyll; ond, fel yr awgrymai Bleg a Cyfn, roedd yn daliad a oedd yn cael ei addo gan y gŵr i'w ddarpar wraig a gellid bargeinio yn ei gylch (*WLW*, 76-77).

**merch uchelwr** Mae *WML*, 91/2-3 yn cyfateb o ran gwerth agweddi ond telir punt a hanner fel cowyll; tra fo *LIB*, 60/25-6 a Ior (gw. uchod) yn cyfateb i'r hyn a geir yn H.

**merch mab eillt** Mae ei sarhaed yn wahanol i un merched eraill sydd gan amlaf yn hanner gwerth sarhaed y brawd. Awgrymir diffiniad o ystyr dilysdod neu ddilysrwydd, gan awgrymu cysylltiad rhwng y taliad â beichiogi yn sgil y trais. Roedd *mab aillt* yn derm a gysylltid â'r gogledd: gw. *WLW*, 188-89.

§1036) Cwyn arall nad oes cyfatebiaeth iddi yn y testunau cyfraith golygedig. Gw. y rhagymadrodd, t. 56 ymlaen.

§1037) Cf. *Nyt oes breynt e puteyn: ket dyccer treys arney, ne dele caffel yaun. O serheyr hythey talher e sarhaet urth ureynt e braut, a'y galanas o lledyr* (LII, §55/23-25). Sonnir hefyd na allai gwraig fud gwyno trais gan na allai siarad i leisio ei chwyn. Rhestrir person mud hefyd fel un o'r bobl nad yw eu tystiolaeth yn sefyll mewn unrhyw achos yn *AL*, Dim.III.ii.2. Yn wahanol i hyn yn ôl cyfraith Lloegr gellid cosbi am dreisio putain: gw. *Bracton*, II, 415.

§1040) Cf. *Kwyn yn gyntaf ac gwedy roddo [yr] arglwyd gyfraith yr howlor addyly bot krair yn ylaw ac obyt y da yn y maes yna y dyly yr howlwr [i] damdwg yn gyfreithiol val ydywetbwyd vhot a henwi agyfarch. Yna y dyly yr amddifynwr arddelw o vn o tri arddelw ay kadw kyn koll ay geni ameithrig ay arddelw [ai kymero oi law] ac ef addyly oet wrthvunt o byt rait wrth y lle ybwynt ar howlwr a eill ev hanaddwyno os myn val yr rai vhot. O ffalla y arddelw yddo talet navgain yr arglwyd ay dda oll yr howlor. O chaif ef y ardelw talet y kwynwr navgain yr arglwyd* (*AL*, IX.vi.1-2). Sonnir am gwyno wrth yr arglwydd sy'n awgrymu mai cwyno a ddaw gyntaf gyda hynny'n arwain at gynghawsedd: gw. Charles-Edwards, 'Cynghawsedd: counting and pleading in medieval Welsh law', 198.

§1041) Mae'r adran hon yn rhoi gwedd newydd ar y gyfraith a gyflwynir yn Ior, gan awgrymu nad oedd ynaid bob amser yn cytuno gyda'r hyn a gofnodir yn y llyfrau cyfraith neu fod gwahanol ynaid yn dehongli'r gyfraith mewn gwahanol ffyrdd: *Sef yu er agkyuarch, pob peth a dyccer en absent o'r ny watter. Sef yu treys, pob peth a dyccer eg guyd o anuod . . .* (LII, §115/28-30). Cofnodir gwahanol farn fel hyn yn Ior hefyd, e.e. *Ereyll a deweyt* (LII, §116/10).

§1043) Dechrau adran ar anghyfarch sy'n perthyn yn agos i Lyfr Cynghawsedd. Cf.

*Oderuyd e den holy peth o agkyuarch dywedet duyn er eydau en agkyuarch ac oe anuod ac o byd a amheuo ydau henne bot ydau dygaun ae guypo, a dody ar e kyfreyth e kychuyn a gychuynnuyt en agkyureythaul oe warchadu ef ac enwy e da hunnu, [a] deleu e dyuot enteu en kyureythaul attau ef tracheuen. Ony wata er amdyffynnur henny dyuot e da tracheuyn ar e breynt e bu gynt [a thalet ente6 kaml6r6 er argluit.] Os guata enteu muynhaer guybydyeyt er haulur. Os ef a dyweyt er amdyffynnur Dyoer hep ef ny deleaf uy dy ateb ty am er haul honno, sef achau yu e peth a dywedy ty arnaf uy e duyn en agkyureythaul ac en agkyuarch y gennyt ty tytheu ae dugost tracheuen hep ouyn [a] hep ganhyat emy [ac] en agkyureythaul ac ot amheuy ty henny [e] mae ymy dygaun ae guyr; ac ar e kyfreyth e dodaf uy deleu or da hunnu dyuot trae keuen ataf uy kyn ateb o hanaf uy yt ty amdanau ef. Ony wata er haulur henny byt eny dewys ae euo eturyt e da tracheuen er amdyffynnur a bot en agoret kyfreyth ydau enteu pan uynho holy; neu os guell gantau enteu, gadet ganthau e da a thawet. Os guadu a wna er haulur muynhaer guybydyeyt er amdyffynnur. Os ef a dyweyt er haulur Dyoer hep ef e da a dywedy ty e duyn o hanaf uy en agkyureythaul tydy a teleyst hunnu emy am hun [a hen] ac ot amheuy ty henne e mae ymy dygaun ae guyr; ac ar e kyfreyth e dodaf uynheu na deleyr talu gurthaul ym mynheu am ue haul. O guata er amdyffynnur henne muynhaer guybydyeyt er haulur: ac onys guata [dyeithyr adef] atuerher er haulur e da, ual y dywedassam ny uchot. Os ef a dyweyt er amdyffynnur tystu er egypt ac er guyrda na ry wadus er haulur kychvyn e da en agkyureythaul ual y dywedeys y arnau a mynnu muynhau o henne ac erchy braut. A dyweduyt or haulur: Dyoer hep ef nyt reynt guat tros orsaf: ardelu kyureythaul e syd genyf uy gorsauedyc ene kyfreyth ac e sef yu hunnu e da a dywedeyst ty arnaf uy e duyn gennyt ty en agkyureythaul re dyweduyt ohanaf uynheu panyu da a teleyst ty emy am dilyet arall oed hunnu; ac ar e kyfreyth e dodaf uynheu eny pallo uy ardelu ymynheu nat reynt [ymyne6] guadu tros orsaf. Os ef a dewis er amdyffynnur barnu braut ydau urth er ardelu a wnaeth er haulur am na wadus en erbyn a dywaut enteu arnau ef yaun y6 barnu braut ydau. Ac y sef a dyweyt e kyfreyth ena nat oes ateb kyureythaul namen un o try ae adef ae guadu ae ardelu kyureythaul: ac e sef yu ardelu kyureythaul gorsaf*

*kyfreyth ac e sef yu gorsaf kyfreyth peth a trosso e kyfreyth y urth y peth y byder en emdyweduyt amdanau ac a dycco y peth arall a uo kystal ac ef neu a uo guell ual y bo reyt annot e kyfreyth urthau neu urth y tystiolaeth a doter arnau. Ac urth henny [y gelwyr ardelu yn orssaf kyfreyth canys gorssebyll awna kyfreyth pan annoter pan dyccer ythe6 y 6rth peth] ac urth [henne nat reyt guad dros orssaf] e mae yaun gorthremu er amdyffynnur a muynhau tystyon er haulur. Allena kyghaussed am da ny aller [caffel] y welet en kyndrychaul (AL, VII.i.44). Ceir cyfatebiaeth i hyn yn llsgr. J hefyd: gw. y conspectws. Mae awdur H yn creu ei benawdau ei hun. Ymddengys fod y testun ar adegau yn agosach at llsgr. G.*

**§1044)** *Cf. Oderuyd eden guelet y da en kyndrychaul guedy [e] dyccer en agkyureythyaul yaun yu ydau dyuot uvch pen e da a dyweduyt bot en eydau ef e da hunnu ae uot en perchennauc arnau pan e duc e den hunnu y ganthau ef en agkyureythyaul ac en agkyuarch; ac o byd a amheuo henne ydau ef bot ydau dygaun ae guyr ac a gatwo e perchennogaeth ar e da hunnu a bot ydau enteu dygaun a vyppo re duyn e da hunnu en agkyuarch y ganthau ef; a dody ar e kyfreyth deleu or da hunnu dyuot attau ef trae keuyn ar e breynt ed oed gynt urth y uot enteu en hebrug bot en wyr a dywaut. Os ef a dyweyt er amdyffynnur: Dyoer hep ef ny deleaf uy de ateb ty am er haul honno canys deu ardelu e syd gennynt [nyt amgen] keytweyt aguybydyeyt ac na deleaf uynheu ateb namen er neyll onadunt huy. Ena mae yaun yr haulur dyweduyt: Dyoer hep ef deupeth wyr a dywedeyts y bot e da en ueu y, ae duen en agkyuarch y gennyf [y;] ac ar e deu peth henne mynheu a dodeys deu gedernyt keytweyt a guybydyeyt ene lle em amheuer amdanadunt. Os tydy a adef bot en wyr a dywedeyts y; nyt reyt y mynheu urth urun onadunt hue: os tytheu a wata en erbyn a dywedeyts y mynheu adodaf ar e kyfreyth deleu o hanaf uy duyn ue kedernyt ar er hyn a wetych ty, or deu henne. E kyfreyth a dyweyt pale bynnac e bo reyt e den dyweduyt achuyssyon ene kyfreyth [ygyt adefnynt y kyfreyth] bot en reyt ydau enteu prouy er achuyssyon ual y prouo e defnyd. Defnyd e kyfreyth enteu yu bot en eydau ef e da; ac achaus e kyfreyth enteu yu duyn e da [yn anghyfreitha6l ac] en agkyuarch [y gantha6;] ac urth henne e dele enteu e keytweyt ar uot en eydau e da, ac e dele guybydyeyt ar re duyn e da en agkyuarch e ganthau. Os guadu a wna er amdyffynnur er agkyuarch*



*muynhaer prauf er haulur. Os adef a wna enteu atuerher er agkyuarch tracheuyn. Os ef a dyweyt er amdyffynnur: Dyoer hep ef, geny a meythryn emy yu hun ac er pan anet eryoet e mae ef ar ue perchennogaeth y hyt hedyu ac e gadu [bot en wyr] a dywedaf uynneu [e] mae ymy dygaun o keytweyt dyls. Ena mae yaun er haulur dyweduyt: Dyoer hep ef kynt yd edeweys y [y] prauf noc y hedeweyst ty, ac urth henne e deleaf uynheu eu muynhau huy en kyntaf, ac ene maes e maent a mynheu a uynhaf eu muynhau huy yth ulaen ty. Dyoer hep er amdyffynnur en guarchadu e meu yd vyf uy truy keytweyt deduaul; ac ar e kyfreyth e dodaf y bot en yaunach emy cadu y meu genyf truy keytweyt deduaul noc yt ty duyn prauf ny delych arnaf uy. Dyoer hep er haulur prauf a edeweys y ene lle ed oed kyureythyaul emy y adau; ac ar e kyfreyth y dodaf uy en [e lle] ed adawyf y prauf kyureythyaul en kyntaf deleu o hanaf uynheu e uynhau ef en gyntaf. E kyfreyth a dyweyt ene [lle y] dyrchauo deu den deu prauf, prauf kyureythyaul ac arall agkyureythyaul, ket dyrchauer er agkyureythyaul ene blaen panyu e prauf kyureythyaul e syd yaun e uynhau en gyntaf o byd y defnydyeu ene maes; ac ony byd muynhaer e rey kyntaf a edewyt: canyt yaun annot paratruid urth amparodruyd. Keureythyaul oed pob un or deu prauf henne ac eyssyoes er ardelu kyureythyaul a wnaeth er amdyffynnur a perys bot en dyr er haulur wadu; ac ena ed emchuelus y prauf e gan er haulur en eydau er amdyffynnur. A honno a elwyr en kyfreyth atkas: sef yu [e] kyfreyth atkas pale bynnac y dycco er amdyffynnur y prauf y gan er haulur en [y] eydau ehun: kystal yu henne ac emchuelut e kyfreyth eny gurthuyneb; ac urth henne e gelwyr hy en kyfreyth atkas (AL, VII.i.45). Mae cyfatebiaeth i hyn yn llsgr. J hefyd: gw. y conspectws.*

**§1045)** Cf. *O deruyd e den holy peth o agkyuarch e erall a mennu dyuot er agkyuarch tracheuen yu warchadu ac o byd a amheuo duyn e peth en agkyuarch adau prauf guat newu ardelu e syd reyt er amdyffynnur. Os guadu a wna gatter e prauf er haulur. Os ef a dyweyt enteu er amdyffynnur Dyoer hep ef ny deleaf uy de ateb ty am er haul yd vyt ty ene holy emy, sef achau yu e da a dywed y arnaf uy y deun en agkyuarch dy uod ty ath ganhyat a uu emy e dbyn e da hunn6 ac oy kychwyn ac ot amheuy ty henny [e] mae emy dygaun ae guyr bot en wyr a dywedey y; ac ar e kyfreyth e dodaf uy e da a kychuyynn6yt gan dy uod ty ath ganhyat na dele hunn6 emchuelut yth warchadu ty trae keuen,*



*[ymbreint anghyfarch kanyt anghyfarch onyt o anuod] namen can uy mod ynheu am kanhyat; canys kyureythyaul y doduu y gennynt [y da] a bot y mynheu dygaun ae guyr bot en wyr a dywedeys y. Os guadu a wna er haulur gatter y prauf er amdyffynnur; ac o fynna e prauf ydau tryccet e da ganthau ac ony fynna y prauf atuerer y da tracheuyn er haulur (AL, VII.i.46). Mae cyfatebiaeth i hyn yn llsgr. J hefyd: gw. y conspectws.*

**§1046)** *Cf. Os ef a dyweyt er haulur [yna:] Dyoer hep ef er egneyt ar guyrda e tystaf uy redale o hanaut ty arwassaf o hanaf uy o uot ue mod y am kanhyat e gychuyn e da hun; ac ar e kyfreyth e dodaf y ue mot y en vr dewys ae my a sauuyf [ytti] ae my ny sauuyf; a [hynny] heuyt ar e kyfreyth e dodaf y na dele tyst ar arwaessaf ar tystiolaeth a edeweyst ty e duyn arnaf uy, y bot en anolo can byf gur dewys y a mynheu a dewyssaf pallu yt ty; ac ar e kyfreyth urth henne y dodaf uynheu ene pallho de arwaessaf yt ty deleu o honaf uynheu deuot e da traе keuen ar e breynt e bu gynt; ac urth a dywedeys y ed archaf uy uraut er egneyt. Os tewy a wna er amdyffynnur en erbyn henne barner e da traе keuyn ar e breynt e bu gynt [yr ha6l6r] a byt anolo e tystiolaeth ar er arwassaf canyt aethpuyt ene erbyn. Os ef a deweyt er amdyffynnur [yna:] Dyoer hep ef em pen er egneyt [ar gbyrda] am guerendeys y en datcanu ue kygheussaeth e dodaf y hyt na dodeys y na choll na chaffael yth pen ty nac eturyt nac adau o hanaf uy de uot ty en arwaessaf eythyr gyrru o hanaf uy arnat ty bey druc bey da genhyt bot dy uod ath ganhyat urth kychuyn e da hunn6; ac ar e kyfreyth e dodaf uy en e lle nyt enwyf uy ty dy en arwassaf ac nat adavyf dy uot [na chyngein na cholli na chaffel o vreint arwaessaf yth ben a chan] nat vyt arwaessaf tytheu; a mynheu a dywedaf e deleaf uynheu muynhau ue prauf canys kyureythyaul ue ardelu ac urth henne mynheu a uynnaf vraut y gan er egneyt urth a dywedeys. Ac ena a mae yaun er egneyt ar guyrda menet ar neylltu e kemryt eu kof er hyn auo dygaun onadunt urth eturyt a edewys ef er haulur en arwaessaf neu ae henwys: ac os ef a atuerant nas edewys ac nas enwys [yn arwaessaf] barner ydau muynhau y guybydyeyt ac o fynna ydau barner y warchadu ydau hep karrdychuel arnau. Rey a dyweyt am e ryu dadleu hun pale bynnac e dalyo den ardelu o arall ony seyf ydau e ardelu oе uod hyt na deleyr muynhau arnau na thystiolaeth na prauf namen gadu ydau wadu a doter eny pen neu enteу ae hadeuo oy uod. E*

*kyfreyth eyssyoës a dyweyt pa le bynhac ny doter koll neu kaffael ene pen megys mach neu tyst neu amodur neu arwaessaf e doto den arwassogaeth ene pen oe kadu rac [y] druc neu arwaessaf aadawo kemryt druc o lau den a mynet e rygthau ar druc a errer arnau neu enteu keytweyt o edewyr ene lle e delehoent ket pallo e ryu wyr henne achlan ny deleyr arnadunt namen gadu udunt wadu a doter arnadunt: ac urth henne pob ar delu arall or e gyrrer peth arnau, os guata ef a ellyr e prouy arnau megys er hyn ry dywedassam ny uchot bot bod a chanhyat er haulur e kychuen e da e mae enteu en e holy eylweyth (AL, VII.i.47). Mae cyfatebiaeth i hyn yn llsgr. J hefyd: gw. y conspectws.*

**§1047)** Cf. **§438**. Er y dywedir yma mai o dair ffordd y gellir llysu gwybyddiaid, rhestrir mwy na thri achos lle bo hynny'n bosibl. Rhestrir pum achos yn Llyfr Cynghawsedd: cf. *Nyt oes llys ar guybydyet namyn pymb llys: gelynyaeth a gureytra a henne en lle un llys; a cherennydd nes; a thyrdra neu treys am tyr; a gur ar wreyc a gureyc ar vr; a Kymro ar alltut ac alltut ar Kymro (AL, VII.i.12)*. Nodir bod *anudon cyhoeddac* yn ffordd i llysu tyst mewn triawd yn llsgrau W, X, a Z (gw. *WMLT*: W39). Dosberthir *galanastra*, *gwreictra*, a *thirdra* mewn modd gwahanol i'r testunau eraill. Yn *Col*, §531 dywedir bod gwreictra yn perthyn i *genedyl elynyaeth* fel y gwna galanas. Enwir *tirdra* a *gwreictra* yn y rhestr o naw affaith galanas yn ôl gwŷr Powys (gw. *WLW*, 61-62). Rhestrir y tri therm yma gyda'i gilydd gan eu bod yn achosi gelyniaeth rhwng dwy genedl ac ni fyddai'n iawn i wybyddiad roi tystiolaeth yn erbyn hawlwr os oedd perthynas o'r fath rhyngddynt. Cf. hefyd *LII*, §80/1-3.

**§1048)** Cf. *Nyt oes llys ar keytweyt; reynt yu eysoës bot keytweyt en aduuynt . . . (AL, VII.i.11)* Dywedir hyn hefyd yn *LII*, §80/12-13 a ddyfynnir uchod, **§875n**.

**§1049)** Cf. . . . *O deruyd e haulur mennu holy tyr a daear, deuet en er amseroed henne ar er argluyd e erchy dyd e wrandau e haul a henne ar e tyr. En e dyd hunnu datcanet e haul, ac ne dele caffel attep e dyd hunnu, canes haul deysseuyt yu ar e guercheytweyt, ac urth henne e guercheytweyt a deleant oet urth porth. Ac ena e mae yaun e'r egneyt eu guarandau a gouen pa le e mae eu porth. O dewedant bot eu porth en eu kemhut ehun, roder oet try dyeu udunt. O byd en er eyl kemut, nau nyeu. O byd en e tredyd, neu uot llanu a*

*threy ereghunt ac eu porth, os kyn hanner dyd e bernyr er oet, petheunos o'r dyd hunnu e byd er oet; os guedy hanner dyd, petheunos o trannoeth (ac esef achau yu henne, canyt oes dyd kubyl ac nat yaun talu dryll dyd en lle dyd (LII, §72/18-30). Yn H hepgorir darn o ddechrau'r gyngheusaeth a geir yn Ior a Col sydd yn sôn am yr adegau o'r flwyddyn pan fo'r gyfraith ar agor neu ar gau i gyfraith tir; cyfeirir yn fras at yr adegau hyn yn §802 lle sonnir am y gwanwyn a'r cynhayaf, yr amseroedd y dyweit cyfreith, a'r dyddyeu dyddon fel y dyddiau na ddylid cyfreitha ynddynt. Dichon fod y cyfeiriad pen agored at yr amseroedd y dyweit cyfreith, a'r ffaith fod y manylion am y dyddiau hynny wedi eu gadael allan yma, yn awgrymu fod lluniwr y testun yn rhagdybio y byddai rhywun eisoes yn gwybod am yr amseroedd pwysig hyn (gw. LII, §72/1-18).*

**disyfyf** Benthyciad o'r Lladin *dē-subito* 'yn sydyn' (GPC). Cwyn a wneid yn ddirybudd. Os oedd cwyn yn cael ei chyflwyno yn sydyn neu'n ddirybudd nid oedd gan amddiffynnwr amser i drefnu cymorth cyfreithiol, sef *porth*. Ceir dryswch yn y testun; eir yn groes i Ior a Col drwy ddweud na ddylai'r amddiffynnwr ofyn am ohiriad ar sail *hawl ddisyfyf* ond eto dylid cael oed pe bai'r amddiffynnwr yn dweud nad oedd ganddo *borth*. Efallai bod ystyr *hawl disyfyf* wedi mynd yn angof.

**Os yn y cantref nessaf** Defnyddir *cwmwd* yn lle *cantref* yn Ior a Col a rhoddid naw diwrnod i gyrchu porth o'r cwmwd nesaf. Hefyd yn wahanol i Ior a Col sonnir yma am amser i roi ateb, rhoi mach, a rhoi gwir: sef *rhoddi gwir o hawl disyfyf*. Ymddengys bod y rhan hon o'r testun yn perthyn i LIB, 83/4-17 a Lladin D, 390/22-33: *Rwg llys a llan naw nieu y roi attep, a naw nieu y roti mach, a naw nieu y roti gwir, o hawl deissyuyd. Hawl o un cantref, tri dieu y roti attep, tri dieu y roti mach, a thri y roti gwir. En y cantref nessaf, pypm nieu y roti attep, a pypm nieu y roti mach, a pypm nieu y roti gwir. En y cantref trydyt, naw nieu y roti attep, a naw nieu y roti mach, a naw nieu y roti gwir. Naw nieu y arglwyt y ymgoffau ae lw* (Lladin D).

**§1050)** Cf. *Ac en er oet barnedyc hunnu e mae yaun e paub dyuot ar e tyr, ac vynt eu porth. Ac yna e mae yaun guneythur due pleyt ac eysted en keureythyaul. Sef mal yd eystedyr en keureythyaul, eysted e brenhyn, neu e gur a uo en y le, a'e keuen ar er heul neu ar er hyn, rac aulonedu o'r hyn o'y vynep; a'r egnat llys,*

neu egnat e kemhut, er henaf a uo, en eysted rac y uron ef; ac ar e llau assu y hunnu er egnat arall a uo en e maes, neu er egneyt; ac ar e llau deheu ydau er effeyryat, o byd, neu er effeyryeyt; ac en nessaf e'r brenhyn y deu henaf, a'e wyrda o henne allan o pob tu ydau. Odyna e ford e'r egneyt kyuaruynep ac vynt e daremret y eu brautle. Kegaus er haulur a'e lau assue ar e ford, a'r haulur en nessaf ydau en e perued, a'e kanllau ar e llau arall ydau; a'r ryghyll en seuyll tra cheuen e kegaus, a'r pleyt arall e tu arall e'r ford. Kegaus er amdyffennur a'e lau deheu ar e ford a'r amdyffennur en nessaf ydau en e perued a'e kanllau o'r tu arall ydau, a'r ryghyll tra'e keuen enteu. Guedy darfo eysted euelly kemerer mach ar keureyth. Sef meychyeu a uyd ar tyr a daear, guestlon o denyon byu: deudyn neu a uo muy o pob pleyt; a'r guestlon henne em medyant er argluyd yd ant. Guedy henne e dodyr tellued: sef yu henne, gostec ar e maes. Puybynnac a torro e tellued honno, teyr buv camluru a tal neu nau ugeynt aryant, a'r geyr a dywetter guedy er ostec e uot en dyuuynyant y'r nep a'e dywetto ac e'r kygaus e dewetter er porth ydau . . . (LII, §73). Gw. y rhagymadrodd, t. 28 ymlaen.

**§1051)** Gw. y rhagymadrodd, t. 29 ymlaen. Cf. *O deruyd barnu y den oet urth y porth am tyr a dayar yaun yu dyuot paub ay defnydyeu hyt ar e tyr; ac yna e mae yaun er egneyt gouyn er haulur a seyf en y dadleu: sauaf hep ef. Ac yna mae yaun er egnat gouyn er amdyffynnur a wna enteu kyfreyth gunaf hep ef. Ac ena [e] mae yaun [er egnat] gouyn er argluyd a at enteu kyfreyth e rythunt huy: gadaf hep ef. Ac o henne allan [e] byt e kyfreyth e medyant er egneyt: ac nyt kanhyat namyn a ganhyatoent. Ac ena e mae yaun er egneyt [neu er egnat] gouyn puy a deweyt trostunt: ac ena e mae yaun udunt huynteu dywedut puy a dyweto trostunt. Ac yna e mae yaun eysted en kyureythaul, mal y dyweyt llyuyr Hywel: ac ena herwyd rey e mae yaun er argluyd erchy meychyeu ar [e] kyfreyth herwyd ereyll kygaus er haulur byeu erchy mach ar kyfreyth. Ac ena e mae yaun y kyghaus er amdyffynnur dyweduyt na dery ef uach ar kyfreyth eny wrandawo er haul ar messur, a pha kyfreyth e tryker [arney ne6] urthy, a hen herwyd e kyfreyth a deleyr. Ac ena [e] mae yaun y kygaus er haulur dyweduyt y haul ae messur ae o priodolder y mynho y haul; ae o ach ac edryf ae o datanhud ae o uamuys ae o emurthyn; ae o emteruynu. Ac ena e mae yaun rody mach ar kyfreyth ac y sef yu henne guystlon o dnyon byu a henny en llau*

*wassanaethwyr er argluyd deu dyn neu auo m6y [o pop pleyt. Sef pa ham y cymerir y meichieu rhac dyfot tlawt diatlam y holi tir, ac y flinaw pleit a gorsedd, a phan fynno tynnu y benn ymeith or wlat heb gael yawn y ganthaw, ac eilchwyl gwneuthur un rhyw.] (AL, VII.i.9).*

**Sef pahan y cymerir y meichieu . . .** Mae'r darn hwn wedi ei ychwanegu at destun llsgr. B yn *AL* ac mae Aneurin Owen yn ei briodoli yn anghywir i llsgr. G. Gan fod y geiriad yn dilyn H air am air ymddengys bod Aneurin Owen wedi ychwanegu'r darn hwn allan o destun Peniarth 278 ac heb esbonio hynny (gw. Aled Rhys Wiliam, 'Llyfr Cynghawsedd', *BBCS*, 35 (1988), 74 sydd hefyd yn sylwi ar y camgymeriad ond nid yw'n sylweddoli mai Peniarth 278 oedd ffynhonnell Aneurin Owen). Gw. hefyd §788 sy'n rhoi enghraifft arall lle mae testun H yn cael ei ddyfynnu fel rhan o destun G.

**§1052-53)** Cf. *Ac wedy darfo udunt eu due kygeussaeth ual y dywedassam ny ucho, gouynnet er egnat udunt ae dygaun a dywedassant, a gouynnet udunt a uynnant guellau eu kygeussaeth. Ac o byd a'e mynno gatter ydau, ac ony byd a'e mynno kemeret er egnat e due kygeussaeth a datcanet huy. A guedy as datcanho aet er egneyt allan a'r effeyryeyt ygyt ac vynt, a'r ryghyll ygyt ac vynt y eu ca u rac dyuot deneon y wrandau arnadunt. O deruyd e den dyuot e wrandau arnadunt huenteu, ef a dele talu teyr buu camluru e'r brenhyn, ac o byd e brenhyn en e maes, ef a dele talu camluru deudeblyc am henne. Ac yna, guedy yd eystethoent hue, y mae yaun y'r effeyryat guedyau Duv y dangos o Duv yr yaun udunt, a chanu onadunt huenteu eu pader. A guedy y pader y mae y'r egnat datcanu eu due kygeussaeth eylwyeth. Ac o deruyd bot en reyt urth geyr kyuarth, ellegher deu o'y ouyn; ac o byd reyt y'r pleyt e gouynner e geyr kyuarth ydy urth kemryt kygor, aent hue gan kannyat er egnat y eu kygor. Ac ysef yd ant, e nyuer y buant en eu kygeussaeth, hep a uo mue, a guas yr argluyd ygyt ac uynt y eu kadu rac dyuot nep y eu kyghory ygyt ac vynt; ac o byt anolo e keghor. Odyndeu deuent e deu henne ae er egneyt a datcanet e'r egneyt eu keghor. O deruyd na bo reyt urth geyr keuarth, yaun yu gadael udunt eu hardelu, a gerru deu e ouyn pue eu guybydyet ac eu keytweyt a pa le y maent. O dywedant eu bot en e maes, muynhaer vynt. O dywedant eu bot en un kemhut ac vynt, roder oet try dyeu udunt. O dywedant eu bot en er eyl kemut, roder oet nau nyeu udunt. O dyweant eu bot eg gwlat arall, neu uot*

*llanu a threy yregthunt ac uy, oet petheunos o'r dyd hunnu, os kyn hanner dyd uyd; os guedy hanner dyd, petheunos o trannoeth. A'r dyd hwnnw en dyd koll new kaffael, a bot e guystlon eg karchar e brenhyn hyt e dyd hunnu, ac erchy paub dyuot a'e defnydyeu ganthau hyt ar e tyr. Keny bo duun gan e due pleyt henne, neut edyu en dyd barnedyc y keureyth (LII, §76).* Y gwahaniaeth pennaf yw na sonnir am bryd y dylid rhyddhau'r gwystlon o garchar yn H/PeniARTH 278 ac eir ymlaen i drafod rhan yr ynad yn fanylach. Sylwer hefyd na sonnir am ddyblu'r camlwrw pe bai rhywun yn ceisio rhoi cyngor i'r ynaid pan fo'r brenin yn bresennol yn y llys a gelwir y rhingyll yn 'was yr arglwydd' yn Ior. Gw. y rhagymadrodd, t. 30 ymlaen.

**gair cyfarch** *Word of query*, cwestiynau gan yr ynaid (anghyfarch = lle nad oedd *word of query*). Mae D. Jenkins yn cynnig fod angen gair cyfarch pan fo gwrthdaro rhwng y ddadl a gyflwynwyd gan y cyngaws a'r un a gyflwynwyd gan y canllaw. Câl'r blaidd felly hawl i drafod yn breifat pa arddelw y dylid ei chyflwyno. Yn *Col* ychwanegir *aent en kyn pellet ac yd el yr egnat y uarnu braut (Col, §477)*. Gw. *LTWL*, 256; *Col*, 130n. Rhoddir y diffiniad hwn o air cyfarch yn *AL*, VI: *sef y6 geir cyfarch, pan o vyno yr ygnat pa le y bu yr ar6aessaf neu y borth (AL, VI.i.60)*.

§1054) Mae'r term *ynat* yn bradychu tarddiad gogleddol y testunau hyn. Am *ynat* gw. J. Beverley Smith, 'Ynad llys, brawdwr llys, *iudex curie*', *LAL*, 94-115.

§1055) Dywedir yn *AL*, IV.iv.33 pe anghytunid â dyfarniad ynad dylid cynnig gwystl yn erbyn yr ynad cyn iddo godi o'i gadair; os na wneid hyn, ni fyddai rhaid i'r ynad ateb i'r wystl, os nad oedd yn dewis gwneud hynny. Pe bai'r ynad yn dewis ateb, rhaid fyddai iddo yntau gynnig gwrthwystl a phrofi fod ei farn yn deilwng yn ôl llyfr cyfraith.

§1056) Cf. *O deruyd i yngnat uarnu cam ura6t i me6n datleu, a dyuot y dyn i barn6yt arno yn gam, a mynet yni erbyn, a gouyn ir yngnat a gadarnhair ura6t: ac os kedyrnhey di mi a rodaf uyn6ystyl ith erbyn. Dioer hep yr yngnat, mi a gymeraf gyngor ai kadarnha6yfi. A dy6etut or llall: Dioer hep y llall, ni dlyy di gymryt kyngor am y ura6t honn, o gyngor i berneistir ura6t honno, ac i datkeneist; ac ni dlyy ditheur ail kyngor amdanei, namyn y naill peth ai adefy*

*gam ura6t, ai ymbystlo amdanei. Y kyfreith eissioes a dybeit uot ir yngnat de6is tra uo yny ura6tle, ai kadarnhaur ura6t ai peidio; ac i dyly kymryt kyngor ef ar niuer i bu yn barnur ura6t gitac ef, ac o chaiff yni gyngor na chadarnhao y ura6t, bit dig6ydedic y ura6t ac anolo, a thalet ef gaml6r ir argl6yd am y cam datkan abnaeth: ac o chaiff yni gyngor gadarnhaur ura6t, rodent yll deu i g6ystyl yn lla6r argl6yd, ar nep a pallo o nadunt cosper ef ual i dy6eto kyfreith (AL, VI.i.83 (llsgrau. O a K)). Mae fersiwn o hyn hefyd i'w gael yn Lladin D, J, Tim ac S: gw. y conspectws.*

**§1057)** Cf. *Messur gobyr er egnat am tyr a dayar, pedeyr ar ugeynt: ac o henny ran deu ur e'r egnat llys; ac ny dele muy, nac ef a uo en e llys nac ef ny bo (LII, §78/1-3).*

**§1058)** Cyfeirir yma at ran y rhingyll yn casglu eiddo. Yn Stephenson, *Governance of Gwynedd*, 44 cyfeirir at achos annibynnol lle bo'r rhingyll yn atafaelu eiddo oedd wedi ei ddwyn sy'n awgrymu bod atafael yn rhan gyffredin o swydd y rhingyll. (Am y rhingyll gw. hefyd: P. Vinogradoff a F. Morgan (goln.), *The Survey of the Honour of Denbigh*, (London, 1914), lxxxii-lxxxiii.)

**§1059) fach ar gyfreith** Rhoi mach fel sicrwydd y cedwir at y gyfraith ac y derbynir y ddedfryd. Ai hyn yn groes i'r hyn a geir uchod, sef na ddylid gofyn am fach hyd nes y clywid *cyngheusaeth*.

**§1063)** Dechrau adran ar yr *ynat* sydd wedi ei chodi o Lyfr Cynghawsedd ac *AL*, IX. Cf. *Egnat a eyll bot en uraudur ac en tyst ar [y] peth a tyster ydau ene uraut le: ac ny eyll uot en tyst nac en guybydyat nac en keytwat ar dym or a weles ef kyn kadeyryau e duy pleyt y gyt, o myn vot en uraudur ar e dadleu [h6nn6.] (AL, VII.i.30).*

**§1064)** Cf. *Oderuyd y egnat bot en uraudur ar dadleu ac en agyffredyn em pleyt egneyt [ereyll] en barnu braut a gurthuynebu o [egnat] arall ydau a dyweduyt y uot ef en [ageffredyn ac atep o honau ente6 adewedut e6ot ef en] agkyffredynach; yaun yu er egneyt kyffredyn ena edrech puy yaunhaf onadunt y erru or uraut (AL, VII.i.31).*



§1065) Cf. *O deruyd y un or dynyon byeyffo e dadleu tebygu bot egnat en agkyffredyn ene uraut ae lessu o henne a dody or egnat em pen y gyt egneyt e uot en wryron ae uarnu or rey henny en wryron ny deleyr e duyn or uraut; ac nyt llys arnau [ef henne.] (AL, VII.i.32).*

**a'r gwyrda** Ychwanegiad at destun H/Peniarth 278 sy'n golygu goreugwyr neu uchelwyr yr arglwydd. Fe'i hychwanegir yn aml at destun H/Peniarth 278, sydd efallai'n adlewyrchu diweddarwch y testun, sy'n deillio o gyfnod pan fo'r arglwydd â mwy o ddylanwad ar y gyfraith. Am y gwyrda gw. hefyd Smith, 'Judgement under the law of Wales', 67-68.

§1067) Cf. *Pvybynnac auynno llyssu egnat llysset kyn kyweyryau or egnat e pleydyeu ac emkredu amdanau ac onys llyssa ena ny eyll y lyssu am a wnaeth kyn no henny eryoet o kam . . . (AL, VII.i.33).*

§1068) Cyfuniad o Lyfr Cynghawsedd ac *AL*, XI (S). Cf. . . . *Nyt oes llys ar egnat namen am a wnel o gam or pan [del] er dadleu ene el ohanau neu enteu re kymryt gobyr a guerth gynt en erbyn edadleu hunn6; neu er ryuot en kyghaus gynt arnau (AL, VII.i.33).* Cf. *Llyma yroed y dylir g6neuthur dyn ynn ynad yny vo pylm6yd ar hygeint, sef acha6s y6 hynny 6rth nabyd kyfla6n o syn6yr a dysk hyd pan vo baraf arno hyt ynna ac na byd g6r neb hyd pandel baraf arna6; ac nad tec g6eled mab ynn barny ar 6r hen (AL, XI.i.13).* Am bwysigrwydd y barf i'r beirdd gw. Dylan Foster Evans, 'Y bardd a'i farf: y traddodiad barfol', *Dwned*, 2 (1996), 11-29. Y mae barf yn arwydd o aeddfedrwydd, cf. awdl 'Dathlu buddugoliaeth Gwynedd' gan Hywel ab Owain Gwynedd: *Cyfarf heb un farf ar Fenai (CBT, II 12/12).*

**penngogyfarchaf** *pen + go + cyfarchaf*. Gall y gair *gogyfarch* olygu amlwg neu gyhoeddus, a chan y cyfeirir at berson yma gellir ei gyfrif yn berson amlwg neu enwog fel y byddai arglwydd. Cyfeirir at *graith ogyfarch* yn y testunau cyfraith; sef craith amlwg ar y pen, y llaw, neu'r troed: gw. y nodyn yn *LIB*, 195.

§1069) Ymddengys bod ail ran §1068 a §1069 yn ddeunydd perthnasol am ynadon sydd wedi ei ychwanegu at destun Llyfr Cynghawsedd lle bo'r awdur yn



gweld hynny'n berthnasol. Dywedwyd eisoes yn y testun y câi ynad naw diwrnod i gofio am ei farn mewn achos arbennig os nad yw'n sicr o'i ddyfarniad: gw. §810. Yn ôl y rheol hon, os na ddaw cof yn ôl i ynad ac na wyddai ei farn dylai dalu camlwrw i'r arglwydd a cholli ei swydd. Yn ôl rheol a geir yn *AL*, IX.xvi.16 rhaid oedd iddo dalu camlwrw gan fod y pleidiau eisoes wedi eu rhwymo, a dylai adael ei swydd fel bod ynad arall yn cael cymryd yr achos.

**cof** Roedd cof (*memoria*) yn un o hanfodion doethineb a dysg ac felly'n hanfodol i ynad; ac yn un o bum maes rhethreg glasurol. Rhestrir y cof fel un o'r *tri grŏnbal doethineb* ac fel un o'r *pymyp clo yssyd yr ygneidiaeth* yn Llyfr Cynyr ap Cadwgan a gedwir yn llsgr. Q (*AL*, X.x.1-8): gw. Elias, 'Llyfr Cynyr ap Cadwgan', tt. 6-7. Rhoddid pwyslais ar bwysigrwydd y cof gan athrawiaethau'r ysgolion clasurol ac yr oedd y cof hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y traddodiad brodorol, e.e. roedd cofio yn rhan annatod o swydd y beirdd. Yn ôl *LII*, §81/11 nid oes ddim a all ohirio *dydd coll a chaffael* ond ynad sydd wedi anghofio ei frawd. Gwelir pwysigrwydd y cof yn §456 ac yn §631 lle rhestrir llw ynad sydd wedi anghofio ei farn fel un o'r tri llw pedrus.

§1070) Dychwelir eto at gynnwys Llyfr Cynghawsedd: cf. *O deruyd e deu dyn kygheussaeth rac bron [deu lyn] egnat a dyweduyt or neyll onadunt geyr kolledyc a thystu or llall e wyrda e maes a hep tystu er egnat anolo yu y tystyolaeth honno cany dely nep or duy pleyt en eu braut le dyweduyt dym e mynhoent uwynnyant o hanau namen ual e klywo er egnat; ac ny deleyr tystu rac e uron ef dym hep y tystu ydau ef en gyntaf: ac urth henne a mae anolo etystyolaeth ny thyster ydau ef [en gentaf]* (*AL*, VII.i.34).

§1071) Cf. [*O deruid eden en keghauset testu rac bron egnat testu peth e egnat a guyrda aphan ceysso mbynyant or testolyaeth honno guadu na cycle6 ef etestylyaeth honno, iaun e6 er den dbyn creyryeu atha6; ac onys cubyl g6ata er egnat or creyrye6 henne byt safedic e testolyaeth.*] (*AL*, VII.i.35). Daw'r rheol hon o llsgr. G, nis ceir yn B, sydd eto'n awgrymu bod G a H yn rhannu'r un gysail.

**§1073)** Cf. *Oderuyd e den testu peth rac bron egneyt ar guyrda a bot rey or egneyt en guadu henne ac ereyll en adef y gyt ar guyrda sauedyc yu e tystiolaeth keny bo namen un or egneyt eny adef e gyt ar guyrda: kanys dogyn yu tystu e egnat a guyrda emeun eu braut le (AL, VII.i.36). Cf. hefyd: Os y gwyrda ar ynat a saif ar globot y dystiolaeth kobl yw yddaw. O ny chlyw r ynat y dystiolaeth anolo yw tystioleth nychlywo ynat yn y vrawdle onychlyw y gwyrda kyt klywo yr ynat anolo yw. Os sayff dav or gwyrda ac vn or ynait ar glybot y dystiolaeth kwbl yw hyny (AL, IX.xvi.11).*

**anolo** *an + golo*. Diwerth, ofer, di rym mewn cyfraith. Gw. y nodyn yn *Col*, 142; *GMWL*, 19.

**§1074)** Cf. *O deruyd e den llyssu egnat oe uot en agkyffredyn ene maes kyn e uenet en y uraut e uarnu nyt a arnau namen e lv ehun y emdyheura; ac ny dau arnau o lys ene byt or a doter arnau onyt o deu: sef yu henne ae kemryt gobyr [aguerth] en agkyureythyaul ae enteu ryuot en kyghaus gynt ar e dadleu hunn6: [ogellyr probi vn or de6 henne arna6, llys kyfreithaul e6 honno arna6.] (AL, VII.i. 37). Mae H/PeniARTH 278 yn amrywio tipyn o'i gymharu â Llyfr Cynghawsedd. Cf. hefyd *WMLT*: Z98.*

**§1075)** Cf. *Pob amdiffynor adyly oet y attep y dyt kyntaf o geylw am oet kyn ymrwymo y kyfraith gwedy ymrwymo ny dyly (AL, IX.xv.1).*

**§1076)** Cf. *Pob amddifynwr a dyly os myn gwedy darfo rwymo r howlor kyn y rwymo ef galv amvynegi messvr y hawl apha gyffraith y triker arny a gwedy hyny nychaif yr howlor trossy y ar hono kyt as myno. A gwedy hyny aet yr amdiffynwr y gymryt kygor ath triget yr howlor yn y rwym a gwedy hyny devet yr amddyffynwr ac ymrwymet yntev ac gwedy hyny kygevseddent (AL, IX.xvi.1-2).*

**§1078)** Cf. *AL*, IX.xvi.17-20. Sonrir yn *AL*, IX.xvi.17 y gellid ymwystlo gydag ynad am ei farn. Byddai'r ynad yna'n troi'n gyngaws gan amddifyn ei ddyfarniad. Yn ôl y rheol yno ni chaiff gŵr lleyg ymwystlo ag ynad wedi iddo droi'n gyngaws, a rhaid i'r lleygwr ddarganfod ynad a fyddai'n siarad ar ei ran ac yn cyflwyno dadl well. Yn ôl *AL*, IX.xvi.18 dylai'r arglwydd gofnodi

*cyngheusaeth* y ddau ynad ac yna eu rhoi i'r ynad llys a phenodi amser i'r achos. Dylai'r ynad sy'n colli talu wynebwerth i'r ynad arall, talu gwerth ei dafod i'r arglwydd, a cholli ei swydd (*AL*, IX.xvi.20). Yn hytrach na mynd ymlaen i sôn am y wynebwerth fel *AL*, IX rhoddir gwerth y tafod yn H. Yn ôl *AL*, Dim.II.viii.117 nid yw brawdwr o fraint tir yn colli ei swydd er iddo orfod talu gwerth ei dafod, gan mai trwy ei dir yr estynnir braint ynad iddo. Gw. hefyd *WKC*, 106, a M. E. Owen a D. Jenkins, 'Welsh law in Carmarthenshire', *The Carmarthenshire Antiquary*, 18 (1982), 24-25. Dywedir yn *DwCol* na ddylai ynad cwmwd fynd yn gyngaws: *cany dely barnu en e kymut namyn ef; a kyn el ef yn kyghaus dros y da e hun ny dyly ef dody nep drostau onyt e brenyn a'y dyt* (*DwCol*, §329).

§1079) Gw. y rhagymadrodd, tt. 91-92.

§1086) Er hyn gwyddom fod yneidiaeth yn rhedeg mewn teuluoedd. Yn ôl coloffon yn llsgr. Q gadawodd Cynyr ap Cadwgan lyfr cyfraith i'w fab, a adawyd wedyn i'w feibion yntau (gw. *AL*, X.x.1; Elias, 'Llyfr Cynyr ap Cadwgan'). Roedd Cyfnerth a Iorwerth hefyd yn hanfod o'r un teulu: gw. *Hist. Wales*, I, 355; D. Jenkins 'A family of medieval Welsh lawyers', *CLP*, 121-33. Cf. Pryce, 'Lawbooks and literacy', 48-49: dyrchafu hyfforddiant, profi gallu fel ynad, a sefydlu gan arglwydd oedd yn feini prawf ar benodi ynad, nid cysylltiadau teuluol.

§1088) Cf. §120 lle mae'r meddyg yn cymryd lle'r ynad. Efallai fod §120 yn cyfeirio at gyd-destun y llys brenhinol tra bo'r hyn a geir yma'n cyfeirio at sefyllfa y tu allan i'r llys. Cf. *Tri dyn ni admbynheir dim or a dбетton meбn llys dall a medб a bydar: sef achos yб am nad gбneuthuredic dim or aбnelont yghyfreith* (*AL*, XI.iv.28).

§1089) Mae egwyddor debyg yn Bleg lle dywedir na ellid ysgrifennu popeth i lawr mewn cyfraith ac y dylid derbyn arferiad sydd yn gyffelyb i gyfraith ysgrifenedig: *LIB*, 126/19-25.

**§1090)** Y mae'r cymal hwn yn nodi rhan yr arglwydd a'r gymuned wrth roi trefn ar gyfraith. Pwysleisir hefyd awdurdod y Pab. Ceir sôn am gysylltiad tywysgogion Cymru â'r Pab o amser Owain Gwynedd ymlaen. Roedd Llywelyn ap Gruffudd yn llythyru'r Pab (*WKC*, 228; J. B. Smith, *Llywelyn ap Gruffudd*, 312, 326, 387-88) a dengys llythyr Pennal fod Owain Glyn Dŵr yn gwneud hynny hefyd. Ceir y mynegiant cliriaf o sôn am fendith y Pab ar gyfraith Cymru yn y Rhaglithiau. Mewn rhai llawysgrifau adroddir hanes Hywel Dda yn mynd i Rufain gydag esgobion Mynyw, Bangor, a Llanelwy i ofyn bendith y pab ar y cyfreithiau. Ymddengys y fersiwn cynharaf o'r stori hon yn llsgr. Llanforda (gw. D. Jenkins, 'Llawysgrif goll Llanforda o gyfraith Hywel Dda', *BBCS*, 14 (1951), 89-104); yna yn D, K, a Lew. Ceir fersiwn Lladin yn Lladin E a cheir y fersiwn manylaf yn llsgr. S a Z (gw. *WKC*, 226-29). Gan mai yn y llsgrau. hyn yn unig yr ymddengys y stori hon mae'n debyg fod awdur H wedi gweld un o'r testunau hyn (mwy na thebyg Llanforda neu D oherwydd dyddiad eu cyfansoddiad) neu gysail un ohonynt. Mae'r darn hwn hefyd yn adleisio rhaglith Bleg lle sonnir na ddylid newid cyfraith ar chwarae bach: *ac y dodet emelltith Duw a'r eidaw ynteu a'r hon Gymry oll ar y neb nys katwei rac llaw megys y gossodet, ony ellit y gwellau o gyfyundeb gwlat ac arglwydd* (*LIB*, 2/10-13).

**§1091)** Cf. **§551**. Gwelir ddyfeisgarwch awdur H sy'n esbonio hyn mewn cyd-destun *cynghesusath*.

**§1092)** Cynigir brawddeg i esbonio cymalau'r triawd.

**§1093)** Cf. **§1088**.

**§1095)** Dylid rhoi mach fel sicrwydd y telid *gobr*, sef taliad i'r ynad am ei wasanaeth. Am werth *gobr* ynad gw. **§1057**. Cf. *Gwedy del yr ynat yr orsed ac gwedy darffo yddo datkanv y kygevseddev archet vach ar y obyr ybob vn or ddwy blayt. Obyd negev ynaill o rodody mach odybvgv y kaith yvrawt kyny rodo ynach barnet ef y vrawt yr neb y syd vvyt kyn y dylve ef y vrad bevfyd y llall kant ddyly kyfraith [nyw] gwnel* (*AL*, IX.xvi.12). Daw'r cymal *nyw gwnel* allan o llsgr. Z sydd efallai'n lygriad copio o *nys gwnel* fel sy'n H.

**§1096)** Mae hyn yn cadarnhau dehongliad D. Jenkins o ystyr *gair cyfarch*: gw. uchod **§1052n**.

**§1097)** Dywedir hefyd yn *AL*, IV.i.10 y gellir rhoi tystiolaeth ar air a gweithred ond na ellir rhoi tystiolaeth am feddwl dyn.

**§1098)** Nodir yn Ior os y bu farw rhai o'r gwŷr oedd yn rhan o'r *gynghweusaeth* wreiddiol y dylid rhoi gwŷr eraill yn eu lle: *Ac o byd meyrn rey o'r guyr a wu en e kyghaused, dotter ereyll en eu lle* (*LLI*, §77/2-3).

**§1101)** Mae Aneurin Owen yn cyfieithu *gorsedd dywallt* yma fel *vague session* (*AL*, II, 733). Go brin fod hyn yn gywir. Efallai mai defnydd ffigurol o'r *gair tywalld* a wneir yma, gan olygu pobl yn gadael y llys neu lys gwag.

**§1104)** Cf. *Nyt oys lys ar gygaws onyt darvot ydau tory y brofes ac ymadaw ar byd nev y vynet yn glawr gwahanawl* (*AL*, IX.xvi.24).

**§1105)** Gw. *NLC*, 31, n. 63 sy'n cyfeirio at y rheol hon yn H/PeniARTH 278. Cf. *DwCol*, lle nodir na all offeiriad neu unrhyw un mewn urddau crefyddol roddi arwaesaf mewn achos o ladrad: *canyt yaun tennu keureyth o orsset yr arglyud y cabydul er escop* (*DwCol*, §472); gw. hefyd *NLC*, 138, n. 21.

**§1106)** Cf. *Nyt oes llys ar kyghaus onyt re roy o hanau aruoll neu kedernyt arall na doey en erbyn [edatleu h6nn6 ne6 en erbyn] e neb ae kymerho* (*AL*, VII.i.39). **arfol** Addewid, cytundeb, cyfamod, cynghrair neu lw yn ôl *GPC*. Mae Aneurin Owen yn ei gyfieithu fel *agreement* yn *AL*, II, 735 tra yn *GMWL*, 295-96 caiff ei gyfieithu fel *to confer, treat, negotiate*.

**§1107)** Cf. **§596**.

**§1110)** Cf. *Ny dily kygaws gwedy ydymrwymo gadaw y lle os gedy kollet y dadyl* (*AL*, IX.xvi.25).

§1114) Dyma ddechrau adran arall sy'n dilyn yr un drefn â Llyfr Cynghawsedd. Cf.

*Oderuyd bot dadlev erug deuden am tyr a dayar ac ene dyd kyntaf dyweduyt or haulur uot hunn6 en dyd dywethaf ydau ac en dyd coll a chaffael; ac osyt a amheuo henne y mae ydau dygaun ay guypo. Os guadu a wna er amdyffynn6r yavn yu gadu y vybydyeyt yr haulur. O deruyd yr amdyffynn6r dody em pen er argluyd ar egypt panyu hunn6 yv y dyd kyntaf yaun yu gadu y ardelu yda6 canys vvch yu y guybydyeyt henny nor llall (AL, VII.i.1). Sylwer nad oes dialog yn Llyfr Cynghawsedd.*

§1115) Cf. *O deruyd y haulur holy tyr a dayar ac eny dyd kyntaf or na bo ganthau [ef] y porth keyssyau oet urth y porth nys dele canys paraut e dele [ef] uot, ac urth henne y uynet enteu hep un oet (AL, VII.i.2). Mae'r geiriad yn amrywio ychydig ond yr un yw'r cynnwys. Mae AL, VII.i.3-4 wedi ei hepgor o H/PeniARTH 278, rhag ailadrodd gan ei fod yn adleisio darn arall o'r testun: cf. §1050.*

§1116) Cf. *Oderuyd y haulur holy tyr a dyweduyt or amdyffynnvr en attep bot o ureynt ydau ef na dely ef hedyu un attep; ac o byd a amheuo ydau ef henne bot ydav dygaun ay guypyo yaun yu gadu y ardelu ydau o byd y gvybydyeyt ene maes; ac onybydant ny deleyr annot parotruyd vrth amharodruyd: a chet buynt ny deleyr oet namyn hyt trannoeth; cany messurvs ef oet namyn emdyffryt rac e dyd hvnnv, ony byd bot en dyv Svl neu en dyv Llun trannoeth (AL, VII.i.5).*

§1117) Cf. *O deruyd e den holy tyr a dayar en dadleu ene dyd kyntaf ac na bo e dadleu ar e tyr a rody attep or amdyffynnvr kystal yu y attep a chet bey [ehun] ar e tyr. Os er amdyffynn6r a dyweyt na dele rody attep namen ar e tyr ac nat hvn e tyr e mae er haul arnau ac nat archo oet yaun yu barnu ydau na rodo attep a chanyt erchys oet y uynet en dyoet. Os enteu a dyweyt na dely [rody] attep namen ar e tyr e mae er haul arnau ac erchy [er] oet adylyo o kyfryyth yaun yu barnu oet ydau can [ys] erchys: [e] sef yu er oet trannoeth ar e tyr onyt dyu Sul neu dyu Llun uyd. Ereyll a dyweyt am oedeu ny bo messur en e kyfryyth arnadunt panyu en ewyllys er egypt e byd er oedeu [henne] eythyr*

*na allant uot en huy er oet noc un dyd a petheunos canys hunn6 huyaf oet ene kyfreyth (AL, VII.i.6).*

**oet hynaf** Mae'n ymddangos bod awdur H wedi camgopïo y gair *hwyaf* fel *hynaf*. Byddai darllen *hwyaf* yma'n gwneud mwy o synnwyr.

§1118) Cf. *Oderuyd e dyn holy tyr ac ene dyd kyntaf adau y maes or amdyffynn6r yaun yu dody caml6r6 arnau a dody oet or argluyd er oet eny ewyllys; ac os en er eyl oet ed edeu y maes camluru heuyt arnau; ac os guedy eysted y pleydyeu a dody coll a chaffael o honau em pen e kyghau ed edeu e maes y dyuarnu en tragwydaul oe haul. [Os tridydyt ken pleydau ydedeu emaes edivarnu en oes ar argluyd pyeifo emaes edyd h6nu; os guedy pleyda6 ydivarnu en tragewydaul.] (AL, VII.i.7).* Ymddengys y cymal yn *AL* sydd mewn cromfachau uchod yn llsgr. G yn unig, ac nid yn B, sy'n awgrymu bod perthynas agosach rhwng H a G neu gysail G.

§1119) Cf. *Oderuyd e den caffael yaun y gan argluyd am tyr a dayar a gomed e dadleu or amdyffynnur a galu or argluyd am uraut ar er egneyt am henny yaun yu barnu ydau [teyrby6] camluru; en er eyl dadleu camluru [hevyd] ene tredyd dadleu obydeu gomededyc dody er haulur ene medyant: ac en yr e haul [ydau] enteu pan uynho [yholi.] (AL, VII.i.8).*

§1120) Cf. *AL*, VII.i.9: brawddeg o'r adran honno yn unig sydd yma, digwydda gweddill y testun yn §1051. Mae hyn yn awgrymu bod trefn y testun yn llygredig neu fod trefn cynseiliau B neu G yn wahanol. Ond efallai mai ôl golygu sydd yma.

§1121) Cf. *P6y bynhac aholo tir o ach ac etrif. reit y6 y hen aduryeit g6lat tygu yr ach kyn g6randa6 y ha6l (WML, 51/3-6).* Nodir yr un gyfraith ond mewn geiriau gwahanol yn *LIB*, 76/26-28. Enwir yr *henaduryeit* fel un o'r tri gwybyddiad am dir yn y triawd sy'n dilyn. Roedd yr *henaduriaid* yn ymddwyn fel cof y gymuned mewn materion ynghylch llinach.

**etrif** *Edryd* yw'r ffurf yn y testunau eraill ac eithrio llsgr. V. Am y ffurfiau hyn gw. T. M. Charles- Edwards, 'Edryd, edryf, edfryd, edrydd', *BBCS*, 23 (1968-70) 117-20.

§1122) Cf. *Tri gbybydyeit yssyd am tir. henaduryeit g6lat y6ybot ach ac etrif y d6yn dyn ar dylhet otir adayar. Eil y6 g6r o pop rantir ortref honno y6 amhinogyon tir y6ybot kyfran r6g kenedyl acharant. Trydyd y6 pan vo amrysson r6g d6y tre vn vreint. Meiri achyghelloryon a righylleit bieu kad6 teruyneu. kanys brenhin bieu teruyneu (WML, 54/19-55/1). Dengys hyn eto waith golygu'r awdur, gan fod y triawd hwn ar dir wedi ei ychwanegu at y testun mewn man perthnasol yn dilyn damweniau ar dir.*

§1124) Cf. §586 a §833.

§1126) Mae'r deuddeg llinell cyntaf o'r darn hwn yn newydd yna mae'n adleisio Llyfr Cynghawsedd: *Os o priodolder e myn y haul yna e mae yaun er haulur dechreu holy a messurau y haul a dyweduyt y uot ef en priodaur ar e tyr hun ar dayar o ach ac edryf; ae ryerru en agkyureythyaul y arnau ac osyt a amheuo y uot ef en priodaur bot ydau dygaun agatwho y uot en priodaur; [ac ossyt ay amhe6o ereyrhu en anghyfreithaul bot ydau digauun ay guypo.] Ony wedyr eny erbyn yaun yu caffael y haul o honau. O guedyr eny erbyn enteu yaun yu gadael y ardelu ydau, a [c osseyf y ardelu y caffael o honau] chymeret y haul. Os ef a dodyr ene erbyn enteu bot deu ardelu ganthau keytweyt a gubydyeyt a dyweduyt na deleant uot am er un haul: Dyoer hep er haulur pale bynnac em amheuher y ar kyhyt ac a dywedeys mynheu a uynnaf keytweyt ene [lle e] dylyhoent a gubydyeyt en [e] lle e delehoent, ar uot en wyr a dywedeys; ac ar e kyfreyth e dodaf uy y deleu. En kyfreyth a dyweduyt nat oes o henne namen un ardelu ac un haul a bot en oreu pan uo muyhaf o geder [nhyt] y gadarnhau er haul a deleu o honau enteu er hyn a dyweyt ene lle yd amheuer ef. O deruyd [eden] rody en ateb ydau ef: Dyoer o buost ty ema ty a eythost [odema] en kyureythyaul y ar e tyr hun [ar dayar] ac ot amheuy ty henne e mae ymy dygaun ae guyr; ac ar e kyfreyth e dodaf y [den] a el un weyth en kyureythyaul y ar tyr a dayar na byd karrdychuel hunn6 ydau traee keuyn; ac urth henne ny deley tytheu deuot yma. Ac yna [e] mae yaun er haulur dyweduyt: Dioer my a dewedeys ue re erru en agkyureythyaul odema, ac a dodeys em pen gubydyeyt ac ardelu; ac e sef e dodaf uy ar e kyfreyth deleu mvynhau ue ardelu am gubydyeyt kyn ateb y nep ohanaf uy bellach. E*



*kyfreyth a dyweyt nat kyureythyaul mynet priodaur e ar tref y tat onyt cany uod, ac nat haud prouy bod ar nep ac y gyt a henne na deleyr duyn y ardelu rac nep: ac o seyf y ardelu ydau kymeret y haul (AL, VII.i.10).*

**§1127)** Cf. *O deruyd e dyn holy tyr o priodolder a dyweduyt or amdyffynnvr: Dyoer [hep ef] ny dilyaf uy dy attep ty or haul honno ac y sef achauy yu [henne] dy dyuarnu ty gynt a wnaethpuyt o wyr a kyfreyth y urthyf uy; ac ot amheuy ty henny emae y my dygaun ae guyr; ac ar e kyfreyth y dodaf uy e nep a dyuarner un weyth o wyr a kyfreyth na deleyr y attep en tragywydaul [6yth]. Os guadu a wna er haulur yaun yu gadu er amdyffynnur y guybydyeyt. Os adef a wna enteu tryccer ar e kyfreyth auu gynt. Os er haulur enteu a dyweyt: Dyoer hep ef om dyuarnuyt y [gent] o gam kyfreyth mynheu a embystleys ar [e] nep ae barnus hy a hy a atuarnuyt y my tracheuyn ac ot amheuy ty henny e mae emy dygaun ae guyr; a guedy henne em treyssyeyst ty ahedyu yd vyf uynheu en galu am ue yaun. Os guadu a wna er amdyffynnur yaun yu yna gadu er haulur y vybydyeyt. Os adef a wna er amdyffynnur atuerher er haulur ar eydau, en herwyd reatuarnu e kyfreyth auu gynt (AL, VII.i.21).*

**§1128)** Cf. *Os o emvrthryn e dewys den e haul ny eyll emvrthryn namyn deu dyn auo en eysted ar er un tyr y gyt: ac os un onadunt a uyn gurthryn y llall ene dyd e godywedho yaun dyweduyt y uot ef en priodaur ar e tyr hun ar dayar en gubyl. A dywedet uot gormes agkyureythyaul arnau ac enwy er ormes ac osyt a amheuo uy mot y en wyr priodaur ar kubyl or tyr hyn e mae emy ae guyr; ac o syt a amheuo y uot enteu en ormes [ac en aneledauc] e mae ymy dygaun ae guyr ac urth henny vd vyf uynheu hedyu en mennu buru gormes y arnaf [fy:] ac en galu am uyn dilyet ac en dody ar e kyfreyth e dilyaf. Os er amdyffynnvr a watta henny yaun yu gadael er haulur y vybydyeyt. [Os adef er amdifffenur iaun e6 gadel er haulur e haul.] Os er amdyffynnvr a dyweyt: Dyoer myuy e syd priodaur ar e tyr hun ar dayar ac aruyd yu [bot en wyr henne] en guarchadu uem priodolder yd vyf uy ac osyt a amheuo bot en wyr a dywedaf uy e mae emy dygaun a gatwo uy priodolder am guarchadu ual y dely deledauc cadu y priodolder am warchadu ganthau; ac ar e kyfreyth y dodaf uy ue mot y en dyledogach y gadu ue priodolder am guarchadu gennyf nogyt ty cadu er hyn nyt oes yth warchadu ac ny dely uot ac urth henne mynheu a*

*uynnaf muynhau ue keytweyt ene blaen ac ae deleaf. Ac ena y mae yaun er haulur dyweduyt: Dyoer myuy a dewedeys en kyntaf uy mot y en priodaur ac en deledauc ar kubyl or tyr hun a tytheu en ormes; a chet [re] gallut ty duyn uen tyr y treys ny elleyst na byd un priodaur dyledauc ae ar ue priodolder y am delyet y dodeys ynheu keytweyt a gwybydyeyt ar dy uot tytheu en ormes, a henne en kyntaf; ac ar e kyfreyth y dodaf uynheu deleu eu muynhau huy en guntaf. E kyfreyth a dyweyt pa le bynnac e dyweto dyn y uot en dyledauc ar tyr a dayar ket re gollo den fruyth y dilyet na cholles y dilyet; a deleu o hanau enteu duyn keytweyt ar e dilyet a henne ene blaen; a guedy henny muynhau keytweyt er amdyffynnur. Ac obyd sauedyc pob rey onadunt barner er amrysson en deu hanner a byt en haul gyhyded: ar hun by bo sauedyc y ardelu onadunt, collet y haul en kubyl. Os pob un a geys buru y gylyd onadunt truy keytweyt a bot en sauedyc e pob un onadunt y keytweyt; tryccer pob un onadunt ar y warchadu. Os un a palla ydau e keytweyt, pallet y ardelu ydau. E kyfreyth a dyweyt bot en yaunach mynet y fruyth en ol e dilyet nor dilyet en ol fruyth (AL, VII.i.22).*

**ymwrthryn** *ym* + *gwrthynu*: *to eject, dispossess* (GMWL, 298). Math arbennig o hawl am dir. Caiff hawl ymwrthryn ei enwi mewn triawd yn Ior: *Ny deleyr grandau urun o'r teyr haul hyn en amser cayat keureyth am tyr a daear: sef ynt e rey henne, haul pryodolder a haul datanhud a haul emurthryn* (LII, §85/23-25). Dyma'r unig gyfeiriad at yr hawl ym mhrif destun Ior. Mae awdur Ior felly yn ymwybodol o'r hawl ond nid yw'n manylu arni, sy'n awgrymu fod y gyfraith ar yr hawl hon i'w chael mewn llyfr arall oedd yn annibynnol ar Ior.

§1129) Cf. *O deruyd [bot] emurthryn e rug deu den am tyr a dayar a dyweduyt or haulur y uot ef en priodaur a bot y llall en ormes ac obyd a amheuh henny bot ydau dygaun ae guyppe [bot en wyr keyt ahyt edeweit.] Ac ateb or amdyffynnvr a dyweduyt: Dyoer [hep ef] o buost priodaur ty ema neut nat eduyt a haul trabluydyn yu e teudy. Ema yd vyf uy en eysted ar e tyr hun bluydyn a bluydyned, gan ty ac anlloed, ac ar ac eredyc hep turyf hep eynywet, a henne en kyvlat athydy; ar ry uynet gwydwaled y ryghot ty ath dilyet; ac ot amheuy ty henny [e] mae emy dygaun ay guyr [keyt ac y dewedeys:] ac ar e kyfreyth e dodaf uy can dyodeueyst ty uy mot y ema kyhyt a*

*henne nat vyt dyledauc tytheu y warauun emy e tyr hun [ar dayar] en tragywydaul. O guata er haulur [henne] gater y vybydyeyt er amdyffynnvr. Os adef enteu a wna er haulur byt er haul er amdyffynn6r (AL, VII.i.23).*

**anlloedd** Gall olygu cyfoeth, eiddo, dodrefn, neu annedd (GPC).

**§1130)** Cf. *Oderuyd y den holy tyr a dayar o uamuys deuet ar e tyr [ar dayar] en amser y bo agoret kyfreyth a dywedet y uot [ef] en uab y alltut o Kymraes dyledauc; a dywedet ry rody y uam ef oy chenedyl en kyureythaul yu tat ef, ae alltudau enteu; ac osyt a amheuo henny mae ydau dygaun ae guyr: ac urth henne e dodaf uy ar e kyfreyth can alltudassant huy uyuy, deleu o hanaf uynheu deuot en tref tadauc atadunt huynteu ene dyd hedyu; canys e dyd hun e syd dyd coll a chaffael y rofy ac vyntuy. Os adef a wna er amdyffynnvr barner ydau uot en tref tadauc, y gyt ay ewythred a chymeynt ydau ac y un oy ewythred eythyr e tedin breynnyaul ac obyd suyd or tyr nys keyff hyt e trededyn; ac ny ellyr penkenedyl o hanau hyt e trededyn. Os guadu a wna er amdyffynnur gater y vybydyeyt er haulur, ac o sauant ydau byt eydau y haul ac ony sauant [ydau] collet en tragywydaul y haul. O deruyd er amdyffynnur dyweduyt en ateb ydau: Dyoer heb ef ket dywetych ty uot en alltut tref tadauc oed dy tat ty en lle arall ac ot amheu ty henny [e] mae emy dygaun ae guyr; ac ar e kyfreyth e dodaf uy ry rody ohanaf uy ue chuaer e treftadauc ac nat emchuel mab tref tadauc [arall en treftadauc] arnaf uy. Ony urthuynepa er haulur amgen a henny barner ydau y vybydyeyt ac o sauant ydau dyuarner er haulur [ena.] Os ef a dyweyt er haulur Dyoer hep ef ar gyhyt ac a dywedeys y myuy a dodeys guybydyeyt ar uot en wyr a dywedeys om amheuet; ac ar e kyfreyth y dodaf uy na dele guybydeyt kyuody en erbyn e rey meuy eny uyper a sauoent ae ne sauoent can amheubyt a dywedeys. Yaun yu barnu y uybydyeyt ydau ac na uynhaer arnau ef urun canys y amheu ef a wnaethpuyt (AL, VII.i.24).*

**§1131)** Darn byr o gyfraith sydd wedi ei ychwanegu yma gan ei fod yn berthnasol i'r pwnc dan sylw.

**§1132)** Mae'r testun yn parhau i ddilyn Llyfr Cyngawsedd: cf. *O deruyd e den holy tyr a dayar o uamuys a dyweduyt ry rody e uam ef en keureythaul yu tat ef a*

*bot ytat enteu en alltut ac enteu en mennu tref tat en oet e dyd hunn6 ac yna ateb or amdyffynnur: Dyoer hep ef ket boet alltut dy tat ty ef a holes mam6ys eysyoes ene lle ar lle ac enteu ay cauas hy o wyr a kyfreyth ac [ef] a aeth en tref tadauc eno ac osyt a amheuop henne [e] mae eme dygaun ae guyr, [kehyt ac edewedeys] ac ar e kyfreyth e dodaf uynheu can aduyt ty en tref tadauc kyureythyaul en lle arall hyt na deley tytheu ateb o tref tat arall. Ac ena e mae yaun gadael e vybydyeyt er amdyffynnvr o guata er haulur. Onys guata guell yu a dyuarner en tragywydaul o uamuys (AL, VII.i.25).*

**§1133)** Mae'r testun yn parhau ar y pwnc o famwys ond defnyddir deunydd ychwanegol o ffynonellau eraill gan nad ydyw Llyfr Cyngawsedd yn dweud mwy ar y pwnc hwnnw. Enwir merch a roddwyd fel gwystl ac a dreisiwyd mewn gwlad estron fel un o'r tair gwraig y dylai eu meibion gael tir o famwys yn J, 117; S §2022; *WMLT*: Q230; *LII*, §86/5-11; *AL*, X.vii.20; ac y dylai ei mab gael rhan o'r tir treftadol gyda'i brodyr. Cf. hefyd *AL*, IX.xxx.1. Ceir cyngawsedd debyg i hyn yn *AL*, IX.xxx.13-16. Yn *AL*, IX dywed yr amddiffynwr i'r ferch roi ei hun o'i bodd i'r tad ac felly na chafodd ei threisio. Mae'r rhan agoriadol yn adleisio *AL*, XI: *O dervyd ydyn holi peth o dreis ac ateb or amdiffynvr o bad ia6n y6 barny y bad ida6 kani ellir gbybydeid ar dreis, sef acha6s na ellir amvod reith ossodedic yghyfreith erni ac na dyly gbybydeid lle dylyo reith vod: sef y meint y reith ll6 deg6yr a deugeint . . .* (*AL*, XI.iv.5 (S)).

**§1134)** Cf. *Os mab a dyal gwr o genedl y vam ac a gollo tref y tat ehvn o achos y gyfflauan hono holet val y kyclev vchot [oll] ymhob pwng eithyr henwi messur yr hawl a phafford y kolles tref e dat ehun adwyn praw ar hyny val y llall vchot.* Ehengir ar hyn yma drwy fanylu ar sut yn union y daeth y mab i golli ei dir (*AL*, IX.xxx.17).

**§1136)** Am ddadanudd gw. *EIWK*, 274-304.

**§1137)** Dychwelir eto at Lyfr Cyngawsedd: cf. *Os o datanhud e dewys den e haul, try ryu dadanhud e syd: datanhud burn abeych; a datanhud karr; a datanhud ar ac eredyc a thy ac anlloed. Ny byd datanhud urun or reyn henne heb rod ac*

*estyn [egan] argluyd. Ny dele den holy datanhud namen aeluyt a anhudo den ehun neu e tat kyn noc ef. Ny dele den holy datanhud tyr er bot e hentat neu e orhentat ar e tyr ony myn e holy o ach ac edryf (AL, VII.i.26).*

**§1138)** Cf. *O deruyd e den holy tyr o datanhud ar ac eredyc a thy ac anlloed deuēt ar e tyr en amser y bo agoret kyfreyth am tyr a dayar a dywedet ef y ryuot ef neu e tat kyn noc ef en eysted ar e tyr hun ar dayar truy estyn argluyd ac ar ac eredyc ydau athy ac anlloed bluydyn a bluydyned ae re erru en agkyureythyaul y arnau ac o syt a amheuho henne mae eme dygaun ae guyr [er revot ef en kehyt a henne] ac o syt a amheuho er ry erru en agkyureythyaul bot ydau dygaun ae guypo; ac en dody ar e kyfreyth deleu o hanau ef dyuot y datanhudau er aeluyt a anhudus ef neu e tat kyn noc ef. Ac ateb or amdyffynnur ydau: Dyoer hep ef o buost ty ema en kyureythyaul ed eythost ty odyma, ac ot amheuy ty henne [e] mae eme dygaun ay guyr [te rebenet;] ac ygyt a henne priodaur vyf uynheu en eysted ar ue priodolder ac o syt a amheuo henne [e] mae eme dygaun ae guyr; ac ar e kyfreyth e dodaf uy e den ael en kyureythyaul y ar tyr a dayar un weyth na dele ef bot en karrdychuel ydau tracheuyn o kyfreyth. Ac ena e mae yaun er haulur dyweduyt: Dyoer heb ef kyhyt ac e dewedeys y ue ryuot y ema am re erru en agkyureythyaul odema myuy adodeys keytweyt a guybydyeyt ar uot en wyr a dywedeys, a henne eth ulaen ty; ac ar e kyfreyth e dodaf uy, canys dodeys y vyntuy yth ulaen ty deleu [o honafyne6] eu muynheu huynneu ene blaen. Ac ena [e] mae yaun gadu ydau [ente6] eu muynhau ene blaen; ac o bydant [idau] sauedyc barner ydau kymeynt ac a holo o tyr y eysted arnau ac e wneythur ar ac eredyc arnau a hep nep y gyt ac ef or guyr a uu ene erbyn: ac e uelly e byd ene emchuelo y keuyn ar e das, e kynhayaf rac vyneb, ac ena rody ateb; a nauuet dyd kalan gayaf kyfreyth. Ac ena o geyll er amdyffynn6r prouy e uot en priodaur kyhuynnet er ampriodaur racdau. Ac o byd kyhyded e duy pleyt [ar d6y deleet] rannent en deu hanner ac eystedent ell deu arnau (AL, VII.i.27).*

**§1139)** Eto dilynir trefn Llyfr Cynghawsedd: cf. *Ac ual y dywedassam ny uchot e dadleuyr am datanhud karr: ac obydw sauedyc [ydau] y ardelu er haulur doter e eysted ar e tyr hyt e [pen e] nauuet dyd ac ena rody ateb ac en er eyl nauuet dyd kyfreyth. [Ac velly am datanut burn a beych ac osseyf eardelu er haulur*

*doter ar etyr e eyste hyt etrededyd ac ena atep ac epen enau6etdyd kyfreith.]  
Ac o geyll emgynhal keyssyet (AL, VII.i.28).*

**§1140)** Cf. *Oderuyd e den holy tyr a dayar o datanhud ar ac eredyc deuet ar e tyr a dywedet er ryuot ar e tyr hun en eysted bluyden a bluydyned truy rod ac estyn argluyd, ac ar ac eredyc ydau arnau ar re erru en agkyureythyaul y arnau; ac osyt a amheuo henne ydau ef bot ydau dygaun a vypo bot en wyr a dywaut. Ac ena atep or amdyffynnur: Dyoer hep ef o buost ty ema kyhyt ac e dywedty ty ac oth [re] erruyt en agkyureythyaul o dema tytheu a holeyst ema o datanhud ac ae keueyst; a guedy e gaffael o hanaut [y] yth uuryvt ty odema ual e buru dyledauc andyledauc, owyr a kyfreyth ac ot amheuy ty henny [e] mae emy dygaun ae guyr, bot en wyr kyhyt ac a dywedeys. Ony wata er haulur henne tystet er amdyffynnvr henne arnau a galwet am uraut a dywedet na [re] wadus rygaffael datanhud gynt o hanau; a dodet ar e kyfreyth na dele enteu deu datanhud or un tyr. Ac ena [e] mae yaun dyuarnu er haulur en tragwydaul or datanhud hunn6. Os guadu a wna er haulur na re gauas datanhud gynt, gatir y vybydyeit er amdyffynnur ac o bydant sauedyc dyuarner er haulur en tragwydaul [oy haul.] (AL, VII.i.29).*

**§1142)** Cf. Pydi6 'y barnher' bynhac datanhud ny dichabn neb yu6r6 oe datanhud namyn etiued prioda6r. kany dichabn yr eil datanhud g6rth lad ykyntaf. Ac ny 6rth lad am prioda6r am prioda6r arall oe datanhud. Ac or byd amrysson r6g etiuedyon prioda6r am datanhud. ny dichabn vn g6rthlad ygilyd o gyfreith (WML, 49/6-13). Mae'r testun yn parhau ar y pwnc o ddadannudd drwy ddyfynnu ffynhonnell arall gan fod Llyfr Cynghawsedd yn mynd ymlaen i s6n am ynadon. Mae'r darn o Lyfr Cynghawsedd sydd yn trafod ynadon wedi ei symud i'r adran berthnasol yn H/PeniARTH 278: gw. §§ 1063-73.

**§1147)** Mae'r testun yn dychwelyd at Llyfr Cynghawsedd: cf. *O deruyd e deu den mynnu emteruenu yaun yu dyuot[ar y tyr ac] ar e teruyn; ac yna e mae yaun er haulur dangos e ureynt ae e uot ef en kyghellaur ae y uot en uaer ae y uot enteu en suydauc arall e bo uvch e ureynt ef no breynt er amdyffynn6r; neu enteu e uot ef en priodauc neu [ente6 en] kynwarchadu ac nat edyu er amdyffynnur. Ac ena e mae yaun er amdyffynnur dangos e ureynt ac*

*emgyhydu e ureynt ar haulur neu enteu keyssyau bot en uvch e ureynt. Os kyhyded uydant aet er haulur a dangosset e haul ae teruyn parth ar amdyffynnur eythyr nat el tros try argae teruyn: sef yu henny prif dvuyr o uor hyt uenyd; a randyr a chyuanhed arney a priodolder neu kynwarchadu. A guedy henne dangosset er amdyffynnur e teruyn [ente6] ae warchadu ac nac aet enteu [ar er haulur] tros try argae teruyn a dewedet pob un onadunt ar eu llv panyu er hvn a dangossassant yu eu teruyn. A guedy henne aent henuryeyt e kymut y edrech puy yaunhaf onadunt ac o guybydant puy e syd ar yaun onadunt barner ydau e teruyn ae achub; ac onys guybydant er henuryeyt puy yaunhaf onadunt aent er egneyt allan a barnent er haul honno en kyfreyth kyhyded, a rannent er amrysson en deu hanner. A llena e tredelle eg kyfreyth Hewel eran kyfreyth en deu hanner (AL, VII.i.41). Mae darn olaf y gynghawsedd ar goll o H/PeniARTH 278.*

**cany cheidw gwaclaw o gyfreith** Ychwanegiad at destun H sy'n adleisio AL, IX: . . . *kany cheydw gwaclaw* (AL, IX.xxviii.8).

**Sef yw cyngwarchadw . . . y randir** Ychwanegiad arall at destun H sy'n adleisio AL, IX: *sef yw kygwarchadw ar diffaith ty ac o dyn ac ysgvbor* (AL, IX.xxxiv.1). Am y rhandir gw. *EIWK*, 372-73, 380-83.

**un o'r tri argae dangos** Cf. llsgr. Z, f. 97v: *Tri argay dangos: rrandir, a braint, ac adeilad, gani ellir dangos tervyn ar dor y rrai hynny, ac na ellir dwyn randir yn nangos* (WMLT: Z117).

§1148) Cf. llsgr. Z, f. 40r: *O bob ymdervynv a vo y rrwng dwy dref cxx<sup>d</sup> a ddaw i'r arglwydd a xxiiij<sup>d</sup> i'r ynaid. Tra yn Cyfn dywedir: Hanner punt ada6 yr brenhin pan teruynher tir r6g d6y tref. Pedeir arhugeint ada6 yr bra6twyr pan dycco kyfreith tirydyn* (WML, 47/8-10).

§1152) Yr un nifer o erwau sydd mewn rhandir yn ôl Cyfn: *Deudec er6 atrychant yhonno auyd yny rantir r6g r6yd adyrys a choet amaes a g6lyp a sych eithyr yr oruot tref* (WML, 54/15-19). Ond ceir y gyfatebiaeth eiriol agosaf gyda thestun llsgr. Z, f. 40r: *Messur rrandir xij erw a thry chant*.

§1153) Cf. . . . *os yr6g tir yllys athir y wlat y dechreuir: llys ateruyna. Os yr6g tir ywlat athir egl6ys y egl6ys ateruynha. Os yr6g kytetiuedyon: breint ateruynha*.



*Os yr6g tir kyfanhed athir diffeith: kynwarchad6 ateruynha. Adeil ac aed6y y6 kyfanhed. Pan teruynha llys: Maer a chyghella6r bieu dangos ytheruynneu drosti. Os egl6ys: bagyl ac euegyl (WML, 47/24-48/7). Er hyn mae'r cymal cyntaf yn adleisio geiriad y fersiwn o'r testun a gedwid yn llsgr. Z. Cf. llsgr. Z, f. 40r: Pwy bynac a gyvarffo tervyn llys ac ef ynghyweth yr arglwyd ehvn, llys a dervyna o byd dadyl, kanis ohonai y daw ev braint; o bob tir yni gyvarffo llys ar arglwydd ac escob yr eglwys a dervyna, ac yna dywedir bagyl ac evengil a dervyna. Pan vo ymdervynu y rrwng llys arglwyd a thir arall y mayr a'r kynghellawr biav tervynv a thyngv drostaw o byd rraid.*

**§1154)** Dychwelir at Lyfr Cynghawsedd: cf. *O deruyd e den mennu teruenu ar arall a dyweduyt o honau bot o ureynt ydau teruenu ena a bot ydau a gatwo henne dygaun. Os ef a wna er amdyffynnur adef henne yaun yu barnu er haulur e haul. Os guadu a wna er amdyffynnur yaun yu muynhau keytweyt er haulur ac o fyynnant yaun yu gadu ydau e ureynt, a theruenu o hanau ar er amdyffynn6r. Os ef a dyweyt ar amdyffynnur en atdeb er haulur: Dyoer heb ef obu e breynt hunnu yt ty neut nat edyu; ac y sef achaus yu nat edyu, ema gynt e bu emteruynu y rof yu a thydy; ac e terueneyst ty hyt e lle hon ar lle ac e mae gennyt ty de ran; ac osyt a amheuo heune [e] mae eme dygaun ae guyr, kyhyt ac a dywedeys; ac ar e kyfreyth e dodaf uy ene keffych ty gynt de ureynt ath teruyn hyt na deley tytheu deu teruyn na deu ureynt o un llau ac na deley tythey na breynt na theruyn arnaf uy bellach uyth ene lle hon can deryu yt ty caffael dy ureynt ath teruyn. Ot adef er haulur henne byt ar a gauas. O guata enteu [henne] muynhaer guybydyeyt er amdyffynnur ac o fyynnant e guybydyeyt byt er haulur hep dym. Os ef a dyweyt er haulur: Dyoer hep ef o bu emteruenu e romny ema gynt tytheu ae torreyt ac a eythost y arnau; a hyt ema ebu e teruyn hynv ac o guedy ty henne [e] mae emy dygaun ae guyr [bot enwyr adewetaf] ac urth torry o hanaut ty henny ar re duyn uy mreynt am teruyn y genhyf uy e dodaf uynheu ar e kyfreyth e deleaf uynheu ue mreynt am teruyn ual e bu oreu gynt em llau a hyt e lle hon e bu gynt ac o guedy ty henne mae emy dygaun ae guyr. O gutta er amdyffynnur henne muynhaer guybydyeyt er haulur. Os adef a wna enteu yaun yu barnu [er haulur] teruynu. A honno yu haul teruyn (AL, VII.i.42). Mae diwedd y gynghawsedd ar goll ac i'w gael yn §761, sy'n dangos fod trefn wreiddiol y testun wedi ei golli.*



## LLYFRYDDIAETH

### 1) Llawysgrifau

#### Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth:

|                       |      |
|-----------------------|------|
| Llanstephan 73        |      |
| Llanstephan 121       |      |
| Llanstephan 116       | Tim  |
| Peniarth 29           | A    |
| Peniarth 31           | R    |
| Peniarth 32           | D    |
| Peniarth 33           | M    |
| Peniarth 35           | G    |
| Peniarth 36 A         | O    |
| Peniarth 36 B         | N    |
| Peniarth 36 C         | 'M'  |
| Peniarth 37           | U    |
| Peniarth 38           | I    |
| Peniarth 40           | K    |
| Peniarth 258          | ε    |
| Peniarth 259 A        | P    |
| Peniarth 259 B        | Z    |
| Wynnstay 36           | Q    |
| 11125 A (copi o Bost) | Bost |
| 20143                 | Y    |

#### Llyfrgell Brydeinig, Llundain:

|                        |   |
|------------------------|---|
| Add. 14931             | E |
| Add. 22356             | S |
| Cotton Caligula A III  | C |
| Cotton Cleopatra A XIV | W |
| Cotton Cleopatra B V   | X |
| Cotton Titus D II      | B |
| Cotton Titus D IX      | L |
| Harleian 958           | T |
| Harleian 4353          | V |

#### Plas Bodargan:

|          |    |
|----------|----|
| Bodargan | Mk |
|----------|----|

#### Coleg yr Iesu, Rhydychen:

|            |   |
|------------|---|
| Llsg. LVII | J |
|------------|---|

#### Coleg y Drindod, Caergrawnt:

|             |    |
|-------------|----|
| Llsg. 0.7.1 | Tr |
|-------------|----|

## 2) Ffynonellau Cynradd

*The Acts of the Welsh Rulers: 1120-1283*, gol. H. Pryce (Cardiff, 2005).

*Ancient Laws and Institutes of Wales*, gol. A. Owen (2 gyf., London, 1841).

*Armes Prydein*, gol. I. Williams (adargraffiad, Caerdydd, 1964).

*Bracton on the Laws and Customs of England*, gol. D. E. Woodbine, cyfieithwyd gan S. E. Thorne (Cambridge, Mass, 1968-77).

*Brenhinedd y Saesson; or, The King of the Saxons: BM Cotton MS. Cleopatra Bv; and, the Black Book of Basingwerk, NLW MS. 7006*, gol. T. Jones (Cardiff, 1971).

*Brevia Placitata*, gol. G. J. Turner (Selden Society, London, 1951).

*Brut y Tywysogyon or The Chronicle of the Princes, Peniarth Ms. 20 Version*, cyf. T. Jones (Cardiff, 1952).

*Brut y Tywysogyon or The Chronicle of the Princes, Red Book of Hergest version*, gol. T. Jones (Cardiff, 1955).

*Brut y Tywysogyon, Peniarth MS 20*, gol. T. Jones (Caerdydd, 1941).

*Canu Aneirin*, gol. I. Williams (2 arg., Caerdydd, 1961).

*Canu Taliesin*, gol. I. Williams (adargraffiad, Caerdydd, 2000).

*The Court Baron*, gol. F. W. Maitland a W. P. Baildon (Selden Society, 1891).

*Culhwch ac Olwen: An Edition and Study of the Oldest Arthurian Tale*, gol. R. Bromwich a D. Simon Evans (Cardiff, 1992).

*Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl llawysgrif Coleg yr Iesu LVII Rhydychen*, gol. M. Richards (argraffiad diwygiedig, Caerdydd, 1990).

*Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd (dull Dyfed)*, gol. S. J. Williams, a J. E. Powell (Caerdydd, 1942).

*Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. H. Lewis, T. Roberts ac I. Williams (Caerdydd, 1937).

*Chwedlau Odo*, gol. I. Williams (Wrecsam, 1926)

*Chwedleu Seith Doethon Rufein o Lyfr Coch Hergest*, gol. H. Lewis (Wrecsam, 1925)

- Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N. G. Costigan *et al.* (CBT VI, Caerdydd, 1995).
- Damweiniau Colan*, gol. Dafydd Jenkins (Aberystwyth, 1973).
- The Elucidarium and Other Tracts in Welsh from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi A.D. 1346*, goln. J. Morris-Jones a J., Rhys (Oxford, 1894).
- Facsimile of the Chirk Codex of the Welsh Laws*, gol. J. G. Evans (Llanbedrog, 1909).
- 'A fragment from Hengwrt MS no. 202', gol. E. G. B. Phillimore, *Y Cymmrodor*, 7 (1886), 89-154.
- Ffordd y Brawd Odrig o lawysgrif Llanstephan 2*, gol. S. J. Williams (Caerdydd, 1929).
- Gerallt Gymro*, cyf. T. Jones (Caerdydd, 1938).
- Gramadeg Cymraeg Gruffydd Robert*, gol. G. J. Williams (Caerdydd, 1939).
- Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G. J. Williams ac E. J. Jones (Caerdydd, 1934).
- Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. R. M. Andrews *et al.* (CBT VII, Caerdydd, 1996).
- Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr I*, gol. N. A. Jones a A. P. Owen (CBT III, Caerdydd, 1991).
- Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr II*, gol. N. A. Jones a A. P. Owen (CBT IV, Caerdydd, 1995).
- Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. T. Roberts (Bangor, 1914).
- Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. T. Parry (3 arg., Caerdydd, 1979).
- Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac I. Williams (2 arg., Caerdydd, 1961).
- Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. D. Johnston (Caerdydd, 1995).
- Gwaith Lewis Glyn Cothi: The Poetical Works of Lewis Glyn Cothi*, gol. W. Davies a John Jones (Oxford, 1837).
- Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. K. A. Bramley *et al.* (CBT II, Caerdydd, 1994).
- Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. E. M. Jones a N. A. Jones (CBT V, Caerdydd, 1991).

*Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J. E. Caerwyn Williams *et al.* (CBFI, Caerdydd, 1994).

*Hen Gerddi Crefyddol*, gol. H. Lewis (Caerdydd, 1931).

*Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches Between the Years 1586 and 1613, Under the Authority of Clarencieux and Norroy, Two Kings at Arms by Lewys Dwnn II*, gol. S. R. Meyrick (Llandovery, 1846).

*Latin Redaction A of the Law of Hywel*, gol. I. F. Fletcher (Pamffledi Cyfraith Hywel, Aberystwyth, 1986).

*The Latin Texts of the Welsh Laws*, gol. H. D. Emanuel (Cardiff, 1967).

*The Laws of Howel Dda: A Facsimile Reprint of Llanstephan MS. 116 in the National Library of Wales, Aberystwyth*, gol. T. Lewis (London, 1912).

*Llawysgrif Hendregadredd*, gol. J. Morris-Jones a T. H. Parry Williams (Caerdydd, 1933).

'Llyfr Cynghawsedd', gol. A. Rh. Wiliam, *BBCS*, 35 (1988), 73-85.

*Llyfr Colan*, gol. Dafydd Jenkins (Caerdydd, 1963).

*Llyfr Cynog: a Medieval Welsh Law Digest*, gol. A. Rh. Wiliam (Aberystwyth, 1990).

*Llyfr Gwyn Rhydderch: Y Chwedlau a'r Rhamantau*, gol. J. Gwenogvryn Evans (Caerdydd, 1973).

*Llyfr Iorwerth*, gol. A. Rh. Wiliam (Cardiff, 1960).

*Novae narrationes*, gol. E. Shanks a S. F. C. Milsom (Selden Society, London, 1963).

*Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. I. Williams (2 arg., Caerdydd, 1951).

*The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, T. Roberts ac I. Williams (Cardiff, 1923).

*The Poetry in the Red Book of Hergest*, gol. J. G. Evans (Llanbedrog, 1911).

'The triads of Ireland', gol. K. Meyer, *Royal Irish Academy Todd Lecture Series*, 13 (Dublin, 1906).

*Trioedd Ynys Prydein*, gol. R. Bromwich (2 arg., Cardiff, 1978).

*Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae*, gol. A. W. Wade-Evans (Cardiff, 1944).

*Welsh Medieval Law*, gol. A. W. Wade-Evans (Oxford, 1909).

*The Welsh Walter of Henley*, gol. A. Falileyev (Dublin, 2006).

*Ystoria Bown De Hamtwn*, gol. M. Watkin (Caerdydd, 1958).

*Ystoriaeue Seint Greal Rhan I: Y Keis*, gol. T. Jones (Caerdydd, 1992).

### 3) Ffynonellau Eilradd

Allmand, C. T. a Styles, D., 'The coronation of Henry VI', *History Today*, 32 (1982), 28-33.

Arnold, C. J. a Hugget, J. W. , 'Mathrafal, Powys: a reassessment', *BBCS*, 33 (1986), 436-51.

Awbrey, G. M. *et al.*, 'Slander and defamation: a new source for historical dialectology', *Papurau Gwaith Ieithyddol Cymraeg Caerdydd*, 4 (1985), 1-24.

Bachelery, E., *L' Oeuvre Poétique de Gutun Owain* (2 gyf., Paris, 1950-51).

Baker, J. H., *The Reports of Sir John Spelman Vol. II* (Selden Society, London, 1978).

Baring-Gould, S. a Fisher, J., *The Lives of British Saints; the Saints of Wales and Cornwall and such Irish Saints as have Dedications in Britain* (4 cyf.; London, 1907-13).

Bartrum, P. C., 'Rheinwg and Rheinwg', *BBCS*, 24 (1970), 23-27.

—, *Welsh Genealogies AD 300-1400* (Cardiff, 1974).

—, *Welsh Genealogies AD 1400-1500* (Aberystwyth, 1983).

Binchy, D. A., *Celtic and Anglo-Saxon Kingship-The O'Donell Lectures for 1967-8* (London, 1970).

Bischoff, B., *Latin Palaeography: Antiquity and the Middle Ages* (Cambridge, 1990).

Bosco, Sister M., 'Dafydd Benfras and his *Red Book* poems', *SC*, 22-23 (1987-88), 49-117.

Bowen, D. J., 'Dafydd ap Gwilym a datblygiad y cywydd', *Llên Cymru*, 8 (1964-65), 1-32.

—, 'Agweddau ar ganu'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed', *Llên Cymru*, 9 (1966-67), 46-73.

—, 'I Wiliam ap Siôn Edwart, Cwnstabl y Waun', *YB*, 18, (1992), 137-59.

—, 'Guto'r Glyn a Glyn-y-Groes', *YB*, 20 (1995), 149-82.

- Bromwich, R., 'A Guide to Welsh Literature, Volume F, *Llên Cymru*, 13 (1974-81), 298-301.
- Cappelli, A., *Dizionario di Abbreviature Latine et Italiane: Lexicon Abbreviaturarum* (6<sup>ed</sup> arg., Milano, c.1979).
- Carr A. D. a Jenkins, D., *Trem ar Gyfraith Hywel* (Hendy Gwyn ar Daf, 1985).
- , *Owen of Wales: The End of the House of Gwynedd* (Cardiff, 1991).
- Carruthers, M. J., *The Book of Memory: A Study of Memory in Medieval Culture* (Cambridge, 1990).
- Charles-Edwards, G., 'The scribes of the Red Book of Hergest', *CLIGC*, 21 (1979-80), 246-56.
- Charles-Edwards, G. a T. M. 'The continuation of 'Brut y Tywysogion' in *Peniarth Ms. 20*', yn Tegwyn Jones a E. B. Fryde (goln.) *Ysgrifau a Cherddi Cyflwynedig i Daniel Huws* (Aberystwyth, 1994), 293-305.
- Charles-Edwards, T. M., 'Edryd, edryf, edfryd, edrydd', *BBCS*, 23 (1968-70) 117-20.
- , 'Welsh *diffoddi*, *difa* and Irish *do-badi* and *do-ba*', *BBCS*, 23 (1968-70), 210-13.
- , 'The seven bishop-houses of Dyfed', *BBCS*, 24 (1970-72), 247-62.
- , 'Naw kynywedi teithiauc', *WLW*, tt. 23-39.
- , 'Cynghawsedd: counting and pleading in medieval Welsh law', *BBCS*, 33 (1986), 188-98.
- , *The Welsh Laws* (Cardiff, 1989).
- , *Early Irish and Welsh Kinship* (Oxford, 1993).
- , 'NLW Peniarth MS 35 (G) and the textual tradition of Llyfr Iorwerth', erthygl heb ei chyhoeddi.
- Charles-Edwards, T. M. a Russell, P., 'The Hendregadredd manuscript and the orthography and phonology of Welsh in the early fourteenth century', *CLIGC*, 28 (1993-94), 419-62.
- Charles-Edwards, T. M., Owen, M. E. a Walters, D. B. (goln.), *Lawyers and Laymen* (Cardiff, 1986).
- Charles-Edwards, T. M., Owen, M. E. a Russell, P. (goln.), *The Welsh King and His Court* (Cardiff, 2000).

- Cheney, C. R. (gol.), *A Handbook of Dates for Students of British History* (arg. diwygiedig gan M. Jones, Cambridge, 2000).
- Clanchy, M. T., *From Memory to Written Record: England 1066-1307* (2 arg., Oxford, 1993).
- Cule, J., 'The diagnosis, care and treatment of leprosy in Wales and the border in the Middle Ages', *Transactions of the British Society for the History of Pharmacy*, 1 (1970), 29-59.
- , 'The court mediciner and medicine in the laws of Wales', *Journal of the history of medicine and allied sciences*, 21 (1966), 213-36.
- Curtius, E. R., *European Literature and the Latin Middle Ages* (2 arg., London, 1979).
- Davies, J., *Bywyd a Gwaith Moses Williams 1685-1742* (Caerdydd, 1937).
- Davies, R. R., 'The twilight of Welsh law, 1284-1536', *History*, 51 (1966), 143-64.
- , 'The survival of the bloodfeud in medieval Wales', *History*, 54 (1969), 338-57.
- , 'The law of the march', *CHC*, 5 (1970-71), 1-30.
- , *Lordship and Society in the March of Wales, 1282-1400* (Oxford, 1978).
- , 'The administration of law in medieval Wales: the role of the *Ynad Cwmwd* (*Judex Patrie*)', *LAL*, tt. 258-73.
- , *Conquest, Coexistence and Change: Wales 1063-1415* (Oxford, 1987).
- , *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford, 1995).
- Davies, S. a Jones, N. A. (goln.), *The Horse in Celtic Culture: Medieval Welsh Perspectives* (Cardiff, 1997).
- Denholm-Young, N., *Handwriting in England and Wales* (2 arg., Cardiff, 1964).
- Dumville, D. N., 'On the dating of the early Breton lawcodes' *Etudes Celtique*, 21 (1984), 207-21.
- Dictionary of the Irish Language* (Dublin, 1983).
- Edwards, H. M., 'Y trioedd serch', *Dwned*, 1 (1995), 25-39.
- Edwards, J. G., *Hywel Dda and the Welsh Lawbooks* (Bangor, 1929; 2 arg. yn *CLP* tt. 135-60).

- , 'The language of the law courts in Wales: some historical queries', *Cambrian Law Review*, 6 (1975), 5-9.
- Elias, G. A., *Llyfr Cynyr ap Cadwgan* (Pamffledi Cyfraith Hywel, Aberystwyth, 2006).
- , 'Llyfr Cynog of cyfraith Hywel and St Cynog of Brycheiniog', *CHC*, 23: 1 (Mehefin 2006), 27-47.
- Emanuel, H. D., 'Llyfr Blegywryd a llawysgrif Rawlinson 821', *BBCS*, 19 (1960-62), 23-28.
- , 'Blegywryd and the Welsh laws', *BBCS*, 20 (1963), 256-60.
- Evans, D. F., 'Y bardd a'i farf: y traddodiad barfol', *Dwned*, 2 (1996), 11-29.
- Evans, D. S., *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964).
- , *Gramadeg Cymraeg Canol* (3 arg., Caerdydd, 1977).
- Evans, J. G., *Report on Manuscripts in the Welsh Language* (2 gyf., London, 1898-1910).
- Falileyev, A., 'Old Welsh *y diruy hay camcul* and some problems related to Middle Welsh legal terminology', *Celtica*, 24 (2003), 121-28.
- Finberg, H. P. R. *et al.* (gol.), *The Agrarian History of England and Wales*, cyf. iv (Cambridge, 1967).
- Fleuriot, L., 'Un fragment en Latin de très anciennes lois bretonnes armoricaines du VI<sup>e</sup> siècle', *Annales de Bretagne*, 78, (1971), 601-60.
- Fychan, C., *Galwad y Blaidd: Perthynas y Blaidd â Chymru Dros y Canrifoedd* (Aberystwyth, 2006).
- Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950-).
- Goebel, J., *Felony and Misdemeanour: a Study in the History of English Criminal Procedure* (New York, 1937).
- Gooder, E. A., *Latin for Local History: An Introduction* (2 arg., London, 1978).
- Goodrich, P., *Reading the Law: A Critical Introduction to Legal Methods and Techniques* (Oxford, 1986)
- Griffiths, R. A., *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: The Structure and Personnel of Government*, i. *South Wales, 1277-1536* (Cardiff, 1972).
- , *The Reign of King Henry VI: The Exercise of Royal Authority 1422-1461* (London, 1981).



- Gruffydd, R. G., 'William Morgan', yn G. Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith (Darlithiau Rhydychen)* (Llandysul, 1970), 149-74.
- , 'Cywyddau triawdaidd Dafydd ap Gwilym: rhai sylwadau', *YB*, 13 (1985), 167-77.
- , '*Y Beibl a Droes i'w Bobl Draw*': *William Morgan yn 1588* (London, 1988).
- Guide to the Department of Manuscripts and Records/National Library of Wales* (Aberystwyth, 1994).
- Hamp, E. P., 'The allophones of medieval Welsh /x/ and /ü/', *BBCS*, 16 (1954-56), 284-85.
- , 'Medieval Welsh *uch*', *BBCS*, 22 (1966-68), 46-47.
- , 'Gwaesaf', *BBCS*, 40 (1993), 119.
- Harris, M. E., 'Compensation for injury: a point of contact between early Welsh and Germanic law?', yn T. G. Watkin (gol.), *The Trial of Dic Penderyn and Other Essays* (Caerdydd, 2002), tt. 39-76.
- , *A Bibliography of the Welsh Law Manuscripts* (Pamffledi Cyfraith Hywel, Aberystwyth, 2006).
- Haycock, M., 'Medd a mêl farddoni', yn M. E. Owen a B. F. Roberts (goln.), *Beirdd a Thywysogion* (Caerdydd, 1996), 39-59.
- , 'Llyfr Taliesin', *CLIGC*, 25 (1987-88), 357-86.
- Hector, L. C., *The Handwriting of English Documents* (2 arg., London, 1966).
- Holdsworth, W. S., *A History of English Law*, III (adargraffiad, London, 1977).
- Howells, D., 'The four exclusive possessions of a man', *SC*, 8-9 (1973-74), 48-67.
- Huws, D., 'Leges Howelda at Canterbury', *CLIGC*, 19 (1975-76), 340-44.
- , 'Leges Howelda at Canterbury: a further note', *CLIGC*, 20 (1977-78), 95.
- , 'The manuscripts', *LAL*, tt. 119-36.
- , 'Llawysgrif Hendregadredd', *CLIGC*, 22 (1981-82), 1-26.
- , *Peniarth 28: Darluniau o Lyfr Cyfraith Hywel Dda/Illustrations from a Welsh Lawbook* (Aberystwyth, 1988).
- , 'Llyfr Gwyn Rhydderch', *CMCS*, 21 (1991), 1-38.

- , 'Llyfrau Cymraeg 1250-1400', *CLIGC*, 28 (1993-94), 1-21.
- , 'Yr hen Risiart Langfford', yn M. E. Owen a B. F. Roberts (goln.), *Beirdd a Thywysogion* (Caerdydd, 1996), 302-25.
- , *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff, 2000).
- Ifans, D., *William Salesbury and the Welsh Laws* (Pamffledi Cyfraith Hywel, Aberystwyth, 1980).
- Ireland, R., 'Lucrece, Philomela (and Cecily): Chaucer and the law of rape', yn T. S. Haskett (gol.), *Crime and Punishment in the Middle Ages* (Victoria, B.C, 1998), 40-52.
- Jack, R. Ian, *Medieval Wales* (London, 1972).
- Jackson, K., *Language and History in Early Britain* (Edinburgh, 1953).
- James, C., 'Tradition and innovation in some later medieval Welsh lawbooks', *BBCS*, 40 (1993), 148-56.
- , '“Llwywr wybodau, llên a llyfrau”: Hopcyn ap Tomas a'r traddodiad llenyddol Cymraeg', yn H. T. Edwards (gol.), *Cwm Tawe* (Llandysul, 1993), 4-44.
- , 'Ban wedy i dynny: medieval Welsh law and early protestant propaganda', *CMCS*, 27 (1994), 61-86.
- , 'Ysgrifydd anhysbys: proffil personol', *YB*, 23 (1997), 44-72.
- , 'Parhad, pragmatiaeth, propaganda: llawysgrifau cyfraith Hywel yn yr Oesoedd Canol Diweddar', *Cof Cenedl*, 22 (2007), 33-67.
- Jenkins, D., 'Deddfgrawn William Maurice', *CLIGC*, 2 (1941-42), 33-36.
- , 'Llawysgrif goll Llanforda o gyfreithiau Hywel Dda', *BBCS*, 14 (1951), 89-104.
- , 'A lawyer looks at Welsh land law', *THSC*, (1967), 220-48.
- , 'Distain' *BBCS*, 22, (1966-68), 127-28.
- , 'The black book of Chirk: a note', *CLIGC*, 15 (1967-68), 104-07.
- , (gol.), *Celtic Law Papers: Introductory to Welsh Medieval Law and Government* (Bruxelles, 1973).
- , 'Kings, lords and princes: the nomenclature of authority in thirteenth-century Wales', *BBCS*, 26 (1974-76), 451-62.

- , *Cyfraith Hywel: Rhagarweiniad i Gyfraith Gynhenid Cymru'r Oesau Canol*, (2 arg., Llandysul, 1976).
- , 'Cynghellor and chancellor', *BBCS*, 27 (1976-78), 115-18.
- , 'The medieval Welsh idea of law', *Tijdschrift voor Rechtsgeschiedenis*, 49 (1981), 323-48.
- , *The Laws of Hywel Dda: Law Texts from Medieval Wales* (Llandysul, 1986).
- , 'Said: gwrmsaid, gwynsaid; yslipanu', *BBCS*, 35 (1988), 55-61.
- , 'Bardd teulu and pencerdd', yn *WKC*, tt. 142-66.
- , 'Hawk and hound: hunting in the laws of court', yn *WKC*, tt. 255-80.
- , 'A second look at Welsh land law', *THSC* (2001), 13-93.
- Jenkins, D., a Owen, M. E. (goln.), *The Welsh Law of Women* (Cardiff, 1980).
- Jenkins, D., a Owen, M. E., 'Welsh law in Carmarthenshire', *The Carmarthenshire Antiquary*, 18 (1982), 17-27.
- Jenkinson, H. C., *Later Court Hands in England* (Cambridge, 1927).
- Johnson, C. a Jenkinson, C. H., *English Court Hand A.D. 1066-1500* (2 ran, Oxford, 1915).
- Johnston, D., *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005).
- Johnston, N., 'An investigation into the locations of the royal courts of thirteenth-century Gwynedd', yn N. Edwards (gol.) *Landscape and Settlement in Medieval Wales* (Oxford, 1997), tt. 55-70.
- Jones, B. L. 'Parwyd: pared', *BBCS*, 27 (1976-78), 221.
- Jones, E. D., 'Rhannu tir Rhys ab Elise', *CLIGC*, 3 (1943-44), 23-28.
- , 'Cartre Gruffudd Gryg', *CLIGC*, 10 (1957-58), 230-31.
- Jones, E. D., 'The art of writing', *CLIGC*, 5 (1947-48), 69-70.
- , 'Robert Vaughan of Hengwrt', *Journal of the Meirioneth Historical and Record Society*, 1 (1949-51), 21-30.
- Jones, F. P., *Crwydro Gorllewin Dinbych* (Llandybie, 1969).
- Jones, G. R. J., 'Llys and maerdref', *WKC*, tt. 296-318.

- Jones, J. Ll., 'Gweilydd' *BBCS*, 11 (1941), 37-38.
- Jones, N. A., 'Cerdd ymryson Cynddelw Brydydd Mawr a Seisyllt Bryffwch', *YB*, 14 (1988), 47-55
- , 'Prydydd y Moch: dwy gerdd 'wahanol'', *YB*, 18 (1992), 55-72.
- Jones, N. A., a Pryce, H. (goln.), *Yr Arghwydd Rhys* (Caerdydd, 1996).
- Jones, N., 'Mr. Jones' and Francis Tate', *THSC* (1968), 99-109.
- Jones, R. M., 'Tri mewn llenyddiaeth', *Llên Cymru*, 14 (1981-2), 92-110.
- Kelly, F., *A Guide to Early Irish Law* (Dublin, 1988).
- , 'Thinking in threes: the triad in early Irish literature', *Proceedings of the British Academy*, 125 (2003 lectures), 1-18.
- Kirby, D. P., 'Hywel Dda: anglophil?', *CHC*, 8 (1967-77), 1-13.
- Latham, R. E. *Revised Medieval Latin Word-List From British Sources* (London, 1965).
- Lewis, C. W., *Iolo Morganwg* (Caernarfon, 1995).
- Lewis, C. T. a Short, C. (goln.), *A Latin Dictionary Founded on Andrew's Edition of Freund's Latin Dictionary* (2 arg., Oxford, 1975).
- Lewis, T., *Glossary of Medieval Welsh Law* (Manchester, 1913).
- 'A bibliography of the laws of Hywel Dda', *Aberystwyth Studies*, 10 (1928), 151-82.
- Lloyd, J. E., *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (2 gyf., London, 1911).
- , 'Mathrafal', *MontCol*, 44 (1935-36), 44-45.
- Lloyd, N., a Owen, M. E. (goln.), *Drych yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1986).
- Lloyd, N., 'John Jones, Gellilyfdy', *Flintshire Historical Society Publications*, 24 (1969-70), 5-18.
- , 'Copi ychwanegol o ddechrau Ystoria Bown De Hamtwn', *BBCS*, 23 (1968-70), 17-25
- , 'Meredith Lloyd', *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 11 (1975-76), 133-192.

- Lloyd-Jones, J., *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (2 gyf., Caerdydd, 1931-1963).
- Mann, K., 'The march of Wales: a question of terminology', *CHC*, 18 (1996-97), 1-13.
- Maitland, F. W., 'The laws of Wales-the kindred and the bloodfeud', yn H. A. L. Fisher (gol.) *Collected Papers* (Cambridge, 1911), i. 202-29.
- Merback, M. B., *The Thief, the Cross and the Wheel: Pain and the Spectacle of Punishment in Medieval and Renaissance Europe* (London, 1999).
- Moorman, J. R. H., *Church Life in England in the Thirteenth Century* (Cambridge, 1945)
- Morgan, P., *Iolo Morganwg* (Caerdydd, 1975).
- , 'Glanmorgan and the Red Book', *Morganwg*, 22 (1978), 42-60.
- Morgan, R., 'Robert Vaughan of Hengwrt (1592-1667)', *Journal of the Meirioneth Historical and Record Society*, 8 (1977-80), 397-408
- Morris-Jones, J., *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- Orgraff yr Iaith Gymraeg* (Caerdydd, 1928)
- Owen, A. P., "'A mi, feirdd, i mewn a chwi allan': Cynddelw Brydydd Mawr a'i grefft', yn M. E. Owen a B. F. Roberts (goln.), *Beirdd a Thywysogion* (Caerdydd, 1996), 143-65.
- Owen, H. (gol.), *The Description of Pembrokeshire, by George Owen of Henllys, Lord of Kemes* (4 cyf., London, 1892-1936).
- Owen, M. E., 'Llawysgrif gyfreithiol goll', *BBCS*, 22 (1966-68), 338-43.
- , 'Cynllwyn a dyniorn', *BBCS*, 22 (1966-68), 346-50.
- , 'Y trioedd arbennig', *BBCS*, 24 (1970-72), 434-50.
- , 'Y cyfreithiau – (1) Natur y testunau', yn Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol* (Llandysul, 1974), tt. 196-219.
- , 'Y cyfreithiau – (2) Ansawdd y rhyddiaith', yn Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol* (Llandysul, 1974), tt. 220-44.
- Owen, M. E., 'Trioed hefut y6 yrei hynn', *YB*, 14 (1988), 87-114.
- , 'Chwedl a hanes: y Cynfeirdd yng ngwaith y Gogynfeirdd', *YB*, 19 (1993), 13-28.

- , ‘Noddwyr a beirdd’, yn M. E. Owen a B. F. Roberts (goln.), *Beirdd a Thywysogion* (Caerdydd, 1996), 75-107.
- , ‘Bwrlwm llys Dinefwr: brenin, bardd a meddyg’, *Carmarthenshire Antiquary*, 32 (1996), 5-15.
- , ‘“Arbennic milwyr a blodeu marchogyon”: cymdeithas Peredur’, yn S. Davies a P. W. Thomas (goln.), *Canhwyll Marchogyon: Cyd-destunoli Peredur* (Caerdydd, 2000), tt. 91-114.
- , ‘Medics and medicine’, yn *WKC*, tt. 116-141.
- , ‘Royal propaganda: stories from the law-texts’, *WKC*, tt. 224-54.
- , ‘The laws of court from Cyfnerth’, *WKC*, tt. 425-77.
- , ‘Prolegomena i astudiaeth lawn o lsg. NLW 3026, Mostyn 88 a’i harwyddocâd’, yn I. Daniel *et al.* (goln.), *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 2003), 349-84.
- Owen, M. E., a Jenkins, D., ‘Gwilym Was Da’, *CLIGC*, 21 (1979-80), 429-30.
- Parkes, M. B., *English Cursive Book Hands 1250-1500* (Oxford, 1969).
- , ‘The literacy of the laity’, yn D. Daiches ac A. Thorlby (goln.), *Literature and Western Civilisation: The Medieval World* (London, 1973), 555-78.
- , *Pause and Effect* (Aldershot, 1992).
- Patterson, N., ‘Honour and shame in medieval Welsh society: a study of the role of the burlesque in the Welsh laws’, *SC*, 16-17 (1981-82), 73-103.
- Petti, A. G., *English Literary Hands from Chaucer to Dryden* (London, 1977).
- Pierce, T. Jones, ‘The law of Wales – the last phase’ yn J. B. Smith (gol.) *Medieval Welsh Society: Selected Essays by T. Jones Pierce* (Cardiff, 1972), 369-89.
- Powell, E. J., ‘Floating sections in the law of Hywel’, *BBCS*, 9 (1937-39), 27-34.
- Pryce, H., ‘Enghraifft o *croc* ‘crocbrén’ yn y *Canu i Gadfan?*’, *BBCS*, 32 (1985), 166-68.
- , ‘The prologues to the Welsh lawbooks’, *BBCS*, 33 (1986), 151-87.
- , ‘Duw yn lle mach: briduw yng nghyfraith Hywel’, *LAL*, tt. 47-71.
- , *Native Law and the Church in Medieval Wales* (Oxford, 1993).
- , ‘Mathrafal: the evidence of written sources’, *MontCol*, 83 (1995), 61-65.

- , (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Cambridge, 1998).
- Rees, W., *South Wales and the March, 1284-1415: A Social and Agrarian Study* (Oxford, 1924).
- Richards, M., *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969).
- Roberts, B. F., ‘Un o lawysgrifau Hopcyn ap Tomos o Ynys Dawy’, *BBCS*, 22 (1967), 223-28.
- Roberts, D. H. E., ‘Noddwyr y beirdd yn sir Aberteifi’, *Llên Cymru*, 10 (1968-69), 76-109.
- Roberts, G., ‘“Wyrion Eden” The Anglesey descendants of Ednyfed Fychan in the fourteenth century’, yn *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the Late Glyn Roberts* (Cardiff, 1969), tt. 179-214.
- Roberts, S. E., ‘Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog’, *SC*, 35 (2001), 307-23.
- , ‘*Tri dygyngoll cenedl*: the development of a triad’, *SC*, 37 (2003), 163-82.
- Rodway, S., ‘The Red Book text of Culhwch ac Olwen: a modernising scribe at work’, *Studi Celtici*, 3 (2005).
- Rowlands, E. I., ‘Myrddin wyllt’, *Llên Cymru*, 4 (1956-57), 117-19.
- , *Poems of the Cywyddwyr: A Selection of Cywyddau c. 1375-1525* (Dublin, 1976).
- Russell, P., ‘The etymology of *affaith* ‘abetment’’, *BBCS*, 38 (1991), 104-10.
- , ‘Scribal (in)competence in thirteenth-century north Wales: the orthography of the Black Book of Chirk (Peniarth MS 29)’, *CLIGC*, 29 (1995-96), 129-76.
- , ‘Canu i swyddogion llys y brenin’, *WKC*, tt. 552-60.
- Seipp, D. J., ‘The mirror of justices’, yn J. A. Bush a A. Wijffels (goln.), *Learning the Law. Teaching and the Transmission of English Law, 1150-1900* (London, 1999), tt. 85-112.
- Smith, J. B., ‘Crown and community in the principality of north Wales in the reign of Henry Tudor’, *CHC*, 3 (1966-67), 145-71.
- , ‘The middle March in the thirteenth century’, *BBCS*, 24 (1970-72), 77-93.
- , ‘Marcher regality: *quo warranto* proceedings relating to Cantrefselyf in the Lordship of Brecon, 1349’, *BBCS*, 28 (1978-80), 267-88.
- , ‘Dynastic succession in medieval Wales’, *BBCS*, 33 (1986), 199-232.

- , ‘Ynad llys, brawdwr llys, *iudex curie*’, *WKC*, tt. 94-115.
- , ‘Judgement under the law of Wales’, *SC*, 39 (2005), 63-103.
- , *Llywelyn ap Gruffudd: Prince of Wales* (Cardiff, 1998).
- Smith, Ll. B., ‘The grammar and commonplace books of John Edwards of Chirk’, *BBCS*, 34 (1987), 174-84.
- , ‘“Canwyll disbwyll a dosbarth”: gwŷr cyfraith Ceredigion yn yr Oesoedd Canol Diweddar’, *Ceredigion*, 10: 3 (1986), 229-53.
- , ‘Disputes and settlements in medieval Wales: the role of arbitration’, *English Historical Review*, 106 (1991), 835-60.
- , ‘Yr iaith Gymraeg cyn 1536’, yn G. H. Jenkins (gol.), *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol* (Caerdydd, 1997), 15-44.
- , ‘Inkhorn and spectacles: the impact of literacy in late medieval Wales’, yn H. Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Cambridge, 1998), 202-22.
- Smith P. a Bevan-Evans M., ‘A few reflections on Gellilyfdy and renaissance in north-eastern Wales’, *Flintshire Historical Society Publications*, 24 (1969-70), 19-43.
- Stacey, R. Ch., ‘The archaic core of Llyfr Iorwerth’, *LAL*, tt. 15-46.
- , *The Road to Judgment: From Custom to Court in Medieval Ireland and Wales* (Philadelphia, 1994).
- , ‘King, queen, and *edling* in the laws of court’, *WKC*, tt. 29-62.
- , ‘Divorce, medieval Welsh style’, *Speculum*, 77 (2002), 1107-27.
- , ‘Learning to plead in medieval Welsh law’, *SC*, 38 (2004), 107-23.
- , ‘Instructional riddles in Welsh law’, yn L. Jones a J. Falaky Nagy (goln.), *Heroic Poets and Poetic Heroes in Celtic Tradition: A Festschrift for Patrick K. Ford* (Dublin, 2004), 336-43.
- Stephens, M. (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (arg. diwygiedig, Caerdydd, 1992).
- Stephenson, D., *Thirteenth Century Welsh Law Courts* (Pamffledi Cyfraith Hywel, Aberystwyth, 1980).
- , *The Governance of Gwynedd* (Cardiff, 1984).



- Strayer, J. R. *et al.* (gol.), *Dictionary of the Middle Ages* (New York, 1982-).
- SurrIDGE, M. E., 'Romance linguistic influence on Middle Welsh, a review of some problems', *SC*, 1 (1966), 63-92.
- , 'The number and status of romance words attested in *Ystoria Bown de Hamtwn*', *BBCS*, 32 (1985), 68-78.
- Thomas, B., 'Linguistic and non-linguistic boundaries in Clwyd', *Papurau Gwaith Ieithyddol Caerdydd*, 1 (1981), 60-71.
- Thomas, B. a Thomas, P. W., *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg . . . cyflwyno'r tafodieithoedd* (Caerdydd, 1989).
- Thomas, P. W., 'Middle Welsh dialects: problems and perspectives', *BBCS*, 40 (1993), 17-50
- , 'Cydberthynas y pedair fersiwn ganoloesol' yn S. Davies a P. W. Thomas (goln.), *Canhwyll Marchogyon: Cyd-destunoli Peredur* (Caerdydd, 2000), tt. 10-49.
- Thomas, T. H., 'Initial letters and ornaments from the MSS. of John Jones, Gellilyfdy, in the Cardiff Free Library', *Cardiff Public Library Journal* (1903-04).
- Thornton, D. E., 'The death of Hywel Dda: a note', *CHC*, 20: 4 (2001), 743-49.
- Tibbot, G., 'William Watkin Edward Wynne', *Journal of the Meirioneth Historical and Record Society*, 1 (1949-51), 69-76.
- Turvey, R. K., 'King, prince or lord? Rhys ap Gruffydd and the nomenclature of authority in twelfth-century Wales', *The Carmarthenshire Antiquary*, 30 (1994), 5-18.
- Ullman, W., *Law and Politics in the Middle Ages* (London, 1975).
- Vaucher A. *et al.* (gol.), *Encyclopaedia of the Middle Ages* (2 gyf., Cambridge, 2000)
- Vinogradoff, P. a Morgan, F. (gol.), *The Survey of the Honour of Denbigh* (London, 1914)
- Walker, D. (gol.), *A History of the Church in Wales* (Penarth, 1976).
- Walters, D. B., 'Meddiant and goresgyn', *BBCS*, 31 (1984), 112-18.
- , 'The general features of archaic European suretyship', *LAL*, tt. 92-116.
- , 'Comparative aspects of the tractates on the laws of court', *WKC*, tt. 382-99.
- Wiliam, A. Rh., 'Y deddfgronau Cymraeg', *CLIGC*, 8 (1953-54), 97-103.

——, ‘The Welsh texts of the Welsh laws’, yn *WHR Special No: The Welsh Laws* (1963), 19-23.

——, ‘Restoration of the Book of Cynog’, *CLIGC*, 25 (1987-88), 245-56.

Wiliam, M., *Blas ar Iaith Blaenau'r Cymoedd* (Llanrwst, 1990).

Williams, G. J., *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948).

——, ‘Traddodiad llenyddol Dyffryn Clwyd a'r cyffiniau’, *Transactions of the Denbighshire Historical Society*, 1 (1952), 20-32.

——, *Iolo Morgannwg* (Caerdydd, 1956).

Williams, I., ‘Testunau: Cyngorau Catwn’, *BBCS*, 2 (1923-25), 16-36.

——, ‘cynnydd, cynnif, cyni, nidro’, *BBCS*, 2 (1923-25), 299-303.

——, ‘hin, amhiniog, cynnor, cyfrdy’, *BBCS*, 2 (1923-25), 303-09.

——, ‘Mechdeyrn’, *BBCS*, 10 (1939-41), 39-41.

——, ‘costawg’ *BBCS*, 11 (1941-44), 81-82.

Williams, J. E. Caerwyn, ‘Gutyn Owain’, yn A. O. H. Jarman a G. Rh. Hughes (goln.), *A Guide to Welsh Literature II* (arg. newydd Cardiff, 1997), 263-77.

Williams, J. G., *Ancient and Modern Denbigh* (Denbigh, 1856).

——, *The Records of Denbigh and its Lordship* (Wrexham, 1860).

Wmffre, I., *Languages and Place-names in Wales: The Evidence of Toponymy in Cardiganshire* (Cardiff, 2003).

#### **4) Traethodau ymchwil sydd heb eu cyhoeddi**

Elias, G. A., ‘Awduron cyfraith Hywel’ (traethawd M.Phil., Prifysgol Cymru, 2003).

Harris, M. E., ‘Iawndal am niwed corfforol yng nghyfraith Hywel gyda chymhariaeth a rhai cyfundrefnau cyfreithiol eraill’ (traethawd M.Phil, Prifysgol Cymru, 1999).

——, ‘Galanas a sarhaed yng nghyfraith Hywel’ (traethawd Ph.D., Prifysgol Cymru, 2003).

Haycock, M., ‘Llyfr Taliesin: astudiaeth ar rai agweddau’ (traethawd Ph.D., Prifysgol Cymru, 1983).

- Headley, M. G., 'Barddoniaeth Llawdden a Rhys Namor' (traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1938).
- James, C., 'Golygiad o BL Add. 22356 o gyfraith Hywel ynghyd ag astudiaeth gymharol ohono a Llanstephan 116' (traethawd Ph.D., Prifysgol Cymru, 1984).
- Jones, S., 'The lives and labours of John Jones and Robert Vaughan, scribes of the sixteenth and seventeenth centuries' (traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1926).
- Lloyd, N., 'A history of Welsh scholarship in the first half of the seventeenth century, with special reference to the writings of John Jones, Gellilyfdy' (traethawd D. Phil., Prifysgol Rhydychen, 1970).
- Owen, D. H., 'The lordship of Denbigh 1282-1425' (traethawd Ph.D., Prifysgol Cymru, 1967).
- Parry, T. E., 'Llythyrau Robert Vaughan (1592-1667), gyda rhagymadrodd a nodiadau' (traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1961).
- Roberts, S. E., 'Welsh medieval legal triads' (traethawd D. Phil., Prifysgol Rhydychen, 2002).

## ATODIAD 1: LLAWYSGRIF LIGC, PENIARTH 164

Cyflwynir yma gopi o'r darnau darllenadwy o Ben 164 er mwyn dangos orgraff wreiddiol y testun. Ni olygwyd y testun ac ni lanwyd y bylchau yn ormodol. Mae'r tanlinellu yn cyfateb i'r tanlinellu yn y testun. Byrfoddau wedi eu hestyn yw'r llythrennau sydd wedi eu hitaleiddio.

[t. 24=f. 63v] a lliw a da ac o chollant y tir o diffyc hyny neb a ballo a dyly ynill y'r neb a'e collo. Ny dyly yr 6n hagen dalu y da dros y gilyd, o gyuyrderw allann ny dyly neb rann6 a'e gilyd na chadw tir gan y gilyd. Ny dyly nei ap kyfyrderw na (nei ap brawt) atran o kyfreith Hywel. Ny cheiff neb dir kyuyrderw y dat yr y o6yn o blegyt y dyn a 6uassei 6arw, sef yw hynny, yr y 6ot yn han6ot o'e waet ef. O mynn ef y tir go6ynnnet ef . . . heb etiued o'e gorff ne6 gytt etiued o'e 6rodyr ne6 o'e geu[yn]derw ne6 gyfyrderw ac na bo dieithyr keiuy n o'r tir idaw yr arglwyd a 6yd etiued . . . w . . . hwnnw, kany dyly neb dir o gyfyrderw allan. Hwnnw a elwir teir y lletaf y geynyoc o kyfreith ( . . . ). O gwerth arglwyd ryw tir (hwnnw) y 6ab a'e dat yn 6yw o byd [m]arw y mab heb etiued o'e gorff ehun y 6rodyr ne6 y geuynderw ne6 (y) gyfyrderw a'e keiff, ac wynt a dlyant dalu y abediw a'e dat yn 6yw, a llyna (6n) lle y telir o kyfreith ony byd idaw 6rodyr na chefynderw na neb a'e dlyo o kyfreith. Nys keiff y dat y tir kanyt ymch[wel] . . . Etiued y brawt hynaf a dyly kystadl6, ac etiued yr jeuaf a dyly dewissaw mal y dlyer yr jeuaf pei byw, ac 6elly o hynaf y hynaf ual petynt yn 6yw y brodyr. Kyuyrderw a dyly kymeinyaw pawb a'e gilyd ac o hynny allan ny dyly neb kymeinyaw a'e gilyd eithyr trigo pawb ar y syd yn y law y rann honno a 6yd ar dir gwelyawc, sef yw hynny, tir y dlyo pawb dref y dat ehun. Ar dir kyllidus ha . . . al tref kyfrif maer a chyngellawr a [rin]gyll a dyly rann6 . . . odi y b . . . b g . . . au gilyd.

[t. 25=f. 64r] [Tri pet]h ny dyly kytiryogyon e6 rann6: derwgoet, d[owy] wern, a cherric. Tri adeilat ny rennir: melin, a fferllan, a choret. Llyma mal yr holir tir o gyfran: Kyntaf yr holir o ran. Dyuot a dylu mab ar yr arglwyd, ac er6yn idaw y dlyet yn y lle a'r lle, ae o wir a[e] o gyfreith, a dywedut y 6ot y 6rodyr yn y atal racdaw; yna y dyly yr arglwyd y dy6ynn6 oll ar y tir; a menegi y hawl; yna y dyly yr hawlwr ar y tir menegi wedy yr eisteder arnaw yn gyfreithyawl y 6ot yn briodawr dyledoc ar y tir hwnnw, ac yn 6ab y'w dat teilwng, ac ar bob tir y'w dat fford y may dlyet y'w dat ympob tref, ac na chauas ef gyfrann gan y 6rodyr ne6 gan y 6rawt or tir rackwnn; ac